ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
**i ddefnyddwyr ynni**









# 2025-26

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

HC347

ofgem

# 2025-26

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

(Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026)

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Cyflwynwyd yr adroddiad i Dŷ'r Cyffredin drwy Orchymyn Ei Fawrhydi.

HC347

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau adrannol sydd, ar y cyd â Phrif Amcangyfrifon 2025-26 a'r ddogfen Gwariant Cyhoeddus: Dadansoddiadau Ystadegol 2025, yn cyflwyno alldro'r llywodraeth ar gyfer 2023-24 a'r gwariant arfaethedig ar gyfer 2025-26.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 15 Gorffennaf 2026.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn drwyddedig o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn hawlfraint i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn i Ofgem, 10 South Colonnade, Canary Wharf, London, E14 4PU.

ISBN 978-1-5286-6599-5

E03626493

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr | 6 |
| Trosolwg o berfformiad | 8 |
| Dadansoddi perfformiad | 11 |
| Dangosyddion perfformiad allweddol | 12 |
| Cynaliadwyedd ac adroddiad ar yr effaith amgylcheddol fewnol | 32 |
| Adroddiad ar Atebolrwydd | 42 |
| Presenoldeb Ofgem yn yr Alban | 52 |
| Presenoldeb Ofgem yng Nghymru | 53 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 54 |
| Datganiad Llywodraethu | 55 |
| Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff | 65 |
| Adroddiad ar Atebolrwydd ac Archwiliad Seneddol | 81 |
| Cyfrifon Adnoddau | 96 |
| Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol | 101 |
| Atodiad 1 - (Ymchwiliadau a chamau gorfodi) | 123 |
| Atodiad 2 - (Swyddogaethau cludo a storio $CO_2$ o dan Ddeddf Ynni 2023 adran 41) | 134 |
| Atodiad 3 - (Trefniadau statudol o dan Ddeddf Cyfleustodau 2000 adran 5) | 136 |
| Atodiad 4 - (Adroddiad Rheoleiddiol - Tablau Craidd Cyffredin) | 137 |

# Rhagair y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

**Mae'r degawd diwethaf wedi profi'r system ynni, ond mae hefyd wedi cryfhau ein dull o reoleiddio. Drwy wrando'n ofalus ar ddefnyddwyr, y diwydiant a rhanddeiliaid, rydym wedi mireinio'r ffordd rydym yn rheoleiddio a sut rydym yn gweithredu'n gynharach i atal niwed. Mae ysgytwadau systemig, gan gynnwys pandemig Covid-19, ymosodiad Rwsia ar Wcráin, a'r gwrthdaro parhaus yn y Dwyrain Canol wedi datgelu gwendidau mewn marchnadoedd ynni byd-eang ac wedi atgyfnerthu'r angen am gadernid, parodrwydd, a gwerth gweithredu'n gynnar i amddiffyn defnyddwyr wrth i amodau barhau i newid.**

Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hyn ar gyfer 2025-26 yn esbonio sut y gwnaethom gymhwyso'r gwersi hynny yn ystod blwyddyn lle gwelwyd pwysau parhaus ar filiau, newid cyflym i'r system, ac ansicrwydd cynyddol.

Arhosodd fforddiadwyedd a safonau gwasanaeth wrth wraidd ein gwaith. Drwy ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr, elusennau a sefydliadau rheng flaen, clywsom yn uniongyrchol am y pwysau sy'n wynebu aelwydydd a defnyddwyr annomestig. Gwnaeth y mewnbwn hwnnw lywio camau gweithredu dros y flwyddyn, gan gynnwys y broses raddol i reoleiddio rhwydweithiau gwres, sy'n cynrychioli grŵp bach, ond sy'n tyfu'n gyflym, o bron i hanner miliwn o aelwydydd ledled Prydain allan o tua 29 miliwn, disgwyliadau uwch o ran cywirdeb biliau a chymorth i gwsmeriaid, ac ymyrraeth gadarn lle na chyrhaeddwyd safonau.

Gwnaethom hefyd gryfhau cadernid y farchnad fanwerthu. Mae'r sector mewn sefyllfa ariannol gryfach o hyd, gydag asedau net gwerth £6.8 biliwn, ac roedd costau'r Cyflenwr Dewis Olaf yn sero dros y flwyddyn. Cyrhaeddodd boddhad cwsmeriaid y lefelau uchaf erioed, gyda mwy na phedwar o bob pum cwsmer domestig yn fodlon ar eu cyflenwr. Gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau hyn yn ailadeiladu hyder bod marchnadoedd yn gweithio er budd defnyddwyr.

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar leihau cymhlethdod diangen a baich gweinyddol, gan symleiddio gofynion rheoleiddio lle bo modd i helpu cyflenwyr a rhwydweithiau i ganolbwyntio ar gyflawni ac arloesi, gan gynnwys drwy wneud mwy o ddefnydd o ddulliau digidol a dulliau sy'n cael eu galluogi gan AI. Mae hyn yn hanfodol i gefnogi amgylchedd mwy buddsoddadwy a galluogi twf economaidd cynaliadwy, gan gynnwys drwy fframwaith rheoli prisiau RIIO-3.

Ar yr un pryd, mae cyflymder y newid ym mhob rhan o'r system ynni wedi cyflymu. Gan weithio gyda chwmnïau rhwydwaith, mae'r Gweithredwr Systemau Ynni Cenedlaethol a'r llywodraeth wedi egluro maint y buddsoddiad sydd ei angen i sicrhau system lanach a mwy cadarn am y gost leiaf. Mae rhaglenni fel y rhaglen Buddsoddiadau Trawsyrru Strategol Carlam yn cynnwys cyfaddawdau anodd rhwng cyflymder, cost ac effeithiau lleol. Drwy ein fframwaith Buddsoddiadau Trawsyrru Strategol Carlam, rydym yn cefnogi'r gwaith o gyflawni 26 o brosiectau rhwydwaith hanfodol sydd eu hangen i gysylltu hyd at 50 gigawat o ynni gwynt ar y môr erbyn 2030. Mae bod yn agored ynghylch y tensiynau hyn yn ganolog i'r ffordd rydym yn rheoleiddio ac yn cefnogi cyflawniad wrth i fuddsoddiad symud o gynllunio i adeiladu.

Rydym yn parhau i weinyddu amrywiaeth eang o gynlluniau carbon isel a chymdeithasol ar ran y llywodraeth. Y flwyddyn ddiwethaf, cafodd mwy na 100,000 o gartrefi fesurau effeithlonrwydd ynni drwy ECO4 a chynlluniau cysylltiedig, gan helpu i wneud cartrefi'n gynhesach a biliau'n haws eu rheoli. Fodd bynnag, nid yw cyflawni'r cynlluniau hyn wedi bod yn broses ddidrafferth, gyda phryderon ynghylch ansawdd, diogelu defnyddwyr, cysondeb a chyflymder y broses gyflawni mewn rhai ardaloedd. Rydym wedi gwneud ymdrech ychwanegol i sicrhau ein bod yn chwarae ein rôl wrth helpu'r llywodraeth a chyflenwyr i fynd i'r afael â materion drwy roi diwygiadau canol cynllun a safonau a threfniadau cydymffurfio cryfach ar waith. Ein ffocws yw gweinyddu cynlluniau'n effeithiol, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr a gweithio gyda'r llywodraeth i'w helpu i sicrhau bod y rhaglenni hyn yn cael eu cyflwyno'n ddiogel, yn deg ac i safon uchel.

Ochr yn ochr â chyflawni, pwysleisiodd y flwyddyn hon yr angen i brosesau rheoleiddio barhau i ddatblygu. Mae adborth gan

randdeiliaid ac adolygiad y llywodraeth o rôl, cylch gwaith a phwerau Ofgem yn adlewyrchu system fwy cymhleth sy'n newid yn gyflym. Rydym yn croesawu'r cyfle i weithredu'n gynharach, blaenoriaethu'n fwy manwl a chanolbwyntio ar ganlyniadau. Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn gofyn am newid diwylliannol mewnol, ac rydym yn cychwyn ar y daith honno fel rhan o'r broses o ddod yn rheoleiddiwr mwy hyblyg sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Byddwn hefyd yn gwella'r ffordd rydym yn adrodd ar berfformiad, gyda chysylltiadau cliriach rhwng strategaeth a blaenoriaethau a metrigau, fel y gall Senedd y DU, rhanddeiliaid a defnyddwyr ddeall ein heffaith yn well a'n dwyn i gyfrif.

Gan edrych tua'r dyfodol, bydd anwadalrwydd byd-eang, galw cynyddol am drydan, newid technolegol cyflym a heriau parhaus o ran fforddiadwyedd yn parhau i brofi'r system. Bydd miliynau o aelwydydd yn ei chael hi'n anodd fforddio'r ynni sydd ei angen arnynt o hyd, a dim ond drwy wneud cyfaddawdau anodd mewn agweddau eraill ar eu bywydau y mae llawer mwy yn llwyddo i wneud hynny. Mae lefelau uchel o ddyled ynni yn bryder difrifol o hyd, a hynny i ddefnyddwyr ac i sefydlogrwydd y farchnad ehangach.

Byddwn felly'n parhau i weithio gyda chynrychiolwyr y llywodraeth, y diwydiant a defnyddwyr i gryfhau gallu'r system i wrthsefyll ystod eang o senarios, gan sicrhau bod fforddiadwyedd a thegwch yn parhau i fod wrth wraidd ein penderfyniadau. Rhaid i reoleiddio fod yn rhagweithiol, cefnogi buddsoddiad wrth ddwyn y sector i gyfrif ar gyflawni a pharhau i fod wedi'i seilio ar brofiad bywyd defnyddwyr. Ni fydd dim o hyn yn bosibl heb ymrwymiad ein staff nac ymgysylltiad adeiladol rhanddeiliaid ar draws y sector. Rydym yn buddsoddi yn y sgiliau, yr arbenigedd a'r galluogrwydd sydd eu hangen i sicrhau bod y bobl gywir gennym i reoleiddio'n effeithiol a chyflawni ar gyfer defnyddwyr mewn system ynni fwy cymhleth sy'n newid yn gyflym.

Yn wyneb ansicrwydd parhaus, mae ein ffocws yn glir. Ym mhopeth a wnawn, rydym yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn rhagweladwy, yn hyblyg, yn gydweithredol ac wedi'n galluogi gan dechnoleg – ein PACT gyda'n holl randdeiliaid. Drwy wrando'n ofalus, gweithredu'n gynnar, a chynnal ffocws di-ildio ar ganlyniadau, byddwn yn amddiffyn defnyddwyr, yn cefnogi'r newid i system ynni lanach ac yn sicrhau bod ein system ynni yn helpu i gefnogi twf economaidd.





**Mark McAllister**
Cadeirydd





**Tim Jarvis**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro



# Adroddiad ar Berfformiad

# Cyflwyniad

Diben yr adroddiad perfformiad hwn yw esbonio ein rôl wrth reoleiddio ynni a pherfformiad yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaethom yn ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2025-26. Mae'r adroddiadau perfformiad, atebolrwydd ac archwilio a chyfrifon adnoddau yn yr adroddiad blynyddol hwn yn darparu tryloywder a sicrwydd ynghylch arian cyhoeddus.

Mae'r **trosolwg perfformiad** yn nodi'r cyd-destun presennol ac yn darparu crynodeb byr cyffredinol o weithgarwch dros y flwyddyn ddiwethaf yn erbyn y Datganiad Strategaeth a Pholisi cyfredol ar gyfer polisi ynni. Mae'r **dadansoddiad perfformiad** yn ehangu ar hyn, gan roi rhagor o fanylion am y gweithgarwch a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf gyda chyfeiriad penodol at y dangosyddion perfformiad allweddol a gynhwyswyd yn ein cais diweddar am fewnbwn.

# Trosolwg o berfformiad

## Cyd-destun

Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar ein perfformiad yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26, a'r gweithgarwch a gyflawnwyd i hyrwyddo ein prif amcan presennol, sef: diogelu buddiannau cwsmeriaid nwy a thrydan nawr ac yn y dyfodol. Wrth gyflawni'r amcan hwn, mae'n ofynnol i ni ystyried amrywiaeth o faterion, gan gynnwys diogeledd y cyflenwad, sicrhau y gall deiliaid trwyddedau ariannu eu gweithgareddau, a diogelu buddiannau defnyddwyr agored i niwed. Mae gennym ddyletswyddau statudol i gefnogi targed sero net Llywodraeth y DU o ddiwedd 2023 hefyd ac, ers 2024, i ystyried sut i hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy drwy ein gweithgareddau rheoleiddio. Ochr yn ochr â'n cyfrifoldebau am gyflawni cynlluniau ar ran y Llywodraeth, y dyletswyddau hyn fu sail strategaeth amlflwyddyn Ofgem a'n blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net adolygiad cynhwysfawr o rôl, cylch gwaith, pwerau a dyletswyddau Ofgem, yng ngoleuni system ynni sy'n newid yn gyflym. Cwblhawyd yr adolygiad ym mis Ebrill 2026 a nododd newidiadau hanfodol i Ofgem, gan gynnwys fframwaith statudol symlach arfaethedig gyda thri dyletswydd gyfartal (diogelu defnyddwyr, cefnogi sero net, a hyrwyddo twf economaidd).

Daeth yr adolygiad i'r casgliad hefyd nad yw'r Datganiad Strategaeth a Pholisi (SPS) presennol ar gyfer polisi ynni yn darparu cyfeiriad strategol digon clir na phenodol ar gyfer Ofgem o ystyried maint y newid yn y system ynni a'r angen i egluro rolau rhwng y llywodraeth, Ofgem a'r Gweithredwr Systemau Ynni Cenedlaethol (NESO). Argymhellodd yr adolygiad y dylid disodli'r SPS presennol ag SPS penodol i Ofgem, ochr yn ochr ag SPS ar wahân ar gyfer NESO, er mwyn darparu blaenoriaethau strategol cliriach a chefnogi atebolrwydd mwy tryloyw wrth gynnal annibyniaeth reoleiddiol.

Nes y cyflwynir SPS newydd, bydd Ofgem yn parhau i gydymffurfio â'i rwymedigaethau mewn perthynas â'r SPS presennol gan gynnwys ein gofynion adrodd statudol.

## Datblygu canlyniadau'r Datganiad Strategaeth a Pholisi presennol

Dynodwyd y Datganiad Strategaeth a Pholisi (SPS) presennol ar gyfer polisi ynni ym mis Mai 2024 o dan bwerau a oedd wedi'u cynnwys yn Neddf Ynni 2013. Mae dyletswydd barhaus arnom i ystyried y blaenoriaethau strategol a nodwyd yn yr SPS ac i helpu i gyflawni'r canlyniadau polisi a nodir ynddo wrth gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddiol.

Datblygwyd ein Strategaeth Amlflwyddyn (MYS) ar y cyd â'r SPS ac felly mae'r blaenoriaethau strategol a nodir yn yr MYS yn cyd-fynd yn fras â'r blaenoriaethau strategol a nodir yn yr SPS. Roedd ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2025-26 yn nodi'r prosiectau roeddem yn bwriadu ymgymryd â nhw er mwyn rhoi ein Strategaeth ar waith ac, o ganlyniad, gyflawni'r canlyniadau polisi a nodwyd yn yr SPS.

Arweiniodd blaenoriaethau eraill a oedd yn dod i'r amlwg a dibyniaethau ar benderfyniadau rhanddeiliaid at ddad-gwmpasu neu oedi cyflawniad mewn rhai meysydd. Lle na chwblhawyd gwaith o Flaenraglen Waith 2025-26 yn 2025-26, mae Blaenraglen Waith 2026-27 yn nodi amserlenni diwygiedig.

Mae'r Adroddiad Perfformiad hwn yn rhoi manylion am y gwaith y mae Ofgem wedi'i gyflawni dros flwyddyn ariannol 2025-26, ar ôl ystyried y tri phrif gategori o flaenoriaethau strategol yn yr SPS a'n hasesiad yw ein bod

wedi cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau polisi a nodir yn yr SPS mewn sawl ffordd:

Er mwyn sicrhau **diogeledd ynni a diogelu defnyddwyr**, gwnaethom:

- Barhau i weithredu'r cap ar brisiau manwerthu, sy'n diogelu defnyddwyr domestig rhag prisiau gormodol gan gyflenwyr ynni.
- Parhau i fonitro marchnadoedd cyfanwerthu a chydbwyso i sicrhau bod cystadleuaeth yn agored ac yn deg, a bod rheolau yn erbyn camddefnyddio pŵer y farchnad yn cael eu gorfodi er mwyn diogelu defnyddwyr rhag prisiau gormodol.
- Gweithio gyda'r Llywodraeth a'r NESO i fonitro diogeledd cyflenwyr nwy a thrydan yn y tymor byr i ganolig a sicrhau bod mesurau parodrwydd cadarn ar gyfer y gaeaf.
- Cyflwyno rheoliad Rhwydweithiau Gwres newydd ym mis Ionawr 2026 i sicrhau bod defnyddwyr ar rwydweithiau gwres yn cael eu diogelu yn y pen draw ac yn elwa ar brisiau teg, a darparwyr sy'n gadarn yn ariannol.
- Symud ymlaen gyda'r gwaith o ddatblygu llwyfan digidol er mwyn i ddarparwyr rhwydweithiau gwres gyflwyno data monitro, gyda'r nod o wella taith y cwsmer a galluogi Ofgem i ddefnyddio data yn fwy effeithlon.

Er mwyn **galluogi seilwaith ynni glân a sero net**, ymhellach, gwnaethom y canlynol:

- Ysgogi camau i resymoli'r ciw cysylltiadau, gan gael gwared ar 221GW o gapasiti o'r ciw hwnnw nad oedd yn barod neu nad oedd ei angen ac mae'r holl gynigion cysylltu diwygiedig ar gyfer prosiectau 2030 ar y trywydd cywir i'w cyflwyno erbyn diwedd 2026.
- Cwblhau ail gam adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o rwymedigaethau a chymhellion cysylltu i sicrhau bod cwmnïau rhwydwaith yn darparu cynigion o ansawdd uchel i gwsmeriaid ac yna'n cyflawni'n ddibynadwy yn erbyn y rhain.
- Drwy RIIO T-3, rhoi'r trefniadau ariannu a chymhelliant ar waith i gwmnïau trawsyrru adeiladu'r rhwydwaith sydd ei angen ar gyfer 2030 (yn unol ag anghenion a nodir yn y Cynllun Ynni Glân gan y Llywodraeth).
- Creu'r Mecanwaith Caffael Uwch i gwmnïau rhwydwaith allu trefnu slotiau mewn ffatrïoedd cadwyn gyflenwi ar gyfer cyfarpar ymlaen llaw.
- Cyflwyno'r gyfundrefn cap a llawr ar gyfer storio ynni am gyfnodau hir a datblygu'r manylion technegol ynghylch sut y byddai'r gyfundrefn yn cael ei gweithredu yn gyflym.
- Parhau i ddatblygu cyfundrefn reoleiddio ar gyfer rheolwyr/cyfunwyr llwyth o bell a allai helpu defnyddwyr i ystwytho eu galw mewn ymateb i amodau cyflenwi a chael eu gwobrwyo am wneud hynny.
- Cynnal cynnydd ar gyflwyno setliad gorfodol bob hanner awr yn 2027.
- Penodi Elexon i weithredu fel Hwylusydd Marchnadoedd Hyblygrwydd fel ei bod yn haws i ddarparwyr hyblygrwydd gronni refeniw ar draws y marchnadoedd hyblygrwydd gwahanol, a gofyn iddo sefydlu cyfundrefn cofrestru asedau marchnadoedd hyblygrwydd.
- Gwneud penderfyniadau ar nifer o addasiadau pwysig i'r codau er mwyn rhoi mynediad agored i ddarparwyr gwasanaethau hyblygrwydd i'r marchnadoedd cydbwyso a chyfanwerthu.
- Creu fframwaith cydsyniad defnyddwyr ar gyfer y sector ynni.

Er mwyn sicrhau bod y **system ynni yn addas ar gyfer y dyfodol**, gwnaethom y canlynol:

- Gwneud cynnydd sylweddol wrth bennu'r fethodoleg ar gyfer yr adolygiad nesaf o brisiau dosbarthu trydan (ED-3), a fydd yn paratoi'r gridiau dosbarthu ar gyfer y cynnydd yn y galw am drydan o bympiau gwres a cherbydau trydan, a chynnydd posibl mewn cynhyrchu gwasgaredig drwy baneli solar ar y to a rhai plygio i mewn.
- Gweithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu cynigion ar gyfer prisio trydan cenedlaethol diwygiedig, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiwygiadau i'r system gydbwyso a thaliadau rhwydwaith.
- Lansio cais am fewnbwn ar sut y dylid dyrannu costau trawsnewid i ynni adnewyddadwy ar draws aelwydydd a busnesau yn y tymor canolig i'r tymor hir fel bod y system ynni yn effeithlon ac yn deg.

Ceir rhagor o fanylion am y gweithgareddau hyn yn yr adran dadansoddi perfformiad ganlynol.

# Dadansoddi perfformiad

Mae'r dadansoddiad perfformiad hwn yn nodi sut mae Ofgem wedi cyflawni yn erbyn ei Flaenraglen Waith ar gyfer 2025-26 a'r Strategaeth Amlflwyddyn. Cyhoeddwyd hon ym mis Mawrth 2024 ac mae'n nodi pum blaenoriaeth strategol gydgysylltiedig. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1. Llunio marchnad fanwerthu sy'n gweithio i ddefnyddwyr
2. Galluogi seilwaith i sicrhau Sero Net yn gyflym
3. Sefydlu system ynni effeithlon, deg, a hyblyg
4. Hyrwyddo datgarboneiddio drwy gynlluniau ynni carbon isel a chynlluniau cymdeithasol
5. Cryfhau Ofgem fel sefydliad

Mae blaenoriaethau strategol 1, 2, 3 a 5 yn cynnwys prosiectau a gweithgareddau rheoleiddio craidd Ofgem. Mae blaenoriaeth strategol 4 yn disgrifio'r gwaith a wneir i weinyddu cynlluniau ynni carbon isel a chynlluniau cymdeithasol ar ran y llywodraeth, gan gynnwys y Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd (GGSS) a ariennir gan yr Ardoll Nwy Gwyrdd (GGL). Mae cynnydd yn y GGL (2025-26: £75.6 miliwn; 2024-25 £9.7 miliwn, fel y gwelir yn nodyn 4 i'r cyfrifon adnoddau) o ganlyniad i gynnydd sylweddol yng ngofyniad ariannu rhagolygol y GGSS a ysgogwyd gan gynnydd yn y defnydd o safleoedd biofethan.

Caiff y pum blaenoriaeth hyn eu hadolygu'n flynyddol gan Fwrdd Ofgem ac mae'r pedair blaenoriaeth gyntaf (sy'n ymwneud â'n hymrwymiadau a'n rhwymedigaethau allanol) yn ffurfio'r sail ar gyfer y Flaenraglen Waith sy'n trosi ein strategaeth yn gamau gweithredu a cherrig milltir yn ystod y flwyddyn. Yna caiff cyllidebau cysylltiedig i gyflawni ein blaenoriaethau eu dyrannu drwy ein proses cynllunio busnes. Fel y gwelir yn y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol (SOPS), yn 2025-26 cofnododd y sefydliad alldro net o £33.9 miliwn o incwm yn erbyn ei gyllideb adnoddau net o £47.5 miliwn o wariant, yn bennaf oherwydd tanwariant mewn perthynas â'r GGSS a defnydd is na'r disgwyl o ddarpariaethau cyfreithiol. Cyfanswm y gwariant cyfalaf oedd £3.6 miliwn (2024-25: £4.1 miliwn). Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â buddsoddi mewn technoleg er mwyn cefnogi blaenoriaeth strategol 5, ac arhosodd o fewn y gyllideb gyfalaf gymeradwy, sef £5.1 miliwn. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adolygiad ariannol o dudalen 43.

Mae'r Markets Regulatory Vision and Strategy yn ategu'r Strategaeth Amlflwyddyn, gan ddarparu cyfarwyddyd mwy manwl ar sut mae Ofgem yn rheoleiddio marchnadoedd. Gyda'i gilydd, mae'r strategaethau hyn yn sicrhau bod y Flaenraglen Waith yn cyflawni gweithgarwch blynyddol mewn ffordd sy'n gyson â'n hamcanion hirdymor a'n dyletswyddau statudol.

## Dangosyddion perfformiad allweddol

Yn unol ag argymhellion Adolygiad Ofgem, rydym wedi ymrwymo i gryfhau'r ffordd rydym yn adrodd ar ein perfformiad yn gyhoeddus. Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau) y cyfeirir atynt yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y flwyddyn hon yn darparu dangosyddion o effaith gyfunol gweithgarwch rheoleiddio ar draws ein swyddogaethau, gan ystyried yr SPS. Mae'n debygol y bydd y DPAau hyn yn datblygu yn ystod 2026-27 o ystyried y newidiadau sy'n deillio o Adolygiad Ofgem a'n cais diweddar am fewnbwn ar becyn arfaethedig newydd o ddangosyddion perfformiad.

Mewn perthynas â chyflawni ein rhwymedigaeth SPS, rydym wedi adrodd yn erbyn ein DPAau a'r gwaith cyflawni a gynlluniwyd gennym yn y Flaenraglen Waith ac rydym wedi cynnwys crynodeb o'r gwaith cyflawni sydd wedi'i oedi.

Fel rhan o'n Dyletswydd Twf a'n dull ehangach o reoleiddio'n ddoethach, rydym yn cryfhau ein fframwaith fel ei fod yn fwy cymesur, tryloyw ac yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau, gan symleiddio gofynion rheoleiddio a galluogi buddsoddiad, arloesedd a thwf ar draws y sector ynni.

Mae'r gwaith hwn yn ategu ein hasesiad baich gweinyddol ac yn cyd-fynd ag uchelgais y Llywodraeth i leihau baich rheoleiddiol drwy ei Fframwaith Rheoleiddio Gwell a'i Chynllun Gweithredu Rheoleiddiol. Mae'n gwella'r ffordd rydym yn mesur ac yn rheoli effeithiau rheoleiddiol ac yn sefydlu llinell sylfaen glir o'r amser, y gost a'r ymdrech sydd eu hangen ar ddeiliaid trwyddedau ac mae'n cyflwyno proses flynyddol gyson i feithrin dealltwriaeth dryloyw a chadarn o'r effeithiau hyn dros amser. Mae hyn yn cryfhau ein sylfaen dystiolaeth, yn lleihau cymhlethdod ac yn sicrhau bod ein hymyriadau'n lleihau baich diangen wrth gefnogi marchnadoedd effeithlon sy'n gweithredu'n dda.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol



### DPAau Trawsbynciol:

**£2.1 bn** o **fuddiannau i ddefnyddwyr** wedi'u cynhyrchu gan benderfyniadau Ofgem

**63%** o ddefnyddwyr **yn cytuno bod Ofgem yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy**

**58%** o ddefnyddwyr **yn cytuno bod Ofgem yn dwyn cyflenwyr ynni i gyfrif**

### Blaenoriaeth 1 y Strategaeth Amlflwyddyn: Marchnad fanwerthu sy'n gweithio i ddefnyddwyr

**81%** o ddefnyddwyr yn fodlon ar gyflenwyr domestig ar y cyfan

**6%** o ddefnyddwyr yn anfodlon ar gyflenwyr domestig ar y cyfan

**68%** o ddefnyddwyr yn fodlon ar gyflenwyr annomestig ar y cyfan

**14%** o ddefnyddwyr yn anfodlon ar gyflenwyr annomestig ar y cyfan

**3.5 o gwynion fesul 1000** o gwsmeriaid wedi'u derbyn gan gyflenwyr domestig

**5.25 o gwynion fesul 1000** o gwsmeriaid wedi'u derbyn gan gyflenwyr annomestig **(Nwy)**

**3.2 o gwynion fesul 1000** o gwsmeriaid wedi'u derbyn gan gyflenwyr annomestig **(Trydan)**

**£0** Effaith cynllun y cyflenwr dewis olaf ar filiau defnyddwyr

**£4.70bn** cyfanswm y dyledion/ôl-ddyledion ymhlith defnyddwyr domestig

**£6.8bn** sefyllfa cyfalaf cyflenwyr domestig

**£191m** rhagolwg EBIT cyflenwyr domestig

## Blaenoriaeth 2 y Strategaeth Amlflwyddyn: Sefydlu seilwaith ar gyfer Sero Net yn gyflym

**63% cymysgedd di-garbon cyfartalog** (2025)

**12% o brosiectau ASTI** gyda lwfansau cost wedi'u gosod

**£42 cydbwyso cost** yn y cap ar brisiau (Ebrill 2026)

## Blaenoriaeth 3 y Strategaeth Amlflwyddyn: Sefydlu system ynni effeithlon, deg a hyblyg

**100%** o benderfyniadau ar geisiadau am drwyddedau yn cael eu gwneud o fewn y terfyn amser penodedig

**6,025,403** o gwsmeriaid ar setliad Hanner Awr

**835,000** o ddefnyddwyr domestig ar dariffau Amser Defnyddio deallus

## Blaenoriaeth 4 y Strategaeth Amlflwyddyn: Hyrwyddo datgarboneiddio drwy gynlluniau ynni carbon isel a chynlluniau cymdeithasol

### Cynlluniau Trydan Adnewyddadwy

**95%** o negeseuon e-bost yn cael ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith (y targed yw 80%)

**98%** o gwynion yn cael eu datrys o fewn 20 diwrnod gwaith (y targed yw 80%)

**Llai na 5%** o alwadau yn cael eu gadael (y targed yw llai na 15%)

### Cynlluniau Gwres Adnewyddadwy

**98%** o negeseuon e-bost yn cael ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith (y targed yw 80%)

**95%** o gwynion yn cael eu datrys o fewn 20 diwrnod gwaith (y targed yw 80%)

**Llai na 15%** o alwadau yn cael eu gadael (y targed yw llai na 15%)

### Cynlluniau Cymdeithasol

**92%** o negeseuon e-bost yn cael ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith (y targed yw 80%)

**84%** o gwynion yn cael eu datrys o fewn 20 diwrnod gwaith (y targed yw 80%)

**Llai na 2%** o alwadau yn cael eu gadael (y targed yw llai na 15%)

## Blaenoriaeth 5 y Strategaeth Amlflwyddyn: Cryfhau Ofgem fel sefydliad

**12.6% o drosiant staff** yn 2025-26

**59% ar y Mynegai Ymgysylltiad Cyflogeion**

**90%** o ymatebion i Geisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun o fewn y terfyn amser

**48%** o ymatebion i ohebiaeth Seneddol o fewn y terfyn amser

**93%** o ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol o fewn y terfyn amser

## Dadansoddiad o'r Buddiannau i Ddefnyddwyr

Mae'r Dadansoddiad o'r Buddiannau i Ddefnyddwyr yn cyfrifo cyfanswm gwerth ariannol y buddiannau a gafodd defnyddwyr yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn sgil y penderfyniadau y mae Ofgem wedi'u gwneud. Ar gyfer 2025-26, rydym yn asesu bod ein gweithgareddau wedi cynhyrchu gwerth £2.1 biliwn o fuddiannau i ddefnyddwyr. Mae hyn yn golygu am bob punt a werir, y ceir budd o ryw £5.71 i'r defnyddiwr. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o £2.7 biliwn yn 2024-25, gyda chymhareb buddiannau o £7.63 am bob punt a werir.

Yn 2025-26, mae Ofgem wedi gwneud penderfyniadau gwerth uchel amrywiol hefyd ond nad ydynt wedi'u cynnwys, gan nad yw'r buddiannau wedi'u gwireddu eto. Mae'r rhain yn cynnwys ein penderfyniad ar yr Hwylusydd Marchnadoedd ar gyfer adnoddau hyblyg, y disgwylir iddo ddarparu gwerth £140 miliwn o fuddiannau blynyddol ac elfennau o'r pecyn fframwaith ar gyfer mesuryddion deallus lle mae penderfyniadau pellach yn yr arfaeth o hyd. Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys buddiannau ehangach ymyriadau fel y cap ar brisiau a chamau gorfodi ychwaith, ac nid yw'n cynnwys effeithiau ansoddol ehangach, gan gynnwys y rhai a ddisgwylir o RIIO-3. Mae gweithgarwch gorfodi yn benodol yn parhau i ddarparu buddiannau ychwanegol i ddefnyddwyr nad ydynt wedi'u hadlewyrchu yn y mesurau dadansoddi, drwy iawndal ariannol, arferion gwell gan gyflenwyr, a diwylliant cryfach o gydymffurfiaeth ar draws y farchnad, gan gyfrannu at welliannau ehangach mewn canlyniadau fel llai o gwynion a lefelau uchel cyson o foddhad ymhlith defnyddwyr.

### Methodoleg Buddiannau i Ddefnyddwyr

Mae Ofgem yn seilio ei gyfrifiad ar y buddiannau meintiol a nodir yn yr Asesiadau Effaith sy'n gysylltiedig â'i benderfyniadau. Mae gennym ofyniad statudol i gyhoeddi Asesiadau Effaith lle bydd effeithiau sylweddol o ganlyniad i'n newidiadau polisi, ac mae'r Asesiadau Effaith hyn yn darparu fframwaith strwythuredig a thryloyw i ddeall yr effeithiau a ragwelir yn sgil polisïau ac i allu cymharu prosiectau. Lle mae buddiannau penderfyniad yn adlewyrchu'r gwerth cronnus ar draws cyfnod penodol (fel oes ased), rydym yn adrodd ar y ffigur blynyddol, sydd wedyn yn cael ei gynnwys yn adroddiadau blynyddoedd yn y dyfodol hefyd. O ganlyniad, mae'r cyfanswm gwerth £2.1 biliwn yn adlewyrchu penderfyniadau a wnaed yn 2025-26 ac mewn blynyddoedd blaenorol. Caiff yr holl fuddiannau i ddefnyddwyr eu mynegi ar sail prisiau 2026, gan ddefnyddio'r datchwyddwr CDG a chyfradd ddisgowntio o 3.5% fel yr argymhellwyd gan y Trysorlys. Mae ein dull gweithredu yn anelu at feintioli'r effeithiau mewn ffordd mor drylwyr â phosibl ac mewn termau ariannol lle y bo'n bosibl, er mwyn sicrhau cysondeb wrth eu cyflwyno. Fodd bynnag, oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y caiff buddiannau eu cyfrifo, rydym yn gwneud rhai addasiadau er mwyn gallu cymharu'r canlyniadau, e.e. addasiadau o ran chwyddiant a'r gwerth presennol net (NPV). Gan mai dim ond penderfyniadau a wnaed gan ddefnyddio asesiad effaith ffurfiol a gwmpesir gan ein dadansoddiad, bydd yn tanddatgan cyfanswm y buddiannau ar draws Ofgem.

## Ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid

Mae'n hanfodol bod Ofgem yn cael ei ystyried yn ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth sy'n cyflawni ar ran defnyddwyr. Ar ddechrau 2026, canfu arolwg diweddaraf Ofgem o Effaith Amodau'r Farchnad ar Ddefnyddwyr (heb ei gyhoeddi ar hyn o bryd) fod 63% o'r defnyddwyr a arolygwyd yn cytuno bod Ofgem yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy, a bod 58% yn cytuno bod Ofgem yn dwyn cyflenwyr ynni i gyfrif.

Drwy ymgyrchoedd wedi'u targedu, trefniadau cydweithio traws-sector a fforymau diwydiant rheolaidd, parhaodd ein gweithgarwch ymgysylltu i sicrhau bod mewnwelediad defnyddwyr ac adborth rhanddeiliaid yn llywio gwaith Ofgem yn 2025-26. Roedd hyn yn cynnwys drwy'r ymgyrch Ymwybyddiaeth Ynni a rannodd gynnwys pwrpasol i gefnogi elfennau polisi allweddol fel balansau credyd caeedig a gwybod eich hawliau os byddwch yn mynd i ddyled. Gwnaethom gydweithio ag elusennau a grwpiau cynghori i ddefnyddwyr i gyd-greu deunyddiau ymgyrchu i gefnogi rhai o'r defnyddwyr mwyaf agored i niwed yn uniongyrchol. Yn y cyd-destun hwn, mae adroddiad Gwerth am Arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, *Regulating water, energy and broadband to protect consumers in vulnerable circumstances* (a gyhoeddwyd ar 10 Mehefin 2026), yn darparu pwynt cyfeirio pwysig mewn perthynas â rôl rheoleiddwyr, gan gynnwys Ofgem, wrth gryfhau mesurau amddiffyn a gwella canlyniadau i ddefnyddwyr mewn amgylchiadau agored i niwed.

Mae ein dull o ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr yn rhoi pwyslais ar drafod heriau amser real sy'n effeithio ar ddefnyddwyr, gan lywio penderfyniadau polisi yn uniongyrchol felly. Mae sianeli cyfathrebu newydd a rhai sy'n bodoli eisoes – gan gynnwys cylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol, gweminarau, post uniongyrchol, a chyfarfodydd â rhanddeiliaid – wedi mynd i'r afael â materion hollbwysig fel dyled, bilio, canlyniadau teg i ddefnyddwyr, safonau cyflenwyr, a materion cydymffurfio fel mesuryddion rhagdalu. Mae'r dull amlsianel hwn wedi ein helpu i atgyfnerthu ein hymrwymiad parhaus i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth sy'n wynebu defnyddwyr ynni.

Parhaodd rhaglen Llais y Defnyddiwr Ofgem, gan roi amser penodol i aelodau Bwrdd Ofgem drafod profiadau defnyddwyr gyda grwpiau fel y Sefydliad Banc Tanwydd a Which? Ategodd uwch-arweinwyr hyn gydag wyth grŵp defnyddwyr ac ymweliadau elusennol a chynhaliwyd galwadau rheolaidd gyda defnyddwyr i sicrhau bod penderfyniadau a wneir yn canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan arwain at bolisïau gwell a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr.

## Blaenoriaeth strategol 1: **Llunio marchnad fanwerthu sy'n gweithio i ddefnyddwyr**

Mae blaenoriaeth strategol 1 yn nodi gwaith Ofgem i reoleiddio'r farchnad manwerthu ynni ar lefel y sector drwy'r cap ar brisiau ar gyfer defnyddwyr domestig, ac ar lefel y cyflenwyr, drwy waith monitro a gorfodi lle bo angen.

Mae mesurau i ddiogelu prisiau ar waith o hyd drwy gap ar brisiau Ofgem, sy'n sicrhau bod tariffau safonol yn adlewyrchu costau effeithlon ac yn helpu i amddiffyn defnyddwyr rhag y 'gosb teyrngarwch'. Mae bylchau parhaus yng nghostau ynni busnesau, gyda chwmnïau bach iawn yn talu'r pris uchaf. Cynyddodd y nifer sydd wedi mabwysiadu contractau tymor penodol i un rhan o dair o gwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf. Gwelwyd gwelliant mewn canlyniadau gwasanaeth yn ystod 2025-26 mewn marchnadoedd domestig ac annomestig. Cyrhaeddodd boddhad cwsmeriaid domestig y lefelau uchaf erioed, gyda boddhad cyffredinol â chyflenwyr yn 82% a boddhad â gwasanaeth cwsmeriaid yn 77% ym mis Ionawr 2026. Gostyngodd nifer y cwynion gan gwsmeriaid domestig i 1,011 o gwynion fesul 100,000 o gwsmeriaid yn Ch4 2025 – y lefel isaf a gofnodwyd ers Ch2 2014. Yn y farchnad annomestig, cynyddodd lefelau boddhad cwsmeriaid i 68% a gostyngodd cyfran y busnesau a gododd gŵyn i 18%.

Cryfhaodd cadernid ariannol ar draws y farchnad fanwerthu yn ystod 2025-26, gyda chyflenwyr domestig yn meddu ar safle cyfalaf wedi'i bwysoli o £6.8 biliwn (Mawrth 2025), gan wella eu gallu i ymdopi ag ysgytwadau a rheoli risg ariannol. Gostyngodd elw manwerthu domestig amcanestynedig £0.88 biliwn yn 2024 i £0.27 biliwn, ac arhosodd elw annomestig yn gymharol sefydlog. Yn Ch1 2026 roedd 17 o gyflenwyr gweithredol yn y farchnad manwerthu nwy a thrydan domestig a 62 o gyflenwyr gweithredol yn y farchnad fusnes. Yn y farchnad ddomestig, roedd gan y chwe chyflenwr mwyaf 92% o gyfran y farchnad yn ail chwarter 2025 ac ehangodd cwmni newydd yn gyflym i dros 200,000 o gwsmeriaid erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r farchnad ynni yn datblygu'n gyflym gyda chynhyrchion a gwasanaethau newydd, wedi'u galluogi gan fesuryddion deallus a phrosesau digidoleiddio. Mae Ofgem yn ceisio cefnogi'r sector cynyddol arloesol a dynamig hwn, gan hwyluso datblygiad y cynhyrchion a'r gwasanaethau newydd hyn, a sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu rhag niwed sylweddol. Mae Ofgem am i bob defnyddiwr gael y cyfle i fod yn rhan o'r trawsnewidiad i sero net, ac elwa ar y marchnadoedd newydd hyn os byddant yn dewis ymgysylltu.

Er mwyn sicrhau bod gan Ofgem y dystiolaeth gywir ar yr adeg gywir i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau a lleihau'r baich rheoleiddiol ar gyflenwyr, mae Swyddfa Rheoli Data wedi'i sefydlu i wella trefniadau llywodraethu data, symleiddio ceisiadau a gwella ansawdd data.

### Amcan Strategol 1: Sicrhau prisiau teg

*Cap ar Brisiau Tariffau Diofyn*

Yn ystod 2025-26, parhaodd Ofgem i ddatblygu dyluniad y cap ar brisiau er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu costau a chadernid y farchnad. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol: rhoi newidiadau ar waith i adlewyrchu costau polisi'r Llywodraeth (gan

gynnwys y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO), Y Gostyngiad Cartrefi Cynnes a'r Sylfaen Asedau Rheoleiddiedig Niwclear); cwblhau'r adolygiad o gostau gweithredu a lwfansau dyledion (gan leihau costau cyfartalog tua £8 fesul cwsmer wrth gefnogi gwydnwch cyflenwyr); addasu'r band marw gohirdal; a gwneud diweddariadau methodolegol i fynd i'r afael â materion technegol.

Yn ogystal, cynhaliodd Ofgem ddadansoddiad paratoadol i lywio penderfyniadau yn y dyfodol am lwfansau cyfanwerthu, gan gydnabod y bydd angen i fframweithiau diogelu prisiau addasu wrth i'r farchnad fanwerthu ddod yn fwy dynamig, gan gynnwys drwy weithredu Setliad Hanner Awr drwy'r Farchnad Gyfan. Lansiodd Ofgem ymgyngoriadau ar newidiadau i'r cap ar brisiau hefyd er mwyn addasu i'r farchnad newidiol: newidiadau yn y dyfodol i ddefnydd nodweddiadol; ymarfer gwirio mewn perthynas â chostau dyledion hanesyddol; a dyfodol y lwfans cyfanwerthu.

Aeth Ofgem ati i ddatblygu set o ymyriadau prisio manwerthu wedi'u targedu hefyd, gan gynnwys:

- ehangu'r gwaharddiad ar dariffau caffael ar gyfer 2026-27 i ddiogelu defnyddwyr sydd wedi ymddieithrio wrth i ddiwygiadau tymor hwy gael eu datblygu,
- bwrw ymlaen â diwygiadau i daliadau sefydlog i gynyddu dewis defnyddwyr, gan gynnwys ymgynghori ar gynigion i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gynnig o leiaf un opsiwn tariff taliadau sefydlog is a pharatoi ar gyfer cynllun peilot am gyfnod cyfyngedig a ddisgwylir yn haf 2026. Mae hyn yn cael ei adolygu'n barhaus yng ngoleuni effeithiau posibl ansefydlogrwydd presennol y farchnad ar argaeledd tariffau.

Cynhaliwyd y diwygiadau prisio hyn yn erbyn cefndir o ostyngiad ym mhroffidioldeb cyflenwyr yn 2025. Gostyngodd proffidioldeb cyflenwyr (fel y'i mesurir gan faint cyfartalog elw EBIT) i £5.31 y cwsmer, sef gostyngiad sylweddol o gymharu â 2024 lle roedd y cyfartaledd yn £26. Roedd hyn yn adlewyrchu'r costau cyfanwerthu gostyngol a oedd yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr, ochr yn ochr â phwysau cystadleuol cynyddol wrth i gyflenwyr gystadlu mwy ar brisiau. Mae'r ddynameg hon yn awgrymu nad oedd defnyddwyr yn gor-dalu ar y cyd am eu cyflenwadau ynni. Ar y cyfan, roedd perfformiad ariannol cyflenwyr yn gymysg o hyd yn ystod 2025-26, gydag elw manwerthu domestig amcanestynedig yn gostwng o £0.88 biliwn yn 2024 i £0.27 biliwn yn 2025, wrth i ddisgowntiau sylweddol islaw'r cap ar brisiau leihau maint yr elw a gafwyd.

Ni wnaeth y rhyfel yn y Dwyrain Canol – a'r cynnydd dilynol mewn prisiau cyfanwerthu byd-eang – effeithio'n uniongyrchol ar y sector manwerthu ynni domestig yn 2025-26 oherwydd amddiffyniad rhag y cap ar brisiau. Mae defnyddwyr ynni annomestig yn fwy agored i gynnydd sydyn mewn prisiau gan nad oes cap ar brisiau ar waith. Ar y dechrau, gwnaeth Ofgem dynhau a chyfleu ei ddisgwyliadau ynghylch ymddygiad cyflenwyr yn gyflym a gweithio gyda'r Llywodraeth i gyhoeddi cyfathrebiadau ar y cyd i gyflenwyr a Chyfryngwyr Trydydd Parti.


Cynyddodd Ofgem waith monitro dyddiol i asesu effeithiau a goblygiadau tymor hwy'r rhyfel ar Farchnadoedd Prydain Fawr, a chynullodd randdeiliaid er mwyn deall y risgiau'n well. Gwnaethom sefydlu trefniadau i gydlynu'r ymateb ar draws y sefydliad a gweithredu'n gyflym i gryfhau diogelwch defnyddwyr a sefydlogrwydd y farchnad. Mae ein cyfundrefn cadernid ariannol newydd – a gyflwynwyd ers argyfwng nwy 2022 – hefyd yn rhoi mwy o sicrwydd o ran gwydnwch cyflenwyr nag mewn cyfnodau blaenorol lle bu straen ar y farchnad.

Ar adeg ysgrifennu mae'r prisiau uwch parhaus wedi cyfrannu at gap uwch ar brisiau wrth i ni ddechrau blwyddyn perfformiad 2026-27.

### *Mynd i'r afael â dyledion ynni*

Yn ystod 2025-26, parhaodd lefel gyffredinol dyledion ac ôl-ddyledion defnyddwyr domestig i godi (fel y dangosir yn Ffigur 1), gan gyrraedd £4.7 biliwn erbyn mis Chwefror 2026. Mae hyn yn adlewyrchu pwysau parhaus ar aelwydydd o ran fforddiadwyedd, ynghyd â newidiadau yn arferion cyflenwyr a mesurau diogelu defnyddwyr ar ôl ailosod y rheolau ynghylch mesuryddion rhagdalu yn 2023. Yn ystod 2025-26, diweddarodd Ofgem ei Strategaeth Dyledion er mwyn canolbwyntio ar wella canlyniadau i ddefnyddwyr sydd eisoes mewn dyled a lleihau'r risg y bydd dyled y gellir ei hosgoi yn cronni, gan gynnwys drwy ymyrraeth gynnar a dulliau mwy cynaliadwy o reoli dyled. Datblygodd Ofgem waith ar ymyriadau wedi'u targedu hefyd: datblygu ac ymgynghori ar y Cynllun Lliniaru Dyledion ym mis Tachwedd 2025; a datblygu cynigion i fynd i'r afael â dyledion sy'n codi yn ystod y broses o symud tŷ (wrth newid tenantiaeth). Mae datblygiad y Cynllun Lliniaru Dyledion yn destun. ystyriaethau trawslywodraethol ehangach o hyd.

## Dyledion Ynni Defnyddwyr Domestig yn ôl Ôl-ddyledion





Ffigur 1: tueddiadau mewn lefelau dyledion ac ôl-ddyledion ynni defnyddwyr domestig, Awst 2022 – Chwefror 2026. Ffynhonnell: Cais am Wybodaeth Aelwydydd Ofgem (RFI).

## Amcan Strategol 2: Sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel

### *Boddhad defnyddwyr*

Gwelwyd gwelliant mewn canlyniadau gwasanaeth cwsmeriaid yn ystod 2025-26 mewn marchnadoedd domestig ac annomestig. Cyrhaeddodd boddhad cwsmeriaid y lefelau uchaf erioed, a gostyngodd nifer y cwynion gan gwsmeriaid domestig i'r lefel isaf a gofnodwyd ers Ch2 2014. Cynyddodd lefelau boddhad yn y farchnad annomestig hefyd, a gostyngodd cyfran y busnesau a gododd gŵyn. Mae'r tueddiadau hyn yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer gwaith parhaus Ofgem i gryfhau safonau gwasanaeth a chydymffurfiaeth cyflenwyr yn y sectorau annomestig.

**Boddhad cyffredinol cyflenwyr**




Ffigur. 2. Tueddiadau o ran boddhad cyffredinol â chyflenwyr (ymhlith defnyddwyr domestig), Hydref 2018 - Ionawr 2026. Ffynhonnell: Crynodeb o Arolwg Boddhad Defnyddwyr Ynni 2026.

Yn ogystal, gwnaeth Ofgem fwrw ymlaen gyda Cham 3 o'r broses i roi'r gorau i ddefnyddio'r Radio Teleswitch (RTS) ym mis Mawrth 2026, a chafodd swyddogaeth cyfnewid tua 150,000 o fesuryddion RTS eu hanalluogi yn ystod mis Mawrth-Mehefin.

### *Hyder defnyddwyr*

Yn ystod 2025-26, datblygodd Ofgem y rhaglen Hyder Defnyddwyr drwy archwilio dulliau rheoleiddio sy'n cefnogi ymddygiad cyflenwyr sy'n canolbwyntio mwy ar y defnyddiwr, gan gynnwys dulliau rheoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Cyhoeddodd Ofgem Gais am Fewnbwn ar Ganlyniadau Defnyddwyr ac ymgysylltodd yn helaeth â rhanddeiliaid i ddatblygu cyfres o ganlyniadau i ddefnyddwyr y dylai'r farchnad eu cyflawni

Cynhaliodd Ofgem adolygiadau rhagweithiol o gydymffurfiaeth mewn perthynas â Chredyd Cymorth Ychwanegol a Bilio Cyflenwyr hefyd, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau ar ôl-filio. Eglurodd y gwaith hwn ddisgwyliadau o ran y defnydd priodol o Gredyd Cymorth Ychwanegol a chefnogodd welliannau i gywirdeb biliau, a chytunwyd ar gynlluniau gwella gyda sawl cyflenwr i gryfhau canlyniadau i ddefnyddwyr.

Ym mis Tachwedd 2025, cyhoeddodd Ofgem Gais am Fewnbwn ar Safonau Perfformiad Gwarantedig (GSOP – iawndal awtomatig i gwsmeriaid pan fydd cyflenwyr yn methu â chyrraedd safonau gwasanaeth penodol) i ystyried a ddylid newid eu rôl, eu cwmpas, eu dyluniad a'u gweithrediad er mwyn diogelu defnyddwyr yn well.

Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Ofgem ei Strategaeth Bregusrwydd Defnyddwyr, gan nodi'r canlyniadau y mae Ofgem yn disgwyl i'r sector eu cyflawni, gan gynnwys i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau. Ategwyd hyn gan Sesiynau Ffocws ar Fregusrwydd gyda chyflenwyr ynni yng ngaeaf 2025-26, a archwiliodd sut mae cyflenwyr yn darparu biliau mwy cywir a haws eu deall, opsiynau talu hyblyg a chymorth rhagweithiol a chyson, yn seiliedig ar allu defnyddwyr i dalu.

### *Cydymffurfio a gorfodi*

Yn ystod 2025-26, parhaodd Ofgem i ymgorffori a chyfleu ei Egwyddorion Gweithredu Cydymffurfiaeth, gan atgyfnerthu disgwyliadau gyda chyflenwyr a chryfhau'r ffordd y caiff swyddogaethau cydymffurfio craidd eu cyflawni. Roedd hyn yn cynnwys datrys gwaith achos etifeddol, gwella gweithdrefnau sganio'r gorwel i nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg yn gynharach, a chryfhau gwaith monitro craidd drwy integreiddio cydymffurfiaeth â'r cap ar brisiau a gweithgarwch mewn perthynas â mesuryddion deallus yn

agosach. Rhestrir Gweithgarwch Ymchwilio a Gorfodi Ofgem a gynhaliwyd yn ystod 2025-26 yn Atodiad 1.

Cyflwynodd Ofgem fframwaith Gweithredu Cydymffurfiaeth diwygiedig hefyd, wedi'i ategu gan ganllaw ar gydymffurfio. Mae hyn wedi helpu i hyrwyddo dull mwy cyson a chymesur o ymdrin â chydymffurfiaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ac ailadeiladu ymddiriedaeth yn y sector. Yn ogystal, sefydlodd Ofgem Swyddfa Rheoli Data i wella prosesau llywodraethu data, symleiddio ceisiadau am ddata a gwella ansawdd data.


## Amcan Strategol 3: Sicrhau cadernid ariannol, hyrwyddo parodrwydd i fuddsoddi a chefnogi cystadleuaeth gynaliadwy

### *Y Gyfundrefn Cadernid a Rheolaethau Ariannol*

Yn 2025-26, llwyddodd Ofgem i ymgorffori'r gyfundrefn Cadernid a Rheolaethau Ariannol yn ystod ei blwyddyn gyntaf lawn o weithredu. Daeth gofynion ariannol penodol, y Targed Cyfalaf a'r Terfyn Isaf Cyfalaf, i rym o 1 Ebrill 2025. O ganlyniad, cryfhaodd cadernid ariannol ar draws y farchnad fanwerthu yn ystod 2025-26, gyda chyflenwyr domestig yn meddu ar safle cyfalaf o £6.8 biliwn (Mawrth 2026). Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â'r £7.5 biliwn a ddaliwyd ar yr un adeg y llynedd a ysgogwyd gan broffidioldeb isel, ochr yn ochr â dosbarthiad difidendau gan gyflenwyr sy'n bodloni ein rheolau cadernid ac yn gallu dangos bod ganddynt ddigon o adnoddau ariannol i ymdopi ag ysgytwadau a rheoli risg ariannol o hyd.

Mae ymyriadau rheoleiddio Ofgem wedi cyfrannu at sefydlogi'r farchnad, gyda llai o gyflenwyr yn gadael a llai o ddefnyddwyr yn agored i gostau methiant cyflenwyr – gostyngodd costau proses y Cyflenwr Dewis Olaf i £0 fesul aelwyd yn 2025-26 o gymharu â £0.93 yn 2024-25. Mae'r farchnad fanwerthu hon sy'n fwy cadarn a buddsoddadwy wedi helpu i gynnal cyfranogiad a chystadleuaeth yn y farchnad, gyda newydd-ddyfodiaid yn parhau i ddod i'r amlwg. Serch hynny, mae Ofgem yn parhau i fod yn barod i ddiogelu cwsmeriaid pan fydd cwmnïau'n methu; ym mis Tachwedd 2025, cyflawnodd Ofgem broses y Cyflenwr Dewis Olaf (SoLR) ar gyfer Tomato Energy, gan benodi British Gas Trading Limited. Cyflwynodd Ofgem Wrthbwysiad yr Ardoll SoLR hefyd i ddiogelu defnyddwyr rhag costau methiannau cyflenwyr yn y dyfodol.

I gefnogi'r diwygiadau hyn, cynyddodd Ofgem dryloywder ynghylch perfformiad cyfanredol cyflenwyr yn erbyn y gofynion cadernid ariannol drwy gyhoeddi adroddiad Powering Trust a gwybodaeth newydd am gadernid ariannol yn adroddiad State of the Market (Retail).







## Amcan Strategol 4: Cefnogi marchnadoedd newydd a datblygol

### *Rhwydweithiau Gwres*

Dechreuodd Ofgem reoleiddio Rhwydweithiau Gwres ym mis Ionawr 2026 a chyhoeddwyd amodau awdurdodi a sefydlodd y fframwaith rheoleiddio. Cefnogwyd hyn gan ganllawiau ar ddiogelu defnyddwyr, prisio teg, cofrestru, cadernid ariannol, cydymffurfiaeth, gorfodi, cosbau ac adrodd ar ddata, ochr yn ochr ag ymgynghoriad ar opsiynau ar gyfer adennill costau rheoleiddio. Cafodd y fframwaith ei lywio gan weithgarwch ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys gweminarau, cynadleddau a'r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid Allanol, a helpodd i godi ymwybyddiaeth o'r gyfundrefn newydd hefyd.

Ar yr un pryd, bu Ofgem yn datblygu llwyfan digidol i ganiatáu i rwydweithiau gwres gofrestru a chyflwyno data monitro. Datblygwyd y gwasanaeth hwn yn dilyn profion defnyddwyr helaeth gyda gweithredwyr a chyflenwyr, gyda'r nod o wella taith y cwsmer a chefnogi defnydd mwy effeithlon o brosesau awtomeiddio a data, gan gynnwys y defnydd posibl o ddeallusrwydd artiffisial lle y bo'n briodol.

*Rheoleiddio Cyfryngwyr Trydydd Parti (TPlau)*

Mae TPlau yn darparu gwasanaeth allweddol mewn marchnadoedd manwerthu ynni, gan alluogi defnyddwyr i chwilio am gynhyrchion a gwasanaethau a'u cymharu, ac (yn enwedig yn y sector annomestig) broceru cynigion ynni addas.

Ym mis Hydref 2025, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i benodi Ofgem yn rheoleiddiwr TPlau (gan gynnwys broceriaid ynni a gwefannau cymharu prisiau), yn amodol ar amser seneddol. Yn ystod y cyfnod rhagarweiniol hwn, mae Ofgem wedi ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid ac wedi meithrin ei ddealltwriaeth o'r farchnad, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu trefniadau rheoleiddio effeithlon ac wedi'u targedu.

## Blaenoriaeth strategol 2: **Galluogi seilwaith i sicrhau Sero Net yn gyflym**

Un o gyfrifoldebau craidd Ofgem yw pennu lefel y gwariant sydd ei angen ar y rhwydweithiau ynni. Bydd angen buddsoddiad digynsail mewn rhwydweithiau trydan er mwyn cyflawni amcanion Sero Net a lleihau amlygiad i brisiau anwadal am nwy. Er mwyn sicrhau'r buddsoddiad hwn am y gost isaf i ddefnyddwyr, dechreuodd y set nesaf o systemau rheoli prisiau (RIIO-3) ym mis Ebrill 2026 ar gyfer dosbarthu nwy, trawsyrru nwy a thrawsyrru trydan. Cyhoeddodd Ofgem ei Benderfyniadau Terfynol ar 4 Rhagfyr 2025, gan gymeradwyo gwerth £17.8 biliwn o wariant ar gyfer rhwydweithiau nwy a nodi y gallai buddsoddi mewn trawsyrru trydan gyrraedd hyd at £70 biliwn dros bum mlynedd, gan adlewyrchu maint y newid sydd ei angen i'r system. Yn ystod 2025-26, arhosodd taliadau rhwydwaith yn y DU ar gyfer nwy a thrydan yn agos at y lefel ganolrifol o gymharu â'r meincnodau Ewropeaidd.

Ar yr un pryd, mae marchnadoedd seilwaith ynni yn gadarn ac yn ddibynadwy o hyd. Roedd lefelau dibynadwyedd y system yn uchel iawn, gydag argaeledd rhwydweithiau trosglwyddo trydan yn fwy na 99.99% yn 2024-25, er gwaethaf y tân yn is-orsaf North Hyde ym mis Mawrth 2025. Parhaodd y broses o drawsyrru nwy i ragori ar y targedau o ran cyfyngiadau capasiti, fel y mae wedi'i wneud bob blwyddyn ers 2013, a llwyddodd rhwydweithiau dosbarthu trydan i adfer yn gyflymach ar ôl achosion o dywydd garw. Yn 2025-26, datblygodd Ofgem gamau i ddigidoleiddio'r system ynni gyfan drwy sefydlu fframwaith strategol clir a rhoi trefniadau cydlynol ar waith ar gyfer rhannu data diogel, amser real fwy neu lai. Roedd mentrau allweddol yn cynnwys cyhoeddi'r Fframwaith Digidoleiddio Ynni gyda DESNZ, penodi NESO i arwain y gwaith o gyflawni'r Seilwaith Rhannu Data, comisiynu RECCo i ddatblygu datrysiad system gyfan mewn perthynas â chydsyniad defnyddwyr, a rhoi'r dasg o gyflawni cofrestr asedau marchnad hyblyg i Elexon.

Mae ansawdd gwasanaeth ar draws y rhwydweithiau yn parhau i fod yn uchel hefyd, gyda chwmnïau trawsyrru a dosbarthu nwy yn cyflawni eu holl dargedau perfformiad o ran boddhad cwsmeriaid dros gyfnod o 5 mlynedd. Roedd perfformiad rhwydweithiau trydan yn gryf ar y cyfan, gyda chyfartaleddau ar draws y sector yn uwch na'r targed, er bod y safonau mwy heriol a gyflwynwyd o dan RIIO-2 yn golygu bod rhai cwmnïau unigol wedi gostwng islaw'r targed.

Roedd pwysau ar y system hefyd yn amlwg mewn cysylltiadau trydan. Cododd y galw'n sydyn, gyda'r ciw yn cyrraedd tua 750 GW ac amseroedd aros cyfartalog yn agosáu at chwe blynedd. Cyflwynodd diwygiadau a gymeradwywyd gan Ofgem ym mis Ebrill 2025 broses flaenoriaethu gliriach yn seiliedig ar anghenion y system a hyfywedd prosiectau, gan ddileu hyd at ddwy ran o dair o brosiectau tybiannol a gwella mynediad i gynlluniau y gellir eu cyflawni. Mae cynigion cysylltu diwygiedig bellach ar y trywydd cywir i gael eu cyflwyno i holl brosiectau 2030 erbyn diwedd 2026.

Parhaodd Ofgem i gefnogi camau cyflawni mewn perthynas â thrawsnewid i ynni adnewyddadwy drwy raglenni seilwaith strategol mawr. Datblygodd y fframwaith Buddsoddiadau Trawsyrru Strategol Carlam 26 o brosiectau hanfodol sydd eu hangen er mwyn gallu cynhyrchu 50 GW o ynni ar y môr erbyn 2030. Gwnaeth y Mecanwaith Caffael Uwch, a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2025, helpu i liniaru risgiau sy'n dod i'r amlwg yn y gadwyn gyflenwi.

Parhaodd perfformiad amgylcheddol ar draws y rhwydweithiau i wella hefyd. Mae allyriadau yn sgil dosbarthu nwy wedi gostwng 16% dros bum mlynedd drwy raglenni i osod pibellau newydd a mesurau lliniaru eraill, a llwyddodd National Gas Transmission i ragori ar ei dargedau i leihau methan.

Mae allyriadau sylffwr hecsafflworid ($SF_6$) yn sgil trawsyrru trydan wedi gostwng 36% ers 2021.

Ochr yn ochr â hyn, bu Ofgem yn goruchwylio'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Pŵer Glân DESNZ 2030, gan olrhain cynnydd ar gyfer camau gweithredu y mae Ofgem yn gyfrifol amdanynt, nodi risgiau a dibyniaethau cyflawni, ac asesu ysgogwyr costau a goblygiadau ar gyfer diogeledd y cyflenwad. O ganlyniad i hyn, bu modd targedu gweithgarwch ymgysylltu rheoleiddiol lle roedd materion o fewn cylch gwaith Ofgem a chymryd camau uwchgyfeirio amserol os oedd sefydliad arall yn gyfrifol am y dibyniaethau.

## Amcan Strategol 5: Bwrw ati â gwaith cynllunio strategol

### *Gwaith cynllunio strategol cydgysylltiedig*

Y flwyddyn hon, mae Ofgem wedi cyflawni ei ymrwymiad yn y Flaenraglen Waith i gadarnhau'r trefniadau llywodraethu a methodoleg ar gyfer Cynllun Ynni Gofodol Strategol (SSEP). Rydym yn gweithio'n agos gyda DESNZ ar ei raglen Prisio Cenedlaethol Diwygiedig i sicrhau bod dulliau buddsoddi yn gyson ac yn gydlynol i gyflawni'r SSEP yn effeithiol.

Mae Ofgem hefyd wedi cadarnhau'r fethodoleg ar gyfer y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog (CSNP) a ddatblygwyd gan NESO, yn dilyn y canllawiau rheoleiddio a gyhoeddwyd yn 2025. Mae'r fethodoleg hon yn nodi'r camau a fydd yn cael eu dilyn i gyflawni'r cynllun rhwydwaith traws-fector hyd at 2050. Gwnaethom newidiadau rheoleiddiol fel bod cynnydd yn cael ei wneud ar CSNP trosiannol i sicrhau bod gwaith adeiladu rhwydweithiau yn parhau i gael ei ddatblygu ar gyfer canol y 2030au, cyn y CSNP llawn.

Yn olaf, gwnaeth Ofgem greu ac ymgorffori'r fframwaith rheoleiddio i alluogi NESO i gyflawni Cynlluniau Strategol Ynni Rhanbarthol (RESPau), sy'n sefydlu gwaith cynllunio strategol ar lefel ranbarthol ar draws sawl fector hyd at 2050. Rhoddwyd prosesau clir ar waith i sicrhau bod allbynnau CSNP a RESP yn llywio systemau rheoli prisiau ar gylch tair blynedd, gyda mwy o weithgarwch craffu ymlaen llaw a mynediad cyflymach at gyllid. Er mwyn llywio ED3, gwnaethom sicrhau bod RESP trosiannol yn cael ei gyflwyno gan ganolbwyntio ar drydan.

Mae Ofgem yn monitro costau cydbwyso NESO fel un o ddangosyddion effeithiolrwydd gwaith cynllunio strategol, er bod ffactorau fel prisiau cyfanwerthu a'r tywydd hefyd yn effeithio arnynt. O 1 Ebrill 2026, gostyngodd costau cydbwyso yn y cap ar brisiau i £42 i gwsmer nodweddiadol, i lawr o £48 rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026. Mae adroddiad State of the Market (Infrastucture) Ofgem ar gyfer marchnadoedd seilwaith ynni yn cynnig mwy o wybodaeth am gostau cydbwyso ac am farchnadoedd ynni seilwaith yn gyffredinol.




## Amcan Strategol 6: Ehangu rhwydweithiau trydan

### *Ehangu ar y Môr ac ar y Tir*

Ymgynghorodd Ofgem ar y fethodoleg ar gyfer y cyfnod rheoli prisiau dosbarthu trydan nesaf (ED3) i gefnogi ein newid tuag at waith cynllunio strategol tymor hwy a rhagfuddsoddiad rhagweithiol.

Mae'r Mecanwaith Caffael Uwch, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2025, yn galluogi cwmnïau trawsyrru trydan i sicrhau slotiau gweithgynhyrchu ar gyfer cyfarpar hanfodol yn gynharach. Mae dyraniadau cost wedi'u pennu ar gyfer tri allan o 26 o brosiectau Buddsoddiadau Trawsyrru Strategol Carlam (ASTI) ac mae tri arall yn cael eu hadolygu. Cwblhawyd rheoliadau ar gyfer cystadleuaeth rhwydweithiau ar y tir hefyd, a chyflwynir y prosiect cystadleuaeth ar y tir cyntaf ar gyfer tendr erbyn hydref 2027.

Mae Ofgem hefyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o gyhoeddi'r trwyddedau sydd eu hangen i alluogi ffermydd gwynt ar y môr i gysylltu â'r grid ar y tir. Cyrhaeddodd dau brosiect y cam dewis y cynigydd

a ffefrir yn ystod y flwyddyn, gyda pherfformiad cyfartalog o tua 80 diwrnod yn erbyn y targed o 120 diwrnod. Er nad oedd unrhyw brosiectau'n barod i ymgynghori ar drwyddedau yn 2025-26, disgwylir i sawl prosiect gyrraedd y cam ymgynghori a chau yn ystod 2026-27.

## Amcan Strategol 7: Paratoi ar gyfer dyfodol nwy naturiol

### *Trawsnewid nwy*

Aeth Ofgem ati i adolygu sut y dylid adennill costau datgysylltu o'r rhwydweithiau nwy gan ddefnyddwyr yn ystod 2025-26 ac mae ar y trywydd cywir i gyflwyno adroddiad terfynol yng nghanol 2026. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi opsiynau polisi tymor byr a chanolig a gaiff eu rhoi ar waith cyn y pedwerydd adolygiad o'r system rheoli prisiau dosbarthu nwy (GD4), ac opsiynau tymor hwy posibl ar gyfer diwygio fel rhan o GD4.

### *Biofethan*

Mae setliadau ariannu RIIO-3 yn cynnwys galluogi biofethan gan weithio gyda Rhwydweithiau Nwy a chynhyrchwyr biofethan i ddeall materion polisi a rheoleiddio sy'n rhwystro defnydd ehangach. O dan Benderfyniadau Terfynol RIIO-3 ar gyfer trawsyrru nwy a dosbarthu nwy, cymeradwyodd Ofgem lwfansau newydd i gludwyr er mwyn lleihau costau cysylltu ac atgyfnerthu. Mae Ofgem hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Rhwydweithiau Nwy i ddiwygio trefniadau codi tâl yn ôl yr angen.

### *Y Gronfa Arloesedd Strategol*

Yn ein Penderfyniadau Terfynol ar gyfer 2026-31, cadwodd Ofgem y Gronfa Arloesedd Strategol, gan neilltuo £450 miliwn ar gyfer prosiectau arloesi RIIO-3, ynghyd â chronfa ychwanegol gwerth £50 miliwn a fydd yn cefnogi camau i roi mentrau arloesol ar waith yn gyflym, a bydd cwmnïau Trawsyrru a Dosbarthu Nwy yn gallu manteisio ar y ddwy gronfa. Rydym hefyd wedi cadw'r NIA yn RIIO-3, gan ddyrannu cyfanswm o £94.6 miliwn i gwmnïau Trawsyrru a Dosbarthu Nwy.

## Amcan Strategol 8: Hwyluso'r defnydd o dechnoleg carbon isel

### *Buddsoddi*

Bydd angen ehangu technolegau carbon isel yn sylweddol er mwyn cyflawni'r nod Sero Net, gan sicrhau y gall diwydiannau ynni-ddwys barhau i weithredu wrth iddynt ddatgarboneiddio. Cododd cymysgedd trydan di-garbon Prydain o 51% yn 2024 i 63% yn 2025, ac mae Ofgem yn monitro hyn fel dangosydd perfformiad allweddol. Er mwyn cefnogi cynnydd pellach, mae Ofgem yn datblygu ac yn gweithredu fframweithiau rheoleiddio newydd i ddenu buddsoddiad mewn technolegau a seilwaith carbon isel.

### *Dal a Storio carbon*

Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer Dal a Storio Carbon bellach ar waith. Ar ôl i'r Llywodraeth ddyfarnu'r ddwy drwydded economaidd gyntaf i'r Northern Endurance Partnership ym mis Rhagfyr 2024 ac i Liverpool Bay CCS ym mis Ebrill 2025, mae Ofgem bellach yn gyfrifol am reoleiddio'r ddau rwydwaith cludo a storio $CO_2$ hyn, sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. Yn 2025-26, gwnaethom ddatblygu'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer y clwstwr cyntaf hwn, gan gynnwys ceisiadau i ailagor.

### *Sizewell C*

Cyrhaeddodd y gyfundrefn niwclear ar gyfer Sizewell C garreg filltir bwysig ar 4 Tachwedd 2025, pan ddechreuodd Ofgem y gwaith rheoleiddio economaidd yn dilyn cychwyn refeniw a chwblhau'r agweddau ariannol ar gyfer y prosiect. Gorsaf ynni niwclear newydd yw Sizewell C sy'n cael ei hadeiladu ar arfordir Suffolk a'r orsaf gyntaf sy'n cael ei chyflawni gan ddefnyddio model ariannu Sylfaen Asedau Rheoleiddiedig (RAB), sy'n golygu y gall Sizewell C gael Refeniw a Ganiateir rheoleiddiedig drwy gydol oes y prosiect drwy ardollau ar gyflenwyr ynni. Bu Ofgem yn gweithio'n agos gyda'r llywodraeth ar ddyluniad y gyfundrefn reoleiddio, a gyflwynwyd i sicrhau buddsoddiad preifat ar gyfer Sizewell C a galluogi'r prosiectau cyntaf o'u math hyn i fynd rhagddynt wrth ddiogelu buddiannau defnyddwyr trydan.

### *Storio Ynni am Gyfnodau Hir*

Yn 2025 lansiodd Ofgem gynllun cymorth buddsoddi cap a llawr newydd ar gyfer Storio Ynni am Gyfnodau Hir. Mae'r cynllun newydd yn dileu rhwystrau buddsoddi i adeiladu prosiectau storio am gyfnodau hir newydd, gan hybu hyder buddsoddwyr gyda'r refeniw isaf er mwyn i weithredwyr LDES reoli costau cychwyn uchel ac amseroedd adeiladu hir. Mae'r penderfyniadau cychwynnol ar y swp cyntaf o brosiectau LDES yn mynd rhagddynt a disgwylir i'r penderfyniadau terfynol gael eu gwneud yn nes ymlaen yn 2026.

## Amcan Strategol 9: Perfformiad y rhwydwaith a chysylltiadau

### *Diwygio Cysylltiadau*

Dechreuodd rhaglen uchelgeisiol Ofgem ar gyfer diwygio cysylltiadau pan gymeradwyodd Ofgem y diwygiadau arfaethedig ym mis Ebrill 2025. Cyflwynodd y diwygiadau hyn broses flaenoriaethu gliriach yn seiliedig ar anghenion y system a hyfywedd prosiectau, gan arwain at ddileu hyd at ddwy ran o dair o brosiectau tybiannol a gwella mynediad i gynlluniau y gellir eu cyflawni. Ym mis Rhagfyr 2025, cyhoeddwyd cynigion wedi'u diweddaru ar yr adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'r fframwaith rheoleiddio mewn perthynas â chysylltiadau trydan ac mae gweithdai'n cael eu cynnal gyda phartneriaid yn y diwydiant er mwyn casglu eu barn.

Ym mis Chwefror 2026, gwnaethom nodi ein blaenoriaethau ar gyfer diwygio cysylltiadau galw. Dilynodd hyn gynnydd sylweddol mewn ceisiadau galw a oedd hyd yn oed yn fwy na'r rhagolygon twf mwyaf uchelgeisiol. Nod ein diwygiadau, gan weithio gyda'r llywodraeth, NESO a chwmnïau rhwydwaith ac adeiladu ar TMO4+, yw sicrhau ciw galw sy'n cynnwys prosiectau hyfyw a all symud ymlaen i gysylltiad mewn modd amserol o fewn cyfyngiadau'r system ynni, ac sy'n caniatáu i brosiectau galw o bwys strategol gael blaenoriaeth ar gyfer cysylltu os oes angen. Mae ein diwygiadau yn seiliedig ar dair prif golofn: Curadu, Cynllunio a Chysylltu, a chaiff y camau cyntaf eu cyflawni yn ystod 2026-27.

### *Arloesedd Rhwydweithiau*

Parhaodd Ofgem i gefnogi arloesedd rhwydweithiau drwy'r Gronfa Arloesedd Strategol (SIF) a'r Lwfans Arloesedd Rhwydweithiau (NIA), gan ariannu prosiectau trawsnewidiol sy'n cefnogi datgarboneiddio am gost is. Yn 2025-26, ariannodd SIF RIIO-2 chwe phrosiect ar y cam Beta (£36.5 miliwn), 19 ar y cam Alpha (£5.7 miliwn), a 28 ar y cam Discovery (£2.8 miiwn).

## Amcan Strategol 10: Sicrhau cyflenwadau diogel a chydnerth

### *Diogeledd Ynni*

Yn 2025-26, gweithiodd Ofgem gyda DESNZ a NESO i flaenoriaethu strategaeth glir a chynllun teirochrog y cytunwyd arno i ymdrin â'r achos o dynhau capasiti cynhyrchu ddiwedd 2020, gan gwmpasu pecyn y cytunwyd arno o ddiwygiadau i'r Farchnad Capasiti a/neu gynigion nad ydynt yn ymwneud â'r Farchnad Capasiti. Gwnaethom gefnogi NESO a National Gas gyda'u rhagolygon tymhorol a'u hasesiadau risg (ar gyfer y gaeaf a'r haf) gan sicrhau bod mesurau lliniaru priodol ar waith i reoli risgiau'n effeithiol. Nid yw'r sefyllfa bresennol yn y Dwyrain Canol wedi effeithio ar ddiogeledd nwy ffisegol Prydain Fawr hyd yn hyn er ei bod wedi cynyddu prisiau'n sylweddol.

### *Peirianneg a Thechnoleg*

Cryfhaodd Ofgem adnoddau peirianneg a thechnoleg yn ystod 2025-26 a darparodd swyddogaeth graffu dechnegol o ansawdd uchel ar gyfer penderfyniadau buddsoddi mawr, gan arwain ar bedwar cam gweithredu yng Nghynllun Gweithredu North Hyde DESNZ. Sicrhaodd fod archwiliadau annibynnol o is-orsafoedd NGET yn nodi gwelliannau ac yn gosod camau cyweirio i wella prosesau cynnal a chadw ar gyfer asedau hanfodol. Bydd yr Arolygiaeth Iechyd Asedau sydd newydd ei sefydlu yn ymgynghori ar ei fframwaith asesu ac yn dechrau archwiliadau peilot yn ail hanner 2026.

### *Seiberwydnwch*

Mae seiberwydnwch ar draws y sector ynni yn parhau i gael ei gryfhau drwy gydweithio agos â DESNZ, NCSC a NESO a thrwy gyhoeddi Strategaeth Seiberddiogelwch y Sector Ynni. Fel rhan o'r broses o roi'r strategaeth hon ar waith, gwnaethom gyhoeddi, ar y cyd â DESNZ, ymgynghoriad ar ail-lunio gweithdrefnau rheoleiddio seiber yn y sectorau nwy a thrydan i lawr y gadwyn gyflenwi, sy'n ystyried gofynion sylfaenol ar gyfer pob trwyddedai ac ehangu'r rheoliadau presennol i fwy o weithredwyr. Yn ogystal â hyn, rydym wedi datblygu ymgynghoriad

ar egwyddorion diogeledd y gadwyn gyflenwi. Byddwn yn parhau i weithredu'r strategaeth hon dros y flwyddyn nesaf.

Aeth archwiliadau o Weithredwyr Gwasanaethau Hanfodol yn eu blaen, gan gyrraedd cyfanswm o 150 o ymweliadau â safleoedd gweithredol a 40 o archwiliadau manwl ers i'r gyfundrefn gael ei rhoi ar waith yn 2021. Y flwyddyn hon, gwnaethom roi Fframwaith Sicrwydd newydd ar waith ar gyfer Gweithredwyr Gwasanaethau Hanfodol er mwyn cynnal a rhannu ymarferion a phrofion trydydd parti annibynnol. Ystyriwn fod hyn yn un o nodweddion aeddfedrwydd seiber, gan alluogi gweithredwyr i nodi gwendidau a mynd i'r afael â nhw'n barhaus.

Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn aeddfedrwydd seiber gweithredwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Ofgem ddefnyddio sbectrwm llawn ein pwerau gorfodi i sicrhau bod Gweithredwyr Gwasanaethau Hanfodol yn cyflawni eu dyletswyddau, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Hyd yn hyn rydym wedi cau 11 achos gorfodi, ac mae 6 ohonynt wedi arwain at rwymedïau ariannol gwerth ychydig dros £30 miliwn gyda'i gilydd. Rydym hefyd wedi parhau i gymell ac ariannu buddsoddiad priodol a chymesur yn systemau seiberddiogelwch cwmnïau rhwydwaith ynni, gan ddyfarnu £1.2 biliwn y flwyddyn hon fel rhan o RIIO 3.

## Blaenoriaeth strategol: **Sefydlu system ynni effeithlon, deg, a hyblyg**

Mae Blaenoriaeth Strategol 3 yn cwmpasu gwaith Ofgem ar draws marchnadoedd manwerthu ynni a seilwaith, gan ganolbwyntio ar sefydlu'r sefydliadau a'r trefniadau llywodraethu sydd eu hangen ar gyfer system ynni sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Ofgem wedi sefydlu cyfundrefn reoleiddio a fframwaith monitro perfformiad parhaus NESO ac wedi datblygu gwaith ar ddiwygio trefniadau llywodraethu'r codau.

Rydym hefyd wedi cymryd sawl cam i ddarparu cymhellion a signalau effeithiol ac effeithlon i'r farchnad, gan gynnwys cefnogi'r Llywodraeth drwy ei rhaglen Prisio Cenedlaethol Diwygiedig a chymryd ein camau gweithredu ein hunain yn y tymor byr i ganolig.

Yn olaf, gwelwyd cryn gynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran galluogi hyblygrwydd dan arweiniad defnyddwyr. Mae hyblygrwydd dan arweiniad defnyddwyr yn rhan allweddol o gynllun Pŵer Glân 2030 y llywodraeth, a gall helpu i gydbwyso system drydan sy'n cael ei dominyddu gan ynni adnewyddadwy, lleihau costau system a gostwng biliau i ddefnyddwyr sy'n cymryd rhan. Ochr yn ochr â'r Llywodraeth a NESO, mae Ofgem wedi gweithio i gefnogi amodau'r farchnad sy'n cymell ac yn gwobrwyo ymddygiad hyblyg, gan alluogi cynigion deniadol i ddefnyddwyr i gael eu cyflwyno i'r farchnad.

### Amcan Strategol 11: Sicrhau bod y trefniadau llywodraethu a'r sefydliadau cywir ar waith

#### *Rheoleiddio NESO*

Ar ôl sefydlu NESO ym mis Hydref 2024, mae Ofgem wedi ymgynghori â rhanddeiliaid i roi fframwaith rheoleiddio a monitro perfformiad parhaus NESO ar waith. Penderfynwyd ar y fframwaith newydd ym mis Mawrth 2026. Mae'n ceisio annog perfformiad uchel NESO, sicrhau atebolrwydd clir, cefnogi annibyniaeth NESO, hwyluso hyblygrwydd sefydliadol, a hyrwyddo ymddiriedaeth rhanddeiliaid. Law yn llaw â hyn, rydym wedi gweithio'n agos gyda NESO a DESNZ (fel un o gyfranddalwyr NESO) i egluro trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rolau yn ehangach.

#### *Diwygio'r codau ynni*

Mae Ofgem yn mynd ati i ddiwygio'r ffordd y caiff codau'r diwydiant eu llywodraethu ar raddfa fawr. Diwygio'r codau ynni yw'r enw ar hyn a'r nod yw creu fframwaith llywodraethu symlach ac ystwyth sy'n edrych tua'r dyfodol. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i gyfranogwyr yn y farchnad ddeall y rheolau sy'n berthnasol iddynt a'u haddasu, fel y gallant arloesi er budd defnyddwyr a sero net. Yn 2025-26, bu Ofgem yn gweithio gyda'r llywodraeth i barhau i weithredu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer diwygio trefniadau llywodraethu'r codau ynni. Roedd hyn yn cynnwys:

- cyhoeddi penderfyniadau ar ddyluniad a dull cyflawni'r fframwaith llywodraethu newydd a'r amodau trwydded newydd i reolwyr codau;

- lansio cyhoeddiadau allweddol i gefnogi'r gwaith diwygio, gan gynnwys y datganiad cyfeiriad strategol rhagarweiniol ac ymgynghoriad ar drefniadau blaenoriaethu newydd.

Mae Ofgem hefyd wedi ymgysylltu ar gam nesaf y gwaith diwygio, gan gyhoeddi'r penderfyniad ar y dull dethol cystadleuol a lansio'r broses o ddethol rheolwyr codau ar gyfer dau god cyfunol cam 2; y Cod Masnachol Trydan a'r Cod Nwy Cyfunol.

Er mwyn cefnogi tryloywder ac atebolrwydd wrth addasu'r codau, cyflawnodd Ofgem ei darged o wneud 100% o benderfyniadau ynghylch ceisiadau am drwyddedau o fewn y terfyn amser penodedig dros y 12 mis diwethaf. Rydym hefyd yn treialu dangosyddion perfformiad allweddol ychwanegol ar gyfer y maes hwn, ac rydym yn disgwyl eu cynnwys yn adroddiad blynyddol 2026-27.

### Amcan Strategol 12: Darparu cymhellion a signalau effeithiol ac effeithlon i'r farchnad

#### *Taliadau Rhwydwaith*

Yn dilyn penderfyniad y Llywodraeth i gadw un farchnad drydan gyfanwerthu genedlaethol, cyhoeddodd Ofgem lythyr agored yn yr haf yn nodi ei syniadau ar sut y gellid diwygio signalau codi tâl rhwydwaith i wella cysondeb â gwaith cynllunio rhwydwaith ac ynni gofodol. Ym mis Mawrth 2026 gwnaethom wedyn gyhoeddi Cais am Fewnbwn ar ysgogiadau buddsoddi lleoliadol, gan nodi ystod o ddulliau ar gyfer diwygio taliadau. Mae'r Cais am Fewnbwn yn cynnwys dyluniadau newydd ar gyfer taliadau mewn byd sydd wedi'i gynllunio'n strategol ac yn ein rhoi mewn sefyllfa dda ar gyfer y camau datblygu polisi nesaf. Rydym hefyd wedi gallu dylanwadu'n llwyddiannus ar gyfeiriad cynllun cyflawni Prisio Cenedlaethol Diwygiedig y Llywodraeth.

Yn y tymor byr, datblygodd Ofgem gyfundrefn Cap a Llawr i sefydlogi taliadau rhwydweithiau trawsyrru a gwnaeth benderfyniad addasu diwydiant yn seiliedig ar dystiolaeth ar y ffactor diogeledd.

### Amcan Strategol 13: Galluogi hyblygrwydd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr

#### *Galluogwyr Hyblygrwydd dan Arweiniad Defnyddwyr*

Yn ystod 2025-26, gwnaed cynnydd sylweddol o ran sefydlu galluogwyr allweddol ar gyfer hyblygrwydd dan arweiniad defnyddwyr. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Penodi Hwylusydd Marchnadoedd Hyblygrwydd, sefydlu trefniadau llywodraethu marchnadoedd, a datblygu fframweithiau rheoleiddio sydd wedi gwella mynediad at farchnadoedd hyblygrwydd a galluogi cyfranogiad defnyddwyr drwy gydgasglu.
- Rhoi'r systemau canolog sy'n cefnogi Setliad Hanner Awr y Farchnad ar waith ym mis Medi 2025, gan ddechrau'r gwaith mudo ar amser ym mis Hydref 2025. Ar 3 Ebrill 2026, roedd 6.8 miliwn o MPANau wedi cael eu mudo'n llwyddiannus.
- Dewis y Retail Energy Code Company (RECCo) fel y corff cyflawni i ddylunio, datblygu a defnyddio Datrysiad Cydsynio digidol yn gyntaf i Ddefnyddwyr (CCS). Ers hynny mae Ofgem wedi cefnogi'r broses ddatblygu, gan gynnwys drwy gynnull gweithgorau a chefnogi prosesau RECCo ar gyfer ymgynghori ar y dyluniad. Disgwylir i'r Cynnyrch Gwerthadwy Lleiaf ar gyfer y CCS gael ei gyflwyno yn Ch1 2027.

#### *Mesuryddion Deallus*

Mae mesuryddion deallus yn parhau i fod yn ffactor hanfodol arall sy'n galluogi hyblygrwydd dan arweiniad defnyddwyr, ochr yn ochr â gwella rheolaeth cwsmeriaid a chywirdeb biliau. Erbyn diwedd mis Medi 2025, roedd mwy na 40 miliwn o fesuryddion deallus wedi'u gosod ledled Prydain Fawr, gan gwmpasu tua 70% o fesuryddion domestig a thua 2 filiwn o fesuryddion annomestig (64%).

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd Ofgem gamau cydymffurfio wedi'u targedu i fynd i'r afael â pherfformiad cyflenwyr. Agorwyd achosion cydymffurfio yn 2024 yn erbyn y chwe chyflenwr mwyaf, a thri chyflenwr llai wedi hynny, er mwyn archwilio a oeddent yn cydymffurfio â gofynion eu rhwymedigaethau gosod a mesuryddion deallus a oedd eisoes wedi'u gosod ond nad oeddent

yn gweithredu yn y modd deallus. Erbyn dechrau 2026, daeth gweithgarwch cydymffurfio â gofynion gosod i ben, a chafodd dau o'r cyflenwyr mawr eu tynnu o'r rhestr cydymffurfio mewn perthynas â mesuryddion deallus nad ydynt yn gweithio ar ôl iddynt wella eu perfformiad. Ers mis Awst 2024, mae dros 1 miliwn o fesuryddion deallus wedi dychwelyd i'r modd deallus gan wella profiad cwsmeriaid a swyddogaeth y system.

Hefyd, cwblhaodd Ofgem yr ail broses o ddyfarnu'r drwydded Cwmni Data a Chysylltiadau (DCC2), gan sefydlu paramedrau allweddol ar gyfer y newid i sefydliad nid-er-elw a sicrhau parhad y gwasanaethau cyfathrebu mesuryddion deallus cenedlaethol.

### *Tariffau amser defnyddio deallus*

Mae'r nifer sy'n dewis tariffau amser defnyddio deallus yn rhoi syniad cynnar o ymatebolrwydd defnyddwyr i signalau prisiau sy'n cymell hyblygrwydd ac yn ymgysylltu â chynigion manwerthu mwy arloesol.

Erbyn mis Gorffennaf 2025, roedd tua 2.8% o gwsmeriaid domestig ar dariffau amser defnyddio deallus. Er bod hyn yn isel, mae'n cynrychioli cynnydd o 68% o flwyddyn i flwyddyn i 835,000 o gwsmeriaid. Tariffau penodol ar gyfer cerbydau trydan oedd yn gyfrifol am y twf yn bennaf, a gododd 84% i 653,000 o gwsmeriaid, o gymharu â thwf o 27% ar gyfer cynhyrchion amser defnyddio deallus eraill. Mae cyfraddau mabwysiadu cynyddol yn rhoi cyd-destun ar ddatblygiadau sy'n dod i'r amlwg lle mae defnyddwyr yn ymgysylltu â hyblygrwydd wrth i dechnolegau galluogi a safleoedd manwerthu barhau i ddatblygu.

### *Map Ffordd Hyblygrwydd Glân*

Yn 2025-26, aeth Ofgem ati i gyflawni'r Map Ffordd Hyblygrwydd Glân, a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Llywodraeth a NESO ym mis Gorffennaf 2025. O dan y map ffordd, cymerodd Ofgem gyfrifoldeb am 40 o ymrwymiadau, a chwblhawyd y 10 cyntaf o'r rhain yn ystod y flwyddyn. Er mwyn parhau i gyflawni, sefydlodd Ofgem raglen waith Hyblygrwydd dan Arweiniad Defnyddwyr newydd i gydlynu ac ysgogi'r gwaith o roi ymrwymiadau'r map ffordd hyblygrwydd ar waith a nodi ymyriadau rheoleiddio pellach. Cwblhawyd adolygiad strategol a dadansoddiad o'r bylchau er mwyn llywio blaenoriaethau'r dyfodol a sefydlu rhaglenni gwaith ar gyfer 2026-27.

## Amcan Strategol 14: Sicrhau bod system ynni fwy digidol yn gweithio i ddefnyddwyr

### *Digidoleiddio*

Yn 2025-26, cryfhaodd Ofgem y sylfeini ar gyfer system ynni fwy digidol, gan ddatblygu arferion gorau o ran data, seilwaith rhannu data a fframweithiau cydsyniad defnyddwyr. Cafodd polisi digidoleiddio ei ymgorffori mewn systemau rheoli prisiau, gan sicrhau bod cwmnïau rhwydwaith yn cael eu cymell i fuddsoddi'n briodol wrth ddiogelu defnyddwyr.

Yn ogystal, cymerodd Ofgem gamau sylweddol i hyrwyddo digidoleiddio ar draws y system ynni, gan gydweithio'n agos â'r llywodraeth a'r diwydiant i sefydlu dull mwy cydlynol a seiliedig ar ddata. Gwnaethom gyhoeddi'r Fframwaith Digidoleiddio Ynni ar y cyd â DESNZ, gan nodi gweledigaeth, egwyddorion a model llywodraethu clir ar gyfer system ynni gydlynol a chysylltiedig. Mae'r fframwaith hwn yn darparu'r cyfeiriad strategol sydd ei angen i alinio tirwedd ddigidol a oedd yn arfer bod yn dameidiog. Gan adeiladu ar hyn, rydym wedi penodi NESO i gydlynu'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Seilwaith Rhannu Data (DSI), sef seilwaith digidol er mwyn gallu rhannu data yn ddiogel, ar raddfa amrywiol ac yn rhyngweithredol ar draws y sector. Mae hyn yn allweddol i gyflawni ein targedau pŵer glân a sero net, am ei fod yn cysoni gwybodaeth ymhlith y rhanddeiliaid ac yn rhoi mynediad i bob cyfranogwr at ddata amser real fwy neu lai a, thrwy hynny, wneud cysylltiadau a chynllunio'n fwy cywir yn ogystal â galluogi modelau busnes newydd a darparu gwasanaethau newydd i'r cwsmer.

### *Saernïaeth Ddigidol*

Mae penodi RECCo i ddatblygu datrysiad cydsynio i ddefnyddwyr ar draws y system gyfan yn sicrhau y gall defnyddwyr roi a rheoli mynediad at eu data ynni mewn ffordd ddibynadwy a thryloyw. Rydym hefyd wedi rhoi'r dasg o gyflwyno cofrestr asedau marchnad hyblygrwydd i Elexon, yn ei rôl fel hwylusydd marchnadoedd, er mwyn gwella gwelededd asedau ynni gwasgaredig a symleiddio eu cyfranogiad mewn marchnadoedd hyblygrwydd. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi ymgynghori ar yr angen am welededd asedau ehangach ar draws y system, gan gydnabod bod mynediad gwell at ddata asedau yn hanfodol ar gyfer cynllunio, gweithrediadau a datgloi hyblygrwydd ar raddfa fawr.

Gyda'i gilydd, bydd y mentrau hyn yn golygu bod modd rhannu data amser real fwy neu lai ac yn gwella gwelededd y system yn sylweddol i DNOau, NESO, a chyfranogwyr eraill yn y farchnad. Mae cynnydd cynnar eisoes yn cefnogi twf economaidd, gyda newydd-ddyfodiaid yn helpu busnesau i nodi cyfyngiadau yn y rhwydwaith a chyfleoedd ar gyfer defnyddio capasiti. Gan edrych tua'r dyfodol, bydd y DSI yn symleiddio ac yn safoni prosesau rhannu data ymhellach, gan greu'r amodau ar gyfer modelau busnes arloesol a chenhedlaeth newydd o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

### *Canllawiau ar ddeallusrwydd artiffisial (AI)*

Cafodd canllawiau ar ddefnyddio deallusrwydd artiffisial mewn ffordd foesegol yn y sector ynni, gan gynnwys arferion da o ran rheoli risg a llywodraethu, eu cyhoeddi ym mis Mai 2025 i gefnogi defnydd cyfrifol o AI yn sector ynni Prydain. Cyflwynwyd astudiaeth ym mis Mawrth 2026 yn ystyried sut y gallai systemau masnachu ac optimeiddio a alluogir gan AI ddylanwadu ar gystadleuaeth a chreu ymddygiadau a allai fod yn gydfwriadol ym marchnad drydan gyfanwerthu Prydain. Rydym yn parhau i weithio i fonitro'r risg strategol a gweithredol hon sy'n dod i'r amlwg a mynd i'r afael â hi, a fydd yn gofyn am asesiad galluogrwydd ac ystyriaethau llywodraethu.

Lansiwyd y Lab Rheoleiddio AI ochr yn ochr â chynnig ar gyfer blwch tywod technegol AI. Mae'r adnoddau rheoleiddio hyn yn galluogi twf ac arloesedd drwy ystyried goblygiadau defnyddio AI yn erbyn ein fframwaith rheoleiddio ynni, gan ganiatáu i risgiau sy'n dod i'r amlwg gael eu nodi a'u lliniaru'n briodol. Wrth i'r dechnoleg ddatblygu, bydd ein dull rheoleiddio yn parhau i esblygu er mwyn sicrhau canlyniadau AI diogel, teg ac amgylcheddol gynaliadwy i ddefnyddwyr ynni Prydain.

## Blaenoriaeth strategol 4: **Hyrwyddo datgarboneiddio drwy gynlluniau ynni carbon isel a chynlluniau cymdeithasol**

Mae Ofgem yn gweinyddu 12 o gynlluniau ar ran llywodraeth y DU. Nod y rhaglenni hyn yw annog y defnydd o ynni carbon isel, hyrwyddo datgarboneiddio a chefnogi defnyddwyr agored i niwed. Gyda'i gilydd, maent yn werth mwy na £13 biliwn y flwyddyn.

Yn 2025-26, dylanwadwyd ar y rôl hon gan gyfnod o newid sylweddol ar draws y dirwedd effeithlonrwydd ynni a gwres carbon isel. Gan barhau i gyflawni cynlluniau presennol, gwnaethom gydweithio'n agos â'r llywodraeth ar ddatblygu'r Cynllun Gostyngiad mewn Biliau newydd. Fe'i cynlluniwyd i helpu'r gymuned i dderbyn seilwaith trawsyrru trydan newydd, a gwnaethom gyfrannu ein harbenigedd o ran cyflawni a diogelu defnyddwyr ac rydym wedi derbyn rôl gweinyddwr y cynllun. Gwnaethom hefyd roi diwygiadau ar waith i'r Cynllun Uwchraddio Boeleri, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2026, gan gynyddu hyblygrwydd a dewis defnyddwyr wrth gryfhau mesurau diogelu i aelwydydd.

Nododd y flwyddyn bwyntiau pontio pwysig ar draws ein rhaglenni cymdeithasol hefyd, gan gynnwys cau Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr ar 31 Mawrth 2026 ac estyn y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO4) cyn iddi gau ar 31 Rhagfyr 2026. Ochr yn ochr â hyn, mae lefelau sylweddol o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd drwy archwiliadau o osodiadau ECO4 a GBIS wedi rhoi pwysau ar y fframwaith diogelu defnyddwyr i ymateb gyda chamau adfer cyflym, ynghyd â chreu heriau cyflawni i gyflenwyr ynni sydd dan rwymedigaeth o ran bodloni eu cwotâu mesur.

Ym mis Ionawr 2026, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Chynllun Cartrefi Cynnes, gan nodi cynllun hirdymor o wella effeithlonrwydd ynni domestig, lleihau tlodi tanwydd a helpu aelwydydd i ostwng eu biliau ynni. Fel rhan o'r Cynllun, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i sefydlu Asiantaeth Cartrefi Cynnes newydd er mwyn cyfuno swyddogaethau cyflawni a chymorth i ddefnyddwyr sydd wedi'u gwasgaru ar draws sawl corff ar hyn o bryd. Mae Ofgem yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r llywodraeth i gefnogi'r gwaith o ddylunio a chyflwyno'r Asiantaeth newydd, gan gynnwys drwy drosglwyddo arbenigwyr perthnasol Ofgem, gan ddefnyddio eu profiad rheoleiddio a chyflawni i gefnogi prosesau gweithredu effeithiol.

## Uchafbwyntiau'r cynllun

**Cynlluniau gwres carbon isel (ac eithrio'r Cynllun Uwchraddio Boeleri)**

Yn ystod 2025-26, cynhyrchodd gosodiadau cynlluniau gwres 11.9 TWh o wres carbon isel a chwistrellwyd 440 miliwn metr ciwbig o nwy gwyrdd i'r rhwydwaith nwy. Gyda'i gilydd, roedd hyn yn ddigon i wresogi 1.44 miliwn o eiddo domestig nodweddiadol am flwyddyn, sy'n cynrychioli **5% o aelwydydd ym Mhrydain Fawr.**

**Boiler Upgrade Scheme**

Ers dechrau'r cynllun mae dros **80,000** o grantiau wedi'u talu, gan helpu i gael gwared ar fwy na 61,000 o systemau gwresogi sy'n defnyddio tanwyddau ffosil.

**Cynlluniau trydan carbon isel**

Yn 2024-25, cynhyrchodd gosodiadau a gefnogwyd 82.8 TWh o drydan adnewyddadwy, sy'n cyfateb i **33.4% o'r trydan a gyflenwyd** i gartrefi a busnesau'r DU dros y flwyddyn.

**Cynlluniau cymdeithasol**

Rhoddodd cyflenwyr ynni werth **dros 3.4 miliwn o ad-daliadau biliau ynni** i ddefnyddwyr incwm isel ac agored i niwed cymwys yn 2024-25, gan helpu i liniaru effaith costau ynni a lleihau tlodi tanwydd. Ar yr un pryd, cafodd **112,450 o aelwydydd** fesurau effeithlonrwydd ynni drwy gynlluniau ECO a GBIS.

## Cynlluniau gwres carbon isel

Gwresogi adeiladau yw un o ffynonellau mwyaf allyriadau carbon yn y DU. Drwy weinyddu cynlluniau gwres carbon isel, mae Ofgem yn cefnogi'r newid oddi wrth systemau gwresogi sy'n defnyddio tanwyddau ffosil, gan helpu aelwydydd, busnesau a'r system ynni i leihau allyriadau wrth gyfrannu at ddiogeledd ynni ac uchelgeisiau sero net y DU. Darperir y cymorth hwn ar gyfer cynlluniau newydd a chynlluniau etifeddol.

Yn ystod 2025-26, ac eithrio'r Cynllun Uwchraddio Boeleri (BUS), cynhyrchodd gosodiadau cynlluniau gwres 11.9 TWh o wres carbon isel, a chwistrellwyd 440 miliwn metr ciwbig o nwy gwyrdd i'r rhwydwaith nwy. Roedd y cyfuniad hwn o gynhyrchu gwres a chynhyrchu biofethan yn ddigon i wresogi 1.44 miliwn o eiddo domestig nodweddiadol am flwyddyn, sy'n cynrychioli 5% o aelwydydd ym Mhrydain Fawr. Ochr yn ochr â hyn, ehangodd y BUS yn gryf. Talwyd 31,105 o grantiau rhwng 2025 a 26, sef cyfanswm o £233 miliwn, gan ddod â chyfanswm nifer y grantiau a roddwyd ers lansio'r cynllun i 80,099.

Gyda'i gilydd, mae'r cyfraniadau hyn yn adlewyrchu gwaith parhaus i ehangu technolegau gwresogi carbon isel a chynhyrchu mwy o nwy gwyrdd, gan gefnogi ymdrechion i ddatgarboneiddio gwres, cryfhau diogeledd ynni a lleihau dibyniaeth cartrefi a busnesau ar danwyddau ffosil.

### Trosolwg o gynlluniau gwres carbon isel

Mae'r **Cynllun Uwchraddio Boeleri (BUS)**, la lansiwyd ym mis Ebrill 2022, yn darparu grantiau ymlaen llaw i aelwydydd ac eiddo bach annomestig yng Nghymru a Lloegr i gefnogi'r gwaith o osod pympiau gwres, gan leihau'r gost am newid o system wresogi sy'n defnyddio tanwydd ffosil a chyflymu'r defnydd o dechnolegau carbon isel. Fel rhan o'r Cynllun Cartrefi Cynnes, ymrwymodd y Llywodraeth i ariannu'r cynllun yn barhaus hyd at 2029 i 2030, gan ddarparu sicrwydd tymor hwy i osodwyr a defnyddwyr.

Wedi hynny, ar 1 Ebrill 2026, cadarnhaodd DESNZ gyllideb o £400 miliwn ar gyfer 2026-27 ochr yn ochr â diwygiadau i ehangu hyblygrwydd cynlluniau, gan gynnwys cymorth ar gyfer pympiau gwres aer-i-aer, mwy o opsiynau gosod, a dileu'r gofyniad i gael Tystysgrif Perfformiad Ynni. Mae gwaith ehangu pellach wedi'i gynllunio a fydd yn cynnwys batris gwres, yn amodol ar safonau, ynghyd â chyflwyno fframwaith newydd o dan y **Cynllun Tystysgrifau** Microgynhyrchu (MCS) ar gyfer ardystio gosodwyr. Mae DESNZ hefyd yn asesu Ymrwymiad Cwsmeriaid MCS fel cod diogelu defnyddwyr posibl ar gyfer cynlluniau gwres glân.

Mae'r **Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd**, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2021, yn cynnig cymhellion i gynhyrchu biofethan drwy dreulio anaerobig i'w chwistrellu i'r grid nwy drwy daliadau seiliedig ar dariff a ariennir gan yr Ardoll Nwy Gwyrdd. Bwriedir i'r cynllun gynyddu'r cyflenwad o nwy mwy gwyrdd wrth gefnogi economi gylchol a buddsoddiad hirdymor mewn seilwaith carbon isel. Yn 2025-26, cofrestrodd Ofgem 12 cynhyrchydd biofethan ychwanegol, gan ddod â'r cyfanswm sy'n rhan o'r cynllun i 13. Gyda cheisiadau gan fwy o brosiectau yn yr arfaeth, ac yn dilyn yr estyniad i ymgeiswyr gomisiynu a gyhoeddwyd gan DESNZ ym mis Rhagfyr 2025, disgwylir i'r cynllun barhau i dyfu dros y blynyddoedd nesaf.

Chwaraeodd y **Cynlluniau Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig a Domestig**, a lansiwyd yn 2011 a 2014 yn y drefn honno, rôl arloesol wrth annog technolegau gwres adnewyddadwy ymhlith cartrefi, busnesau a'r sector cyhoeddus. Er eu bod wedi cau i ymgeiswyr newydd, mae Ofgem yn parhau i weinyddu taliadau cymorth ar gyfer gosodiadau cymwys sydd eisoes yn bodoli ar y ddau gynllun. Rydym yn monitro gweithgarwch y cynlluniau'n agos i sicrhau mai dim ond y rhai sydd â hawl i gael cymorth sy'n ei gael, a thrwy hynny'n sicrhau bod y cynlluniau hyn yn parhau i ddarparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

## Cynlluniau trydan carbon isel

Mae cynhyrchu trydan wedi bod yn rhan ganolog o strategaeth datgarboneiddio'r DU. Drwy weinyddu cynlluniau trydan carbon isel, mae Ofgem wedi cefnogi'r defnydd o brosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar lefel aelwydydd a'r system gyfan, gan helpu defnyddwyr i gymryd rhan yn y trawsnewidiad i ynni adnewyddadwy wrth ysgogi gostyngiadau hirdymor mewn allyriadau.

Parhaodd y cynlluniau trydan carbon isel i ddarparu buddiannau datgarboneiddio sylweddol yn ystod 2024-25. Ar draws y gosodiadau a gefnogwyd, cynhyrchwyd 82.8 TWh o drydan adnewyddadwy, sy'n cyfateb i 33.4% o'r trydan a gyflenwyd i gartrefi a busnesau'r DU dros yr un cyfnod. Gyda'i gilydd, mae'r cynlluniau hyn yn cefnogi'r capasiti adnewyddadwy a adeiladwyd dros y degawdau blaenorol, yn cynyddu diogeledd y cyflenwad, ac yn lleihau allyriadau wrth i'r DU symud tuag at ddyfodol sero net.

### Trosolwg o gynlluniau trydan carbon isel

Mae'r **Warant Allforio Clyfar**, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2020 yn sicrhau bod generaduron ar raddfa fach yn cael eu talu am drydan carbon isel y maent yn ei allforio i'r grid, gan alluogi aelwydydd a busnesau i chwarae rôl uniongyrchol yn y trawsnewidiad drwy dariffau allforio dan arweiniad cyflenwyr a chefnogi twf dull cynhyrchu gwasgaredig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Ofgem wedi parhau i oruchwylio gweithrediad effeithiol y Warant Allforio Clyfar, gan fonitro cydymffurfiaeth cyflenwyr â rhwymedigaethau statudol, cefnogi ymwybyddiaeth defnyddwyr o opsiynau tariff allforio, ac ymgysylltu â'r diwydiant i sicrhau bod y cynllun yn parhau i weithredu yn ôl y bwriad.

Mae'r **cynlluniau Tariffau Cyflenwi Trydan (FIT) a'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (RO)** bellach ar gau i gapasiti newydd. Mae'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, a gyflwynwyd yn 2002, yn cefnogi prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr drwy roi rhwymedigaethau ar gyflenwyr i gael trydan o ffynonellau adnewyddadwy, ac roedd y cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan, a lansiwyd yn 2010, yn annog y defnydd o brosiectau cynhyrchu trydan adnewyddadwy ar raddfa fach drwy ddarparu cymorth ariannol hirdymor.

Mae Ofgem yn parhau i gefnogi bron i 700,000 o gyfranogwyr achrededig ar draws y ddau gynllun. Yn ystod 2025-26, gwnaethom gynnal sicrwydd ynghylch taliadau a chyhoeddi tystysgrifau, diogelu ansawdd data, a goruchwylio gweithgarwch cydymffurfio er mwyn diogelu defnyddwyr a sicrhau bod y cynlluniau'n gweithredu yn ôl y bwriad. Fel rhan o'n gwaith parhaus i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu darparu'n effeithiol, mae Ofgem yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cystadleurwydd Diwydiannol Prydain (BICS). Cynllun gan y llywodraeth yw BICS gyda'r nod o gefnogi cystadleurwydd diwydiannol drwy leihau costau trydan ar gyfer busnesau trydan-ddwys, gan gynnwys drwy eu hesemptio o ardollau'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, y Tariffau Cyflenwi Trydan a'r Farchnad Capasiti. Mae ein gweithgarwch ymgysylltu felly wedi canolbwyntio ar lunio BICS mewn ffordd sy'n cael cyn lleied o effaith â phosibl ar gynlluniau a weinyddir gan Ofgem, gan sicrhau parhad a diogelu cyfranogwyr presennol cynlluniau.

## Cynlluniau cymdeithasol

Ochr yn ochr â'n gwaith ar ddatgarboneiddio, parhaodd cynlluniau cymdeithasol Ofgem i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i'r aelwydydd â'r angen mwyaf yn ystod 2024-25. Mae'r cynlluniau hyn yn helpu i ddiogelu defnyddwyr agored i niwed, lleihau tlodi tanwydd a gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi.

Rhoddodd cyflenwyr ynni werth dros 3.4 miliwn o ad-daliadau biliau ynni i ddefnyddwyr incwm isel ac agored i niwed cymwys, gan helpu i liniaru effaith costau ynni a lleihau tlodi tanwydd. Ar yr un pryd, cafodd 112,450 o aelwydydd fesurau effeithlonrwydd ynni drwy gynlluniau ECO a GBIS, gan leihau swm y gwres a gollwyd a gostwng biliau ynni hirdymor. Defnyddiodd nifer o'r mesurau hyn lwybr arloesi ECO4, gan gefnogi'r broses o gyflwyno technolegau a dulliau newydd o wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi. Gyda'i gilydd, helpodd yr ymyriadau hyn i wneud cartrefi'n gynhesach a gostwng biliau ynni drwy gefnogi miliynau o gartrefi ledled Prydain Fawr.

### Trosolwg o gynlluniau cymdeithasol

Mae'r **Gostyngiad Cartref Cynnes (WHD)**, a gyflwynwyd yn 2011, yn darparu cymorth ariannol i aelwydydd incwm isel ac agored i niwed cymwys drwy ad-daliadau biliau ynni a ddarperir gan gyflenwyr ynni, gan helpu i leihau tlodi tanwydd a chefnogi fforddiadwyedd. Yn dilyn ymgynghoriad gan y llywodraeth, bydd y cynllun yn parhau fel rhan o'r Cynllun Cartrefi Cynnes, gan ehangu'r cymorth i 2.7 miliwn o aelwydydd eraill â'r angen mwyaf tan 2030-31. Mae rheoliadau diwygiedig mewn perthynas â'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes ar gyfer y cyfnod hwn wedi'u cyflwyno ar gyfer Cymru a Lloegr ac ar gyfer yr Alban. Daeth y rheoliadau ar gyfer Cymru a Lloegr i rym ar 1 Ebrill 2026, a disgwylir i'r rheoliadau ar gyfer yr Alban ddod i rym yn nes ymlaen yn 2026, yn amodol ar gymeradwyaeth seneddol. Mae Ofgem wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer Cymru a Lloegr ac ar gyfer yr Alban er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hyn. Disgwylir newidiadau rheoleiddio pellach sy'n cwmpasu proses gysoni'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes yn ddiweddarach yn 2026, a bydd canllawiau newydd yn dilyn.

Mae'r **Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO)**, a lansiwyd yn 2013, yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ynni mwy ariannu gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar gyfer aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd neu sy'n wynebu risg o dlodi tanwydd, gan helpu i ostwng biliau ynni, gwella ansawdd tai a lleihau allyriadau carbon. Gan ategu'r ECO, ehangodd Cynllun Inswleiddio Prydain Fawr (GBIS), a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2023, gymorth ar gyfer mesurau inswleiddio i ystod ehangach o aelwydydd. Yn ystod haf 2025, rhoddodd Ofgem gyfres o ddiweddariadau deddfwriaethol canol cynllun ar waith mewn perthynas ag ECO4 a GBIS er mwyn cryfhau safonau gosod, gwella'r gallu i gyflawni a chefnogi cyflenwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau. Caeodd GBIS i osodiadau newydd ar 31 Mawrth 2026 ond, yn dilyn penderfyniad y llywodraeth ym mis Ionawr i estyn ECO4 am naw mis, bydd y cynllun bellach yn rhedeg tan 31 Rhagfyr 2026. Mae Ofgem wedi ymgymryd â gwaith i ddiweddaru prosesau cydymffurfio a systemau TG y cynllun a chanllawiau i adlewyrchu'r estyniad hwn.

## Twyll a Gwallau mewn Cynlluniau

Mae Ofgem yn gweithredu'n seiliedig ar risg er mwyn trechu twyll ar y cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol y mae'n eu gweinyddu ar ran DESNZ sy'n cynnal y cyfrifon cysylltiedig. Mae gan Ofgem dîm Trechu Twyll penodedig i ganfod, atal a rhwystro twyll ar y cynlluniau a phan fyddwn yn canfod achos o dwyll, rydym yn ei gymryd o ddifrif. Y ffordd fwyaf effeithiol o leihau twyll ar y cynlluniau yw atal, felly mae Ofgem yn gweithio'n agos gydag awduron polisi i asesu risgiau twyll ac i roi rheolaethau cadarn ar waith i'w gwneud hi'n anos fyth i dwyllwyr osgoi cael eu canfod. Er mwyn canfod twyll yn fwy effeithiol, mae'r tîm Trechu Twyll yn monitro risgiau a thueddiadau ac yn defnyddio dadansoddeg data, sy'n ei alluogi i dargedu adnoddau at feysydd risg uchel, ac i nodi meysydd pryder sy'n dod i'r amlwg cyn gynted â phosibl. Rydym yn ategu hyn â dull samplu trylwyr drwy ein gwaith archwilio er mwyn helpu i nodi camweddau ar gam cynnar. Mae hyn yn helpu i atal twyllwyr eraill yn y meysydd lle rydym yn gweld y lefel uchaf o dwyll ar yr adeg honno, ac i atal materion sy'n dod i'r amlwg rhag dod yn feysydd risg uchel yn y dyfodol. Rydym yn monitro tueddiadau diffyg cydymffurfio a lefel yr achosion o dwyll a gwallau yn y cynlluniau sy'n cymryd rhan drwy ein rhaglenni archwilio. Mae gwerth y gwallau a ddatganwyd yn cynrychioli effaith amcangyfrifedig twyll a gwallau.

Amcangyfrifir mai gwerth y taliadau gwallus a wnaed yn ystod 2025-26 o dan y Cynllun Uwchraddio Boeleri oedd £4.5 miliwn (1.93% o gyfanswm y taliadau) o fewn cyfwng hyder 95% o £1.4 miliwn i £7.6 miliwn.

Ar ôl adolygu ac asesu'r gwall a ailddatganwyd ar gyfer cyfnod 2024-25, (cywiriadau i wallau neu gamddatganiadau) mewn adroddiadau ariannol a gyhoeddwyd yn flaenorol, mae hyn yn debygol o fod yn £9.7 miliwn  (5.09% o gyfanswm y taliadau) o fewn cyfwng hyder 95% o £5.6 miliwn i £13.7 miliwn.

Roedd cyfran o werth y gwallau yn 2024-25 am fod gosodwyr wedi adbrynu'r daleb cyn i'r gwaith gosod gael ei gomisiynu. Rydym wedi gweld rhai newidiadau ymddygiadol cadarnhaol ar draws y cynllun, yn dilyn negeseuon ataliol i osodwyr i beidio ag adbrynu talebau cyn i'r gwaith gosod gael ei gomisiynu, yn unol â Safonau'r MCS.

Amcangyfrifir mai gwerth y taliadau gwallus a wnaed yn ystod 2025-26 o dan Gynlluniau Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Prydain Fawr oedd £10.0 miliwn (0.85% o gyfanswm y taliadau) o fewn cyfwng hyder 95% o £6.6 miliwn i £13.3 miliwn. Bydd hyn hefyd yn cael ei ddatgelu yn adroddiad blynyddol a chyfrifon DESNZ ar gyfer 2025-26. Wedi'i gymhwyso i gyfanswm y gwariant, sef £1,218.0 miliwn  (sy'n cynrychioli'r gwerth a wnaed yn 2025-26, wedi'i addasu ar gyfer symudiadau net ar symiau cronedig sy'n daladwy), byddai hyn yn rhoi amcangyfrif o wall posibl o £10.3 miliwn o fewn cyfwng hyder 95% o £6.9 miliwn i £13.8 miliwn. Mae hyn yn tybio yr eir i'r un gyfradd gwallau ar y gwariant cronedig pan gaiff ei dalu.

Amcangyfrifwyd mai gwerth ailddatganedig y taliadau gwallus a wnaed yn ystod 2024-25 o dan yr un cynllun oedd £9.8 miliwn (0.9% o gyfanswm y taliadau) o fewn cyfwng hyder 95% o £6.5 miliwn i £13.0 miliwn.

Mae gan Ofgem rôl fwy cyfyngedig yng nghynlluniau ECO4 a GBIS, gan ddibynnu ar TrustMark a chyrff ardystio i sicrhau ansawdd ar draws gosodiadau. Nodwn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar osodiadau effeithlonrwydd ynni, a amlygodd bryderon ynghylch ansawdd rhai mesurau inswleiddio waliau solet a'r risgiau cysylltiedig o beidio â chydymffurfio ac amheuaeth o dwyll yn y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni. Yn gyson â chanfyddiadau archwiliad ystadegol cyhoeddedig DESNZ ac adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar osodiadau effeithlonrwydd ynni, mae'r materion hyn yn ymwneud ag is-set o osodiadau sy'n cyfrif am 8% o fesurau ECO4 a GBIS a hysbyswyd hyd at fis Mawrth 2025. Mae'r materion yn atgyfnerthu pwysigrwydd sicrwydd cadarn, safonau ansawdd, a strategaeth archwilio gadarn i nodi risgiau o fewn y cynllun a mynd i'r afael â nhw.

# Cynaliadwyedd a'r effaith amgylcheddol fewnol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad amgylcheddol corfforaethol Ofgem a'r ffordd y mae'n ymdrin â chynaliadwyedd. Mae'n cyd-fynd â fframwaith adrodd ar gynaliadwyedd Trysorlys EF ac yn cefnogi tryloywder drwy nodi sut mae Ofgem yn rheoli ei effeithiau amgylcheddol ac yn ymateb i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar draws ei weithrediadau.

Mae'r adroddiad yn ymdrin ag ystad Ofgem – sy'n cynnwys pencadlysoedd yn Llundain, Glasgow, a Chaerdydd – a gweithgareddau gweithredol yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26. Mae set ddata'r flwyddyn hon yn sefydlu llinell sylfaen gyfoes ar gyfer y casgliad diweddaraf o Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth (GGCau) ar gyfer 2025-30, gan ddarparu sylfaen ar gyfer olrhain cynnydd sy'n gysylltiedig â'r defnydd o ynni, gwastraff, a theithio busnes domestig dros amser. Mae metrigau GGC yn yr adroddiad hwn yn cael eu hategu gan wybodaeth sy'n ymwneud ag allyriadau pellach yn y gadwyn gwerth, rheoli adnoddau y mae pen draw iddynt, ac arferion caffael cynaliadwy.

Mae dull gweithredu Ofgem yn adlewyrchu ei ddyletswydd statudol i gefnogi'r trawsnewidiad i sero net a hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy, ochr yn ochr â'r blaenoriaethau a nodwyd yn ei Strategaeth Amlflwyddyn i gryfhau'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn rheoleiddiwr effeithiol sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

Mae trefniadau llywodraethu mewn perthynas â chynaliadwyedd wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o'r sefydliad, a chaiff y mater ei oruchwylio gan GEMA, yr Uwch-bwyllgor Gweithredol, a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, gyda chefnogaeth grwpiau a thimau gweithredol mewnol penodol sy'n gyfrifol am gyflawni canlyniadau cynaliadwyedd a monitro cynnydd.

Mae Ofgem yn adrodd yn unol â chanllawiau sy'n gyson â TCFD Trysorlys EF, gan ddatblygu ei ddull o ymgorffori ystyriaethau hinsawdd yn ei fframwaith rheoli risg a datgelu metrigau a thargedau, gan gynnwys allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3, er mwyn asesu risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Y flwyddyn hon, mae Ofgem wedi gwneud cynnydd o ran lleihau allyriadau ar draws ei ystad a'i weithgareddau, yn rhannol o ganlyniad i drydaneiddio ei swyddfa yn Llundain a lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio busnes.

Mae Ofgem wrthi'n datblygu a gweithredu Cynllun Trawsnewid i Sero Net Sero (NZTP). Bydd y NZTP yn amlinellu'r camau y mae angen i Ofgem eu cymryd i ddatgarboneiddio ei ystad a'i weithrediadau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir hyd at 2050. Mae'r NZTP yn cyd-fynd â Chynllun Rheoli Asedau Strategol Ofgem, sy'n ymrwymo ystad Ofgem i fod yn sero net yn weithredol erbyn 2035. Mae tîm Ystadau Ofgem yn adolygu eiddo sydd wedi'i feddiannu a'u cynlluniau datgarboneiddio cysylltiedig yn rheolaidd, gan ystyried cyfleoedd i weithio'n rhagweithiol gyda landlordiaid i gefnogi'r trawsnewidiad i fodel gweithredu carbon isel.

## Cydymffurfiaeth y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd

Mae Ofgem yn adrodd ar ddatgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn unol â chanllawiau ceisiadau datgelu sy'n gyson â TCFD Trysorlys EF, sy'n addasu'r fframwaith ar gyfer y sector cyhoeddus yn y DU. Yn unol â'r canllawiau hyn, ystyrir risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar draws prosesau llywodraethu, strategaeth a rheoli risg ac maent yn rhan o brosesau gwneud penderfyniadau sefydliadol, gan gefnogi tryloywder ar gadernid a chyflawniad hirdymor Ofgem.

Mae datgeliadau Ofgem yn adlewyrchu argymhellion Cam 3 y TCFD, gan gynnwys:

- **Llywodraethu:** Darperir trosolwg o drefniadau llywodraethu Ofgem ar gyfer risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd a'r uwch-reolwyr wrth oruchwylio'r broses o gyflawni amcanion cynaliadwyedd.
- **Rheoli risg:** Mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys risgiau ffisegol a risgiau wrth drawsnewid, yn cael eu hystyried drwy ddull gweithredu sy'n datblygu o fewn fframwaith rheoli risg ehangach Ofgem ac fel rhan o'i ddyletswydd Sero Net statudol. Mae'r risgiau hyn yn cael eu hystyried ac mae dulliau i'w hadnabod, eu hasesu a'u rheoli yn parhau i gael eu datblygu ochr yn ochr â risgiau eraill, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu.
- **Metrigau a thargedau:** Mae Ofgem yn adrodd ar allyriadau Cwmpas 1, 2 ac allyriadau perthnasol Cwmpas 3, ochr yn ochr

â datblygu metrigau a thargedau a fydd yn cael eu defnyddio i asesu a rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, fel bod modd monitro perfformiad dros amser.

## Trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Mae trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wedi'u hymgorffori ym mhob rhan o Ofgem, gyda goruchwyliaeth ac atebolrwydd clir ar draws ei strwythurau llywodraethu a'i dimau gweithredol. Ceir manylion am amlder cyfarfodydd y Bwrdd a'n fframwaith rheoli risg a'r ffactorau risg yn ein Datganiad Llywodraethu (tudalen 55).

- Mae GEMA yn pennu'r cyfeiriad strategol drwy hyrwyddo llwyddiant cynaliadwy hirdymor i ddefnyddwyr, diffinio parodrwydd i dderbyn risg, a nodi prif risgiau'r sefydliad, sydd wedyn yn cael eu symud ymlaen i'r Uwch-bwyllgor Gweithredol (SEC).
- Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) yn goruchwylio trefniadau adrodd ariannol a rheoli risg, gan gynnwys strategaethau cynaliadwyedd sefydliadol.
- Mae'r SEC yn darparu cyfeiriad mewn perthynas ag uchelgeisiau cynaliadwyedd Ofgem, gan adolygu cynnydd yn rheolaidd ac ystyried risgiau sy'n dod i'r amlwg o ran cyflawni targedau amgylcheddol a thargedau lleihau carbon.
- Prif Swyddog Gweithredu Ofgem sy'n bennaf cyfrifol am gyflawni ym maes cynaliadwyedd (Melinda Johnson tan fis Tachwedd, gyda swyddog dros dro wedi hynny).
- Mae timau strategol yn goruchwylio datgarboneiddio, cynaliadwyedd, gallu seilwaith ynni'r DU i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd, a chysondeb â Dyletswydd Sero Net Ofgem. Mae'r Gweithgor Cynaliadwyedd (SWG) yn dwyn ynghyd gyfarwyddwyr a chydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad i ddarparu arbenigedd ar draws cyfarwyddiaethau, cryfhau trefniadau llywodraethu, a herio cyflawniad. Cefnogir y SWG gan noddwr cynaliadwyedd ar lefel cyfarwyddwyr.
- Mae'r SWG yn cael ei ategu gan rwydwaith staff Green Shoots, sy'n cefnogi gweithgarwch ymgysylltu a meithrin gallu ar draws y sefydliad. Mae'r rhwydwaith yn helpu i hyrwyddo agenda sero net a chynaliadwyedd Ofgem ac yn darparu fforwm pwrpasol i staff ymgysylltu â phynciau cyfredol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.
- Arweinir cynaliadwyedd gweithredol gan y tîm Ystadau, sy'n adrodd yn chwarterol i DESNZ ar gynnydd yn erbyn Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth (GCCau). Mae'r tîm yn gweithio gyda rheolwyr adeiladau a darparwyr gwasanaethau i nodi cyfleoedd i leihau carbon ar draws yr ystad, ymgysylltu â fforymau cynaliadwyedd DESNZ a DSIT i feincnodi perfformiad, ac ymateb i ofynion adrodd sy'n datblygu. Mae Rheolwr Cynaliadwyedd pwrpasol wedi'i benodi o fewn y tîm i gefnogi cyflawniad.

## Rheoli risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

Mae Ofgem yn ystyried amrywiaeth o risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar draws ei ystad, ei weithrediadau a'i rôl reoleiddio ac mae'n parhau i ddatblygu ei ddull o adnabod, asesu a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan adeiladu ar ei fframwaith rheoli risgiau busnes sefydledig, ei ddulliau dadansoddi gwydnwch a'i fewnbwn swyddogaethol arbenigol. Fel rhan o'r dull gweithredu hwn sy'n datblygu, mae ystyriaethau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael eu hasesu fwyfwy ar draws y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, gan gynnwys risgiau ffisegol (effaith newid hinsawdd ei hun) a risgiau wrth drawsnewid (y broses o addasu i economi carbon isel). Mae'r tablau isod yn crynhoi'r risgiau mwyaf perthnasol, yr effeithiau cysylltiedig, a'r camau lliniaru. Mae rheoli risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn barhaus yn sicrhau cysondeb â Nod Datblygu Cynaliadwy 13 (cymryd camau gweithredu brys i drechu newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau).

Yn unol â disgwyliadau TCFD, mae Ofgem wedi dechrau mapio risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn erbyn categorïau cydnabyddedig, gan gynnwys y themâu risg wrth drawsnewid a nodir isod. Mae'r risgiau hyn yn cynrychioli safbwynt cychwynnol sy'n datblygu, gyda'r bwriad o gefnogi gwaith profi, mireinio ac integreiddio parhaus i brosesau strategaeth, llywodraethu a rheoli risg dros amser. Bydd y gwaith hwn yn parhau i aeddfedu fel rhan o waith cynllunio strategol a datblygu gallu ehangach Ofgem, gan gynnwys drwy ei Strategaeth Amlflwyddyn a'i Flaenraglen Waith flynyddol.

### Tabl 1: Risgiau i'n hystad ffisegol (risgiau ffisegol TCFD)

| Risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd | Effeithiau ariannol, mesurau lliniaru a chyfleoedd |
|---|---|
| Mae newid hinsawdd yn cynyddu amlder a difrifoldeb digwyddiadau tywydd eithafol, gan gynnwys gwres a llifogydd. | Gall hyn arwain at gostau gweithredu uwch a tharfu ar barhad busnes, gan gynnwys yr angen posibl i sicrhau swyddfeydd amgen i staff.<br><br>Mae mesurau lliniaru yn cynnwys trefniadau gweithio hybrid Ofgem a strwythurau rheoli argyfwng sefydledig, sy'n cefnogi parhad busnes os bydd achos o darfu. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o staff i gynnal gweithrediadau craidd lle'r effeithir ar fynediad i ofod swyddfa, gan sicrhau bod ymatebion yn cael eu rheoli yn unol â fframweithiau trawslywodraethol cadarn a sefydledig a brofir yn rheolaidd.<br><br>Mae Ofgem yn gweithio gyda landlordiaid i wella effeithlonrwydd ynni a chydnerthedd ar draws ei swyddfeydd, gan gynnwys uwchraddio systemau oeri gwlyb er mwyn lleihau'r defnydd o ynni. Mae astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer paneli solar ffotofoltaidd hefyd yn cael ei hymgorffori yng nghynlluniau datblygu hirdymor ein landlord ar gyfer swyddfa Llundain, gan gefnogi ystad fwy cadarn a charbon is. |

### Tabl 2: Risgiau i'n rôl reoleiddiol (risgiau wrth drawsnewid TCFD)

| Risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd | Effeithiau ariannol, mesurau lliniaru a chyfleoedd |
|---|---|
| Polisi a Chyfreithiol – mae newidiadau pellach ym mholisi hinsawdd, blaenoriaethau deddfwriaethol neu fframweithiau rheoleiddio'r llywodraeth (e.e. cyflymder y gwaith o gyflawni sero net, modelau ariannu, neu ddiwygiadau sefydliadol) yn creu ansicrwydd neu anghysondeb yn yr amgylchedd polisi y mae Ofgem yn gweithredu ynddo. | Gall newid o ran polisi, deddfwriaeth neu reoleiddio gynyddu costau gweithredu a chyfreithiol, oedi neu ailwampio penderfyniadau rheoleiddio, a chreu ansicrwydd ar draws y system sy'n lleihau hyder buddsoddi, yn codi cost cyfalaf, ac yn y pen draw yn cynyddu costau i ddefnyddwyr, gyda risg o greu amgylchedd rheoleiddio ansefydlog sy'n effeithio ar fforddiadwyedd a chyflymder y trawsnewidiad i ynni adnewyddadwy.<br><br>Mae mesurau lliniaru yn cynnwys cynnal hyn drwy ymgysylltu'n gynnar ac yn barhaus â'r llywodraeth, gwaith cynllunio cydlynol ar draws Ofgem a rhanddeiliaid y sector, trefniadau llywodraethu mewnol cryf, prosesau rheoleiddio â dyluniad hyblyg, gweithgarwch ymgysylltu rhagweithiol â rhanddeiliaid, ac adolygiad parhaus o risg gyfreithiol a chyllid.<br><br>Mae hyn yn cynnig cyfle i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi, cryfhau rôl Ofgem o ran arwain y system, gwella hyblygrwydd rheoleiddio, a chefnogi fframweithiau cliriach a mwy buddsoddadwy sy'n cyflawni canlyniadau hirdymor gwell i ddefnyddwyr. |

| Risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd | Effeithiau ariannol, mesurau lliniaru a chyfleoedd |
|---|---|
| Technoleg – mae technolegau carbon isel a ysgogir gan y trawsnewidiad i sero net (e.e. ynni adnewyddadwy, marchnadoedd hyblygrwydd, digidoleiddio), a'r defnydd a wneir ohonynt, yn datblygu'n gyflymach na fframweithiau rheoleiddio, systemau data neu allu mewnol. | Gall hyn effeithio ar allu Ofgem i gyflawni ei amcanion strategol a'i swyddogaethau rheoleiddio yn y ffordd a gynlluniwyd, gan arwain at gostau gweithredu uwch wrth i Ofgem addasu i farchnadoedd technoleg sy'n dod i'r amlwg, mynd i'r afael â bylchau mewn fframweithiau rheoleiddio, cryfhau galluoedd data a modelu i lywio prosesau gwneud penderfyniadau, a gwella ei ymatebolrwydd i ddatblygiadau technolegol sy'n esblygu. At hynny, gallai'r risg hon arwain at faterion ehangach mewn perthynas ag ymddiriedaeth a gallu gan effeithio ar drwydded Ofgem i weithredu.<br><br>Mae'r mesurau lliniaru yn cynnwys trefniadau monitro ac ymgysylltu parhaus â DESNZ a rhanddeiliaid ehangach ar ddatblygiadau technolegol sy'n dod i'r amlwg, ochr yn ochr ag adolygiadau rheolaidd i sicrhau bod arbenigedd mewnol yn parhau i fod yn gyson â'r dirwedd sy'n esblygu ac anghenion y sector.<br><br>Mae hyn yn cynnig cyfle i Ofgem gryfhau ei ddull o reoleiddio technolegau sy'n dod i'r amlwg ymhellach, parhau i wella galluoedd data a dadansoddol, a chefnogi camau i integreiddio arloesedd yn effeithiol mewn marchnadoedd ynni. |
| Y farchnad – gall y pwysau cynyddol i gyflymu trawsnewidiad y system ynni, ochr yn ochr â chymhlethdod cynyddol (gan gynnwys darparu seilwaith, diwygio'r farchnad a llifau buddsoddi), arwain at ansicrwydd ac ansefydlogrwydd mewn marchnadoedd rheoleiddiedig, neu wneud sefyllfaoedd o'r fath yn waeth. Yn ei dro, gallai hyn effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni ei gynlluniau strategol yn effeithiol ac yn gyflym, yn enwedig lle mae cyflawni yn dibynnu ar amodau marchnad sefydlog, buddsoddiad amserol a newid y system mewn modd cydlynol. | Gall hyn arwain at fwy o heriau a chymhlethdod mewn prosesau gwneud penderfyniadau a goruchwylio sy'n ymwneud â rheoleiddio, a gall effeithio ar allu Ofgem i gydbwyso'r angen i ddiogelu defnyddwyr yn erbyn arloesedd a phŵer glân a thwf.<br><br>Mae'r mesurau lliniaru'n cynnwys ystyried ar gam cynnar sut mae Ofgem yn cydbwyso ei dair dyletswydd a nodir yn Adolygiad Ofgem, sut y disgwylir iddo ffurfio rhan o Ddatganiad Polisi Strategol diwygiedig, a chryfhau cysondeb traws-sefydliadol mewn perthynas â chynllunio strategol a chydlynu â chyrff y sector, fel NESO. Bydd hyn yn cefnogi camau cynllunio mwy gwydn ar gyfer cyflawni ac yn galluogi'r sefydliad i ymateb mewn ffordd ymaddasol i amodau'r farchnad sy'n esblygu.<br><br>Mae hyn yn cynnig cyfle i chwarae rôl arweinyddiaeth gryfach a mwy diffiniedig wrth lunio'r trawsnewidiad i ynni adnewyddadwy. Drwy ymateb mewn ffordd ragweithiol i anwadalrwydd a chymhlethdod y farchnad, gall Ofgem wella hyblygrwydd rheoleiddio, cryfhau hyder buddsoddwyr, a galluogi camau cyflawni mwy effeithlon mewn perthynas â seilwaith, arloesedd a chanlyniadau ynni glân. Dros amser, gall hyn gefnogi system ynni fwy gwydn ac addasadwy sy'n cydbwyso diogelwch defnyddwyr yn well ag amcanion twf a datgarboneiddio. |

| **Risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd** | **Effeithiau ariannol, mesurau lliniaru a chyfleoedd** |
|---|---|
| Enw da – mae cyfradd y newid yn yr hinsawdd a'r effeithiau cysylltiedig yn peri i ddisgwyliadau'r cyhoedd, rhanddeiliaid neu'r farchnad ynghylch cyflymder a thegwch y trawsnewidiad i ynni adnewyddadwy ddwysáu, gan arwain at brosesau craffu mwy manwl ar benderfyniadau a chanlyniadau rheoleiddio. | Gall y risg hon gynyddu costau gweithredu wrth i Ofgem ehangu ei allu cyfathrebu, ymgysylltu a dadansoddi, a gall arwain at aneffeithlonrwydd lle caiff penderfyniadau eu gohirio neu eu hailwampio, costau polisi a chyflawni uwch, a chostau cyfreithiol uwch o ganlyniad i her. Gall pwysau parhaus ar enw da hefyd leihau hyder buddsoddwyr ac arafu cyflawniad y farchnad, gyda risg i gyfreithlondeb ac awdurdod sefydliadol Ofgem.<br><br>Mae'r mesurau lliniaru yn cynnwys dull strwythuredig o ymdrin â thryloywder ac ymgysylltu, gan gynnwys cyfeiriad strategol clir, prosesau ymgynghori ac ymgysylltu cadarn â rhanddeiliaid, cyfathrebu rhagweithiol ar resymeg a chyfaddawdau, dealltwriaeth a phrosesau sganio'r gorwel gwell, cysondeb traws-system cryf â rhanddeiliaid y llywodraeth a'r sector, a threfniadau llywodraethu wedi'u hymgorffori sy'n cyd-fynd â fframwaith risg TCFD ac Ofgem.<br><br>Mae hyn yn rhoi cyfle i gryfhau cyfreithlondeb ac ymddiriedaeth, llywio naratif y trawsnewidiad cenedlaethol i ynni adnewyddadwy, gwella canlyniadau polisi drwy ddealltwriaeth ddyfnach rhanddeiliaid, cynyddu hyder buddsoddwyr, ac adeiladu aeddfedrwydd sefydliadol drwy ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu mwy rhagweithiol. |

## Metrigau a thargedau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd

### *Allyriadau nwyon tŷ gwydr*

Mae Ofgem yn adrodd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr yn unol â'r Protocol ar Nwyon Tŷ Gwydr, sy'n cwmpasu ffynonellau allyriadau Cwmpas 1 a 2 a rhai perthnasol Cwmpas 3 er mwyn darparu tryloywder ar ei ôl troed carbon gweithredol a'i gynnydd dros amser. Adroddir ar allyriadau a chynnydd sy'n ymwneud â GGCau i grŵp adrodd yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ) a'r Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT), ac mae'r Gwasanaethau Corfforaethol Integredig (ICS) yn goruchwylio hyn bob chwarter. Y flwyddyn hon, mae cyfanswm yr allyriadau a gofnodwyd gan Ofgem wedi gostwng 18%. Oherwydd cyfyngiadau wrth gael mynediad at ddata cyfleustodau ar gyfer un swyddfa, defnyddiwyd ffigurau'r flwyddyn flaenorol fel procsi. Ystyrir bod y dull gweithredu hwn yn rhesymol gan nad oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi bod i'r adeilad na'r defnydd gweithredol rhwng y ddwy flynedd.

Cyfanswm allyriadau Cwmpas 1, sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r defnydd o nwy ar y safle, oedd 144 MWh ar draws yr ystad, sy'n cynrychioli gostyngiad o 30% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cyfanswm allyriadau Cwmpas 2, sy'n ymwneud ag allyriadau anuniongyrchol o ynni a brynwyd, oedd 1,093 MWh o'r defnydd o drydan, gyda swm amcangyfrifedig o 70 MWh pellach yn gysylltiedig â gwresogi ardal. Mae'r allyriadau hyn wedi gostwng 12% o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, gan adlewyrchu perfformiad ynni gwell ar draws ystad Ofgem.

Mae allyriadau Cwmpas 3 yn cwmpasu ystod o weithgareddau'r gadwyn gwerth. Mae Ofgem yn mesur allyriadau o ganlyniad i deithio busnes ac yn adrodd yn ansoddol ar gynnydd mewn meysydd fel lleihau gwastraff a chaffael cynaliadwy. Adroddir ar yr holl allyriadau fel cyfansymiau gros, ac ni ddefnyddir mesurau gwrthbwyso carbon.

Yn ystod 2025-26, roedd cyfanswm allyriadau teithio busnes Cwmpas 3 yn 203 kg $CO_2e$ – gostyngiad o 24% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae darparwr teithio Ofgem wedi gwella ei blatfform archebu er mwyn tynnu sylw at opsiynau teithio a llety mwy cynaliadwy, gan gynnwys data amcangyfrifedig ar allyriadau, gan gefnogi'r gallu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus. Bydd Ofgem yn parhau i weithio gyda'i ddarparwr teithio i hyrwyddo'r nodweddion hyn ac annog dewisiadau teithio ag allyriadau is.

Er nad yw allyriadau cymudo o dan Gwmpas 3 yn cael eu mesur ar hyn o bryd, mae Ofgem wedi cymryd camau i gefnogi cymudo carbon is, gan gynnwys gwelliannau i gyfleusterau teithio llesol yn ei swyddfa yn Glasgow, fel cyflwyno loceri wedi'u gwresogi a sychwyr gwallt. Mae cynlluniau ar waith i gynyddu prosesau i oruchwylio allyriadau cymudo fel bod modd gwerthuso eu perthnasedd o dan ganllawiau'r Protocol ar Nwyon Tŷ Gwydr. Mae Ofgem wedi cymryd rhan mewn fforymau trawslywodraethol i rannu arferion gorau ar arwyddocâd cymharol categorïau o allyriadau a'u cyfleoedd datgarboneiddio cysylltiedig.

### *Gwastraff*

Caiff gwastraff ar draws ystad Ofgem ei reoli yn unol â pholisi dim-i-dirlenwi, gan gefnogi defnydd effeithlon o adnoddau a lleihau effaith amgylcheddol. Yn swyddfeydd Llundain a Chaerdydd, caiff data ar wastraff eu cyfrifo ar lefel yr adeilad a'u dosrannu yn seiliedig ar ddeiliadaeth ystad Ofgem, sy'n golygu bod perfformiad yn adlewyrchu cyfleusterau a rennir ac mae ymddygiad holl denantiaid yr adeilad yn effeithio arno. Nid oes ffigurau gwastraff ar gael ar gyfer swyddfa Glasgow ac maent yn anodd eu hamcangyfrif – felly mae'r swyddfa hon wedi'i hepgor o'r cyfrifiadau gwastraff. Yn 2025-26, cynyddodd cyfanswm y gwastraff a gofnodwyd 8%.

Yn ystod y flwyddyn, prynodd Ofgem 119,653 o eitemau plastig untro i ddefnyddwyr (CSUP), sy'n cynrychioli cynnydd o 25% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd nifer mawr o nwyddau traul hylendid a chegin. Mewn ymateb i hyn, mae Ofgem wedi diwygio ei gontract glanhau er mwyn lleihau dibyniaeth ar eitemau untro a bydd yn parhau i ystyried cyfleoedd i ddefnyddio dewisiadau amgen di-blastig ac opsiynau pecynnu swmp mewn cydweithrediad â chyflenwyr.

Mae gwelliannau gweithredol hefyd wedi cael eu rhoi ar waith i wella'r ffordd y caiff gwastraff ei reoli ar draws yr ystad. Mae ffrwd wastraff newydd ar gyfer compost wedi'i chyflwyno yn swyddfa Llundain, sy'n golygu y gellir prosesu bioblastigion a deunydd pecynnu sy'n seiliedig ar blanhigion yn ogystal â gwastraff bwyd. Mae arwyddion gwastraff wedi cael eu hadnewyddu er mwyn gwella eglurder, cryfhau cyfraddau ailgylchu, a lleihau achosion o halogi gwastraff. Disgwylir i hyn arwain at ganlyniad cadarnhaol, gan fod tunelledd gwastraff wedi'i ailgylchu bellach yn fwy na thunelledd ynni-o-wastraff yn swyddfa Llundain.

Yn swyddfa Glasgow, mae'r ffrydiau gwastraff presennol ar waith o hyd. Fodd bynnag, mae'r holl arwyddion wedi cael eu diweddaru gan ddefnyddio adnoddau gan Zero Waste Scotland (corff cyhoeddus economi gylchol yr Alban) i wella dealltwriaeth o sut i wahanu gwastraff ac annog ymddygiadau ailgylchu mwy effeithiol. Yng Nghaerdydd, mae cyfleusterau ailgylchu ychwanegol ar gael i gydweithwyr Ofgem, gan gynnwys cyfleusterau ailgylchu cwpanau coffi ac opsiynau ar gyfer gwydr, batris, pecynnau creision a deunyddiau eraill.

Mae Ofgem hefyd yn parhau i ddefnyddio cynlluniau rhoddion elusennol i ddargyfeirio eiddo coll ac eitemau eraill rhag mynd i mewn i ffrydiau gwastraff, gan leihau swm cyffredinol y gwastraff a chefnogi cynnydd sy'n cyd-fynd â Nod Datblygu Cynaliadwy 12 (sicrhau patrymau defnyddio a chynhyrchu cynaliadwy).

### *Y defnydd o ddŵr ac adnoddau y mae pen draw iddynt*

Mae Ofgem yn monitro'r defnydd o ddŵr ar draws ei ystad yn seiliedig ar ddŵr a brynwyd, wedi'i ddosrannu yn ôl deiliadaeth, er mwyn darparu mesur cyson o ddefnydd a pherfformiad dros amser.

Yn 2025-26, cynyddodd y defnydd o ddŵr i 1 metr ciwbig fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn. Ym mis Medi, canfuwyd gollyngiad mawr yn swyddfa Llundain, a achoswyd gan grac yn y pibellau. Cwblhawyd gwaith unioni yn brydlon, gan gynnwys ailosod y pibellau yr effeithiwyd arnynt, er mwyn adfer gweithrediadau a chefnogi dibynadwyedd parhaus seilwaith dŵr yr adeilad. I gefnogi Nod Datblygu Cynaliadwy 6 (sicrhau bod dŵr a chyfleusterau glanweithdra ar gael i bawb ac yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy), mae Ofgem yn parhau i hyrwyddo

defnydd effeithlon o ddŵr drwy fabwysiadu offer sy'n effeithlon o ran dŵr yng ngheginau ac ystafelloedd ymolchi ei ystad.

Cefnogir ymwybyddiaeth a newid ymddygiadol drwy ymgysylltu â staff hefyd. Mae rhaglenni hyfforddi, gan gynnwys Water Literacy, wedi cael eu hyrwyddo drwy'r rhwydwaith cynaliadwyedd i gynyddu dealltwriaeth o effaith amgylcheddol defnyddio dŵr. Yn ogystal, mae cyfathrebiadau rheolaidd yn annog staff i roi gwybod am ollyngiadau neu ddiffygion yn brydlon, gan gefnogi camau i nodi a datrys problemau sy'n gysylltiedig â dŵr yn amserol a gwella effeithlonrwydd cyffredinol.

Yn 2025, ffocws ymgyrch uwchsgilio flynyddol y Llywodraeth oedd defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI). Mae Ofgem yn cydnabod, er bod AI yn adnodd cynyddol berthnasol, mae ei ddefnydd eang yn gysylltiedig â mwy o ddefnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt. Mae Ofgem yn ymrwymedig i godi ymwybyddiaeth ynghylch defnydd cynaliadwy o AI, ac mae canllawiau ar ddefnydd moesegol o AI yn y sector ynni wedi cael eu datblygu i gefnogi hyn. Yn fewnol, mae hyfforddiant i'r staff ar Microsoft Copilot yn hyrwyddo'r defnydd o bromptiau penodol ac uniongyrchol, yn ogystal ag annog y defnydd o bromptiau sy'n casglu gwybodaeth o gronfeydd gwybodaeth mewnol yn hytrach na ffynonellau generig.

### *Caffael cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy*

Mae Ofgem yn ymrwymedig i brosesau caffael cynaliadwy yn unol â fframweithiau'r llywodraeth, gan sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol a chymdeithasol wedi'u hymgorffori yn ei weithgareddau prynu.

Ar ôl cyflwyno Deddf Caffael 2023, mae Ofgem wedi cryfhau'r meini prawf gwerth cymdeithasol sy'n rhan o'i brosesau tendro ac mae'n ymgysylltu'n rheolaidd â chyflenwyr allweddol i adolygu'r ffordd y mae ymrwymiadau'n cael eu cyflawni. Mae'r dull gweithredu hwn yn darparu mwy o oruchwyliaeth o effeithiau'r gadwyn gwerth, gan gynnwys mynediad at ddata ar allyriadau a chynlluniau lleihau carbon gan gyflenwyr dethol, gan gefnogi camau i oruchwylio ein hallyriadau cadwyn gwerth o dan Gwmpas 3.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Ofgem raglen adnewyddu gliniaduron ar draws y sefydliad. Mae'r cyflenwr a ddewiswyd yn gweithredu model economi gylchol, gan adnewyddu ac ailddefnyddio offer TG a ddychwelwyd neu adfer cydrannau i'w defnyddio mewn cynhyrchion newydd drwy broseswyr cymeradwy i lawr y gadwyn gyflenwi. Yn ogystal, darparodd y cyflenwr gasgliadau amnest ar gyfer dyfeisiau TG personol, gan alluogi staff i ailgylchu hen ffonau a gliniaduron yn gyfrifol. Adnewyddwyd cyfanswm o 2500 o unedau o gyfarpar TG (4464 kg) i'w hailwerthu, gyda gwerth dychwelyd o £100,335. Cafodd 26 o unedau TG eraill (53 kg), ynghyd â 116kg o ddeunyddiau sgrap (ceblau, gwastraff trydanol cyffredinol) eu hailgylchu er mwyn gweithgynhyrchu nwyddau newydd. Cafodd yr holl unedau a chydrannau a ddychwelwyd eu hadfer, ac ni chafodd unrhyw eitem ei hanfon i safle tirlenwi na'i llosgi.

Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi dull cylchol o reoli technoleg, gan leihau gwastraff electronig a hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau, gan gyd-fynd ag amcanion cynaliadwyedd a chaffael ehangach Ofgem.

## Adfer bioamrywiaeth a natur

Er nad yw Ofgem yn dal llawer o dir, mae'n cydnabod gwerth cynhenid bioamrywiaeth a rôl bwysig cyfalaf naturiol wrth gefnogi'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Rhoddir tridiau o absenoldeb gwirfoddoli i weithwyr bob blwyddyn a chânt eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau lleol sy'n cyd-fynd ag amcanion corfforaethol Ofgem, gan gynnwys cefnogi adferiad natur a bioamrywiaeth ledled y DU. Mae'r dull gweithredu hwn yn cefnogi gweithgarwch ymgysylltu â chyflogeion wrth gyfrannu at ganlyniadau amgylcheddol ehangach, gan gynnwys adfer natur a chadernid gwell.

### Gwirfoddoli gyda phrosiect cadwraeth yn Barnes Common







**Ar ddiwrnod braf o wanwyn, cymerodd aelodau o Dîm Ymholiadau ac Ymgysylltu Llundain ran mewn gwaith cadwraeth yn Barnes Common yn ne-orllewin Llundain.**

**Adeiladodd cydweithwyr "berth marw" i amgylchynu pwll a gwnaethant gludo boncyffion i greu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt lleol.**

**Cyfunodd y diwrnod gyfle gwirfoddoli ymarferol, gwaith tîm ac amser ym myd natur, gan alluogi cydweithwyr i gefnogi bioamrywiaeth wrth hybu eu llesiant drwy dreulio amser yn yr awyr agored.**

## Addasu i newid yn yr hinsawdd

Mae dull lefel ystad Ofgem o addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn seiliedig ar Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA), a gyhoeddwyd gyntaf yn 2024 yn dilyn asesiad effaith ledled y DU. Yn 2025-26, aethpwyd ati i uwchraddio System Rheoli'r Adeilad (BMS) yn swyddfa Llundain yn sylweddol. Disgwylir i hyn wella prosesau i fonitro a rheoli cyflwr adeiladau, gan gefnogi cysur y deiliaid pe bai amrywiadau tymheredd eithafol a risgiau tywydd. Mae rhaglen fonitro 12 mis bellach ar waith, ac mae Ofgem yn parhau i gymryd rhan yn fforymau tenantiaid GPA er mwyn rhoi adborth ar berfformiad a gwelliannau'r ystad.

## Dangosyddion Perfformiad Cynaliadwy Ariannol ac Anariannol

| **Cyfanswm y Cyflogeion Cyfwerth ag Amser Llawn** | **1,246** | **1,485** | **1,885** | **2,247** | **2,267** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ynni** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
| **Dangosyddion anariannol (MWh)** | | | | | |
| Cyfanswm yr ynni a ddefnyddiwyd | 847 | 1,189 | 1,166 | 1,368 | 1,200* |
| Nwy | 28 | 143 | 158 | 123 | 107* |
| Trydan | 819 | 1,046 | 1,008 | 1,245 | 1,093* |
| **Dangosyddion ariannol (£000)** | | | | | |
| Cyfanswm costau ynni | - | - | 296* | 347* | 348* |
| Nwy | - | - | 8* | 6* | 7* |
| Trydan | - | - | 288* | 341* | 341* |
| **Dŵr** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
| **Dangosyddion anariannol (m3)** | | | | | |
| Defnydd o ddŵr | 1,207 | 1,795 | 1,982 | 2,250 | 2,523 |
| **Dangosyddion ariannol (£000)** | | | | | |
| Costau cyflenwi dŵr | 3 | 5* | 9 | 26* | 11* |
| **Gwastraff** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
| **Dangosyddion anariannol (tunnell)** | | | | | |
| Cyfanswm y gwastraff | 19 | 6 | 10 | 13 | 14 |
| Ynni o wastraff | 4 | 3 | 5 | 6 | 6 |
| Wedi'i ailgylchu | 15 | 3 | 4 | 6 | 6 |
| Wedi'i gompostio | - | - | >1 | 1 | 2 |
| TGCh | - | - | - | >1 | >1 |
| **Dangosyddion ariannol (£000)** | | | | | |
| Cyfanswm y gost gwaredu | - | - | - | 18* | 6* |
| **Teithio** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
| **Dangosyddion anariannol (000 km)** | | | | | |
| Cyfanswm pellter teithio | 335 | 1,607 | 4,347 | 3,777 | 3,420 |
| Teithio domestig ar drên | 285 | 1,160 | 3,385 | 3,138 | 3,026 |
| Teithio rhyngwladol ar drên | 2 | 6 | 31 | 20 | 18 |
| Teithio domestig mewn awyren | 35 | 354 | 463 | 328 | 184 |
| Teithio cyfandirol mewn awyren | >1 | 37 | 68 | 124 | 63 |
| Teithio rhyngwladol mewn awyren | 12 | 50 | 400 | 167 | 128 |
| **Dangosyddion ariannol (£000)** | | | | | |
| Cyfanswm y gwariant | - | - | 652 | 620 | 596 |

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol (tunelli $CO_2$e)** | | | | | |
| Cwmpas 1: uniongyrchol | 5 | 4 | 12 | 10 | 7 |
| Cwmpas 2: ynni anuniongyrchol | 174 | 223 | 226 | 271 | 239 |
| Cwmpas 3: arall anuniongyrchol | 23 | 143 | 368 | 267 | 203 |
| **Defnydd o bapur** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
| Dangosyddion anariannol (rimiau) | - | - | 402 | 515 | 481 |

1 Mae'r ffigurau sydd wedi'u hamcangyfrif yn y tabl wedi'u dynodi drwy "*". Ar gyfer 2025-26, lle nad oedd data ar filiau cyfleustodau ar gael, amcangyfrifir costau gan ddefnyddio cyfradd uned dybiedig o 6.50c/kWh ar gyfer nwy, 31.23c/kWh ar gyfer trydan, £4.24/metr ciwbig o ddŵr, a £457.81/tunnell o wastraff. Mae cyfraddau uned tybiedig yn deillio o gostau'r landlord wedi'u dosrannu a meincnodau masnachol.
2 Lle nad oedd data hanesyddol ar gael ac na ellid rhoi amcangyfrif rhesymol, dynodir hyn drwy "-". Mae hyn yn cynnwys data ariannol nad oedd modd i'n landlordiaid eu darparu oherwydd natur ein cytundebau aml-denantiaeth.



**Tim Jarvis**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro
10 Gorffennaf 2026



# Adroddiad ar Atebolrwydd

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2025-26

# Adroddiad ar Atebolrwydd

Diben adran atebolrwydd yr adroddiad blynyddol yw bodloni gofynion atebolrwydd allweddol i'r Senedd, sef prif ddefnyddiwr yr adroddiad blynyddol a chyfrifon, i esbonio trefniadau llywodraethu corfforaethol Ofgem – yn debyg i ofynion y Ddeddf Cwmnïau i grwpiau a chwmnïau mawr.

## Adolygiad Ariannol

Yn ystod y flwyddyn, defnyddiodd Ofgem ei gyllideb i gefnogi Blaenraglen Waith 2025-26 a gwariodd o fewn y terfynau cyllidebol cymeradwy (y cyfeirir atynt fel 'cyfansymiau rheoli'). Cyflwynir trosolwg o gostau ac incwm Ofgem (ar sail cyllidebau adnoddau), wedi'u mesur yn erbyn y cyllidebau cymeradwy isod:

| Gweithgaredd (gweinyddu a rhaglen) | Cyfanswm y Gost £m | Cyfanswm yr Incwm £m | Gwariant net £m | Cyllideb net £m | Tanwariant net £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau rheoleiddio a chefnogi craidd | 169.4 | (172.2) | (2.8) | 30.0 | 32.8 |
| Cynlluniau, heb gynnwys Nwy Gwyrdd | 69.7 | (62.3) | 7.4 | 9.6 | 2.2 |
| Nwy Gwyrdd | 28.2 | (76.4) | (48.2) | 7.9 | 56.1 |
| **Is-gyfanswm** | **267.3** | **(310.9)** | **(43.6)** | **47.5** | **91.1** |
| Lefelu | 64.0 | (64.0) | - | - | - |
| **Cyfanswm (RDEL)** | **331.3** | **(374.9)** | **(43.6)** | **47.5** | **91.1** |

Caiff gwaith rheoleiddio a swyddogaethau ategol Ofgem eu hariannu gan ffi drwydded a delir gan y diwydiant i ddechrau ac yna ei throsglwyddo i ddefnyddwyr drwy brisiau ynni. Mae cynlluniau Ofgem naill ai'n cael eu hariannu gan y llywodraeth (er enghraifft, yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ) sy'n ariannu costau gweinyddu Ofgem ar gyfer y cynllun Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy) neu'n cael eu hariannu gan y diwydiant (er enghraifft, mae'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd yn cael ei ariannu gan yr Ardoll Nwy Gwyrdd). Ar gyfer y rhan fwyaf o'r meysydd hyn, mae gan Ofgem gyllideb net fach oherwydd bydd yr incwm yn gwrthbwyso'r gwariant i raddau helaeth.

Mae gwariant net Ofgem wedi'i rannu'n gyfansymiau gwariant gwahanol, y ceisir cymeradwyaeth y Senedd ar eu cyfer. Mae'r cyfansymiau gwariant y mae'r Senedd yn pleidleisio arnynt fel a ganlyn:

- Terfyn Gwariant Adrannol ("DEL Adnoddau"): terfyn net sy'n cynnwys costau rhedeg o ddydd i ddydd, llai incwm fel y nodir yn y cwmpas;
- Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf ("DEL Cyfalaf"): buddsoddiad mewn meddalwedd a chyfarpar cyfalaf fel TG a systemau.
- Terfyn Gwariant Heb fod yn y Gyllideb: i gyfrif am Addasiadau Cyfnod Blaenorol ("PPA"). Yn ogystal, mae'r Senedd yn pleidleisio ar ofyniad arian parod net, a gynlluniwyd i gwmpasu elfennau'r cyllidebau uchod sy'n ei gwneud yn ofynnol i Ofgem dalu arian parod yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol (SOPS) a'i nodiadau ategol ar dudalennau 82 i 101 yn cyflwyno crynodeb ffurfiol o berfformiad Ofgem yn erbyn y cyllidebau cymeradwy. Mae'r rhain yn dangos bod Ofgem wedi gwario £242.8 miliwn ar gostau gweinyddu i gyflawni ei waith rheoleiddiol (£169.4 miliwn) a gweinyddu cynlluniau amgylcheddol (£69.7 miliwn) yn 2025-26. Yn ogystal, arweiniodd costau'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd o £28.2 miliwn (y mae £3.7 miliwn ohono'n gostau gweinyddol) at gyfanswm gwariant adnoddau o £267.3 miliwn, (£266.8 miliwn yn ôl nodyn 3 o'r cyfrifon ynghyd â £0.5 miliwn o gostau cyllid yn ôl SOPS2). Cafodd y gwariant hwn ei wrthbwyso gan incwm adnoddau o £310.9 miliwn (fel y nodir yn SOPS2, heb gynnwys £2.7 miliwn o incwm CDEL i gyfanswm yr incwm o £313.6 miliwn yn ôl nodyn 4) gan arwain at incwm net (alldro) ar gyfer y flwyddyn o £43.6 miliwn (2024-25: £40.4 miliwn).

Mae'r incwm a'r gwariant tybiannol mewn perthynas â'r broses Lefelu (penderfyniad ar addasu taliadau sefydlog i gwsmeriaid rhagdalu), a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2024 ac a ddosberthir fel treth a gwariant yn cyfateb i £64.0 miliwn o wariant ac incwm gwrthbwyso ar gyfer 2025-26. Ceir rhagor o fanylion yn SOPS2.

Mae'r alldro adnoddau yn cynrychioli tanwariant o £91.1 miliwn (2024-25: tanwariant o £52.2 miliwn) ar amcangyfrif cyllideb cymeradwy o £47.5 miliwn (2024-25: £92.6 miliwn), yn bennaf oherwydd gwerth darpariaethau cyfreithiol ariannol (tanwariant o £32.8 miliwn) a'r ffaith bod gwariant Nwy Gwyrdd (tanwariant o £56.1 miliwn) yn is na'r amcangyfrif:

- Gall penderfyniadau Ofgem fod yn destun her gyfreithiol, ac, fel rhan o broses pennu cyllidebau Ofgem, bob blwyddyn, amcangyfrifir effaith ariannol bosibl yr her a ragwelir ar benderfyniadau presennol ac yn y dyfodol. Roedd y gyllideb yn uwch na'r alldro y flwyddyn hon oherwydd: ni chafodd rhai penderfyniadau eu herio, cafodd rhai penderfyniadau eu gohirio i flynyddoedd ariannol yn y dyfodol, cafodd un her ei hamddiffyn yn llwyddiannus ac o ran rhai penderfyniadau, mae'r tebygolrwydd y gellir eu hamddiffyn yn llwyddiannus yn edrych yn ddigon uchel.
- Mae taliadau'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd (GGSS) wedi'u llywio gan y galw (yn dibynnu ar gofrestriadau a chwistrellu biofethan). Caiff unrhyw warged neu ddiffyg yn ystod y flwyddyn ei ystyried wrth gyfrifo cyfradd Ardoll Nwy Gwyrdd (GGL) y flwyddyn ganlynol; bydd arian yn parhau i fod ar gael ar gyfer taliadau'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd ac yn lleihau taliadau cyflenwyr o dan rwymedigaeth yn y dyfodol.

Mae'r Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr (SOCNE) ar dudalen 97 yn cyflwyno incwm a gwariant Ofgem ar sail cyfrifyddu croniadau. Caiff y rhain eu paratoi yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol a fabwysiadwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn y Datganiad yn wahanol i'r SOPS gan fod y driniaeth gyfrifyddu ar gyfer rhai eitemau fel prisio asedau ac offerynnau ariannol yn wahanol i'r ffordd y caiff yr eitemau hyn eu trin ym mhrosesau cyllidebu'r llywodraeth. Mae SOPS2 yn cysoni'r alldro cyllidebol a ddangosir yn y SOPS1 i'r incwm gweithredu net o £46.3 miliwn (yn 2024-25, gwariant gweithredu net o £32.3 miliwn) a ddangosir yn y Datganiad. Mae'r newid cyffredinol i incwm gweithredu net o wariant gweithredu net yn bennaf oherwydd y cynnydd o £66.0 miliwn yn incwm yr ardoll nwy gwyrdd. Gan fod y dreth wedi'i chynllunio i adennill cost lawn taliadau a gwaith gweinyddu'r cynllun, mae gwariant rhagamcanol uwch (wedi'i ysgogi gan fwy o ddefnydd o safleoedd biofethan) ynghyd ag addasiadau amseru ac addasiadau cysoni'r flwyddyn flaenorol, wedi arwain at dâl uwch fesul mesurydd ar gyfer 2025-26 (cyfradd o 0.821c y mesurydd y dydd o gymharu â chyfradd 2024-25, sef 0.105c y mesurydd y dydd GGL: rates and exemptions - GOV.UK).

Prif ffynhonnell incwm Ofgem yw'r ffioedd trwydded a gesglir gan ddefnyddwyr drwy filiau ynni. Caiff unrhyw warged (dros adennill ffioedd, lle mae'r gwariant yn llai na'r gyllideb) ei ad-dalu i'r defnyddwyr. Cytunwyd ar y cynnydd o £16.0 miliwn mewn incwm o ffi'r drwydded y flwyddyn hon (2025-26 £154.4 miliwn; 2024-25 £138.4 miliwn) drwy'r adolygiad o wariant er mwyn ariannu rôl gynyddol Ofgem wrth reoleiddio rhwydweithiau ynni a chefnogi'r trawsnewid i sero net. Fel y nodir yn nodyn 11 y cyfrifon adnoddau o dan 'ffioedd trwydded gohiriedig', mae gwarged o £2.7 miliwn o ffioedd trwydded 2025-26 a godwyd ar y sector (2024-25: gwarged o £3.3 miliwn) a chaiff hyn ei ddychwelyd.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cost gwaith Ofgem ar reoleiddio marchnadoedd ynni wedi cynyddu o ganlyniad i'n gwaith i wella prosesau diogelu defnyddwyr ynni. Yn ogystal, mae cefnogi'r broses o ddatblygu seilwaith gan gynnwys cysylltiadau newydd i'r grid a mwy o gapasiti grid wrth i ni weithio tuag at Sero Net yn golygu bod tuedd ar i fyny yng nghost rheoleiddio rhwydweithiau ynni. Mae'r adroddiad ar berfformiad yn ymdrin â chyfrifoldebau newydd Ofgem yn fanylach ac mae'r tueddiadau dros y 3 blynedd diwethaf wedi'u nodi yn adran 1.7 o Femorandwm Prif Amcangyfrif Ofgem 2026-27. Mae'r 'Tablau Craidd' newydd yn Atodiad 4 yn darparu cyflwyniad amlflwyddyn.

Costau staff yw'r rhan fwyaf (64%) o gostau Ofgem. Mae cyfanswm y gwariant gweithredu o £266.8 miliwn (2024-25: £259.8 miliwn) yn cynrychioli cynnydd o £7.0 miliwn (6%) sy'n bennaf mewn cyflogau (£15.7 miliwn) gan gynnwys dyfarniad cyflog blynyddol, cynnydd yng Nghyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr a chynnydd bach yn nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn (gweler 'nifer cyfartalog y bobl a gyflogir' yn yr Adroddiad staff).

Roedd gwariant cyfalaf yn cynnwys cyfarpar TG (£2.5 miliwn, nodyn 5), lesoedd (£1.1m, SOPS3) a datblygu meddalwedd benodol i gefnogi cynlluniau a weinyddir gan Ofgem (nodyn 6 a SOPS2) yn bennaf. Cafwyd gwariant net o £3.6 miliwn o gymharu â chyllideb net o £5.1 miliwn.

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Nid yw aelodau Bwrdd Ofgem yn gyfarwyddwyr mewn unrhyw gwmni arall nac yn meddu ar fuddiannau arwyddocaol eraill a all wrthdaro â'u cyfrifoldebau rheoli.

Cyhoeddir cofrestr buddiannau aelodau Bwrdd ac Uwch-bwyllgor Gweithredol Ofgem ar ein gwefan.

Ni hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ffurfiol am unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol yn ystod y flwyddyn.




## Bwrdd Ofgem

### Rôl y Bwrdd

Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan (GEMA) yw Bwrdd Ofgem. Mae'n cynnwys aelodau anweithredol, gan gynnwys Cadeirydd anweithredol, ac un aelod gweithredol, sef y Prif Weithredwr. Mae aelodau'r Uwch-bwyllgor Gweithredol yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, ac mae aelodau eraill o staff Ofgem yn mynychu ar gyfer eitemau penodol, fel sy'n ofynnol. Ceir manylion aelodau Bwrdd Ofgem ar wefan Ofgem [Ein strwythur a'n harweinyddiaeth | Ofgem].

Mae pwerau a dyletswyddau'r Bwrdd yn deillio o statud. Mae'r ddeddfwriaeth yn sôn am Ofgem fel 'yr Awdurdod', ac wrth gyfeirio at yr Awdurdod, mae'n golygu Cadeirydd ac aelodau eraill Bwrdd Ofgem. Mae hyn yn golygu pan fydd deddfwriaeth yn rhoi pŵer penodol i Ofgem, mater i Fwrdd Ofgem yw arfer y pŵer hwnnw, oni bai bod dirprwyaeth ddilys ar waith.

### Penodiadau GEMA

Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net sy'n penodi aelodau anweithredol yr Awdurdod, ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd. Penodir aelodau gweithredol yr Awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Ar 1 Ebrill 2025 penodwyd Nick Winser yn aelod anweithredol o'r Awdurdod am flwyddyn, drwy'r broses benodi eithriadol. Yn ystod 2025-26 gwnaethom gynnal ymarfer recriwtio ar gyfer aelod anweithredol ag arbenigedd technegol yn y sector ynni ac, ar 13 Chwefror 2026, penodwyd Nick Winser am gyfnod o 5 mlynedd yn dechrau ar 1 Ebrill 2026.

Yn dilyn penodiad Jonathan Brearley yn Ysgrifennydd Parhaol i'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, daeth ei benodiad fel aelod o'r Awdurdod i ben ar 23 Mawrth pan ymddiswyddodd fel Prif Swyddog Gweithredol Ofgem. Penodwyd Tim Jarvis yn Brif Swyddog Gweithredol dros dro Ofgem gan Fwrdd Ofgem

ac, ar 17 Mawrth 2026, yn dilyn cais gan y Cadeirydd, penodwyd Tim Jarvis i'r Awdurdod gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Rhannu cyfrifoldebau

Mae'r Bwrdd wedi cadw rhai penderfyniadau yn ôl. Mae'r rhain wedi'u nodi mewn atodlen i Reolau Trefniadaeth y Bwrdd a chyfeirir atynt hefyd fel y 'Swyddogaethau a Gadwyd yn Ôl'.

Mater i'r Bwrdd yw gwneud penderfyniadau yn ymwneud ag unrhyw un o'r Swyddogaethau hyn a Gadwyd yn Ôl, oni bai bod y Bwrdd yn dirprwyo'r penderfyniad hwnnw i un o gyflogeion Ofgem, neu un o Bwyllgorau'r Bwrdd, yn benodol.

Gall dirprwyaeth gan y Bwrdd fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau. Caiff unrhyw ddirprwyaeth ychwanegol gan y Bwrdd ei chofnodi yng nghofnodion y Bwrdd. Yr unig eithriad i hyn yw llunio Offeryn Statudol. Ni all y Bwrdd – yn ôl y gyfraith – wneud dirprwyaeth o'r fath. Cyfeirir at holl swyddogaethau'r Bwrdd nad ydynt yn Swyddogaethau a Gadwyd yn Ôl, wedi'u dirprwyo i un o Bwyllgorau'r Bwrdd, neu eu dirprwyo gan Drysorlys EF i'r Swyddog Cyfrifyddu, fel 'Swyddogaethau Cyffredinol' ac maent wedi'u dirprwyo i aelodau o'r staff.

Cyhoeddir Rheolau Trefniadaeth y Bwrdd, gan gynnwys ei Faterion a Gadwyd yn Ôl, ar wefan Ofgem.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu nifer o bwyllgorau i gefnogi ei waith, sef: Mae'r rhain fel a ganlyn: y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, wedi'i gadeirio gan Jonathan Kini, y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol, wedi'i gadeirio gan Warren Buckley, y Pwyllgor RIIO-3 ac ED3, wedi'i gadeirio gan Graham Mather, a'r Panel Penderfyniadau Gorfodi, wedi'i gadeirio gan David Ashbourne.

Ceir rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau a gwaith Pwyllgorau GEMA yn ddiweddarach yn yr adran hon o'r adroddiad hwn.

## Cyfarfodydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod tua deg gwaith y flwyddyn ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol. At hynny, defnyddir cyfarfodydd ad hoc a phenderfyniadau drwy ohebiaeth pan fydd materion brys yn codi rhwng cyfarfodydd.

Yn ei gyfarfodydd, mae'r Bwrdd fel arfer yn ystyried amrywiaeth o faterion. Mae hyn fel arfer yn cynnwys diweddariadau gan y Prif Weithredwr, diweddariadau gan Gadeiryddion ei Bwyllgorau ar unrhyw gyfarfodydd diweddar, trafodaethau am strategaeth Ofgem a'r dirwedd ehangach, materion sefydliadol, a phenderfyniadau ynghylch materion penodol nad ydynt wedi'u dirprwyo gan gynnwys mewn perthynas â rhai materion rheoleiddiol penodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd y materion a ystyriwyd gan y Bwrdd yn cynnwys, ymhlith eraill, y canlynol:

- Darparu barn neu wneud nifer o benderfyniadau rheoleiddiol sylweddol yn unol â'n Fframwaith Buddiannau Defnyddwyr, gan gynnwys e.e.:
    - Ar gyfer Fframwaith Rheoli Prisiau Dosbarthiadau Trydan (ED3), cytuno ar gyfnod rheoli prisiau ED3 am bum mlynedd, amcan ED3 ac egwyddorion sylfaenol y fframwaith.
    - Cymeradwyo'r broses o wneud offeryn statudol Rheoliadau Dewis Rheolwyr Codau (Cystadleuol) 2025 a'r Offeryn Statudol terfynol ar gyfer Safonau Perfformiad Gwarantedig Mesuryddion Deallus SoP 1–3.
    - Cynlluniau ar gyfer Strategaeth Dyledion Ofgem a Strategaeth Marchnadoedd Ofgem.
- Adolygu prif risgiau Ofgem a chymeradwyo datganiad Ofgem am ei barodrwydd i dderbyn risg
- Cymeradwyo Blaenraglen Waith Ofgem a monitro'r gwaith o'i chyflawni
- Cymeradwyo camau i ddisodli systemau corfforaethol Ofgem er mwyn caniatáu prosesau mewnol gwell

At hynny, a chyn pob cyfarfod ffurfiol fel arfer, mae'r Cadeirydd yn cynnal sesiwn friffio lai ffurfiol y caiff aelodau eraill y Bwrdd wahoddiad i'w mynychu. Mae'r sesiynau briffio hyn yn gyfle i drafod materion sy'n dod i'r amlwg, cael gwybodaeth am agweddau penodol ar waith Ofgem, a chlywed gan randdeiliaid ar faterion llosg.

Y flwyddyn hon, roedd y Bwrdd yn falch o groesawu nifer o randdeiliaid i'w gyfarfodydd, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Cyngor Ariannol, Cyngor ar Bopeth, y Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid, The Heat Network, DESNZ a'r Ombwdsmon Ynni.

Cyhoeddir cofnodion ac agendâu'r Bwrdd ar wefan Ofgem.

## Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd

Mae'r Cadeirydd a'r aelodau anweithredol eraill yn chwarae rhan lawn ym musnes y Bwrdd. Roeddent yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd Pwyllgorau fel a ganlyn:

| Aelodau | Yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol | RIIO-3 ac ED3 RIIO 2 |
|---|---|---|---|---|
| Alena Kozakova | 10/10 | | | 8/8 |
| Barry Panayi | 10/10 | | | |
| Graham Mather | 10/10 | | | 8/8 |
| | | | | |
| Jonathan Brearley (Prif Swyddog Gweithredol) | 8/10 | 3/5 | 5/5 | 7/8 |
| Jonathan Kini | 10/10 | 5/5 | | |
| Mark McAllister (Cadeirydd) | 10/10 | 5/5 | 4/4 | 8/8 |
| Nick Winser | 8/10 | | | 8/8 |
| Tony Curzon-Price | 9/10 | 5/5 | | |
| Warren Buckley | 10/10 | | 5/5 | |

Yn ogystal â'r amserlen arferol o gyfarfodydd a restrir uchod, cyfarfu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau sawl gwaith ar fyr rybudd i ymdrin â materion brys a materion strategol.

## Gwerthuso'r Bwrdd a'r trefniadau llywodraethu

Caiff effeithiolrwydd y Bwrdd ei adolygu unwaith y flwyddyn, a chynhelir Adolygiad allanol o Effeithiolrwydd y Bwrdd o leiaf unwaith bob tair blynedd. Cynhaliodd Campbell Tickell adolygiad allanol ddiwedd 2024 a, thrwy gydol 2025, ymatebodd Ofgem i'r argymhellion a wnaed.

Rydym wedi dechrau'r broses ar gyfer yr adolygiad blynyddol nesaf o effeithiolrwydd y Bwrdd a fydd yn ystyried y strwythur, y prosesau a'r bobl, sut mae'n rhyngweithio â'r weithrediaeth a rhanddeiliaid ac a yw'r rolau priodol yn glir. Ceisir adborth a barn gan aelodau'r Bwrdd a rhanddeiliaid eraill.

## Nodi a rheoli achosion o wrthdaro buddiannau

Mae gan Ofgem bolisi gwrthdaro buddiannau ac mae canllawiau pellach hefyd ar gael i'r staff ar fewnrwyd staff Ofgem. Caiff y polisi ei adolygu bob blwyddyn. O dan y polisi, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff ein hysbysu am unrhyw achosion posibl o wrthdaro pan fyddant yn ymuno â'r sefydliad ac i gyflwyno datganiadau blynyddol wedi hynny, neu pan fydd newid o ran amgylchiadau a allai arwain at wrthdaro posibl. Mae'r polisi yn berthnasol i bob aelod o'r staff, boed yn staff parhaol, achlysurol, cyfnod penodol, asiantaeth neu gontractwr ac aelodau'r Bwrdd. Mae'n ofynnol i aelodau'r bwrdd gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus ar ymdrin ag unrhyw achos

o wrthdaro hefyd. Yn ymarferol, caiff achosion o wrthdaro ac achosion posibl o wrthdaro, yn ogystal â mesurau lliniaru arfaethedig ar gyfer rheoli'r achosion hynny, eu trafod â'r Cadeirydd a bydd yn cytuno arnynt. Cyhoeddir cofrestr buddiannau aelodau ein Bwrdd ar wefan Ofgem.

Caiff unrhyw achosion posibl o wrthdaro eu hasesu gan y tîm Sicrwydd Busnes, sy'n ystyried a oes achos o wrthdaro ac, os felly, pa gamau y dylid eu cymryd, ac erbyn pryd. Mae'r polisi hefyd yn nodi y caiff camau disgyblu eu cymryd yn erbyn unrhyw aelod o staff y canfyddir nad yw wedi cydymffurfio â'r trefniadau hyn.

Mae'n rhaid i staff sy'n ymwneud â chaffael ddatgan unrhyw achos posibl o wrthdaro buddiannau gyda chyflenwyr. Caiff achosion o wrthdaro eu rheoli mewn ffordd gymesur ac effeithiol, fel arfer drwy eithrio'r staff yr effeithir arnynt o'r broses o werthuso cynigion. Mae hyfforddiant caffael yn sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r gofyniad hwn. Gofynnir hefyd i gyflenwyr ddatgan unrhyw achosion o wrthdaro yn ffurfiol fel rhan o'r broses.

Pan fydd staff yn gadael y sefydliad, mae gennym broses ar waith i ystyried a oes angen cais o dan y Rheolau Penodiadau Busnes cyn iddynt dderbyn penodiad newydd y tu allan i'r Gwasanaeth Sifil. Diben hyn yw sicrhau na ddylai fod achos cyfiawn dros bryder, beirniadaeth na chamddehongliad cyhoeddus pan fydd cyn aelod o staff yn ymgymryd â phenodiad neu gyflogaeth allanol.

## Rheolau Penodiadau Busnes

Mae Ofgem yn gweithredu mewn ffordd strwythuredig wrth reoli gofynion ôl-gyflogi. Pan fydd cyflogai yn penderfynu gadael y sefydliad, caiff y sefyllfa ei hasesu er mwyn sicrhau y caiff gwerthoedd craidd y gwasanaeth sifil, sef uniondeb, gonestrwydd, didueddrwydd a gwrthrychedd, eu cynnal. Mae'r asesiad hwn yn ystyried ffactorau megis rôl yr unigolyn wrth ddatblygu polisïau, mynediad at wybodaeth sensitif neu gyfrinachol, ac unrhyw gyswllt swyddogol â'i ddarpar gyflogwr.

Lle bo angen, rhaid i'r cyflogai sy'n gadael gwblhau cais ffurfiol o dan y Rheolau Penodiadau Busnes (BAR). Mae hyn yn helpu i nodi unrhyw risgiau perthnasol a phennu camau gweithredu neu amodau cymesur, y cytunwyd arnynt gyda'r rheolwyr ac a gefnogir gan yr adran Adnoddau Dynol.

| Ystadegau'r Rheolau Penodiadau Busnes ar gyfer 2025-26 | |
|---|---|
| Nifer y staff a adawodd yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS) | 7 asesiad 2 gais BAR dilynol |
| Nifer y ceisiadau BAR a gyflwynwyd i'r adran dros y flwyddyn (yn ôl gradd – SCS2, SCS1, a graddau dirprwyedig) | 14 |
| Nifer y ceisiadau BAR a gymeradwywyd gan yr adran dros y flwyddyn (yn ôl gradd – SCS2, SCS1, a graddau dirprwyedig) | 14 |
| Nifer y ceisiadau BAR lle pennodd yr adran amodau dros y flwyddyn (yn ôl gradd – SCS2, SCS1, a graddau dirprwyedig) | 14 |
| Nifer y ceisiadau lle ystyriodd yr adran ei bod hi'n anaddas i'r ymgeisydd dderbyn dros y flwyddyn (yn ôl gradd – SCS2, SCS1, a graddau dirprwyedig) | 0 |
| Nifer yr achosion o dorri'r rheolau yn ystod y flwyddyn flaenorol | 0 |

Gan gydymffurfio â'r Rheolau Penodiadau Busnes (BAR), mae'r adran yn rhoi cyngor tryloyw ar geisiadau unigol ar gyfer uwch-aelodau o staff, gan gynnwys cynghorwyr arbennig. Caiff cyngor ar benodiadau busnes penodol ei gyhoeddi ar gov.uk (Cyngor rheolau penodiadau busnes | Ofgem).

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yn cynnwys aelodau anweithredol GEMA. Cadeiriwyd ARAC gan Jonathan Kini yn ystod 2025-26. Aelodau ychwanegol y pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn oedd Mark McAllister a Tony Curzon Price. Mae ARAC yn cynnal pedwar prif gyfarfod y flwyddyn, yn ogystal â chyfarfod penodol i adolygu'r adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft. Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredu, y Cwnsler Cyffredinol, y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Chynllunio, a'r Dirprwy Bennaeth Cyllid, Caffael a Risg, i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor, yn ogystal ag aelodau eraill o staff yn ôl yr angen.

Gwahoddir cynrychiolwyr o Archwilwyr Allanol Ofgem, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a chynrychiolwyr o Archwilwyr Mewnol Ofgem, Forvis Mazars, i fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd. Mae'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn cynnal trafodaethau rheolaidd ac yn cadw mewn cysylltiad uniongyrchol â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

### *Diben a chyfrifoldebau*

Mae gan ARAC gylch gorchwyl, a gaiff ei adolygu bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar wefan Ofgem. Ei brif gyfrifoldebau yw cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a threfniadau rheoli risg a llywodraethu Ofgem. Bydd yn archwilio'r ffordd y mae Ofgem yn sicrhau ac yn monitro digonolrwydd y systemau rheoli ariannol ac yn argymell unrhyw welliannau angenrheidiol.

Mae ARAC yn cynghori'r Bwrdd ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â'r rhaglen flynyddol o adolygiadau archwilio sy'n ymdrin â phrosesau ariannol a rheoli allweddol, gan ystyried y risgiau presennol sy'n wynebu Ofgem. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar y polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr at yr archwilwyr allanol.

### *Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn*

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch ARAC oedd:

- Adolygu parodrwydd Ofgem i dderbyn risg a rhoi cyngor arno
- Cynnal archwiliadau dwfn o risgiau thematig
- Parhau i herio Ofgem er mwyn gwella, gweithredu ac adolygu cynnydd yn erbyn ei welliannau i'r fframwaith rheoli risg
- Adolygu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofgem ar gyfer 2024-25 a goruchwylio'r broses o gynllunio dogfennau 2025-26
- Ystyried cynllun archwilio ac adroddiad cwblhau archwiliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
- Monitro cynnydd y cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26, ac adolygu adroddiadau Archwilio Mewnol ac ymatebion rheolwyr
- Adolygu'r cynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2026-27.

### *Adroddiadau*

Caiff crynodeb o weithrediadau ARAC ei rannu â'r Bwrdd yn ystod cyfarfodydd dilynol, a rhoddir cyfle i Gadeirydd y Pwyllgor roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am unrhyw faterion y mae'n awyddus i'w codi.

### *Y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol*

Mae'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol (PRC) yn cynnwys aelodau anweithredol GEMA. Yn ystod 2025-26, Warren Buckley oedd cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol. Aelodau ychwanegol y pwyllgor yn ystod y cyfnod hwn oedd Mark McAllister.

Gwahoddir y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredu, y Prif Swyddog Pobl a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu ac Ymgysylltu i fynychu cyfarfodydd y PRC hefyd, yn ogystal ag aelodau eraill o staff yn ôl yr angen.

### *Diben a chyfrifoldebau*

Caiff cylch gorchwyl y PRC ei adolygu bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar wefan Ofgem. Cyfrifoldebau allweddol y PRC yw cynghori'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr ar gydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Wasanaeth Sifil, ac ystyried polisïau ar faterion sy'n gysylltiedig â phobl sy'n effeithio ar berfformiad a llwyddiant Ofgem. Mae'r Pwyllgor yn adolygu Strategaeth Gweithlu Ofgem a sut mae'n cael ei rhoi ar waith yn rheolaidd.

### *Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn*

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch y PRC oedd:

- Cymeradwyo cydnabyddiaeth ariannol ac amcanion blynyddol tîm gweithredol Ofgem
- Cymeradwyo elfennau Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adroddiad Staff yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon
- Adolygu perfformiad tîm gweithredol Ofgem
- Adolygu Strategaeth y Gweithlu
- Adolygu gwaith ar iechyd, diogelwch a llesiant
- Cymeradwyo ceisiadau a wneir o dan y Rheolau Penodiadau Busnes, gan staff SCS2 neu SCS3, neu unrhyw gais arall gan Uwch-was Sifil
- Cynnal archwiliadau dwfn thematig i faterion sy'n ymwneud â phobl ac adolygu polisïau sy'n gysylltiedig â phobl, gan gynnwys rheoli perfformiad, dysgu a datblygu a rheoli newid.

Croesawodd PRC rai o rwydweithiau staff Ofgem i'w gyfarfodydd, a oedd yn cynnwys y rhwydweithiau cyflogeion Iddewig, Mwslimaidd, Iechyd Meddwl a Symudedd Cymdeithasol a chynrychiolwyr Undebau Llafur.

### *Adroddiadau*

Caiff crynodeb o weithrediadau PRC ei rannu â'r Bwrdd yn ystod ei gyfarfod dilynol, a rhoddir cyfle i Gadeirydd y Pwyllgor roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am unrhyw faterion y mae'n awyddus i'w codi.

## Pwyllgor RIIO-3 ac ED3

Ym mis Tachwedd 2024, sefydlodd GEMA bwyllgor newydd i helpu'r Bwrdd i wneud penderfyniadau mewn perthynas â rhaglenni systemau rheoli prisiau RIIO-3 ac ED3. Pwyllgor cynghorol yn unig yw'r pwyllgor, ac mae'n cynnwys aelodau anweithredol a gweithredol. Cyfarfu'r pwyllgor am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2025 a'i gadeirydd yw Graham Mather. Mae Mark McAllister, Alena Kozakova, Nick Winser a Jonathan Brearley (tan 22 Mawrth 2026) hefyd yn aelodau o'r pwyllgor. Gwahoddir staff i fynychu cyfarfodydd pwyllgor RIIO-3 ac ED3 yn ôl yr angen.

### *Diben a chyfrifoldeb*

Mae gan bwyllgor RIIO-3 ac ED3 gylch gorchwyl, a gaiff ei adolygu bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar wefan Ofgem. Diben y pwyllgor yw rhoi arweiniad a chyfeiriad i raglenni RIIO-3 ac ED3, a rhoi cyngor i GEMA cyn iddo wneud penderfyniadau.

### *Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn*

Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth pwyllgor RIIO/ED3 y canlynol:

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad ar gyfer meysydd polisi cymhleth, sy'n gwrthdaro'n aml, mewn perthynas â thrawsyrru trydan, trawsyrru nwy a dosbarthu nwy
- Chwarae rôl lywodraethu hanfodol wrth ddatblygu system rheoli prisiau RIIO-3 a aeth yn fyw ar 1 Ebrill 2026
- Dechrau gweithio ar ddyluniad y fframwaith a fydd yn sail i ED3

### *Adroddiadau*

Caiff crynodeb o weithrediadau pwyllgor RIIO-3 ac ED3 ei rannu â'r Bwrdd yn ystod ei gyfarfod dilynol, a rhoddir cyfle i Gadeirydd y Pwyllgor roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am unrhyw faterion y mae'n awyddus i'w codi.

## Y Panel Penderfyniadau Gorfodi (Ysgrifenyddiaeth EDP)

David Ashbourne yw cadeirydd y Panel Penderfyniadau Gorfodi (EDP). Mae aelodau'r Panel a'i ysgrifenyddiaeth yn gyflogeion Ofgem sy'n annibynnol ar dîm yr achos.

Mae'r EDP yn cyfarfod i drafod achosion unigol, er mwyn gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n benodol i'r achos. Mae hefyd yn cyfarfod bob chwarter i drafod amrywiaeth o faterion polisi a gorfodi ac i drafod y gwersi a ddysgwyd o achosion sydd wedi dod i ben.

Caiff Pwyllgorau Setliadau eu ffurfio o aelodau'r EDP, ochr yn ochr ag aelod o staff Ofgem ar lefel yr Uwch Wasanaeth Sifil. Mae Pwyllgorau Setliadau yn penderfynu ar achosion sy'n addas ar gyfer setliad ffurfiol.

### *Diben a chyfrifoldeb*

Mae'r EDP wedi bod ar waith ers mis Mehefin 2014 er mwyn gwneud penderfyniadau gorfodi ar ran y Bwrdd ei hun. Cafodd ei sefydlu er mwyn i arbenigwyr penodedig wneud penderfyniadau

ynghylch achosion gorfodi fel bod gwahaniad gweladwy rhwng y swyddogaethau ymchwilio a'r swyddogaethau gwneud penderfyniadau. Caiff cylch gorchwyl yr EDP a'r Pwyllgor Setliadau eu cyhoeddi ar wefan Ofgem.

Cyfrifoldebau allweddol yr EDP yw gwneud penderfyniadau ar ran GEMA ynghylch a fu achos o dorri rhwymedigaethau'r trwyddedai, cyfreithiau cystadleuaeth, rheoliadau REMIT, neu reoliadau'r Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS), neu ofynion statudol neu reoleiddiol perthnasol eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rhwydweithiau gwres a dal a storio carbon. Os penderfynir bod rhwymedigaeth wedi'i thorri, bydd y Panel yn penderfynu a ddylid gosod cosb neu gyflwyno pecyn unioni ac os felly, pa lefel o gosb neu becyn unioni.

Cyfrifoldeb allweddol y Pwyllgor Setliadau yw awdurdodi penderfyniadau ar ran GEMA. Mae'r rhain yn galluogi timau achosion i ddilyn y weithdrefn setliadau.

### *Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn*

Yn ystod y flwyddyn hon, mae'r EDP wedi cyfarfod bob chwarter i drafod amrywiaeth o faterion polisi a gorfodi. Cafodd yr EDP hefyd ddiweddariadau ar strategaeth a chyfeiriad polisi Ofgem. Mynychodd Mark McAllister gyfarfodydd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y blaenoriaethau strategol a'r parodrwydd i dderbyn risg gan GEMA. Mynychodd uwch-aelodau o staff Ofgem hefyd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Ymhlith y pynciau a drafodwyd yn ystod y cyfnod adrodd roedd y wybodaeth ddiweddaraf am y llif achosion gorfodi a llwyth gwaith yn y dyfodol, materion rheoleiddio seiber ac NIS, a chanlyniadau gweithgarwch archwilio a sicrwydd o fewn y swyddogaeth Gorfodi. Ystyriodd yr EDP ddatblygiadau perthnasol ar draws meysydd eraill hefyd, gan gynnwys rhwydweithiau gwres ac Adolygiad Ailosod Ofgem. Ystyriwyd materion llywodraethu, prosesau a gweithredol ehangach hefyd sy'n berthnasol i wneud penderfyniadau gorfodi.

### *Adroddiadau*

Rhaid i gadeirydd yr EDP ddarparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd, gan roi sylwadau ar yr achosion a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiad at ddefnydd mewnol yn unig.

## Yr Uwch-bwyllgor Gweithredol (SEC)

Mae'r Uwch-bwyllgor Gweithredol a phedwar Bwrdd Portffolio (Marchnadoedd, Seilwaith, Cyflawni a Chynlluniau, a bwrdd Portffolio'r Gwasanaethau Corfforaethol) yn helpu'r Prif Weithredwr i redeg y sefydliad a gallant gael eu cefnogi gan is-bwyllgor.

Caiff yr Uwch-bwyllgor Gweithredol ei gadeirio gan y Prif Weithredwr. Ochr yn ochr â'i gyfarfodydd, a gynhaliwyd ddwywaith y mis fel arfer yn ystod 2025-26, roedd gan yr Uwch-bwyllgor Gweithredol gyfarfod wythnosol anffurfiol hefyd a chyfarfodydd ad hoc fel y bo'n ofynnol. Mae aelodau'r Uwch-bwyllgor Gweithredol wedi'u rhestru ar wefan Ofgem. Gwahoddir aelodau eraill o staff Ofgem i fynychu cyfarfodydd yr Uwch-bwyllgor Gweithredol yn ôl yr angen.

### *Diben a chyfrifoldeb*

Mae'r Uwch-bwyllgor Gweithredol yn gweithredu fel fforwm rheoli sy'n cynnig perchenogaeth adeiladol a chyfunol dros berfformiad a chyflawniadau cyffredinol Ofgem. Mae'n darparu arweiniad, goruchwyliaeth a chyfeiriad strategol gan fwyaf, ac yn rhoi cyngor i'r Prif Weithredwr ar faterion penodol sydd wedi'u nodi yn ei gylch gorchwyl a'r Rheolaethau Rheoli. Caiff y Byrddau Portffolio eu cadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol neu'r Cyfarwyddwr perthnasol ar gyfer y portffolio hwnnw, gan gyfarfod o leiaf unwaith y mis a rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Uwch-bwyllgor Gweithredol ar y penderfyniadau a wnaed. Mae'r aelodaeth ar lefel SCS 1 a 2 gan ddibynnu ar strwythur y grŵp.

Mae'r Byrddau Portffolio (a'r is-bwyllgorau) yn fforymau rheoli ar gyfer perchenogaeth adeiladol a chyfunol dros y meysydd y mae'r cadeirydd yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys goruchwylio perfformiad a chyflawni, datblygu strategaeth y grŵp, rheoli risg a sicrwydd. Caiff materion allweddol sy'n rhan o gylch gwaith y Byrddau Portffolio eu trafod er mwyn meithrin dealltwriaeth traws-grŵp o'r effaith ar waith y grŵp.

### *Gweithgareddau yn ystod y flwyddyn*

Mae'r Uwch-bwyllgor Gweithredol yn trafod materion rheoleiddiol a materion sefydliadol.

Yn ystod y flwyddyn, prif feysydd gweithgarwch yr Uwch-bwyllgor Gweithredol oedd rhoi cyngor i'r Prif Weithredwr mewn perthynas â'r canlynol:

- Adolygu cynigion polisi neu reoliadol pwysig neu drawsbynciol, gan gynnwys y defnydd o bwerau statudol, strategaeth cydymffurfio a gorfodi, rheoleiddio rhwydweithiau gwres, diogeledd y cyflenwad, cydymffurfio â'r ddyletswydd bioamrywiaeth, ac ymyriadau marchnad
- Cynllunio ariannol, rheoli a sicrhau trefniadau cyflawni yn erbyn ymrwymiadau'r Flaenraglen Waith
- Cymeradwyo dyraniadau cyllidebol blynyddol ac ystyried y sefyllfa gyllidebol
- Adolygu prif risgiau Ofgem a'r camau lliniaru a'u rhoi ar waith
- Ystyried ymatebion y rheolwyr i adroddiadau Archwilio Mewnol ac adroddiadau sicrwydd eraill a monitro cynnydd wrth roi argymhellion yr adroddiadau hynny ar waith
- Ystyried materion pwysig sy'n ymwneud â phobl, gan gynnwys strategaeth a pholisïau amrywiaeth a chynhwysiant y sefydliad
- Darparu barn am rôl Ofgem, rheoli risg, ac ymgysylltu â DESNZ a rhanddeiliaid eraill, a sut y dylid lleoli a chyfleu rhaglenni mawr i'r Bwrdd ac yn allanol.
- Adolygu papurau perthnasol a gyflwynir gan y rheolwyr i'r Bwrdd neu un o Bwyllgorau'r Awdurdod.

### *Adroddiadau*

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn darparu adroddiad i bob un o gyfarfodydd y Bwrdd, gan grynhoi materion proffil uchel a materion llosg sy'n wynebu'r sefydliad, gan gynnwys gweithgareddau'r Uwch-bwyllgor Gweithredol a Byrddau Portffolio'r Gyfarwyddiaeth fel y bo'n briodol. Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn cyflwyno adroddiad ar gyflawniadau yn erbyn blaenoriaethau strategaeth amlflwyddyn Ofgem bob chwarter fel arfer.

## Presenoldeb Ofgem yn yr Alban

Mae ymrwymiad Ofgem i sector ynni'r Alban yn gadarn o hyd, gyda bron i fil o staff yn gweithredu o Commonwealth House yn Merchant City, Glasgow. Mae sgiliau, arbenigedd a brwdfrydedd ein cydweithwyr yn yr Alban yn hanfodol ar draws holl ffrydiau gwaith Ofgem.

Drwy gydol y flwyddyn hon, mae Ofgem wedi croesawu cyfleoedd i gydweithio yn yr Alban, gan ddarparu arweinyddiaeth reoleiddiol wrth ymgysylltu'n rheolaidd â chyrff allanol er mwyn deall yr heriau a wynebir gan ddefnyddwyr a'r diwydiant fel ei gilydd. Mae lleisiau rhanddeiliaid yr Alban wedi cael eu hatgyfnerthu yn ein gwaith, boed hynny drwy alwadau misol gyda grwpiau defnyddwyr ac elusennau neu drwy weithio gyda NESO i sicrhau bod prosiectau'r Alban yn parhau i fod yn ganolog i gynllun Pŵer Glân 2030, ac maent yn hanfodol i lwyddiant ein hamcanion cyffredin yn yr Alban a ledled Prydain Fawr.

Mae gwaith Ofgem yn parhau i gefnogi buddsoddiad yn seilwaith a diwydiannau ynni'r Alban:

- **Penderfyniadau Terfynol RIIO 3:** Sicrhaodd RIIO-3 fuddsoddiad gwerth £5.4 biliwn i uwchraddio'r rhwydwaith trawsyrru trydan yn yr Alban.
- **Cyllid Adeiladu Cynnar (ECF):** Cymeradwyodd Ofgem geisiadau ECF ar gyfer wyth prosiect trawsyrru trydan gan Scottish Hydro Electric Transmission Plc (SHET), gan gynnwys chwe chysylltiad trawsyrru ar y tir a dau gyswllt trawsyrru ar y môr.

Mae Bwrdd ac Uwch-bwyllgor Gweithredol Ofgem yn ymweld â safleoedd ynni yn yr Alban yn rheolaidd fel rhan o'u gweithgarwch strategol i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Y flwyddyn hon roedd yr ymweliadau'n cynnwys Cynllun Ynni Dŵr Coire Glas, Loco Home Retrofit, cyfryngwr di-elw yn ardal Glasgow ar gyfer ôl-osod cartrefi carbon isel, a safle Flexitricity yng Nghaeredin, lle bu cynrychiolwyr Ofgem yn asesu gweithrediadau ac yn gwerthuso datrysiadau technoleg y cwmni – gyda ffocws penodol ar AI, arferion y farchnad a chydymffurfiaeth reoleiddiol. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi llywio prosesau datblygu polisi Ofgem yn y farchnad hyblygrwydd ynni.

Mae Ofgem wedi parhau i fwynhau a gwerthfawrogi trefniadau cydweithio agos â Llywodraeth yr Alban. Un maes allweddol lle gellir gweld hyn yw'r trefniadau cydweithio ynghylch y Gwasanaeth Radio Teleswitch (RTS) a'r gwaith parhaus i uwchraddio'r systemau gwresogi hen ffasiwn hyn. Mae hyn yn enghraifft glir o gydweithio rhwng y rheoleiddiwr ynni, llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, y diwydiant, a grwpiau defnyddwyr. Mae'r wybodaeth a gawn yn ein galwadau rheolaidd gyda Llywodraeth yr Alban wedi helpu i ysgogi gwaith i newid mesuryddion, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, ac yn ystyried ystyriaethau lleol ledled yr Alban. Mae Ofgem yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydberthynas waith gref â Llywodraeth yr Alban, gan gyflawni ein huchelgais gyffredin o ynni glân, diogel a fforddiadwy wrth ddarparu'r mesurau diogelu mwyaf cadarn posibl i ddefnyddwyr.

## Presenoldeb Ofgem yng Nghymru

Yn 2025-26 parhaodd Ofgem i ymgysylltu ledled Cymru i sicrhau bod cymunedau a phrofiadau Cymreig yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniadau rheoleiddio.

Ym mis Chwefror 2025, ymwelodd cynrychiolwyr o Fwrdd Ofgem â Cesla Steel i ddeall yn well yr heriau sy'n wynebu rhanddeiliaid diwydiannol ynni-ddwys a thrafod yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant dur.

Dilynwyd y daith hon gan ymweliad gan Mark McAllister, Cadeirydd, a Jonathan Brearley, Prif Swyddog Gweithredol, â gwaith Haearn a Dur Integredig Tata ym Mhort Talbot i ddysgu mwy am gyfleoedd y cwmni a deall sut y gallai polisi Ofgem helpu i gefnogi twf ar y safle yn ogystal ag ystyried cyfleoedd ar gyfer prosiectau datgarboneiddio tebyg ar raddfa fawr.

Bydd cyflwyno fframwaith y Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol (RESP), a fydd yn cael ei gyflawni gan NESO, yn creu'r amodau i roi mwy o sylw i leisiau trigolion lleol, busnesau ac awdurdodau lleol i lywio buddsoddiadau mewn systemau ynni rhanbarthol yn uniongyrchol, gan gynnwys y rhai yng Nghymru.

Mae gwaith Ofgem yn parhau i gefnogi buddsoddiad yn seilwaith a diwydiannau ynni Cymru:

- **Mecanwaith Caffael Uwch (APM):** Caniataodd yr APM i berchnogion trawsyrru gael mynediad at gyllid cynnar i brynu cyfarpar gyda'r nod o glirio cyfyngiadau yn y grid. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i Gymru, lle mae rhwystrau wrth drawsyrru yn effeithio ar wynt ar y môr, ynni adnewyddadwy ar y tir a chysylltiadau gwledig.
- **Cyfundrefn cap a llawr ar gyfer Storio Trydan am Gyfnodau Hir (LDES:** Mae'r cyhoeddiad hanfodol hwn ar gyfer cadernid hirdymor y system ac integreiddio ynni adnewyddadwy yn galluogi datblygiad y diwydiant hwn yng Nghymru.

Goruchwyliodd Ofgem ddyraniad £164M Project Union hefyd i gyflymu conglfaen hydrogen y DU, gan gynnwys cyllid ar gyfer prosiect HyLine Gogledd o Lannau Dyfrdwy i Wrecsam yng Ngogledd Cymru, a ddatblygwyd gan Wales and West Utilities i helpu diwydiannau trwm i ddatgarboneiddio.

Mae Ofgem wedi parhau i groesawu'r cyfle i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru drwy gydol 2025-26. Boed drwy gyfarfodydd Gweinidogol neu drefniadau cydweithio â swyddogion y llywodraeth, mae'r cyfraniad cadarnhaol y mae'r rhain wedi'i wneud – yn enwedig at fater hanfodol tlodi tanwydd – wedi atgyfnerthu unwaith eto bwysigrwydd ymrwymiad Ofgem i gynrychioli holl gymunedau Prydain Fawr yn ein gwaith. Gyda phrosiectau ynni mawr wedi'u cynllunio ac ar y gweill ledled Cymru, ochr yn ochr â'n ffocws parhaus ar yr heriau sy'n wynebu defnyddwyr, edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio'n agos â'n cydweithwyr yng Nghymru drwy gydol 2026-27.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EF wedi cyfarwyddo Ofgem i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau yn nodi'r adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'r defnydd ohonynt gan yr adran yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o incwm a gwariant Ofgem a'i sefyllfa, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu fodloni gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gwneud y canlynol yn benodol:

- Dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- Cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.


Mae Trysorlys EF wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu Ofgem. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Ofgem, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi eu cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod archwilwyr Ofgem yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad Llywodraethu yn disgrifio fframwaith rheolaethau mewnol Ofgem, sydd wedi'i gynllunio yn unol â gofynion Trysorlys EF a Swyddfa'r Cabinet. Caiff manylion y trefniadau llywodraethu, gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad a sut maent yn helpu i gyflawni blaenoriaethau strategol yr adran, eu nodi yn yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol uchod. Caiff materion sy'n ymwneud â chyllid, archwilio, risg a sicrwydd eu trafod yn yr adrannau canlynol.

Mae Ofgem yn dilyn y model tair llinell amddiffyn a argymhellir gan Drysorlys EF ac a ddefnyddir ym mhob rhan o'r llywodraeth ganolog. Cyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Cyffredinol sy'n atebol am gynnal rheolaethau effeithiol o fewn gweithgareddau rheng gyntaf. Caiff hyn ei gefnogi a'i ategu gan brosesau goruchwylio, monitro a herio yn unol â threfniadau llywodraethu ar lefel portffolio a swyddogaethau corfforaethol canolog Ofgem. Mae swyddogaeth Archwilio Mewnol Ofgem, a ddarperir gan gyflenwyr allanol, yn rhoi sicrwydd pellach ynghylch effeithiolrwydd prosesau rheoli risg a rheolaeth fewnol. Gweler y fframwaith isod.




# Trefniadau Sicrwydd, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol yn 2025-26

Mae Ofgem yn mynd ati i reoli risg mewn ffordd bragmataidd sydd wedi'i diffinio'n glir, gan sicrhau y caiff risgiau eu nodi, eu deall a'u rheoli'n effeithiol. Mae rolau, cyfrifoldebau a threfniadau cymorth clir yn golygu y gellir rheoli risg yn gyson ac yn gymesur ar draws y sefydliad.

Mae trefniadau risg a sicrwydd yn rhoi cipolwg strwythuredig ar gryfderau allweddol Ofgem a'r cyfleoedd i wella, ac yn cefnogi atebolrwydd cryf. Drwy ffocws parhaus ac ymrwymiad arweinwyr, maent yn annog uwch-arweinwyr i osod y naws o'r brig ac ymgorffori ffyrdd ymgysylltiol ac atebol o weithio ar draws y sefydliad.

## Ffynonellau sicrwydd mewnol

Mae'r Fframwaith Sicrwydd yn rhoi golwg integredig o sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd sy'n defnyddio tystiolaeth gan dimau cyflawni llinell gyntaf ar ba mor effeithiol y caiff risgiau eu rheoli, wedi'i ategu gan oruchwyliaeth ail linell gan arweinwyr portffolio, swyddogaethau corfforaethol canolog a nifer bach o adolygiadau mewnol wedi'u targedu.Gyda'i gilydd, mae'r ffynonellau hyn yn cwmpasu holl Brif Risgiau Ofgem a themâu rheoli mewnol corfforaethol allweddol, gan gynnwys effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd.

- **Cydymffurfio â pholisïau corfforaethol:** Ar y cyfan, caiff polisïau corfforaethol eu deall yn dda a'u dilyn ar draws y sefydliad. Nodwyd nifer bach o achosion unigol o ddiffyg cydymffurfio, gan dynnu sylw at gyfleoedd i gryfhau eglurder perchnogaeth, trefniadau monitro, a hyfforddiant a chanllawiau ategol.
- **Rheolaethau sy'n ymwneud â Phobl a Diwylliant:** Mae adolygiadau o reolaethau mewnol sy'n ymwneud â risgiau Pobl a Diwylliant yn dangos bod trefniadau'n gweithio'n dda ar draws cyfarwyddiaethau ar y cyfan. Mae prosesau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad, ymgysylltu â chyflogeion a safonau ymddygiad, gyda chyfleoedd i wella cysondeb, yn enwedig o ran y nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant.
- **Rheoli Gwybodaeth a Llywodraethu Data:** Canfu adolygiadau fod strwythurau a pholisïau llywodraethu ar gyfer rheoli gwybodaeth a thrin data ar waith ac yn gweithredu yn ôl y bwriad yn gyffredinol. Mae arferion llinell gyntaf yn effeithiol ar y cyfan, er bod gwahaniaethau o ran aeddfedrwydd cyfarwyddiaethau yn tynnu sylw at gyfleoedd i gryfhau stiwardiaeth data a chysoni prosesau cymhwyso.
- **Rheolaeth Ariannol, Treuliau, a Chaffael:** Mae rheolaeth ariannol yn gryf o hyd, gyda chyllidebau'n cael eu rheoli o fewn y terfynau cymeradwy.Nododd gwaith sicrwydd wedi'i dargedu ar weithgarwch yn ymwneud â threuliau, teithio a chaffael, lefelau cydymffurfio da ar y cyfan, gan amlygu cyfleoedd i gryfhau rheolaethau ataliol a gwaith cynllunio mewn perthynas â chaffael ymhellach.
- **Risgiau Seiberddiogelwch, Gwydnwch, a Thechnoleg:** Mae trefniadau ar waith ar gyfer rheoli risgiau seiber a thechnoleg, gyda thystiolaeth o oruchwyliaeth reolaidd a chynllunio parhad busnes. Nodwyd rhai meysydd lle roedd trefniadau gweithredu a monitro anghyson, gan nodi cyfleoedd i wella sicrwydd a chryfhau gwydnwch.
- **Datgan buddiannau:** Mae prosesau goruchwylio achosion o wrthdaro buddiannau wedi'i hen sefydlu drwy'r broses ddatgan flynyddol ac maent bellach yn cael eu hatgyfnerthu drwy hyfforddiant gorfodol, gan roi mwy o sicrwydd ynghylch ymwybyddiaeth, cydymffurfiaeth a rheolaeth gyson achosion posibl o wrthdaro.

## Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth

Mae'n ofynnol i adrannau a chyrff hyd braich y Llywodraeth gydymffurfio â safonau swyddogaethol Swyddfa'r Cabinet. Mae Ofgem yn mabwysiadu dull strwythuredig o fodloni'r gofynion hyn, gyda phob safon swyddogaethol yn cael ei neilltuo i arweinydd gweithredol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y safon yn cael ei chymhwyso'n ymarferol. Cadarnhaodd arweinwyr gweithredol fod Ofgem wedi gweithredu yn unol â holl safonau swyddogaethol Swyddfa'r Cabinet drwy gydol y flwyddyn.

Yn ogystal ag asesiadau mewnol, adolygodd Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus gydymffurfiaeth â Safon Swyddogaethol y Llywodraeth 13: Gwrth-dwyll yn ystod 2025-26 a daeth i'r casgliad bod gennym rai arferion gweithredol da ond darparwyd argymhellion ar gyfer gwelliant pellach. Mae argymhellion o'r adolygiad hwn yn cael eu hadlewyrchu mewn cynllun gweithredu cryfach ar gyfer twyll ar gyfer 2026-27.

## Rheoli Risg

Mae trefniadau rheoli risg Ofgem yn darparu dull clir a pragmataidd o nodi a rheoli risgiau ar draws y sefydliad. Maent wedi'u cynllunio i sicrhau bod risgiau a allai effeithio ar gyflawni amcanion strategol neu effeithiolrwydd gweithredol yn cael eu nodi, eu deall a'u trin mewn ffordd gymesur.

Yn ystod y flwyddyn, diweddarwyd cofrestrau risg yn rheolaidd i adlewyrchu cyfrifoldebau datblygol Ofgem, ac i gryfhau'r ffordd y caiff risgiau eu nodi, eu monitro a'u lliniaru.

## Egwyddorion Llyfr Oren Trysorlys Ei Fawrhydi – Cydymffurfio neu Esbonio

Mae arferion rheoli risg Ofgem yn cydymffurfio'n llawn â phob un o 5 Egwyddor y Llyfr Oren.

| | |
|---|---|
| **Egwyddor A:**<br>**Bydd rheoli risg yn rhan hanfodol o lywodraethu ac arweinyddiaeth, ac yn hanfodol i'r ffordd y caiff y sefydliad ei gyfarwyddo a'i reoli ar bob lefel.** | Mae Egwyddor A yn ategu'r ffordd y caiff Ofgem ei gyfarwyddo a'i reoli ar bob lefel, ac mae Ofgem yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion. Mae trefniadau cadarn ar waith i adolygu, herio ac uwchgyfeirio risgiau Prif Risgiau a Risgiau Strategol i'r SEC a GEMA. Mae'r ARAC hefyd yn cynnal archwiliadau dwfn rheolaidd mewn perthynas â phrif risgiau a meysydd heriol.<br><br>Mae'r dull hwn yn cefnogi ymrwymiad Ofgem i dryloywder wrth annog camau i gymryd risgiau a reolir yn broffesiynol. Mae meysydd i'w gwella'n barhaus yn cynnwys ymgorffori'r dull hwn ymhellach ar draws y sefydliad a chynyddu pa mor aml y caiff asesiadau o effeithiolrwydd dulliau rheoli risg eu cynnal, gan helpu i sicrhau bod yr holl staff yn teimlo'n hyderus wrth godi risgiau a bod gwelliannau'n cael eu nodi'n gynnar. |
| **Egwyddor B:**<br>**Bydd rheoli risg yn rhan annatod o holl weithgareddau'r sefydliad i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau wrth gyflawni amcanion.** | Mae Ofgem yn cydymffurfio'n llawn ag Egwyddor B. Mae dulliau rheoli risg wedi'i hintegreiddio'n llawn yn y cylch cynllunio strategol, gan gysylltu risgiau â datblygu strategaeth, cynllunio gwaith a gosod cyllideb. Mae Byrddau Portffolio misol yn goruchwylio'r broses gyflawni ac yn canolbwyntio ar sicrhau cysondeb rhwng rheoli risg a pherfformiad.<br><br>Mae dull rheoli risg prosiectau uwch yn cael ei gyflwyno i gryfhau'r gwaith cysoni hwn ymhellach, gyda ffocws ar brosiectau blaenoriaeth (Haen 1). Wrth i'r dull hwn gael ei roi ar waith, bydd yn cefnogi prosesau i reoli Prif Risgiau yn fwy effeithiol |
| **Egwyddor C:**<br>**Bydd dulliau rheoli risg yn gydweithredol ac yn seiliedig ar y wybodaeth a'r arbenigedd gorau sydd ar gael.** | Mae Ofgem yn cydymffurfio'n llawn â'r egwyddor hon. Caiff risgiau eu hystyried yn rheolaidd gan GEMA, yr ARAC, yr SEC a'r Byrddau Portffolio, y mae pob un ohonynt yn cael adroddiadau risg rheolaidd ac yn neilltuo amser penodol i drafod risgiau. Mae archwiliadau dwfn o Brif Risgiau yn cynnig fforwm ar gyfer her adeiladol, gan gynnwys cyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol â Pherchnogion Prif Risgiau ar lefel yr SEC.<br><br>Un maes i'w wella'n barhaus yw datblygu llwyfan Ofgem ar gyfer rhoi gwybod am risg ymhellach, er mwyn gwella mynediad at ddata o ansawdd uchel a galluogi heriau mwy penodol – yn enwedig mewn perthynas ag effeithiolrwydd camau lliniaru a'r rhyngddibyniaethau rhwng risgiau |

| | |
|---|---|
| **Egwyddor D:**<br>**Bydd prosesau rheoli risg yn cael eu strwythuro er mwyn cynnwys y camau canlynol:**<br>**a. nodi ac asesu risgiau er mwyn pennu a blaenoriaethu sut y dylid rheoli'r risgiau;**<br>**b. dewis, dylunio a gweithredu opsiynau ar gyfer trin risgiau sy'n helpu i gyflawni canlyniadau bwriadedig a rheoli risgiau i lefel dderbyniol;**<br>**c. dylunio a gweithredu prosesau monitro risg integredig, craff a gwybodus;**<br>**d. prosesau amserol, cywir a defnyddiol ar gyfer rhoi gwybod am risgiau er mwyn gwella ansawdd penderfyniadau a chefnogi'r rheolwyr a chyrff goruchwylio i gyflawni eu cyfrifoldebau.** | Mae Ofgem yn cydymffurfio'n llawn ag Egwyddor D. GEMA sy'n pennu lefelau a themâu parodrwydd y sefydliad i dderbyn risg, gan alluogi perchnogion risg i roi camau lliniaru priodol ar waith a phenderfynu pryd mae angen uwchgyfeirio mater os na ellir cynnal risgiau o fewn y lefelau hynny. Caiff atebolrwyddau clir eu diffinio ar draws y strwythur llywodraethu, gan gynnwys perchnogaeth dros risgiau a pha mor aml y cynhelir adolygiadau.<br><br>Mae'r prosesau ar gyfer rhoi gwybod am risgiau yn gymesur â'r amlygiad i risg. Mae'r ARAC yn cael adroddiadau chwarterol ar Brif Risgiau, wedi'u hategu gan wybodaeth am risgiau strategol allweddol a'r camau gweithredu hanfodol sydd eu hangen i gadw risgiau o fewn y lefelau parodrwydd i dderbyn risg. Maent hefyd yn cynnal archwiliadau dwfn ar Brif Risgiau.<br><br>Mae'r SEC hefyd yn adolygu Prif Risgiau'n rheolaidd, ac mae Byrddau Portffolio yn cael adroddiadau risg misol, gan gynnwys risgiau strategol a gweithredol, ac unrhyw risgiau prosiect a uwchgyfeirir gan Fyrddau Cyflawni Prosiectau.<br><br>Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth am risgiau yn cael ei hystyried ar y lefel gywir ac ar yr amser cywir, gan gefnogi prosesau blaenoriaethu a gwneud penderfyniadau effeithiol ar draws y sefydliad. |
| **Egwyddor E:**<br>**Caiff dulliau rheoli risg eu gwella'n barhaus drwy ddysgu a phrofiad** | Mae Ofgem yn cydymffurfio'n llawn â'r egwyddor hon. Mae cynllun aeddfedrwydd risg amlflwyddyn yn cefnogi camau i wella'r gallu i reoli risg yn barhaus, gan gydnabod bod lefelau profiad ac arbenigedd yn amrywio ar draws rolau a graddau.<br><br>Mae ymrwymiad clir gan y sefydliad i ddatblygu, a gefnogir gan amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi, gan gynnwys cyrsiau risg achrededig a chyrsiau heb eu hachredu drwy gynllun Dysgu'r Gwasanaeth Sifil a gweithdai mewnol wedi'u targedu i gryfhau dealltwriaeth o barodrwydd i dderbyn risg, goddefiant risg a'r ffordd y cânt eu cymhwyso o fewn Ofgem. Yn unol â'r egwyddor hon, adolygwyd trefniadau rheoli risg Ofgem yn ystod 2025-26. |

Y flwyddyn hon, gwnaethom gyflwyno nifer o fesurau ychwanegol i roi prosesau rheoli risg cadarn ar waith ym mhob rhan o Ofgem, ac rydym wedi nodi'r gwelliannau mwyaf arwyddocaol isod:

- Profion Rheolaeth o'r Prif Risgiau: Datblygwyd rhaglen i adolygu a phrofi'r holl reolaethau sy'n gysylltiedig â'n prif risgiau. Bydd y rhaglen hon yn parhau i gael ei datblygu, gan arwain at adolygiad o'r rheolaethau.
- Cryfhau'r rheolaethau ar gyfer risg o dwyll: Rydym wedi datblygu prosesau goruchwylio uwch, rheolaethau canfod gwell wedi'u hysgogi gan ddata, a thynhau rheolaethau ataliol allweddol ar draws prosesau talu craidd. Gwnaethom adnewyddu ein hasesiad risg ar gyfer twyll, atgyfnerthu atebolrwydd clir dros berchnogaeth rheolaeth, a chynyddu ymwybyddiaeth staff drwy hyfforddiant wedi'i dargedu. Mae'r gwelliannau hyn yn sicrhau amgylchedd rheoli mwy cadarn, y gallu i weld

risgiau sy'n dod i'r amlwg yn well, a mwy o sicrwydd bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddiogelu.

- Rydym wedi cryfhau adnoddau yn y llinell gyntaf ac, o ganlyniad, rydym wedi gwella prosesau goruchwylio'r ail linell.
- Gwnaethom wella'r fformat ar gyfer rhoi gwybod am risgiau a chynnal archwiliadau dwfn o brif risgiau i gryfhau ymhellach y prosesau i oruchwylio'r camau lliniaru sy'n cael eu cymryd a'r cysylltiadau rhwng risgiau a gwneud penderfyniadau.
- Mae risg wedi'i hymgorffori'n fwy mewn gwaith cynllunio strategol, datblygiad y Flaenraglen Waith a'r gwaith o osod y gyllideb erbyn hyn.

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Bwrdd y newidiadau i barodrwydd Ofgem i dderbyn risg a chytuno arnynt. Parhaodd y parodrwydd hwn i gael ei gymhwyso i risgiau unigol, a rhoddwyd gwybod i'r Tîm Gweithredol am unrhyw risgiau y tu hwnt i hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu goruchwylio a'u rheoli'n briodol.

Isod ceir trosolwg o risgiau mwyaf sylweddol Ofgem a'r camau gweithredu allweddol a gymerwyd i'w rheoli a'u lliniaru:

## Prif Risgiau

### *Niwed i Ddefnyddwyr*

Rydym yn tanseilio ymddiriedaeth yn Ofgem a marchnadoedd drwy fethu â rhagweld niwed i ddefnyddwyr neu ymateb iddynt.

Rheolaethau/Cam Lliniaru

- Monitro perfformiad y diwydiant yn weithredol, ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr ac elusennau, a defnyddio data'n well i nodi niwed i ddefnyddwyr sy'n dod i'r amlwg
- Datblygu ein dull o reoleiddio sy'n seiliedig ar ganlyniadau a'n dull ar gyfer ymdrin â GSOPau, er mwyn sicrhau ein bod ni a'r sector yn canolbwyntio ar y materion sydd bwysicaf i ddefnyddwyr.
- Bwrw ymlaen â gwaith rheoleiddio i fynd i'r afael â niwed posibl i ddefnyddwyr, gan gynnwys gwaith ar fesuryddion deallus, cyfyngu llwythi a llwybrau dyled.
- Datblygu cyfundrefnau rheoleiddio newydd i ehangu mesurau diogelu defnyddwyr i sectorau newydd a rhai sy'n tyfu, gan gynnwys rhwydweithiau gwres, cyfunwyr, a TPIau.
- Gweithio gyda DESNZ ar bolisi pellach sydd ei angen i gau'r bylchau sy'n weddill mewn prosesau rheoleiddio rhwydweithiau gwres, gan gynnwys mesurau diogelu prisiau, GSoPau, dadfwndelu, a chymdeithasoli dyledion.
- Gweithgareddau cydymffurfio rhagweithiol i annog trwyddedai i gymryd camau cynnar i fynd i'r afael â niwed a risgiau i ddefnyddwyr, gan gymryd camau gorfodi cadarn yn ôl yr angen i gymell cydymffurfiaeth ac atal arferion gwael.

### *Sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr*

Mae ein cyfundrefn reoleiddio gyffredinol yn atal arloesedd a buddsoddiad, gan danseilio gallu marchnadoedd manwerthu i sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr.

Rheolaethau/Camau lliniaru

- Cyhoeddwyd Strategaeth Marchnadoedd Ofgem, wedi'i hategu gan gynllun cyflawni, a nododd fod Parodrwydd i Fuddsoddi ac Arloesedd yn flaenoriaethau allweddol i wella canlyniadau defnyddwyr yn y farchnad fanwerthu
- Cryfhawyd trefniadau llywodraethu mewnol, gan gynnwys Bwrdd Cyflawni Marchnadoedd misol wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol
- Ymhlith y ffrydiau gwaith allweddol mae'r canlynol:
    - Datblygu Strategaeth Dyledion, gan osod blaenoriaethau a chynlluniau i fynd i'r afael â dyledion ynni cynyddol.
    - Gwerthuso'r gyfundrefn cadernid ariannol, a fydd yn asesu sut mae newidiadau polisi diweddar yn gweithio ac a ydynt yn parhau i daro'r cydbwysedd cywir rhwng diogelu defnyddwyr a phroffidioldeb cyflenwyr.
    - Archwilio dyfodol mesurau diogelu prisiau i sicrhau y gellir ymdopi â heriau marchnad fanwerthu sy'n newid.
    - Cytuno ar ddull gweithredu a chamau blaenoriaeth Ofgem i alluogi Hyblygrwydd dan Arweiniad Defnyddwyr.

- Mynd ati i Ddiwygio'r Codau Ynni (ECR) fel eu bod yn gallu hwyluso arloesedd a gwerth i ddefnyddwyr yn well.

### *Cydnerthedd y sector ynni*

Mae'r fframwaith rheoleiddio presennol wedi cefnogi system ynni ddiogel a chadarn i Brydain Fawr. Fodd bynnag, wrth i'r system ynni esblygu, mae angen parhau i gryfhau ac addasu mesurau diogelwch a safonau rheoleiddiol i ysgogi cydnerthedd a chynnal diogeledd y cyflenwad i ddefnyddwyr.

Rheolaethau a Chamau Lliniaru

- I sicrhau bod ein seilwaith yn parhau i allu gwrthsefyll y seiberfygythiad cynyddol, rydym yn ehangu cwmpas, graddfa a soffistigedigrwydd ein gweithgarwch rheoleiddio seiber, gan adeiladu ar ein cyfrifoldebau presennol o dan Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018 (NIS). Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu o dan Strategaeth Seiberddiogelwch y Sector Ynni a gyhoeddwyd ym mis Mai, gan DESNZ, Ofgem, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, a NESO.
- Sefydlwyd Bwrdd Gwydnwch mewnol Ofgem o fis Rhagfyr 2025 a'r Hwb Gwydnwch o fis Ebrill 2026 sy'n creu darlun cydlynol o'r ffordd y mae Ofgem yn ymdrin â gwydnwch ynni ar draws y system, gan ddod â ffrydiau gwaith gwydnwch perthnasol yn Ofgem ynghyd i nodi meysydd lle ceir gorgyffwrdd, synergedd, tensiwn a bylchau.
- Cyfrannu at i Strategaeth Gwydnwch Ynni DESNZ o safbwynt diogelu defnyddwyr, i'w chyhoeddi yn yr hydref.
- Pennu llwybrau ariannu a dulliau gweithredu i liniaru Pwyntiau Methiant Effaith Uchel (HIPFau), ar y cyd â DESNZ a NESO.
- Parhau i roi ein safonau cadernid arianno0 ar waith I i hybu cadernid ariannol cyflenwyr ynni, ynghyd â monitro rhwydweithiau yn well o safbwynt ariannol
- Sefydlwyd dwy raglen waith newydd (ar y cyd â DESNZ a gweithredwyr y system) i ddeall risgiau tymor canolig i ddiogeledd y cyflenwad yn well a nodi'r ymyriadau sydd eu hangen i liniaru'r risgiau hyn.
- Lansiwyd Arolygiaeth Iechyd Asedau i ddarparu sicrwydd ychwanegol bod gweithredwyr rhwydweithiau yn cynnal gwydnwch eu rhwydweithiau yn briodol.

### *Perfformiad y Farchnad Ynni*

Bydd methiannau perfformiad a/ neu elw gormodol cwmnïau rhwydwaith yn arwain at sefyllfa lle bydd y cyhoedd yn colli hyder yng ngallu Ofgem i reoleiddio seilwaith ynni gan gael effaith andwyol ar ei enw da.

Rheolaethau/Cam Lliniaru

- Naratif cryf dros RIIO-3 ac achos dros fuddsoddi (byddai peidio â buddsoddi yn fwy niweidiol i ddefnyddwyr)
- Chwyddiant annisgwyl; yn gosod ymlaen drwy RIIO-3 ac ED3, gan wthio cwmnïau i fod yn ddarbodus mewn perthynas â gerio.
- Ymgorfforwyd rheolaethau effeithiol yn RIIO-2 a gaiff eu cryfhau yn RIIO-3/ED3
- Buddsoddi yn ein swyddogaeth monitro a chydymffurfiaeth ar gyfer rhwydweithiau, ac ystyried sut y gallai dull goruchwylio ychwanegu at hyn
- Adolygiad parhaus trylwyr o berfformiad ariannol ac allbwn cwmnïau rhwydwaith, gan ddwyn cwmnïau i gyfrif am fethu â chyflawni
- Dwyn cwmnïau rhwydwaith i gyfrif am gyflawniad amserol drwy fecanweithiau ASTI a quaRIIO-3, ac ar gyfer diwygio cysylltiadau
- Sefydlwyd partneriaeth deiran rhwng NCSC, Ofgem a DESNZ i gytuno ar rolau a chyfrifoldebau ac i ddatblygu strategaeth gydgysylltiedig.

### *Buddsoddi mewn Seilwaith*

Methu â galluogi buddsoddiad lle mae amser yn ystyriaeth allweddol mewn seilwaith i'r diwydiant i ddiwallu anghenion y system yn y dyfodol, blaenoriaethu a chyflymu buddsoddiadau yn y seilwaith angenrheidiol a'i adeiladu, gan arwain at oedi wrth gyflawni'r targed Sero Net.

Rheolaethau/Cam Lliniaru

- Rhoi cynlluniau hirdymor ar waith i arwain y ffordd y mae'r system ynni'n datblygu ledled Prydain Fawr, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

- Gweithio gyda'r llywodraeth a'r diwydiant i lunio diwygiadau i'r farchnad a sicrhau bod polisïau yn gyson.
- Diweddaru fframweithiau rheoleiddio i gefnogi buddsoddiad, diogelu defnyddwyr ac adlewyrchu anghenion ynni sy'n newid, gan gynnwys technolegau newydd fel hydrogen.
- Gwella'r gwaith o gynllunio a chyflawni seilwaith, gan gynnwys camau i gyflymu buddsoddiad a chryfhau cadwyni cyflenwi.
- Datblygu prosesau rheoleiddio rhwydweithiau yn y dyfodol, fel y gall rhwydweithiau trydan a nwy gefnogi'r trawsnewidiad i ynni adnewyddadwy mewn ffordd gydlynol.
- Gweithio gyda phartneriaid ar faterion strategol allweddol, megis diwygio'r farchnad drydan, cysylltiadau â'r grid, a chyflenwad nwy yn y dyfodol.
- Cynnal rhaglenni allweddol sy'n cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith ynni, gan gynnwys rhyng-gysylltwyr, storio am gyfnodau hir a phrosiectau mawr fel trawsyrru ar y môr a dal carbon.

### *Rheoleiddio arloesedd o ran seilwaith*

Methu â sefydlu ein fframweithiau rheoleiddiol, olrhain neu fanteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn technolegau ac arloesedd o ran asedau seilwaith neu ddigidoleiddio neu strwythurau'r farchnad.

Rheolaethau/Cam Lliniaru

- Datblygu fframwaith cydsyniad defnyddwyr cadarn ar gyfer rhannu data.
- Recriwtio/cadw arbenigwyr technoleg a buddsoddi mewn hyfforddiant ar dechnolegau newydd.
- Cyhoeddwyd canllawiau ar AI.
- Rhedeg Lab Rheoleiddio yn rheolaidd i brofi a datblygu canllawiau a datrysiadau arloesol.
- Datblygu'r set nesaf o ganllawiau AI, gan gynnwys canllawiau i ddefnyddwyr ar y cyd â rheoleiddwyr eraill a fydd yn destun ymgynghoriad.
- Datblygu fframwaith Rheoli Risg AI ("Cyfundrefn Monitro AI"), gan gynnwys canllawiau posibl erbyn mis Ebrill 2026.
- Diwygio meini prawf mynediad i'r ciw ar gyfer canolfannau data i gynnwys lefel uwch o aeddfedrwydd ar gyfer prosiectau ac ardoll ariannol ar y cam gwneud cais er mwyn atal mewnlifiad sylweddol o hapfuddsoddiadau.
- Cyflwyno Cynllun ar gyfer Canolfan Ddata'r Llywodraeth gyda chapiau rhanbarthol a thechnolegol.

### *Rhoi cynlluniau amgylcheddol a chymdeithasol ar waith*

Mae methu â rhoi cynlluniau cymdeithasol ac amgylcheddol ar waith yn effeithlon, yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n cydymffurfio yn arwain at ddiffyg diddordeb yn y cynlluniau, twyll, effaith andwyol ar enw da ac ymddiriedaeth yn y llywodraeth.

Rheolaethau/Cam Lliniaru

- Cytunir ar y strategaeth rheoli risg ar gyfer cynlluniau â'r cyrff cyllido ac mae'n gydnaws â strategaeth ehangach Ofgem er mwyn sicrhau bod ein hamcanion a'n nodau yn gyson. Ymgysylltir yn rheolaidd â'r cyrff cyllido ac mae DPAau ar waith er mwyn helpu i nodi materion posibl yn gynnar.
- Cynhelir cylch rheolaidd o adolygu a chymeradwyo cyllidebau â chyllidwyr, ac mae prosesau llywodraethu cadarn ar waith mewn perthynas ag unrhyw geisiadau i newid.
- Darperir hyfforddiant cadarn wedi'i deilwra er mwyn sicrhau y gall ein staff roi ein cynlluniau ar waith yn effeithiol, ac mae gweithdrefnau gweithredu safonol manwl ar waith a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd.
- Mae fframwaith risg a sicrwydd aeddfed a sefydledig ar waith ar gyfer cynlluniau. Mae hyn yn cynnwys prosesau llywodraethu ac uwchgyfeirio risgiau clir, trafodaethau rheolaidd am risg, gweithdai archwilio dwfn ar risgiau a materion strategol, ac mae rhaglen waith sicrwydd fewnol ar waith sy'n canolbwyntio ar y meysydd risg allweddol drwy gynnal archwiliadau dwfn rheolaidd. Ceir cylch chwarterol o waith sganio'r

gorwel hefyd er mwyn mynd ati'n rheolaidd i nodi bygythiadau a chyfleoedd yn gynnar a chefnogi gwydnwch.

- Ar gyfer prosiectau, newidiadau a chynlluniau newydd, mae trefniadau llywodraethu ar waith drwy swyddfa rheoli rhaglenni, mae cymorth cyfreithiol penodol ar gael i helpu i ymdrin â materion deddfwriaethol sensitif a chaiff Astudiaethau Dichonoldeb manwl eu cwblhau fel rhan o benderfyniadau i roi cynlluniau newydd ar waith, sy'n ein galluogi i fod yn hyderus ein bod yn gweinyddu'r cynlluniau yn effeithiol.

*Pobl a Diwylliant*

Ofgem yn methu â sefydlu ei hun fel cyflogwr dynamig, cynhwysol, sy'n perfformio'n ddar.

Rheolaethau/Cam Lliniaru

- Cynyddu a gwella ein cynnig dysgu a datblygu i sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol gennym i gyflawni ein cenhadaeth a chynnwys mwy o gyfleoedd dysgu "yn y swydd", secondiadau i'r diwydiant a sefydliadau eraill, a chyfleoedd ar gyfer datblygiad rheoli pellach.
- Fframwaith rheoli perfformiad newydd, a lansiwyd ym mis Ebrill 2026; mae hwn yn cynnwys mwy o gefnogaeth i reolwyr greu timau sy'n perfformio'n effeithiol.
- Yn dilyn achos cyflog hyblyg llwyddiannus, byddwn yn parhau i adolygu ein strategaeth wobrwyo i sicrhau y gallwn ddenu a chadw'r dalent sydd ei hangen i gyflawni ein cenhadaeth.
- Cynyddu'r defnydd o'r ardoll brentisiaethau yn Lloegr, a chynyddu gweithgarwch recriwtio yn Glasgow a Chaerdydd, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddatblygu gweithlu amrywiol a symudol yn gymdeithasol sy'n cynrychioli'r defnyddwyr rydym yn eu gwasanaethu.

## Barn Sicrwydd Archwilio Mewnol

Cwblhaodd ein Harchwilydd Mewnol, Forvis Mazars LLP, raglen y cytunwyd arni o adolygiadau archwilio mewnol yn ystod 2025-26. Datblygwyd y rhaglen drwy broses cynllunio archwilio mewnol seiliedig ar risg, a lywiwyd drwy ymgysylltu â rheolwyr Ofgem a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Ar sail ei waith archwilio, mae Forvis Mazars o'r farn bod y fframwaith llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth yn Gymedrol o ran ei ddigonolrwydd a'i effeithiolrwydd cyffredinol. Mae'r asesiad hwn yn adlewyrchu canfyddiadau'r gwaith a gwblhawyd yn 2025-26.

Er nad yw'r farn archwilio mewnol flynyddol wedi newid ers y flwyddyn flaenorol, mae'n bwysig nodi na roddwyd unrhyw farnau sicrwydd Cyfyngedig yn 2025-26, a rhoddwyd tair barn sicrwydd Sylweddol, o gymharu â dwy yn 2024-25, sy'n dangos tuedd gadarnhaol. Roedd gweddill y barnau sicrwydd ar gyfer y flwyddyn yn Gymedrol.

Tynnodd y gwaith archwilio sylw at rai gwendidau ac eithriadau. Ni chodwyd unrhyw ganfyddiadau â blaenoriaeth 'Uchel', ond codwyd cyfanswm o 19 o ganfyddiadau â blaenoriaeth 'Canolig'. Trafodwyd y materion hyn â'r rheolwyr, ac mae'r archwilwyr mewnol wedi gwneud sawl argymhelliad iddynt. Mae pob argymhelliad wedi cael ei roi ar waith, neu wrthi'n cael ei roi ar waith.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd tri archwiliad mewnol farn sicrwydd 'Sylweddol':

- Y Gronfa Arloesedd Strategol
- Strategaeth y Gweithlu
- Cydymffurfiaeth Manwerthwyr: Fframwaith Sganio'r Gorwel

Cafodd pob adolygiad archwilio mewnol arall a gwblhawyd farn sicrwydd 'Cymedrol'. Ni chyhoeddwyd unrhyw farnau sicrwydd Cyfyngedig nac Anfoddhaol yn ystod 2025-26.

Fodd bynnag, nododd y tîm archwilio mewnol nifer o wendidau rheoli a meysydd i'w gwella. Er na chodwyd unrhyw ganfyddiadau â blaenoriaeth uchel, adolygwyd cyfanswm o 35 o gamau gweithredu â blaenoriaeth ganolig fel rhan o weithgarwch dilynol 2025-26, gan gwmpasu camau gweithredu rheoli y cytunwyd arnynt yn flaenorol. Trafodwyd y materion hyn â'r rheolwyr, a chytunwyd ar argymhellion priodol. Mae pob cam gweithredu naill ai wedi cael ei roi ar waith neu wrthi'n cael ei roi ar waith, a chaiff cynnydd ei fonitro drwy drefniadau olrhain mewnol Ofgem.

Ymhlith y themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg o waith archwilio mewnol yn ystod 2025-26 roedd:

- **Disgyblaeth mewn perthynas â llywodraethu a dogfennaet,** gan gynnwys ansawdd llwybrau archwilio, eglurder cymeradwyaethau, a storio cofnodion allweddol yn ganologs;
- **Ymgorffori gwersi a ddysgwyd,** yn enwedig sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd o weithgarwch yn y gorffennol yn cael ei gofnodi a'i gymhwyso'n gyson;
- **Sicrwydd ynghylch rhoi camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith a'u cwblhau,** gyda gwaith dilynol yn cwmpasu meysydd megis uniondeb data, rheoli contractau, datganiadau o fuddiant, gweithgarwch gorfodi, ePMO, a REGO.

I'r gwrthwyneb, roedd meysydd o **arfer dda** yn amlwg yn yr archwiliadau a gafodd sicrwydd Sylweddol, gan gynnwys:

- **Dogfennaeth gynhwysfawr a gedwir yn dda,** wedi'i hategu gan ganllawiau a gweithdrefnau clir;
- **Trefniadau hyfforddi a sefydlu sefydledig** ar gyfer staff o fewn y cwmpas;
- **Strwythurau llywodraethu clir,** gyda rolau, cyfrifoldebau a mecanweithiau goruchwylio wedi'u diffinio.

Ym mis Rhagfyr 2024, cwblhawyd Asesiad Ansawdd Allanol (EQA) o Forvis Mazars yn unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod Forvis Mazars yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â safonau proffesiynol, sef y sgôr uchaf sydd ar gael. Yn unol â'r Safonau, mae canlyniadau'r EQA hwn yn parhau'n ddilys am gyfnod o bum mlynedd.

## Sicrhau Ansawdd modelau dadansoddol

Parhaodd Ofgem i gynnal prosesau sicrhau ansawdd mewn perthynas â gwaith dadansoddi'r adran. Mae hyn yn cynnwys helpu timau polisi i ddatblygu ac adolygu eu gwaith dadansoddi, gan gynnwys modelau sy'n allweddol i'r busnes, modelau eraill, gwerthuso, dadansoddi costau a manteision ac asesiadau effaith. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd Ofgem yn dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF yn ei adolygiad yn 2013. Mae hyn yn parhau i sicrhau bod gwaith dadansoddi Ofgem yn gywir, yn gadarn ac yn cyrraedd y safonau uchaf.

## Ansawdd y data a ddefnyddir gan y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod ansawdd y data y mae'n eu derbyn yn dderbyniol i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau. Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Bwrdd yn cael ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys data ariannol ac anariannol, metrigau perfformiad, a diweddariadau gweithredol. Cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd, mae papurau a dangosfyrddau perfformiad yn destun prosesau sicrhau ansawdd a gaiff eu goruchwylio gan gyfarwyddwyr gweithredol a thimau uwch-reolwyr. Gwneir gwelliannau parhaus i fformatau a metrigau adrodd i sicrhau bod y Bwrdd yn gallu cael gafael ar ddata perthnasol, amserol ac o ansawdd uchel i gefnogi ei broses gwneud penderfyniadau.

## Achosion mewnol o chwythu'r chwiban yn Ofgem

Mae gan Ofgem broses chwythu'r chwiban fewnol effeithiol i'r staff godi unrhyw bryderon chwythu'r chwiban ac mae'n cefnogi ein diwylliant lle mae cyflogeion yn teimlo'n hyderus i godi materion sy'n achos pryder mewn amgylchedd diogel a chefnogol. Mae ein polisi yn gyson â'r argymhellion a'r arferion da a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Sifil a Protect. Codwyd tri mater o dan y polisi hwn yn ystod y flwyddyn.

## Ceisiadau am wybodaeth a gohebiaeth

Rhaid i Ofgem hefyd gydymffurfio â gofynion statudol sy'n ymwneud â rhyddid gwybodaeth a cheisiadau am fynediad at ddata gan y testun, yn ogystal â rheoliadau gwybodaeth amgylcheddol (EIR). Yn 2025-26, ymatebodd Ofgem i 93% o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth/EIR naill ai erbyn y dyddiad cau gwreiddiol neu gyda nodyn estyniad a ganiatawyd. Ar gyfer am fynediad at ddata gan y testun, bodlonwyd y dyddiad cau 90% o'r amser ac ar gyfer gohebiaeth seneddol, 48% o'r amser.

## Cwynion i'r Ombwdsmon Seneddol

Derbyniwyd 47 o achosion lle cynhaliwyd ymchwiliad sylfaenol gan yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd yn ystod 2025-26, ac roedd 1 achos yn dal i fod ar agor ers y flwyddyn flaenorol. Ni chafodd unrhyw achosion eu cadarnhau'n rhannol nac yn llawn. Penderfynwyd peidio â chadarnhau 31 o achosion. Mae 16 o achosion lle cynhaliwyd ymchwiliad sylfaenol yn mynd rhagddynt o hyd yn 2026.

## Cydymffurfiaeth â Corporate Governance in Central Government Departments: Code of Good Practice

Mae cyfansoddiad y Bwrdd, strwythur yr is-bwyllgorau, y rheolaethau risg mewnol, a'r mecanweithiau adrodd yn cydymffurfio'n llawn â'r egwyddorion a'r canllawiau yn Corporate governance in central government departments: code of good practice. Caiff effeithiolrwydd y Bwrdd ei adolygu unwaith y flwyddyn, a chynhelir Adolygiad allanol o Effeithiolrwydd y Bwrdd o leiaf unwaith bob tair blynedd. Cynhaliodd Campbell Tickell adolygiad allanol ddiwedd 2024 a, thrwy gydol 2025, ymatebodd Ofgem i'r argymhellion a wnaed.

## Cyfarwyddydau gweinidogol

Ni chafodd Ofgem unrhyw Gyfarwyddydau Gweinidogol yn ystod 2025-26.

## Adolygiadau annibynnol

Fel y nodwyd yn yr Adroddiad ar Berfformiad, cyhoeddodd DESNZ ym mis Rhagfyr 2024 y byddai adolygiad yn cael ei gynnal o Ofgem, a chyhoeddwyd y canfyddiadau ym mis Ebrill 2026. Cynhaliwyd adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod 2024-25. Ceir rhagor o fanylion yn adroddiad y cyfarwyddwyr ar dudalen 45.

## Newid y Swyddog Cyfrifyddu

Jonathan Brearley oedd yn atebol am weithgareddau Ofgem tan 23 Mawrth 2026, a chefais fy mhenodi'n Brif Weithredwr Dros Dro ac ymgymryd â rôl y Swyddog Cyfrifyddu o'r dyddiad hwnnw. Yn seiliedig ar asesiad mewnol o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol hyd at 23 Mawrth 2026, cefais sicrwydd gan Jonathan Brearley i gefnogi fy nghasgliad ynglŷn ag effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn.

## Casgliad

Dywed Perchnogion Prif Risgiau fod ganddynt lefel uchel o hyder yn effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Ofgem, wedi'u hategu gan amrywiaeth o weithgareddau sicrwydd a monitro mewnol ac allanol ar draws meysydd risg allweddol y sefydliad.

Ar y cyfan, aseswyd bod sicrwydd ynghylch cydymffurfiaeth â pholisïau a phrosesau corfforaethol yn gymedrol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn dangos bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud, er gwaethaf llwyth gwaith cynyddol a blaenoriaethau cystadleuol. Cryfhaodd meysydd a aseswyd yn flaenorol fel rhai llai aeddfed o ran rheoli risg eu dull yn ystod y flwyddyn, gan arwain at fwy o gysondeb ar draws y sefydliad. Er bod lle i wella ymhellach o hyd, mae'r amgylchedd rheoli cyffredinol yn parhau i fod yn effeithiol.

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith am y flwyddyn dan sylw a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth sy'n cefnogi'r Datganiad Llywodraethu hwn, gan gynnwys sicrwydd o drefniadau llywodraethu'r adran, y sicrwydd a ddarparwyd gan Jonathan Brearley wrth drosglwyddo rôl y Swyddog Cyfrifyddu, a chyngor annibynnol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac Archwilio Mewnol. Ar y cyfan, rwyf yn fodlon bod Ofgem wedi rheoli ei risgiau yn effeithiol ac wedi gwella ei drefniadau sicrwydd yn ystod 2025-26, a dof i'r casgliad bod gan yr adran systemau llywodraethu a rheoli risg boddhaol ar waith.



**Tim Jarvis**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro
10 Gorffennaf 2026

# Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff

## Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol

### Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar sail teilyngdod a thrwy gystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi dan ba amgylchiadau y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall isod, mae'r swyddogion a gwmpesir yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored. Byddai terfynu penodiad yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn [www.civilservicecommission.org.uk](http://www.civilservicecommission.org.uk)

### Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol

Nodir cydnabyddiaeth ariannol pob un o'r cyflogeion yn eu contractau a chaiff ei hadolygu'n flynyddol yn unol â'r dyfarniadau y cytunwyd arnynt gan Swyddfa'r Cabinet ac, ar gyfer uwch-weision sifil, yn unol ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Ar wahân i'r Cadeirydd, mae pob un o'n huwch-gyflogeion yn aelodau parhaol o staff. Nid oes gan yr un ohonynt gyfnod rhybudd sy'n hwy na chwe mis.

Mae pob aelod o staff parhaol yr Uwch-dîm Arwain yn gymwys i fod yn rhan o'r.

cynllun bonws i Uwch-weision Sifil sy'n unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet. Mae'r bonws yn seiliedig ar berfformiad yr unigolyn. Mae taliadau bonws yn rhai ar wahân i gyflog ac nid ydynt yn bensiynadwy.

### Cydnabyddiaeth ariannol (gan gynnwys cyflog) a hawliadau pensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn nodi manylion am gydnabyddiaeth ariannol a buddiannau pensiwn y rheolwyr ar y lefel uchaf (h.y., aelodau'r Bwrdd) yn yr adran.

## Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol gyfan (Archwiliedig)

| | Cyflog (£000) 2025-26 | Cyflog (£000) 2024-25 | Taliadau Bonws (£000) 2025-26 | Taliadau Bonws (£000) 2024-25 | Buddiannau mewn da (i'r £00 agosaf) 2025-26 | Buddiannau mewn da (i'r £00 agosaf) 2024-25 | Buddiannau Pensiwn* (i'r £000 agosaf) 2025-26* | Buddiannau Pensiwn* (i'r £000 agosaf) 2024-25* | Cyfanswm (£000) 2025-26 | Cyfanswm (£000) 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodau'r Uwch-bwyllgor Gweithredol – SEC** | | | | | | | | | | |
| Jonathan Brearley (nodyn 1) | 205-210 | 205-210 | 10-15 | 5-10 | - | - | 41,000 | 94,000 | 260-265 | 310-315 |
| Melinda Johnson (nodyn 2) | 370-375 | 190-195 | - | 0-5 | - | - | 12,000 | 149,000 | 380-385 | 340-345 |
| Tim Jarvis (nodyn 3) | 150-155 | 145-150 | 10-15 | 5-10 | - | - | 47,000 | 138,000 | 210-215 | 290-295 |
| Akshay Kaul | 155-160 | 150-155 | - | 5-10 | - | - | 60,000 | 59,000 | 215-220 | 215-220 |
| Neil Lawrence | 160-165 | 155-160 | - | 0-5 | - | - | 62,000 | 61,000 | 225-230 | 215-220 |
| Neil Kenward | 140-145 | 135-140 | 10-15 | 10-15 | - | - | 51,000 | 151,000 | 205-210 | 300-305 |
| Priya Brahmbhatt-Patel | 140-145 | 135-140 | 10-15 | 10-15 | - | - | 52,000 | 143,000 | 205-210 | 290-295 |
| Sinead Murray (nodyn 4) | 140-145 | 140-145 | 10-15 | 10-15 | - | - | 33,000 | 118,000 | 185-190 | 270-275 |
| Jonathan Curtiss | 60-65 | - | - | - | - | - | 16,000 | - | 75-80 | - |
| **Aelodau anweithredol yr Awdurdod** | | | | | | | | | | |
| Mark McAllister (Cadeirydd) | 170-175 | 170-175 | - | - | - | - | - | - | 170-175 | 170-175 |

*Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) a (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu leihad sydd i'w briodoli i drosglwyddo hawliau pensiwn.

Mae bonysau yn seiliedig ar lefelau perfformiad a gyrhaeddir fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad yr Uwch Wasanaeth Sifil a osodir yn ganolog gan Swyddfa'r Cabinet. Mae bonysau yn gysylltiedig â pherfformiad yn ystod y flwyddyn pan ddônt yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau yr adroddwyd arnynt yn 2025-26 yn gysylltiedig â pherfformiad yn 2024-25 ac mae'r bonysau cymharol yr adroddwyd arnynt yn 2024-25 yn gysylltiedig â pherfformiad yn 2023-24. Mae lefelau bonws ar gyfer Cyfarwyddwyr yn cael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol Ofgem.

Nodyn 1: Gadawodd Jonathan Brearley Ofgem ar 23 Mawrth 2026. Y cyflog blwyddyn lawn cyfatebol yw £205,000-£210,000.

Nodyn 2: Gadawodd Melinda Johnson Ofgem ar 7 Tachwedd 2025. Y cyflog sylfaenol blwyddyn lawn cyfatebol ar gyfer 2025-26 yw £195,000-£200,000. Ceir gwybodaeth am iawndal am golli swydd ar dudalen 73; ynghyd â chyflog pro rata sylfaenol o £115,000 i £120,000, mae hyn yn dod â'r cyflog a gofnodwyd yn 2025-26 i £370,000-£375,000 a'r cyfanswm i £380,000-£385,000.

Nodyn 3: Daliodd Tim Jarvis rôl Cyfarwyddwr Cyffredinol, Marchnadoedd hyd nes iddo gael ei benodi'n Brif Swyddog Gweithredol dros dro o 25 Mawrth 2026, gyda chyflog blwyddyn lawn cyfatebol o £185,000-£190,000.

Nodyn 4: Mae ffigur buddiannau pensiwn Sinead Murray ar gyfer y flwyddyn flaenorol wedi'i ailddatgan. Mae hyn yn adlewyrchu cywiriad i gyfrifiad gwerth y pensiwn cronedig a gofnodwyd yn flaenorol. Mae'r ffigur ailddatganedig yn cynyddu'r buddiannau pensiwn a ddatgelwyd ar gyfer 2024-25 £23,000, gydag addasiad cyfatebol i gyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol. Dangosir CETV 2024-25 ar dudalen 71.

Penodwyd Jonathan Curtiss yn Brif Swyddog Gweithredu dros dro o 3 Tachwedd 2025. Mae'r symiau a ddatgelir yn y tabl yn ymwneud â'r cyfnod o'r penodiad hyd at 31 Mawrth, gyda chyflog blwyddyn lawn cyfatebol o £145,000-£150,000.

## Cydnabyddiaeth ariannol aelodau anweithredol eraill o'r Awdurdod (Archwiliedig)

| | Honorariwm 2025-26 | Lwfans 2025-26 | Honorariwm 2024-25 | Lwfans 2024-25 |
|---|---|---|---|---|
| Myriam Madden | - | £0 | £20,000 | £3,000 |
| Barry Panayi | £20,000 | £0 | £20,000 | £0 |
| Warren Buckley | £20,000 | £3,000 | £20,000 | £3,000 |
| Tony Curzon Price | £20,000 | £0 | £20,000 | £0 |
| Jonathan Kini | £20,000 | £0 | £20,000 | £0 |
| Alena Kozakova | £20,000 | £0 | £20,000 | £0 |
| Graham Mather | £20,000 | £0 | £20,000 | £0 |
| Nick Winser | £20,000 | £0 | N/A | N/A |
| John Crackett | - | - | £1,720 | £0 |

Daeth cyfnod Myriam Madden yn ei swydd i ben ar 31 Mawrth 2025. Y ffigur cyfatebol blynyddol yw honorariwm o £20,000 a lwfans o £3,000.

Penodwyd Nick Winser i'r bwrdd ar 1 Ebrill 2025, ar ôl gwasanaethu fel cynghorydd i'r bwrdd yn y gorffennol.

Daeth cyfnod John Crackett yn ei swydd i ben ar 1 Ebrill 2024. Y ffigur cyfatebol blynyddol oedd honorariwm o £20,000 a lwfans o £0.

## Cydnabyddiaeth ariannol aelodau'r Panel Penderfyniadau Gorfodi (EDP) (Archwiliedig)

| | 2025-26 (£000) | 2024-25 (£000) |
|---|---|---|
| Megan Forbes | 0-5 | 0-5 |
| Peter Hinchliffe | 0-5 | 10-15 |
| Dr Ulrike Hotopp | 0-5 | 5-10 |
| Ali Nikpay | 0-5 | 0-5 |
| Andrew Ellam | 5-10 | 0-5 |
| Juliet Lazarus | 0-5 | 5-10 |
| David Ashbourne | 15-20 | 15-20 |
| Ann Pope | 5-10 | - |
| Frances Warburton | 0-5 | - |
| Lesley Halliday | 0-5 | - |
| Andrew Taylor | 0-5 | - |

Daeth cyfnod yr aelodau canlynol ar yr EDP i ben: Ali Nikpay ar 12 Mawrth 2025; Juliet Lazarus ar 1 Mai 2025; Megan Forbes ar 9 Ebrill 2025 ac Ulrike Hotopp ar 21 Ionawr 2026.

Ymunodd yr aelodau canlynol â'r EDP: Ann Pope ar 29 Ebrill 2025; Frances Warbuton ar 30 Mehefin 2025; Lesley Halliday ar 30 Mehefin 2025 ac Andrew Taylor ar 15 Medi 2025.

Mae'r Panel Penderfyniadau Gorfodi yn gweithredu ag awdurdod dirprwyedig gan yr Awdurdod; felly, caiff aelodau'r Panel eu penodi fel cyflogeion Ofgem.

Caiff aelodau'r Panel eu penodi am gyfnodau sy'n amrywio rhwng 3 blynedd a 5 mlynedd. Disgwylir iddynt ymrwymo cyfanswm o ryw 25 diwrnod y flwyddyn, gan ddibynnu ar nifer yr achosion dan sylw. Caiff yr aelodau gydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar yr oriau a weithir (ond gan ennill o leiaf £5,000 y flwyddyn ar sail blwyddyn lawn). Fel cyflogeion, mae aelodau'r Panel yn ymuno â chynllun pensiwn Alpha'r Gwasanaeth Sifil yn awtomatig (gyda'r opsiwn i optio allan). Nid oes unrhyw ofynion o ran isafswm enillion i fod yn aelod o gynllun pensiwn Alpha.

Yn ogystal â'r gydnabyddiaeth ariannol a ddangosir yn y tabl uchod, i'r £000 agosaf, cafodd Juliet Lazarus fuddiannau pensiwn o £dim (2024-25: £2,000), a chafodd David Ashbourne fuddiannau pensiwn o £ dim (2024-25: £6,000).

## Cyflog

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros; goramser; lwfansau swyddi preifat; ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n drethadwy yn y DU. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan yr Adran ac fel y'u cofnodir yn y cyfrifon hyn.

## Buddiannau mewn da

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddiannau a ddarperir gan yr Adran ac a gaiff eu trin gan Cyllid a Thollau EF yn dâl trethadwy.

## Bonysau (archwiliedig)

Mae bonysau yn seiliedig ar lefelau perfformiad a gyrhaeddir a chânt eu rhoi fel rhan o'r broses arfarnu.

Mae bonysau yn gysylltiedig â pherfformiad yn ystod y flwyddyn pan ddônt yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r bonysau perfformiad diwedd blwyddyn a dalwyd yn 2025-26 yn ymwneud â pherfformiad yn 2024-25, ac mae'r bonysau cymharol a dalwyd yn 2024-25 yn ymwneud â'r perfformiad yn 2023-24. Yn 2025-26, roedd 2,051 o staff (2024-25: 1,663 o staff) a dderbyniodd fonws yn ystod y flwyddyn a/ neu ar ddiwedd y flwyddyn. Y taliad bonws cyfartalog oedd £1,141 (2024-25: £1,169), ac roedd y cyfanswm a dalwyd mewn bonysau yn cyfateb i £2,339,737 (2024-25: £1,944,292). Dau unigolyn a gafodd y cyfanswm taliad bonws mwyaf, sef £12,500 (2024-25: un unigolyn a gafodd y bonws mwyaf, sef £10,590).

## Lluosrifau cyflog (archwiliedig)

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol chwartel isaf, ganolrifol a chwartel uchaf gweithlu'r sefydliad. Cydnabyddiaeth ariannol blwyddyn lawn gyfatebol wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26 oedd £220,000-£225,000 (2024-25: £215,000-£220,000); mae hyn yn cynrychioli newid % o 2.41% mewn cyflog (£207.5k i £212.5k) a newid % o 66.67% mewn bonws (£7.5k i £12.5k). Nid yw cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys taliadau diswyddo (Fair pay disclosures application guidance).

Mae'r tabl isod yn dangos cymarebau canolbwynt cydnabyddiaeth ariannol wedi'i bandio'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf, i ffigurau tâl a buddiannau'r cyflogeion y mae eu tâl a'u buddiannau ar 25ain, 50ain a 75ain canradd cyflogeion Ofgem (nodyn 1).

| | Cymhareb Tâl y 25ain Ganradd (Chwartel Isaf) | Cymhareb Tâl y 50ain Ganradd (Canolrif) | Cymhareb Tâl y 75ain Ganradd (Chwartel Uchaf) |
|---|---|---|---|
| 2025-26 | 6.11:1 | 4.39:1 | 3.40:1 |
| 2024-25 | 6.14:1 | 4.39:1 | 3.40:1 |

Mae'r cymarebau cyflog wedi aros yn sefydlog neu wedi lleihau o gymharu â 2024-25. Gellir priodoli hyn i'r cynnydd cyffredinol mewn cyflogau a buddiannau i gyflogeion Ofgem yr ystyrir ei fod ar y cyfan yn uwch na'r cynnydd o ran cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf.

Mae cyfanswm tâl a buddiannau 2025-26, ac elfen cyflog cyfanswm tâl a buddiannau, y cyflogeion ar y 25ain, 50ain a 75ain canradd wedi'u nodi isod (nodyn 1):

| | 25ain Ganradd (Chwartel Isaf) £ | 50ain Ganradd (Canolrif) £ | 75ain Ganradd (Chwartel Uchaf) £ |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm tâl a buddiannau 2025-26 | 36,855 | 51,303 | 66,148 |
| Cyfanswm tâl a buddiannau 2024-25 | 35,036 | 49,015 | 63,318 |
| Elfen cyflog cyfanswm tâl a buddiannau 2025-26 | 35,232 | 50,748 | 62,699 |
| Elfen cyflog cyfanswm tâl a buddiannau 2024-25 | 34,350 | 47,895 | 61,446 |

Yn 2025-26, cafwyd cynnydd o 2024-25 yng nghyflog a lwfansau blwyddyn lawn cyfatebol y cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf. Y newid canrannol cyfartalog o 2024-25 yng nghyflog a lwfansau cyflogeion Ofgem yn gyffredinol oedd cynnydd o 4.45%, ac yn y tâl a'r bonysau perfformiad a oedd yn daladwy, cynnydd o 18.39%.

Yn 2025-26, ni chafodd unrhyw un (2024-25: dim) o gyflogeion Ofgem gydnabyddiaeth ariannol a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf (ac eithrio iawndal am golli swydd).

Roedd cydnabyddiaeth ariannol cyflogeion yn amrywio o £25,854 i £220,000 - £225,000 (2024-25: £20,000 i £215,000 - £220,000).

Nodyn 1: Cyfanswm y dyfarniad cyflog ar gyfer graddau dirprwyedig yn 2025-26 yw 4.95%. O'r cyfanswm, mae 3.25% wedi'i dalu i staff cymwys. Mae 1.7% ychwanegol wedi'i gronni ond ni chytunwyd ar y dosbarthiad ar draws staff a graddau unigol eto, felly nid yw wedi'i adlewyrchu wrth gyfrifo'r chwarteli cyflog. Mae'r dadansoddiad o chwarteli felly'n seiliedig ar gyflogau ar 31 Mawrth 2026. Unwaith y cytunir ar hyn, bydd y dyfarniad cyflog terfynol yn effeithio ar gydnabyddiaeth ariannol staff mewn cyfnodau yn y dyfodol.

## Buddiannau Pensiwn (Archwiliedig)

| | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31/3/26 a chyfandaliad cysylltiedig (£000) | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn (£000) | CETV ar 31/3/26 (£000) | CETV ar 31/3/25* (£000) | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV (£000) |
|---|---|---|---|---|---|
| Jonathan Brearley | 60 - 65 ynghyd â chyfandaliad o 130 - 135 | 2.5 - 5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 1,300 | 1,207 | 15 |
| Melinda Johnson | 65 - 70 | 0 - 2.5 | 1,429 | 1,393 | 0 |
| Tim Jarvis | 65 - 70 | 2.5 - 5 | 1,348 | 1,238 | 32 |
| Akshay Kaul | 30 - 35 | 2.5 - 5 | 441 | 378 | 39 |
| Neil Kenward | 55 -55 ynghyd â chyfandaliad o 115 - 120 | 2.5 - 5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 1,082 | 987 | 34 |
| Neil Lawrence | 15 - 20 | 2.5 - 5 | 253 | 195 | 40 |
| Priya Brahmbhatt Patel | 50 - 55 | 2.5 - 5 | 901 | 822 | 28 |
| Sinead Murray** | 55 -60 ynghyd â chyfandaliad o 75 - 80 | 0 - 2.5 ynghyd â chyfandaliad o 0 | 1,078 | 1,008 | 15 |
| Jonathan Curtiss | 5 -10 | 0 - 2.5 | 119 | 99 | 11 |
| Juliet Lazarus | 0 - 5 | 0 - 2.5 | 3 | 3 | 0 |

*Gan ystyried chwyddiant, mae'r CETV a ariennir gan y cyflogwr wedi lleihau mewn termau real.

Mae buddiannau pensiwn unrhyw aelodau yr effeithiwyd arnynt gan rwymedi pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus a gofnodwyd yn 2022-23 yn seiliedig ar aelodaeth o alpha ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 wedi cael eu cofnodi ers 2023-24 yn seiliedig ar aelodaeth o PCSPS ar gyfer yr un cyfnod.

** Mae buddiannau pensiwn Sinead Murray ar gyfer 2024-25 wedi'u hail-ddatgan, fel y gwelir yn nodyn 4 ar dudalen 67.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd wedi'i rannu'n sawl adran wahanol – classic, premium, a classic plus sy'n darparu buddiannau ar sail cyflog terfynol, ond mae nuvos yn darparu buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n rhoi buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa. Mae bron bob gwas sifil newydd ei benodi, a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes yn weision sifil, yn rhan o alpha. Cynlluniau statudol nas ariennir yw PCSPS ac alpha. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, gan ddibynnu ar gyflog). Caiff

balans cost y buddiannau sy'n cael eu talu ei dalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff y pensiynau sy'n cael eu talu eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn hytrach na'r trefniadau buddiannau diffiniedig, gall cyflogeion ddewis pensiwn cyfraniadau diffiniedig â chyfraniad gan y cyflogwr, sef y cyfrif pensiwn partneriaeth. Yn alpha, mae'r pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, a chaiff y cyfanswm a gronnir ei addasu bob blwyddyn yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (gohirio) i ddarparu cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004. Cafodd buddiannau PCSPS pob aelod a newidiodd i alpha o PSCPS eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael eu buddiannau yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.

Y pensiynau cronedig a nodir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu'n hŷn na hynny. Chwe deg yw'r oedran pensiwn arferol ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 oed ar gyfer aelodau nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, i aelodau alpha. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Lle mae gan aelod fuddiannau yn y PCSPS ac alpha, mae'r ffigurau yn dangos gwerth cyfun ei fuddiannau yn y ddau gynllun ond noder y gall rhannau cyfansawdd y pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau. Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau a oedd eisoes yn rhan o'r cynllun yn wahanol yn seiliedig ar eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn o'r PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i alpha. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod trefniadau trosiannol cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau. O ganlyniad, mae camau yn cael eu cymryd i unioni'r diwygiadau hynny a wnaed yn 2015, er mwyn sicrhau bod darpariaethau cynlluniau pensiwn yn deg i bob aelod. Mae rhwymedi pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys dwy ran. Yn sgil y rhan gyntaf, caeodd y PCSPS ar 31 Mawrth 2022, a daeth pob aelod gweithredol yn aelod o alpha o 1 Ebrill 2022. Mae'r ail ran yn dileu'r achos o wahaniaethu ar sail oedran ar gyfer cyfnod y rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i'r PCSPS ar 1 Hydref 2023. "Dirwyn y broses yn ôl" yw'r enw am hyn. I aelodau sydd o fewn cwmpas rhwymedi pensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus, mae cyfrifiad eu buddiannau at ddiben cyfrifo eu Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod a'u cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol gyfan, ar 31 Mawrth 2025 a 31 Mawrth 2026, yn adlewyrchu'r ffaith bod aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 wedi cael ei dirwyn yn ôl i'r PCSPS. Er y bydd aelodau yn cael opsiwn maes o law i benderfynu a ddylai'r cyfnod hwnnw gyfrif tuag at fuddiannau PCSPS neu alpha, mae'r ffigurau'n dangos y sefyllfa ar ôl dirwyn y broses yn ôl h.y., buddiannau PCSPS ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Ar gyfer 2025-26, roedd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £31,211,648 yn daladwy i'r PCSPS (2024-25: £29,563,560) ar gyfradd o 28.97% o'r enillion pensiynadwy. Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiynau cyfraniadau diffiniedig sy'n rhan o ymddiriedolaeth Legal & General Master. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Talwyd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £393,398 (2024-25: £383,603) i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Nid oes angen i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, telir cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall, £15,699 (2024-25: £15,348) o gyflog pensiynadwy i gwmpasu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch). Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Mae costau staff yn cynnwys croniad ar gyfer dyfarniad cyflog nad yw'n derfynol ar y dyddiad adrodd (gweler nodyn 1 ar dudalen 70). Mae datgeliadau pensiwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan y cynllun pensiwn ac maent yn adlewyrchu cyflog pensiynadwy a gydnabyddir

ar 31 Mawrth. O ganlyniad, nid yw'r dyfarniad cyflog cronedig yn cael ei adlewyrchu mewn ffigurau buddiannau pensiwn.

Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £73,999 (2024-25: £52,780). Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw (2024-25: dim).

Ni wnaeth neb (2024-25: neb) ymddeol yn gynnar oherwydd salwch; ni chronnwyd unrhyw rwymedigaethau pensiwn ychwanegol yn ystod y flwyddyn (2024-25: dim).

### Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yw'r gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd o fuddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo. Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETVau yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

Cyfrifir CETVau yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

### Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin prisio'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Iawndal am golli swydd (Archwiliedig)

Gadawodd Melinda Johnson o dan delerau Ymadael Gwirfoddol ar 7 Tachwedd 2025. Cafodd daliad iawndal o £252,983.56.

# Adroddiad Staff

## Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (archwiliedig)

Roedd nifer y staff cyfwerth ag amser cyflawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Staff a gyflogir yn barhaol 2025-26 (Cyfwerth ag amser llawn) | Eraill 2025-26 (Cyfwerth ag amser llawn) | Cyfanswm 2025-26 (Cyfwerth ag amser llawn) | Cyfanswm 2024-25 (Cyfwerth ag amser llawn) |
|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio | 909 | 40 | 949 | 899 |
| Cyflawni a Chynlluniau | 689 | 34 | 723 | 749 |
| Gwasanaethau Corfforaethol a Chanolog | 523 | 72 | 595 | 599 |
| **Total** | **2,121** | **146** | **2,267** | **2,247** |

Roedd cyfartaledd o 102 (2024-25: 98) o bobl cyfwerth ag amser cyflawn yng ngradd yr Uwch Wasanaeth Sifil yn ystod y flwyddyn. O'u plith, roedd 76 (2024-25: 72) ym mand cyflog 1, 23 (2024-25: 22) ym mand cyflog 2, a 4 (2024-25: 4) ym mand cyflog 3.

Mae ffigurau cymharol ar gyfer nifer cyfartalog y bobl a gyflogwyd yn 2024-25 wedi'u hailddatgan o sail cyfrif pennau (2,276) i sail cyfwerth ag amser llawn (FTE) (2,247).

## Costau staff (archwiliedig)

Mae costau staff yn cynnwys:

| | Staff a gyflogir yn barhaol 2025-26 (£000) | Eraill 2025-26 (£000) | Cyfanswm 2025-26 (£000) | Cyfanswm 2024-25 (£000) |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 113,278 | 15,533 | 128,811 | 119,562 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 15,466 | 736 | 16,202 | 12,356 |
| Costau pensiwn eraill | 30,492 | 1,452 | 31,944 | 29,358 |
| Costau staff eraill | 205 | - | 205 | 177 |
| Ardoll Brentisiaethau (gwariant treth) | 587 | - | 587 | 539 |
| **Cyfanswm** | **160,028** | **17,721** | **177,749** | **161,992** |

## Gwariant ar wasanaethau ymgynghori

Ein gwariant ar wasanaethau ymgynghori yn 2025-26 oedd £5.2 miliwn, yn unol â nodyn 3 o'r cyfrifon (2024-25: £8.7 miliwn). Yn unol â disgwyliadau'r Canghellor, rydym wedi cyflwyno rheolaethau i sicrhau mai dim ond lle y cafodd ei herio ac yr ystyriwyd ei fod yn hanfodol y caiff arian ei wario. Rydym yn ceisio lleihau ein dibyniaeth ar gymorth allanol drwy gynnal ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu ar gyfer y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein strategaeth. Rydym yn parhau i ddefnyddio cymorth gwasanaethau proffesiynol i gael gafael ar arbenigwyr sy'n rhoi cyngor proffesiynol neu gyfreithiol mewn perthynas â chyflawni ein portffolio o waith, yn ogystal â'r rhai sy'n rhoi cymorth cyflawni arbenigol lle nad yw'n ddarbodus cynnal yr arbenigedd hwn yn fewnol.

## Penodeion nad ydynt ar y gyflogres

Ymrwymiadau o ran gweithwyr nad ydynt ar y gyflogres y telir symiau uchel iddynt ar 31 Mawrth 2026, sy'n ennill £245 (nodyn 1) neu fwy fesul diwrnod:

| | Nifer |
|---|---|
| Nifer yr ymrwymiadau presennol ar 31 Mawrth 2025 | - |
| O'u plith, y nifer a oedd yn bodoli: | |
| am lai na blwyddyn | - |
| rhwng blwyddyn a dwy flynedd | - |
| rhwng dwy a thair blynedd | - |
| rhwng tair a phedair blynedd | - |
| am bedair blynedd neu fwy | - |

Pob gweithiwr nad yw ar y gyflogres y telir swm uchel iddo a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026, sy'n ennill £245 neu fwy fesul diwrnod:

| | Nifer |
|---|---|
| Nifer y gweithwyr dros dro nad ydynt ar y gyflogres (nodyn 2) a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 | - |
| O'u plith: | |
| Nid oeddent yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres | - |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac yn cael eu hystyried o fewn cwmpas IR35 | - |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac yn cael eu hystyried o fewn cwmpas IR35 | - |
| Nifer yr ymrwymiadau a ailaseswyd at ddiben cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | - |
| O'u plith: Nifer yr ymrwymiadau a welodd newid i statws IR35 ar ôl yr adolygiad | - |

Ar gyfer unrhyw ymrwymiad o ran aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026:

| | Nifer |
|---|---|
| Nifer ymrwymiadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol | - |
| Cyfanswm nifer yr unigolion sydd ar y gyflogres ac nad ydynt ar y gyflogres y tybiwyd eu bod yn 'aelodau'r bwrdd, a /neu'n uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol' yn ystod y flwyddyn ariannol | 3 |

Nodyn 1: Mae'r trothwy £245 wedi'i bennu i fod yn agos at bwynt isaf y raddfa gyflog ar gyfer Uwch Was Sifil.

Nodyn 2: Bydd gweithiwr sy'n darparu ei wasanaethau drwy ei gwmni cyfyngedig ei hun neu fath arall o gwmni cyfryngol i'r cleient yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres, a rhaid i'r endid gynnal asesiad i benderfynu a yw'r gweithiwr hwnnw o fewn cwmpas deddfwriaeth cyfryngwyr (IR35) neu y tu allan i'r cwmpas hwnnw at ddibenion treth.

## Adrodd ar gynlluniau'r gwasanaeth sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael (archwiliedig)

| Band costau pecyn ymadael | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol 2025-26 | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt 2025-26 | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau 2025-26 | Nifer y swyddi a ddilëwyd yn orfodol 2024-25 | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt 2024-25 | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band costau 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| <£10,000 | - | 4 | 4 | - | - | - |
| £10,000-£25,000 | - | 10 | 10 | - | - | - |
| £25,000-£50,000 | - | 3 | 3 | - | - | - |
| £50,000-£100,000 | - | 4 | 4 | - | 4 | 4 |
| £100,000-£150,000 | - | - | - | - | - | - |
| £150,000-£200,000 | - | - | - | - | - | - |
| £200,000-£250,000 | - | 1 | 1 | - | - | - |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | - | 22 | 22 | - | 4 | 4 |
| Cyfanswm £000 | - | 958 | 958 | - | 323 | 323 |

Talwyd costau dileu swyddi a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (CSCS), cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau Pensiwn 1972. Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd iddynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2025-26 (nodir ffigurau cymharol 2024-25 hefyd).

Caiff cytundebau setlo eu hystyried ar wahân i daliadau ymadael a wneir o dan Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (CSCS).

Yn ystod y flwyddyn, ymrwymodd Ofgem i un cytundeb setlo â chyfanswm gwerth o £65k (2024-25: £65k). Mae'r taliad y tu allan i'r CSCS a rhoddwyd cyfrif amdano yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar reoli arian cyhoeddus. Roedd y taliad yn ymwneud â setliad y daethpwyd iddo yn dilyn cymod ym mis Gorffennaf 2025, er mwyn datrys hawliad posibl a oedd yn gysylltiedig â chymeradwyaeth briodol yn unol â therfynau awdurdod dirprwyedig. Lle y bo angen, ceisiwyd cymeradwyaeth gan Drysorlys EF. Mae Ofgem yn fodlon bod y taliadau hyn yn cynrychioli gwerth am arian, gan ystyried y cyngor cyfreithiol a gafwyd, y risgiau ynghlwm â mynd ati i ymgyfreitha, a'r costau cysylltiedig y byddai'r adran wedi mynd iddynt fel arall. Nid oes unrhyw daliadau diswyddo sydd wedi'u cynnwys yn y datgeliad hwn wedi'u cynnwys yn nhabl pecyn ymadael CSCS a ddangosir uchod.

Lle bydd yr adran wedi cytuno i ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan yr adran, nid drwy gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Caiff costau ymddeol oherwydd salwch eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

## Cyfansoddiad y staff

Mae'r tabl isod yn dangos cyfansoddiad y staff ar 31 Mawrth 2026:


| Cyfansoddiad y staff (ar 31 Mawrth 2026) | Cyfanswm y menywod | Canran | Cyfanswm y dynion | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Pob cyflogai | 1,069 | 47% | 1,195 | 53% |
| O'u plith | | | | |
| Band Cyflog 1 yr Uwch Wasanaeth Sifil | 39 | 51% | 37 | 49% |
| Band Cyflog 2 yr Uwch Wasanaeth Sifil | 12 | 55% | 10 | 45% |
| Band Cyflog 3 yr Uwch Wasanaeth Sifil | 0 | 0% | 1 | 100% |

## Cynnwys cyflogeion

Defnyddir y Mynegai Ymgysylltiad Cyflogeion (EEI) fel ffordd o sicrhau bod cyflogeion yn ymrwymedig i nodau a gwerthoedd eu sefydliad, ac wedi'u cymell i gyfrannu at lwyddiant sefydliadol. Mae Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn defnyddio pum cwestiwn i fesur ymgysylltiad cyflogeion, ac yn cyfuno pob ymateb (cadarnhaol, niwtral a negyddol) i greu sgôr mynegai cryno, er mwyn i adrannau wybod eu safle ar raddfa sy'n amrywio o lefelau isel iawn o ymgysylltiad (0%) i lefelau uchel iawn (100%).

Ein sgôr ymgysylltiad cyffredinol yw 59%, o gymharu â 62% yn 2024. Meincnod y Gwasanaeth Sifil ar gyfer 2025 yw 65%.

Gellir rhannu canlyniad Ofgem yn erbyn y pum maes fel a ganlyn:




Yn ystod y flwyddyn, cwblhaodd Ofgem raglen ychwanegol lle cafodd polisïau eu hadolygu a'u datblygu er mwyn sicrhau bod ein polisïau pobl yn parhau i fod yn deg, yn gynhwysol ac yn gyfoes.

Gwnaethom gyflwyno a chryfhau canllawiau i gefnogi cydweithwyr yn well pan fydd digwyddiadau pwysig yn eu bywyd, gan gynnwys polisïau newydd neu well sy'n cwmpasu triniaeth ffrwythlondeb, profedigaeth, salwch terfynol, gofal newyddenedigol ac absenoldeb anabledd, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i fod yn gyflogwr cefnogol.

Gwnaethom hefyd ddiweddaru polisïau pobl craidd, gan gynnwys trefniadau gwrth-fwlio ac aflonyddu, trefniadau disgyblu a datrys anghydfodau, a gweithio hyblyg, gan sicrhau bod y polisïau'n parhau i fod yn gyson â newidiadau deddfwriaethol ac arferion gorau, gan gynnwys datblygiadau mewn perthynas ag aflonyddu rhywiol.

Ochr yn ochr â hyn, gwnaethom foderneiddio nifer o bolisïau gweithredol sy'n cwmpasu cyflog a gwobrwyo, presenoldeb, absenoldeb a gweithio hyblyg, gan helpu i sicrhau bod ein prosesau pobl yn parhau i fod yn glir, yn gyson ac yn addas ar gyfer gweithlu sy'n newid.

## Trawsnewid Diwylliant yn Ofgem

Mae Ofgem yn parhau i ddatblygu ei gamau i drawsnewid diwylliant ochr yn ochr â newid sefydliadol sylweddol a Chynllun Newid y llywodraeth. Mae gofynion datblygol y system ynni, ochr yn ochr â chasgliadau adolygiad y llywodraeth o rôl, cylch gwaith a phwerau Ofgem, yn pwysleisio'r angen i'r sefydliad barhau i addasu. Felly mae cryfhau Ofgem (SP5) yn ganolog i gyflawni ein strategaeth amlflwyddyn a chaiff hyn ei lywio gan y fframwaith statudol a'r dyletswyddau a osodir gan y llywodraeth yn y dyfodol.

Dros y 18 mis diwethaf, rydym wedi datblygu rhaglen ddatblygu sefydliadol i lywio'r diwylliant, er mwyn cyfleu ac ymgorffori disgwyliadau cliriach o ran ymddygiadau a pherfformiad sydd eu hangen ar gyfer amgylchedd mwy cymhleth a chyflym. Mae ein hegwyddorion diwylliannol cyffredin yn canolbwyntio ar fod yn Rhagweladwy, yn Hyblyg, yn Gydweithredol ac wedi'n Galluogi gan Dechnoleg. Er mwyn ymgorffori'r rhain yn ymarferol, rydym yn treialu dull gweithredu yn seiliedig ar dimau sy'n perfformio'n effeithiol, ar y cyd â rhaglen gyfathrebu ac ymgysylltu gydlynol a datblygu rhwydwaith o hyrwyddwyr newid. Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn canolbwyntio ar greu sefydliad mwy cydlynol sy'n perfformio ar lefel uchel—sy'n gallu blaenoriaethu'n well, gweithredu'n gyflym a chyflawni ar gyfer defnyddwyr.

Ochr yn ochr â hynny, a chyn cyhoeddi Adolygiad Ofgem ym mis Ebrill 2026, dechreuwyd gwaith cynnar i ddiffinio Gweledigaeth a Chenhadaeth Ofgem ar gyfer y dyfodol, gan ddarparu angor pwysig ar gyfer newid diwylliannol a sefydliadol parhaus a newid i'r model gweithredol. Mae Cynllun Gweithredu Diwylliant a Sgiliau wrthi'n cael ei ddatblygu hefyd. Mae Strategaeth Gweithlu Ofgem 2024-2029, yn cael ei diweddaru i adlewyrchu'r cynllun hwn a chanlyniadau ychwanegol o'r Adolygiad, gan ategu'r strategaeth amlflwyddyn drwy ganolbwyntio ar sut y byddwn yn helpu i drawsnewid y sefydliad i gefnogi camau i gyflawni ein hamcanion hirdymor.

## Amrywiaeth a chynhwysiant

Yn rôl ddeuol Ofgem fel cyflogwr a rheoleiddiwr, rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith ein gweithlu, yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn y diwydiant rydym yn ei reoleiddio. Mae'r adran hon yn esbonio sut mae Ofgem wedi rhoi 'sylw dyladwy' i dri nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef:

a. Rhoi terfyn ar achosion anghyfreithlon o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;

b. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu; a

c. Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Ceir rhagor o fanylion yn: Cydraddoldeb ac amrywiaeth | Ofgem.

Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith: wrth recriwtio ac mewn cyflogaeth, hyfforddiant a datblygu gyrfa. Ni ddylai unrhyw un wynebu gwahaniaethu oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Nid ydym yn goddef gwahaniaethu, bwlio nac aflonyddu.

Yn arolwg ymgysylltu â staff 2025, cawsom sgôr o 81% ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg, sef gostyngiad o 4% o gymharu â 2024. Yn 2022-23, gwnaethom ddiwygio ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant,

ac un o'i blaenoriaethau allweddol oedd canolbwyntio ar greu gweithlu amrywiol a chynhwysol, a diwylliant cynhwysol.

Ers lansio'r strategaeth, rydym wedi datblygu dangosfwrdd data cadarn er mwyn adrodd ar gynrychiolaeth yn ein gweithlu yn ôl nodweddion gwarchodedig a chefndir economaidd-gymdeithasol ein staff. Rydym wedi gwella cyfraddau datgan data drwy ymgyrch fewnol. Gwnaethom ddechrau casglu data ar gefndir economaidd-gymdeithasol ein pobl ac mae 74% o'n pobl wedi datgan hyn, sy'n ein galluogi i gynnal dadansoddiad ystyrlon mewn perthynas â hyn ochr yn ochr â nodweddion gwarchodedig. Rydym yn parhau i wneud cynnydd da yn erbyn ein targedu uchelgeisiol gan lwyddo i gynnal cydbwysedd rhywedd o 50:50 ar lefelau uwch y gweithlu, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu cynrychiolaeth staff ethnig leiafrifol ac anabl drwy gynlluniau gweithredu penodol ar gyfer hil ac anabledd.

Fel rhan o'r cynlluniau gweithredu ar hil ac anabledd, gwnaethom lansio Rhaglen Noddi gyntaf yr Uwch Wasanaeth Sifil ar gyfer cydweithwyr Du, ethnig leiafrifol ac anabl sy'n canolbwyntio ar gryfhau atebolrwydd a nawdd ar lefel uwch ar gyfer talent heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gydlynu'n glir â chynlluniau ar gyfer olyniaeth a gallu arweinyddiaeth. Cafodd noddwyr o'n Uwch-bwyllgor Gweithredol eu paru â chwe ymgeisydd llwyddiannus o bob rhan o'r busnes. Mae ail garfan ar y gweill sy'n cynnwys ymgeiswyr o gefndir economaidd-gymdeithasol isel. Gwnaethom hefyd lansio rhaglen mentora o chwith i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o wahaniaethau a'r rhwystrau y mae grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn eu hwynebu.

Rydym wedi lansio cynllun gweithredu symudedd cymdeithasol newydd y flwyddyn hon. Rydym wedi parhau i gynnal gwaith allgymorth symudedd cymdeithasol gyda Chyngor Tower Hamlets a Chyngor Glasgow ac mae gennym bartneriaethau â dwy ysgol leol. Rydym wedi cymryd rhan mewn rhaglen symudedd cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru gydag ysgolion lleol yn Ne Cymru, gan gefnogi ymgysylltiad cynnar ac ehangu cronfeydd talent y dyfodol. Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ei rhaglen fentora drawslywodraethol Catapult, gan ddarparu mentoriaid a gwasanaeth mentora i weision sifil presennol o gefndir economaidd-gymdeithasol isel. Rydym hefyd yn rhan o Raglen Dyheadau Graddedigion (GAP) Catapult.

Gwnaethom ennill Gwobr Profiad Gweithle Cynhwysol Deallus ar gyfer Anabledd y Fforwm Anabledd Busnes (250+ o gyflogeion) yn 2025 am ein Optimal Working Passport digidol. Dyma'r cyntaf o'i fath yn y Gwasanaeth Sifil, ac mae'n symleiddio'r ffordd y mae gweithwyr yn gofyn am addasiadau rhesymol ac addasiadau yn y gweithle.

Rydym hefyd wedi cyflwyno hyfforddiant i reolwyr llinell sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth gynhwysol ac wedi datblygu canllawiau ar gyfathrebu, cyfarfodydd a digwyddiadau cynhwysol.


Yn ogystal, mae Ofgem wedi parhau i gefnogi ein rhwydweithiau amrywiaeth a chynhwysiant dan arweiniad staff sy'n ymwneud ag oedran, anabledd a gofalwyr, ethnigrwydd a hil, y ffydd Iddewig, LHDT+, iechyd meddwl, y ffydd Fwslimaidd, symudedd cymdeithasol a menywod.

Ar 31 Mawrth 2026:

- roedd yn hysbys bod gan 9% (2023-24: 9%) o'r staff anabledd
- roedd 47% (2024-25: 46%) o'r staff yn fenywod
- roedd 44% (2024-25: 43%) o'r staff mewn swyddi rheoli (Lefel 3 i SCS3) yn fenywod
- roedd 51% (2024-25: 48%) o aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn Ofgem yn fenywod
- roedd yn hysbys bod 28% (2024-25: 31%) o'r staff o darddiad ethnig leiafrifol
- roedd 17% (2024-25: 17%) o'r staff mewn swyddi rheoli (Lefel 3 i SCS3) o gefndir ethnig leiafrifol.

Mae ein datganiad polisi am gyfle cyfartal ar gael i bob cyflogai.

Gellir gweld data Ofgem ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn: [Adroddiadau ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau i Ofgem – Gender pay gap service (gender-pay-gap. service.gov.uk).]



## Hybu iechyd a diogelwch yn y gwaith

Mae Ofgem yn parhau i reoli iechyd, diogelwch a llesiant yn weithredol ac, yn ystod 2025-26, cymerodd gamau i gryfhau ei systemau rheoli iechyd a diogelwch drwy ganllawiau a dogfennaeth ddiwygiedig.

Roedd y camau gweithredu allweddol yn cynnwys dod ag iechyd a diogelwch a llesiant at ei gilydd o dan Bwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant diwygiedig, gan gydnabod y themâu trawsbynciol cyffredin, sef iechyd meddwl a straen sy'n gysylltiedig â gwaith. Cyflwynwyd yswiriant newydd ar gyfer teithio dramor, gan ddarparu cymorth meddygol brys i gydweithwyr pan fyddant ar deithiau dramor sy'n gysylltiedig â gwaith. Darparwyd hyfforddiant i Swyddogion Cymorth Cyntaf a Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl newydd ar draws pob lleoliad ochr yn ochr â gostyngiad yn yr ôl-groniad o asesiadau sgrin arddangos. Mae'r gwaith parhaus hwn wedi codi proffil iechyd a diogelwch o fewn y sefydliad, gyda chydweithwyr yn ymgysylltu mwy â gweithgareddau cysylltiedig ac yn cymryd mwy o ran ynddynt.

## Cydberthnasau ag undebau llafur

Yr Undebau Llafur cydnabyddedig yn Ofgem yw PCS ac FDA. Caiff cyfarfodydd y Cydbwyllgor Negodi (JNC) eu cynnal bob mis, a chaiff cyfarfodydd ad hoc eu hychwanegu lle bo angen er mwyn trafod pwnc brys neu benodol. Mae is-grŵp polisi Adnoddau Dynol hefyd wedi'i sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolwyr Undebau Llafur er mwyn cytuno ar newidiadau newydd neu sylweddol i bolisïau Adnoddau Dynol sydd wedi bod yn gweithio'n dda, gan arwain at adnewyddu neu lansio 21 o bolisïau yn 2025-26.

Gwneir pob ymdrech i hybu a chynnal y cydberthnasau gwaith gorau posibl rhwng Ofgem a'r Undebau Llafur. Yn ystod 2025-26, bu undeb PCS mewn anghydfod ag Ofgem ynghylch meysydd fel diwygio cyflogau, sicrwydd swyddi a gofynion negodi ac ymgynghori a arweiniodd at ddau gyfnod o streic gan aelodau PCS yn ystod y flwyddyn. Ymgysylltodd Ofgem a PCS â'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) i helpu i gefnogi'r datrysiad hwn ac, o ganlyniad, mae llawer o'r meysydd yr oedd anghydfod yn eu cylch wedi'u datrys. Rydym yn parhau i weithio drwy'r materion sy'n weddill, megis diwygio cyflogau, fel rhan o negodiadau parhaus ar ein hachos cyflog hyblyg llwyddiannus. Mae ein nod yn glir o hyd: meithrin cydberthnasau agored, parchus a blaengar â'n holl undebau llafur, cydberthnasau sy'n cefnogi ein pobl a'n cenhadaeth.

## Diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb

Yn 2025-26, collodd Ofgem 6.9 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai ar gyfartaledd (2024-25: 5.2 diwrnod) oherwydd absenoldeb. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfradd y Gwasanaeth Sifil o 8.2 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai (ar 31 Mawrth 2025).

## Trosiant staff

Yn 2025-26, trosiant staff oedd 12.6% (2024-25: 12.9%). Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 7.1% a gofnodwyd ar gyfer y Gwasanaeth Sifil (ar 31 Mawrth 2025). Mae ein trosiant uchel yn rhannol oherwydd y farchnad gystadleuol ar gyfer talent yn y sector ynni a hefyd oherwydd anghysondebau cyflog o gymharu â rheoleiddwyr eraill a rhannau o'r llywodraeth. Gwnaethom lansio ein Strategaeth Gweithlu yn 2024 a chynllun gweithredu ategol sydd wedi helpu i ymdrin â throsiant, ac rydym wedi gweld gostyngiad bach ers y flwyddyn ddiwethaf. Ein nod yw lleihau ein trosiant ymhellach i 10% neu'n is.



**Tim Jarvis**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro
10 Gorffennaf 2026



# Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2025-26

# Adroddiad ar Atebolrwydd ac Archwiliad Seneddol

## Datganiad o Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol (SOPS)

### Crynodeb o'r alldro adnoddau a chyfalaf 2025-26

In ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi Datganiad o Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol (SoPS) a nodiadau ategol.

Mae'r SoPS a'r nodiadau cysylltiedig yn cael eu harchwilio, fel y nodwyd yn Nhystysgrif ac Adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin. Mae'r SoPS yn ddatganiad atebolrwydd allweddol sy'n dangos, yn fanwl, sut mae endid wedi gwario yn erbyn ei Amcangyfrif o Gyflenwad. Cyflenwad yw'r ddarpariaeth ariannol (at ddibenion adnoddau a chyfalaf) ac arian parod (a ddaw o'r Gronfa Gyfunol yn bennaf), y mae Senedd y DU yn rhoi awdurdod statudol i endidau ei defnyddio. Mae'r Amcangyfrif yn manylu ar y cyflenwad ac mae Senedd y DU yn ei gymeradwyo drwy bleidlais ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

Os bydd endid yn mynd dros y terfynau a bennir gan ei Amcangyfrif o Gyflenwad, a elwir yn derfynau rheoli, bydd barn amodol yn cael ei rhoi ar ei gyfrifon.

Mae fformat y SoPS yn adlewyrchu'r Amcangyfrifon o'r Cyflenwad, a gyhoeddir ar gov.uk, er mwyn ei gwneud yn bosibl cymharu'r hyn y mae Senedd y DU yn ei gymeradwyo a'r alldro terfynol.

Mae'r SoPS yn cynnwys tabl cryno, sy'n manylu ar berfformiad yn erbyn y terfynau rheoli y mae Senedd y DU wedi'u cymeradwyo drwy bleidlais, arian parod a wariwyd (llunnir cyllidebau ar sail croniadau ac felly ni fyddai alldro yn cyfateb yn union i'r arian parod a wariwyd) a gweinyddiaeth.

Mae'r nodiadau ategol yn manylu ar y canlynol: Alldro fesul llinell o'r Amcangyfrif, sy'n rhoi dadansoddiad manylach (nodyn 1); cysoni alldro â (incwm)/gwariant gweithredu net yn y SOCNE, i gysylltu'r SoPS â'r datganiadau ariannol (nodyn 2); cysoni alldro â'r gofyniad arian parod net (nodyn 3); a, dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol (nodyn 4).

Caiff y SoPS a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ond yn wahanol iddynt. Darperir dealltwriaeth o'r fframwaith cyllidebu ac esboniad o dermau allweddol ar dudalen 43, yn adran adolygiad ariannol yr adroddiad ar berfformiad. Yn ogystal, ceir rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Gwariant Cyhoeddus a'r rhesymau pam mae'r rheolau cyllidebu yn wahanol i IFRS ym mhennod 1 y Canllawiau Cyllidebu Cyfunol, sydd ar gael ar gov.uk.

Mae'r SoPS yn cyflwyno darlun manwl o berfformiad ariannol, ar ffurf y bydd Senedd y DU yn ei chymeradwyo drwy bleidlais. Mae'r adolygiad ariannol, yn yr Adroddiad ar Atebolrwydd, yn cynnwys trafodaeth gryno ar alldro yn erbyn yr amcangyfrif ac mae'n gweithredu fel cyflwyniad i ddatgeliadau'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol.

Mae'r ffigurau yn y meysydd wedi'u hamlinellu â llinell drwchus yn cwmpasu'r terfynau rheoli a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU. Gweler y llawlyfr canllawiau ar Amcangyfrifon o'r Cyflenwad, sydd ar gael ar gov.uk, am fanylion llawn y terfynau rheoli a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU.

Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 4 (Tablau Craidd Cyffredin).

Tablau cryno – yn adlewyrchu rhan 1 o'r Amcangyfrifon

## Tabl cryno, 2025-26, pob ffigur wedi'i gyflwyno mewn £000oedd

| Math o Wariant | Nodyn SoPS | Alldro Cymer-adwywyd drwy bleidlais | Alldro Nis cymer-adwywyd drwy bleidlais | Alldro Cyfanswm | Amcangyfrif Cymer-adwywyd drwy bleidlais | Amcangyfrif Nis cymer-adwywyd drwy bleidlais | Amcangyfrif Cyfanswm | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad Cymerad-wywyd drwy bleidlais | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad Cyfanswm | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Terfyn Gwariant Adrannol** – Adnodd | 1.1 | (43,616) | - | (43,616) | 47,480 | - | 47,480 | 91,096 | 91,096 | 40,340 |
| **Terfyn Gwariant Adrannol** – Cyfalaf | 1.2 | 3,583 | - | 3,583 | 5,050 | - | 5,050 | 1,467 | 1,467 | 4,087 |
| **Cyfanswm Gwariant yn y Gyllideb** | | **(40,033)** | **-** | **(40,033)** | **52,530** | **-** | **52,530** | **92,563** | **92,563** | **44,427** |
| **Gwariant Heb fod yn y Gyllideb** | | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm yn y Gyllideb a Heb fod yn y Gyllideb** | | **(40,033)** | **-** | **(40,033)** | **52,530** | **-** | **52,530** | **92,563** | **92,563** | **44,427** |

Mae'r ffigurau yn y meysydd wedi'u hamlinellu â llinell drwchus yn cwmpasu'r terfynau rheoli a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU. Gweler y llawlyfr canllawiau ar Amcangyfrifon o'r Cyflenwad, sydd ar gael ar gov.uk, am fanylion llawn y terfynau rheoli a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU.

**Gofyniad arian parod net 2025-26, pob ffigur wedi'i gyflwyno mewn £000oedd**

| Math o wariant | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad arian parod net** | 3 | (19,021) | 93,500 | 112,521 | (4,392) |

**Costau gweinyddol 2025-26, pob ffigur wedi'i gyflwyno mewn £000oedd**

| Math o wariant | Nodyn SoPS | Alldro | Amcangyfrif | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau gweinyddol** | 1.1 | 4,631 | 39,552 | 34,921 | 12,583 |

Er nad yw hwn yn derfyn a gymeradwyir drwy bleidlais ar wahân, bydd unrhyw achos o dorri'r gyllideb weinyddol hefyd yn arwain at bleidlais ar gostau ychwanegol.

Mae gan yr Adran Addasiadau Cyfnod Blaenorol (PPAau) sy'n deillio o gydnabod treth a gwariant wedi'u priodoli mewn perthynas ag ardoll y Cyflenwr Dewis Olaf (SoLR).

Mae'n briodol i'r adran geisio awdurdod Seneddol ar gyfer PPAau sy'n deillio o benderfyniad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i newid dosbarthiad penderfyniadau ynghylch ardoll SoLR. Mae PPAau wedi'u cynnwys o fewn y cyflenwad a gymeradwywyd drwy bleidlais yn Amcangyfrif Ofgem.

Caiff penderfyniadau ar gyfer addasiadau wedi'u cysoni i benderfyniadau blaenorol am geisiadau o dan ardoll SoLR, gan gynnwys ceisiadau pellach (swm a gydsyniwyd) a cheisiadau blaenorol yr oedd angen eu had-dalu i ddefnyddwyr (swm adennill) eu trin fel PPAau.

Yng nghylch safbwyntiau bwriadedig mewn perthynas â cheisiadau am Daliadau Cyflenwad Dewis Olaf 2025, cymeradwyodd Ofgem daliadau cyflenwad dewis olaf net o £(86.53) miliwn, yn cynnwys £0.03 miliwn o geisiadau pellach a ganiatawyd ac £(86.56) miliwn o ad-daliadau gweinyddwyr, y mae'r olaf ohonynt yn cynnwys llog ychwanegol a gyfrifwyd gan Ofgem (2024-25 net £(19.25) miliwn, yn cynnwys £2.40 miliwn o geisiadau pellach a ganiatawyd a £(21.65) miliwn o geisiadau blaenorol y mae angen eu had-dalu).

Mae'r dreth wedi'i phriodoli a'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau cysoni hyn wedi'u cofnodi fel Addasiad Cyfnod Blaenorol i gyllidebau 2022-23 (gydag effaith net o ddim, wedi'i dangos fel £1,000 symbolaidd er mwyn galluogi'r Senedd i bleidleisio'r Addasiad Cyfnod Blaenorol). Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar y datganiadau ariannol, gan mai addasiad (Alldro) cwbl gyllidebol ydyw.

# Nodiadau i'r Datganiad o Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol, 2025-26 (£000oedd)

## SOPS1. Manylion yr alldro, fesul llinell o'r Amcangyfrif

### SOPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau fesul Llinell o'r Amcangyfrif

| | Alldro Adnoddau | | | | | | | Amcangyfrif | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o Wariant (Adnodd)** | **Gweinyddu Gros** | **Gweinyddu Incwm** | **Gweinyddu Cyfanswm net** | **Rhaglen Gros** | **Rhaglen Incwm** | **Rhaglen Cyfanswm net** | **Cyfan-swm** | **Cyfan-swm** | **Trosglwyd-diadau** | **Cyfanswm gan gynnwys trosglwyd-diadau** | **Alldro yn erbyn yr Amcangy-frif, arbediad** | **Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2024-25** |
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | | | | | |
| **Gwariant a gymeradwywyd drwy bleidlais** | | | | | | | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 169,409 | (172,255) | (2,846) | - | - | - | (2,846) | 30,000 | - | 30,000 | 32,846 | 7,575 |
| B Cyflawni a Chynlluniau Ofgem gweinyddu | 69,752 | (62,275) | 7,477 | - | - | - | 7,477 | 9,552 | - | 9,552 | 2,075 | 5,008 |
| C Nwy Gwyrdd Ofgem: gweinyddu | 3,677 | (3,677) | - | 24,486 | (72,733) | (48,247) | (48,247) | 7,928 | - | 7,928 | 56,175 | 27,757 |
| D Lefelu: Rhaglen | - | - | - | 64,043 | (64,043) | - | - | - | | - | - | - |
| **Cyfanswm yr adnoddau** | **242,838** | **(238,207)** | **4,631** | **88,529** | **(136,776)** | **(48,247)** | **(43,616)** | **47,480** | **-** | **47,480** | **91,096** | **40,340** |

## SOPS1.2 Dadansoddiad o'r alldro cyfalaf fesul Llinell o'r Amcangyfrif

| Math o Wariant (Cyfalaf) | Alldro Gros | Alldro Incwm | Alldro Cyfanswm netl | Amcangyfrif Cyfanswm | Amcangyfrif Trosglwyddi-adau | Amcangyfrif Cyfanswm gan gynnwys tros-glwyddiadau | Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif, arbediad | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant o fewn Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | | | | | | | |
| **Gwariant a gymeradwywyd drwy bleidlais** | | | | | | | | |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan: gweinyddu | 3,583 | - | 3,583 | 5,050 | - | 5,050 | 1,467 | 4,087 |
| B Cyflawni a Chynlluniau Ofgem gweinyddu | 2,672 | (2,672) | - | - | - | - | - | - |
| C Nwy Gwyrdd Ofgem: gweinyddu | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm cyfalaf** | **6,255** | **(2,672)** | **3,583** | **5,050** | **-** | **5,050** | **1,467** | **4,087** |

## SOPS2 Cysoni alldro â'r (incwm)/gwariant gweithredu net

| Eitem | Cyfeirnod | Cyfanswm Alldro £000 | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol, 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Alldro Adnoddau** | SOPS1.1 | **(43,616)** | **40,340** |
| Ychwanegu: Incwm cyfalaf gan DESNZ | SOPS1.2 | (2,672) | (8,062) |
| Llai: Traul llog les | 7.3 | (529) | (504) |
| Ychwanegu: Incwm llog | SoCNE | 942 | 1,244 |
| **(Incwm)/Gwariant Gweithredu Net yn y Datganiad o (Incwm)/Gwariant Net Cynhwysfawr** | SoCNE | **(45,875)** | **33,018** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, caiff alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, sy'n debyg i'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ond yn wahanol iddynt. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio'r alldro adnoddau â'r (incwm)/gwariant gweithredu net, gan gysylltu'r SoPS â'r datganiadau ariannol.

Caiff incwm cyfalaf ei gyllidebu fel cyfalaf DEL ond rhoddir cyfrif amdano fel incwm ar wyneb y SOCNE ac felly mae'n eitem gysoni rhwng cyfanswm yr alldro adnoddau ac (incwm)/gwariant gweithredu net.

Caiff incwm llog ei gyllidebu fel DEL adnoddau ond caiff ei gynnwys fel incwm cyllid ar wyneb y SoCNE ac felly mae hefyd yn eitem gysoni rhwng cyfanswm yr alldro adnoddau a'r gwariant/(incwm) gweithredu net.

Dosbarthwyd y canlynol fel math o dreth a gwariant wedi'u priodoli. O dan IFRS, nid ydynt yn bodloni'r meini prawf i gael eu cydnabod fel incwm a gwariant i Ofgem:

- Ym mis Chwefror 2024, penderfynodd Ofgem addasu'r taliadau sefydlog rhwng cwsmeriaid mesuryddion rhagdalu a chwsmeriaid Debyd Uniongyrchol (lefelu). O ganlyniad, gostyngodd taliadau sefydlog cwsmeriaid mesuryddion rhagdalu a chynyddodd taliadau sefydlog cwsmeriaid Debyd Uniongyrchol o dan y cap ar brisiau ynni. Gweithredwyd hyn o fis Ebrill 2024 a chaiff gwerth trosglwyddiadau net rhwng cyflenwyr (a wneir drwy gorff diwydiant) ei gydnabod yng nghyllidebau Ofgem.
- Dosbarthwyd ardoll y Cyflenwr Dewis Olaf (SoLR) yn ystod 2022-23 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Caiff ceisiadau o dan SoLR (a gymeradwyir gan Ofgem ar ôl dyddiad y penderfyniad dosbarthu) eu cydnabod mewn cyllidebau yn ystod y flwyddyn y mae'r penderfyniad yn ymwneud â hi.

Gan nad oes unrhyw fewnlifau nac all-lifau economaidd i Ofgem, ni chânt eu cydnabod yn Natganiad Ofgem o Incwm Net Cynhwysfawr na'r nodiadau cysylltiedig.

## SoPS3 Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| Eitem | Cyfeirnod | Cyfanswm alldro £000 | Amcangyfrif £000 | Alldro o gymharu â'r Amcangyfrif, arbediad/ (dros ben) £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Alldro Adnoddau** | SOPS1.1 | (43,616) | 47,480 | 91,096 |
| **Cyfanswm alldro cyfalaf** | SOPS1.2 | 3,583 | 5,050 | 1,467 |
| **Addasiadau i dynnu eitemau nad ydynt yn arian parod:** Dibrisio ac amorteiddio | 3 | (10,568) | (15,111) | (4,543) |
| **Addasiadau i dynnu eitemau nad ydynt yn arian parod:** Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau blaenorol | 3 | (1,919) | (39,000) | (37,081) |
| **Addasiadau i dynnu eitemau nad ydynt yn arian parod:** Ychwanegiadau a gwarediadau IFRS16 | 7.1 | (1,084) | - | 1,084 |
| **Addasiadau i dynnu eitemau nad ydynt yn arian parod:** Eitemau anariannol eraill | | (746) | (300) | 446 |
| **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:** Cynnydd/ (gostyngiad) mewn symiau derbyniadwy | 10 | 20,059 | 59,531 | 39,472 |
| **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:** (Cynnydd)/ gostyngiad mewn symiau taladwy | 11 | (21,840) | 35,850 | 57,690 |
| **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:** Defnydd o ddarpariaethau | 12 | 34,492 | - | (34,492) |
| **Addasiadau i adlewyrchu symudiadau mewn balansau gweithio:** Elfen cyfalaf taliadau mewn perthynas â lesoedd | 7.4 | 2,618 | - | (2,618) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **(19,021)** | **93,500** | **112,521** |

Fel y nodir yn y cyflwyniad i'r SoPS uchod, caiff alldro a'r Amcangyfrifon eu llunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu, yn hytrach nag ar sail arian parod. Felly, mae'r cysoniad hwn yn pontio rhwng yr alldro adnoddau a chyfalaf a'r gofyniad arian parod net.

Mae'r alldro yn cynrychioli arbediad o £112.5 miliwn yn erbyn yr amcangyfrif o £93.5 miliwn, yn bennaf mewn perthynas â'r canlynol:

- Tanwariant adnoddau yn bennaf mewn perthynas â gwariant nwy gwyrdd a darpariaethau cyfreithiol, gyda rhagor o wybodaeth yn yr adolygiad ariannol ar dudalen 43.
- Arbediad mewn symiau taladwy o £57.7 miliwn oherwydd cynnydd mewn croniadau, yn enwedig mewn perthynas â'r cynllun cymorth nwy gwyrdd.

## SOPS4. Symiau incwm i'r Gronfa Gyfunol

### SOPS4.1 Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol

Yn ogystal ag incwm a gedwir gan yr adran, mae'r incwm canlynol yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol.

| | | Cyfanswm Alldro | | 2024-25 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Eitem** | **Cyfeirnod** | **Croniadau** | **Ar Sail Arian Parod** | **Croniadau** | **Ar Sail Arian Parod** |
| Incwm y tu allan i gwmpas yr Amcangyfrif | | - | 533 | - | |
| Arian gormodol y gellir ei ildio i'r Gronfa Gyfunol | SOCiTE, N11 | 61,021 | 17,546 | 17,546 | 37,161 |
| Symiau arian parod gormodol a ildiwyd i'r Gronfa Gyfunol | | - | (18,079) | - | (37,161) |
| **Cyfanswm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | | **61,021** | **-** | **17,546** | |

Mae'r incwm hwn yn ymwneud ag adennill costau amddiffyn cyfreithiol a ariannwyd yn flaenorol gan adnoddau'r Trysorlys, felly mae'r incwm hwn wedi cael ei ildio i'r Gronfa Gyfunol.

### SOPS4.2 Incwm y Gronfa Gyfunol

Nid yw incwm y Gronfa Gyfunol a ddangosir yn SOPS 4.1 uchod yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gan yr adran yn ei rhinwedd fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol yn hytrach na'r pennaeth.

Roedd y symiau a gasglwyd fel asiant ar gyfer y Gronfa Gyfunol (na chânt eu cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol) fel a ganlyn:

| Eitem | Cyfanswm Alldro £000 | Cyfanswm Alldro'r Flwyddyn Flaenorol*, 2024-25 £000 |
|---|---|---|
| Dirwyon a chosbau | 8,715 | - |
| **Swm sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol** | **8,715** | **-** |
| Balans a ddaliwyd ar ddechrau'r flwyddyn* | - | 27 |
| Taliadau i mewn i'r Gronfa Gyfunol | (8,715) | (27) |
| **Balans a ddaliwyd drwy ymddiriedaeth ar ddiwedd y flwyddyn** | **-** | **-** |

* Derbyniwyd £27,003 yn ystod 2023-24 mewn perthynas â chosb a osodwyd yn ystod 2019-20. Roedd y gosb wreiddiol am swm o £200,000, ond cafodd y sefydliad ei ddatodi a dim ond cyfran o werth y gosb a dderbyniwyd. Talwyd £27,003 i'r Gronfa Gyfunol yn ystod 2024-25.

## Datgeliadau Atebolrwydd Seneddol (archwiliedig)

### Rheoleidd-dra gwariant

Cymhwyswyd gwariant Ofgem at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU. Nid oes gan Ofgem ddim i'w nodi mewn perthynas â'r canlynol:

- Taliadau arbennig;
- Colledion;
- Datgeliadau ffioedd a thaliadau;
- Tueddiadau gwariant hirdymor.

### Atebolrwydd dibynnol annhebygol

Yn ogystal â'r darpariaethau cyfreithiol a ddatgelir yn Nodyn 12 a'r atebolrwydd dibynnol a ddatgelir yn Nodyn 13 i'r datganiadau ariannol, mae'r Awdurdod wedi nodi risgiau cyfreithiol eraill lle ystyrir bod y tebygolrwydd o all-lif sylweddol o fudd economaidd yn annhebygol.

Nid yw'r materion hyn yn bodloni gofynion datgelu IAS 37; fodd bynnag, adroddir arnynt yma yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Trysorlys EF at ddibenion atebolrwydd seneddol.

Ar 31 Mawrth 2026, roedd yr Awdurdod wedi nodi rhai materion cyfreithiol ac, ar sail y wybodaeth a oedd ar gael ar y dyddiad adrodd a chyngor cyfreithiol lle bo'n briodol, aseswyd bod y tebygolrwydd o all-lif sylweddol o fudd economaidd yn annhebygol.

Ar ôl adolygu statws y materion hyn ac ar ôl ceisio cyngor cyfreithiol lle bo'n briodol, mae'r Awdurdod wedi dod i'r casgliad bod y tebygolrwydd y bydd unrhyw atebolrwydd yn codi yn annhebygol.

Yn unol â hynny:

- nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i chydnabod;
- nid oes unrhyw atebolrwydd dibynnol wedi cael ei ddatgelu o dan IAS 37 mewn perthynas â'r eitemau hyn.

Gan y byddai canlyniad yr achos hwn yn anhysbys, ni ellir mesur y risg bosibl sy'n gysylltiedig â'r materion hyn; ystyrir bod y tebygolrwydd o grisialu yn annhebygol.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r materion hyn ac yn diweddaru ei asesiad yn ôl yr angen.

### Cydymffurfiaeth â safonau swyddogaethol y llywodraeth (heb ei harchwilio)

Mae'r sefydliad yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio'n sylweddol â Safonau Swyddogaethol cymwys y Llywodraeth drwy gydol y flwyddyn.

Mae hunanasesiadau yn erbyn Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth yn cael eu cwblhau ar draws y sefydliad ar hyn o bryd.

Lle nodir meysydd o gydymffurfiaeth rannol — mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â swyddogaethau nad ydynt eto'n cyrraedd y llinell sylfaen "Da" yn gyson, gan gynnwys bylchau o ran aeddfedrwydd dogfennaeth, dogfennaeth sy'n rhy fanwl, yn gymhleth neu'n ddatgysylltiedig, neu gysondeb prosesau — mae'r swyddogaeth Sicrwydd Busnes yn gweithio gyda phob maes i nodi gwelliannau wedi'u targedu a'u rhoi ar waith.

Mae cynlluniau adrodd a gweithredu yn cael eu datblygu a'u mireinio, gyda chynnydd yn cael ei fonitro drwy fframwaith llywodraethu a sicrwydd y sefydliad.

Rwy'n fodlon bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod cydymffurfiaeth â'r safonau yn cael ei monitro'n barhaus a'i gwella'n gyson.



**Tim Jarvis**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro
10 Gorffennaf 2026

# Tystysgrif ac adroddiad y rheolwr ac archwilydd cyffredinol i dŷ'r cyffredin

## Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2026 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan Ofgem:

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026;
- Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr, Datganiad o Lifoedd Arian Parod a Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y gyfraith gymwys a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig yw'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion Ofgem fel yr oedd ar 31 Mawrth 2026 ac o'i incwm net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi a ddyroddwyd odani.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae'r Datganiad Alldro o'i gymharu â Chyflenwad y Senedd yn cyflwyno'r alldro o'i gymharu â'r cyfansymiau rheolaeth Seneddol a bleidleisiwyd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 yn briodol ac yn dangos nad aed y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (UK) (ISAs UK), y gyfraith gymwys a Nodyn Ymarfer 10 Audit of Financial Statements and Regularity of Public Sector Bodies in the United Kingdom (2024). Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny wedi'u disgrifio ymhellach yn yr adran Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Revised Ethical Standard 2024 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar Ofgem yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a mi wedi cyflawni'n cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwy'n credu bod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i sicrhau yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

### Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu bod defnydd Ofgem o'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol ynglŷn â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth arwyddocaol ar allu Ofgem i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Mae'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer Ofgem wedi'i fabwysiadu drwy ystyried y gofynion a nodir yn The Government Financial Reporting Manual gan Drysorlys Ei Fawrhydi, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Gwybodaeth arall yw'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a'm tystysgrif archwilio i ar y rhain. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall.

Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn modd perthnasol â'r datganiadau ariannol neu â'm gwybodaeth i a sicrhawyd yn yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos fel pe bai wedi'i cham-ddatgan mewn modd perthnasol.

Os byddaf yn nodi anghysonderau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol o'r fath, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod yna gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi a ddyroddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi a ddyroddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Ofgem a'i hamgylchedd a sicrhawyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol, sef materion yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan Ofgem neu nad oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi dod i law gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â nhw; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ariannol a bennir gan The Government Financial Reporting Manual gan Drysorlys Ei Fawrhydi neu nad yw'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu dros y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- darparu mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennau a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ac esboniadau ychwanegol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- darparu mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i bersonau o fewn Ofgem y mae'r archwilydd yn penderfynu bod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod unrhyw reolaethau mewnol ar waith y bernir bod eu hangen i alluogi datganiadau ariannol i gael eu paratoi sy'n rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi a ddyroddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000;
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys Ei Fawrhydi a ddyroddwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- asesu gallu Ofgem i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn rhag-weld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Ofgem yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol ac adrodd arnynt yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Fy amcanion i yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a dyroddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gyflawnir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau godi oherwydd twyll neu gamgymeriad a bernir eu bod yn berthnasol os byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### I ba raddau y barnwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Manylir isod ar i ba raddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

### Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, yr wyf:

- wedi ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a'r perfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu Ofgem, dangosyddion perfformiad allweddol a chymhellion perfformiad;
- wedi holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Ofgem a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys sicrhau ac adolygu dogfennau ategol ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau Ofgem ar y canlynol:

  - nodi a gwerthuso cyfreithiau a rheoliadau a chydymffurfio â nhw;
  - canfod risgiau twyll ac ymateb iddyn nhw; a'r
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau Ofgem ynglŷn â chydymffurfiaeth Ofgem â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a Managing Public Money;
- wedi holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Ofgem a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
  - a oeddent yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau;
  - a oeddent yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, twyll a amheuir neu dwyll honedig,
- wedi trafod gyda'r tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw arwyddion twyll posibl.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn Ofgem ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol, trafodiadau cymhleth a rhagfarn yn amcangyfrifon y rheolwyr. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan ISAs (UK), mae'n ofynnol imi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y bydd rheolaethau'n cael eu diystyru gan y rheolwyr.

Sicrheais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Ofgem a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Ofgem yn gweithredu o'u mewn. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Ofgem. Roedd y cyfreithiau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, Managing Public Money, Deddf Cyflenwadau a Dyraniadau (Prif Amcangyfrifon) 2025 a'r gyfraith gyflogaeth a'r ddeddfwriaeth dreth berthnasol.

**Ymateb yr archwiliad i'r risgiau a nodwyd**

I ymateb i'r risgiau a nodwyd o ganlyniad i'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais y datgeliadau yn y datganiadau ariannol a'r profion ar y dogfennau ategol i asesu'r gydymffurfiaeth â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais y rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r cwnsleriaid cyfreithiol mewnol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd ac adroddiadau archwilio mewnol;
- rhoddais sylw i'r risg o dwyll am fod y rheolwyr yn diystyru rheolaethau drwy brofi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill; trwy asesu a yw'r dyfarniadau ar amcangyfrifon yn awgrymu rhagfarn bosibl; a thrwy werthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol.

Mynegais gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio gan barhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm tystysgrif.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**

Mae'n ofynnol imi sicrhau tystiolaeth briodol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Alldro o'i gymharu â Chyflenwad y Senedd yn cyflwyno'r alldro o'i gymharu â'r cyfansymiau rheolaeth Seneddol a bleidleisiwyd yn briodol ac nad aed y tu hwnt i'r cyfansymiau hynny. Y cyfansymiau rheolaeth Seneddol a bleidleisiwyd yw Terfynau Gwariant Adrannol (Adnoddau a Chyfalaf), Gwariant a Reolir yn Flynyddol (Adnoddau a Chyfalaf), Gofynion Heblaw'r Gyllideb (Adnoddau) ac Arian Parod Net.

Mae'n ofynnol imi sicrhau tystiolaeth archwilio briodol ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, rychwant ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

**Gareth Davies**
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
14 Gorffennaf 2026

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP



# Cyfrifon Adnoddau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2025-26

# Datganiad o (Incwm)/Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail croniadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm a gwariant cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill na ellir eu cydnabod fel incwm na gwariant eto.

| | Nodyn | 2025-26 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu | 4 | (312,670) | (226,745) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **(312,670)** | **(226,745)** |
| Costau staff | 3 | 177,749 | 161,992 |
| Gwariant gweithredu arall | 3 | 89,046 | 97,771 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | 3 | **266,795** | **259,763** |
| **(Incwm)/gwariant gweithredu net** | 2 | **(45,875)** | **33,018** |
| Incwm cyllid | 4 | (942) | (1,244) |
| Traul cyllid | 7.3 | 529 | 504 |
| **(Incwm)/gwariant net ar gyfer y flwyddyn** | | **(46,288)** | **32,278** |
| **(Incwm)/gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **(46,288)** | **32,278** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 101-121 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2026

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno sefyllfa ariannol yr adran. Mae iddo dair prif ran: asedau a berchenogir neu a reolir; rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill; ac ecwiti, sef gwerth gweddilliol yr endid.

| | Nodyn | | 2025-26 £000 | | 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol:** Eiddo, offer a chyfarpar | 5 | 4,350 | | 3,839 | |
| **Asedau anghyfredol:** Asedau hawl i ddefnyddio | 7.1 | 13,309 | | 14,469 | |
| **Asedau anghyfredol:** Asedau anniriaethol | 6 | 16,652 | | 20,351 | |
| ***Cyfanswm yr asedau anghyfredol*** | | | **34,311** | | **38,659** |
| **Asedau cyfredol:** Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 43,616 | | 23,557 | |
| **Asedau cyfredol:** Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 9 | 61,021 | | 17,546 | |
| ***Cyfanswm yr asedau cyfredol*** | | | **104,637** | | **41,103** |
| ***Cyfanswm yr asedau*** | | | **138,948** | | **79,762** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 11 | (113,270) | | (47,955) | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** Rhwymedigaethau lesoedd | 7.2 | (2,229) | | (2,077) | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** Darpariaethau | 12 | (15,983) | | (48,214) | |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol*** | | | **(131,482)** | | **(98,246)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **7,466** | | **(18,484)** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** Rhwymedigaethau lesoedd | 7.2 | (11,627) | | (12,827) | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** Darpariaethau | 12 | (1,344) | | (1,642) | |
| ***Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol*** | | | **(12,971)** | | **(14,469)** |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | | | **(5,505)** | | **(32,953)** |
| **Ecwiti trethdalwyr:** Cronfa gyffredinol | | (5,505) | | (32,953) | |
| ***Cyfanswm ecwiti*** | | | **(5,505)** | | **(32,953)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 101-121 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.



**Tim Jarvis**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu Dros Dro
10 Gorffennaf 2026

# Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn ar y cronfeydd wrth gefn gwahanol a ddelir gan yr adran, wedi'u dadansoddi'n 'gronfeydd cyffredinol wrth gefn' (h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny sy'n adlewyrchu cyfraniad o'r Gronfa Gyfunol). Mae'r Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli cyfanswm asedau adran llai rhwymedigaethau, i'r graddau nad yw'r cyfanswm wedi ei gynrychioli gan gronfeydd wrth gefn nac eitemau ariannu eraill.

| | Nodyn | Cronfa gyffredinol £000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **3,674** |
| Cydnabyddiaeth ariannol yr archwilwyr | 3 | 155 |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | SoCNE | (32,278) |
| Cyllid Seneddol Net – tybiedig | | - |
| Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd | | 13,154 |
| Symiau Arian Parod Gormodol sy'n Daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 11 | (17,546) |
| Symudiadau cronfeydd wrth gefn eraill | | (112) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | | **(32,953)** |
| Cydnabyddiaeth ariannol yr archwilwyr | | 181 |
| Incwm net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | SoCNE | 46,288 |
| Cyllid Seneddol Net – tybiedig | | - |
| Cyllid Seneddol Net – a hawliwyd | | 42,000 |
| Symiau Arian Parod Gormodol sy'n Daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 11 | (61,021) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | | **(5,505)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 101-121 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad o Lifau Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026

Mae'r Datganiad o Lifau Arian Parod yn dangos y newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar gyfer yr adran yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r adran yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo drwy ddosbarthu llifau arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth a'r graddau y caiff y gweithrediadau hyn eu hariannu drwy incwm gan dderbynyddion gwasanaethau a ddarparwyd gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli i ba raddau y mae llifau arian parod i mewn ac allan wedi cael eu gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan yr adran yn y dyfodol.

| | Nodyn | 2025-26 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu:** | | | |
| Incwm/(gwariant) gweithredu net* | SoCNE | 45,875 | (33,018) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | | 12,704 | 48,193 |
| Cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | | (19,984) | (1,434) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | | 66,593 | (19,046) |
| llai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SoCNE | | (43,475) | 19,615 |
| Defnydd o ddarpariaethau | 12 | (34,492) | (126) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **27,221** | **14,184** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd | | (3,777) | (624) |
| Asedau anniriaethol a brynwyd | 6 | (2,672) | (8,062) |
| Incwm cyllid | | 867 | 1,244 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(5,582)** | **(7,442)** |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido:** | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (Cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | SoCiTE | 42,000 | 13,154 |
| Elfen cyfalaf taliadau mewn perthynas â lesoedd | 7.4 | (2,618) | (2,350) |
| Blaendaliadau o'r Gronfa wrth Gefn | | 49,000 | 42,000 |
| Taliadau i'r Gronfa wrth Gefn | | (49,000) | (42,000) |
| **Cyllid net** | | **39,382** | **10,804** |

| | Nodyn | 2025-26 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|
| **Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod cyn addasu ar gyfer taliadau i'r Gronfa Gyfunol** | | **61,021** | **17,546** |
| Taliadau symiau sy'n ddyledus i'r Gronfa Gyfunol | SoCiTE | (17,546) | (37,161) |
| **Gostyngiad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod ar ôl addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol** | 9 | **43,475** | **(19,615)** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod | 9 | 17,546 | 37,161 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod** | 9 | **61,021** | **17,546** |

*y mae elw ohono o waredu eiddo, offer a chyfarpar yn £80,000.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 101-121 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

## 1. Statement of accounting policies

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd yng nghyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fo'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae Ofgem wedi dewis y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i'r amgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adran baratoi un prif ddatganiad ychwanegol. Mae'r Datganiad o Alldro yn erbyn y Cyflenwad Seneddol (SOPS) a'r nodiadau cysylltiedig yn dangos alldro yn erbyn amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net, ac maent wedi'u cynnwys yn yr adran ar yr Adroddiad ar Atebolrwydd ac Archwiliad Seneddol sy'n dechrau ar dudalen 77.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol o dan y confensiwn cost hanesyddol. Cyflwynir y cyfrifon i'r £'000 agosaf.

#### Busnes gweithredol

Yn debyg i adrannau eraill y llywodraeth, caiff ein rhwymedigaethau eu hariannu yn y dyfodol drwy grantiau cyflenwi yn y dyfodol a defnyddio incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan Senedd y DU. Mae'r symiau sydd eu hangen ar gyfer 2026-27 eisoes wedi'u cymeradwyo ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff symiau yn y dyfodol eu cymeradwyo. Rydym yn disgwyl parhau i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Felly rydym wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

### 1.2 Incwm gweithredu

Incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Ofgem yw incwm gweithredu. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd

am drwyddedau a ffioedd a thaliadau a godir am wasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn.

- Ffioedd trwydded – Ym mhob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i Ofgem fantoli ei wariant â'i incwm. Mae'n ofynnol i Ofgem godi incwm o'r sector a reoleiddir ganddo er mwyn talu'r costau y mae Ofgem yn mynd iddynt wrth reoleiddio'r sector hwnnw. Felly, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu'r gorfodadwyedd ar y naill barti a'r llall er mwyn galluogi Ofgem i adennill ei gostau gan drydydd partïon. Mae'r rhwymedigaethau perfformiad yn gysylltiedig â'r gwaith sylfaenol sydd i'w gyflawni gan Ofgem fel rheoleiddiwr y Farchnad Nwy a Thrydan, ac fel y nodir yn y Flaenraglen Waith a gyhoeddir. Cydnabyddir refeniw yn y flwyddyn pan eir i'r rhwymedigaeth perfformiad (cost).
- Incwm gan DESNZ a thaliadau a ailgodir drwy gynlluniau – O dan gytundebau lefel gwasanaeth/contractau â'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net a chyrff eraill y llywodraeth, mae Ofgem yn gweinyddu cynlluniau ynni a chynlluniau amgylcheddol ar eu rhan. Darperir y gwasanaethau hyn ar sail cost lawn. Cydnabyddir incwm ar sail croniadau wrth i'r rhwymedigaethau perfformiad a amlinellir yn y cytundebau/contractau lefel gwasanaeth gael eu bodloni dros amser. Caiff costau gweinyddu a ariennir yn uniongyrchol gan DESNZ, yn hytrach na'r cynllun ei hun neu lywodraethau eraill, eu nodi ar wahân yn Nodyn 4 a cheir esboniad yn Nodyn 14.
- Yr Ardoll Nwy Gwyrdd – Mae'r Ardoll Nwy Gwyrdd yn gosod rhwymedigaethau ar gyflenwyr nwy trwyddedig, gan gynnwys gofyniad i wneud taliadau ardoll bob chwarter, er mwyn ariannu'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd, sef cynllun amgylcheddol gan y llywodraeth sy'n cynnig cymhellion ariannol ar gyfer safleoedd biofethan treulio anerobig newydd er mwyn cynyddu cyfran y nwy gwyrdd yn y grid nwy. Nid oes rhwymedigaethau i drosglwyddo nwyddau na gwasanaethau i'r rhai sy'n talu'r ardoll (caiff ei thrin fel math o drethiant), oherwydd caiff y cyllid hwnnw ei ddefnyddio i dalu am daliadau a chostau rhedeg y Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd. Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn addasu IFRS 15 i'w gwneud yn ofynnol y dylid cydnabod refeniw trethiant a ddaw i law nad oes modd cael unrhyw ad-daliadau ar ei gyfer ac nad yw'n arwain at unrhyw rwymedigaethau o dan yr amgylchiadau canlynol: pan fydd mater cyfatebol i ddigwyddiad trethadwy wedi digwydd; pan ellir mesur y refeniw yn ddibynadwy; ac mae'n debygol y bydd y buddiannau economaidd a gynorthwyir o'r digwyddiad trethadwy yn llifo i'r endid sy'n casglu. Ystyrir bod y meini prawf hyn wedi'u bodloni ar gyfer yr Ardoll Nwy Gwyrdd ar ddiwedd pob chwarter. Cydnabyddir refeniw bob chwarter felly, yn seiliedig ar ddata pwynt mesurydd a gyflwynir gan gyflenwyr.
- Incwm arall – Cyfrifir am incwm arall ar sail croniadau.

## 1.3 Pensiynau

Cwmpesir cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS). Disgrifir y rhain yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'r Adroddiad Staff. Mae'r ddau gynllun yn anghyfrannol a heb eu hariannu. Mae'r cynlluniau yn gynlluniau buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr ac ni all yr Adran nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Yn unol â hynny, rhoddir cyfrif am y cynlluniau fel cynlluniau cyfraniadau diffiniedig yn y datganiadau ariannol hyn, yn unol ag IAS 19. Caiff cyfraniadau'r cyflogwr eu cydnabod fel gwariant yn y cyfnod yr eir iddynt.

Mae adrannau, asiantaethau a chyrff eraill a gwmpesir gan y ddau gynllun yn cyflawni cost pensiynau a ddarperir ar gyfer y staff a gyflogir ganddynt drwy dalu taliadau a gyfrifir ar sail croniadau. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn arwystl ar y cynlluniau. Ceir datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS a'r CSOPS yn eu cyfanrwydd.

## 1.4 Costau gadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Ofgem dalu cost buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol y PCSPS a'r CSOPS i gyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Darparwyd ar gyfer y gost lawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar wedi'i chyhoeddi a'i bod yn gyfrwymol.

## 1.5 Eiddo, offer, cyfarpar a dibrisiant

Delir pob categori o Eiddo, offer a chyfarpar ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi am werth cyfredol o ran defnydd presennol. Mae'r

dull hwn wedi'i fabwysiadu oherwydd ystyrir bod gan eiddo, offer a chyfarpar Ofgem oes fer neu werth unigol isel ac felly:

- nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cost hanesyddol wedi'i dibrisio a'r gwerth cyfredol;
- mae dibrisiant yn adlewyrchu'r defnydd o fuddiannau economaidd dros oes ddefnyddiol yr ased;
- byddai cost ac ymdrech ailbrisio'r asedau yn gwrthbwyso unrhyw fudd i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon.

Ni fyddai ailbrisiadau yn arwain at newid sylweddol i werthoedd cario.

- **Gwelliannau lesddaliadol**: Oes y les
- **Cyfarpar, dodrefn a ffitiadau swyddfa:** Pedair blynedd
- **Cyfarpar TG:** Tair blynedd

Yr isafswm lefel ar gyfer cyfalafu eiddo, offer a chyfarpar yw £2,000. Caiff cyfarpar TG a dodrefn, lle y gall asedau unigol gostio llai nag £2,000, eu cyfalafu ar sail grŵp.

## 1.6 Asedau anniriaethol ac amorteiddiad

Caiff asedau anniriaethol sy'n gysylltiedig â meddalwedd wedi'i theilwra'n arbennig a ddatblygwyd gan Ofgem i'w defnyddio wrth gynnal gwahanol gynlluniau eu cydnabod yn ôl eu cost hanesyddol a'u hamorteiddio dros eu hoes ddefnyddiol.

Amcangyfrifir yr oesoedd defnyddiol fel yr isaf o bum mlynedd neu'r cyfnod sy'n weddill lle disgwylir i'r feddalwedd gael ei defnyddio ar gyfer cynllun penodol.

Pan fyddant yn cael eu datblygu, caiff yr asedau eu dosbarthu fel asedau sy'n cael eu hadeiladu ac ni chânt eu hamorteiddio hyd nes y cânt eu comisiynu.

Caiff costau datblygu sy'n uniongyrchol briodoladwy i'r gwaith o ddylunio a phrofi'r feddalwedd bwrpasol eu cyfalafu pan fyddant yn bodloni'r meini prawf a nodir yn IAS 38 Asedau Anniriaethol (fel y'u haddaswyd gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol). Caiff gwariant nad yw'n bodloni'r meini prawf ei gydnabod fel gwariant pan eir iddo.

## 1.7 Lesoedd

Mae IFRS 16 Lesoedd yn cynnig model cyfrifyddu un lesddeiliad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliaid gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob les oni fydd tymor y les yn para 12 mis neu lai, neu os bydd yr ased sylfaenol yn bodloni meini prawf IFRS 16 i gael ei ddosbarthu'n ased "gwerth isel". Mae Ofgem wedi pennu gwerth isel i fod yn unol â'r trothwy cyfalafu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar, sef £2,000.

Ar gyfer lesoedd sy'n para 12 mis neu lai a lesoedd asedau gwerth isel, cydnabyddir y taliadau les fel traul ar sail llinell syth dros dymor y les.

Mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i asedau a rhwymedigaethau gael eu cydnabod i ddechrau yn ôl gwerth disgownt isafswm y taliadau les dros gyfnod perthnasol y les. Cymhwysodd Ofgem gyfradd ddisgowntio Trysorlys EF o 0.95% fel y gyfradd fenthyca gynyddraddol wrth gyfrifo'r gwerth wedi'i ddisgowntio adeg cymhwyso IFRS 16 gyntaf ar 1 Ebrill 2022. Pan gaiff taliadau les yn y dyfodol eu newid oherwydd newid mewn mynegai neu gyfradd neu adolygiad rhent, caiff y rhwymedigaethau les presennol eu mesur eto gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio heb ei newid. Defnyddir cyfradd ddisgowntio ddiwygiedig ar gyfer lesoedd presennol a gaiff eu haddasu'n briodol fel terfyniad rhannol. Lle caiff lesoedd presennol eu haddasu, penderfynir a yw'r trefniant yn gyfystyr â les ar wahân.

Ni fu unrhyw addasiadau i lesoedd na lesoedd newydd yn ystod 2025-26 na 2024-25.

Caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur wedi hynny gan ddefnyddio'r model mesur costau yn IFRS 16 fel dirprwy priodol ar gyfer y gwerth cyfredol o ran defnydd presennol neu werth teg. Mae hyn gan fod y lesoedd yn cynnwys telerau ar gyfer diweddaru taliadau les i gyfraddau'r farchnad. At hynny, mae gan yr asedau hawl i ddefnyddio oesoedd defnyddiol byrrach na'u hasedau sylfaenol cyfatebol.

Ar ôl cael eu cydnabod i ddechrau, caiff asedau hawl i ddefnyddio eu dibrisio ar sail llinell syth dros gyfnod disgwyliedig y les a chaiff llog ei gydnabod ar y rhwymedigaethau. Caiff y ddwy gost eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr. Caiff taliadau les eu gwrthbwyso yn erbyn y rhwymedigaethau lesoedd sy'n ddyledus. Codir cost TAW na ellir ei

hadennill yn ystod y cyfnod y mae'n berthnasol iddo ac felly ni chaiff ei chynnwys wrth fesur y rhwymedigaethau les ac yn dilyn hynny, wrth yr asedau hawl i ddefnyddio.

Mae lesoedd perthnasol Ofgem yn gysylltiedig â rhentu eiddo ar gyfer swyddfeydd.

## 1.8 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn cynnwys arian parod yn y banc ac mewn llaw. At ddiben y Datganiad o Lifau Arian Parod, mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn cynnwys arian parod yn unig.

## 1.9 Darpariaethau

Lle mae gan Ofgem rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i dalu rhai costau, bydd Ofgem yn darparu ar gyfer hynny ar sail amcangyfrif y rheolwyr o werth, tebygolrwydd ac amseru taliadau yn y dyfodol. Er bod mwy o ansicrwydd ynglŷn ag amcangyfrif yn gysylltiedig â darpariaethau cyfreithiol a'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd, bydd rheolwyr yn llunio eu hamcangyfrif gorau yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael.

Lle mae gwerth amser arian yn berthnasol, caiff y ddarpariaeth ei disgowntio i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio safonol Trysorlys EF (cyfradd nominal o 5.60% ar hyn o bryd ar gyfer rhwymedigaethau buddiannau ar ôl cyflogaeth, a chyfradd nominal o 3.64% ar gyfer darpariaethau cyffredinol byrdymor a chyfradd nominal o 4.22% ar gyfer darpariaethau cyffredinol tymor canolig). Bob blwyddyn mae'r taliadau ariannol yn y Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr yn cynnwys yr addasiadau i amorteiddio disgownt blwyddyn ac ailddatgan rhwymedigaethau i lefelau prisiau presennol.

## 1.10 Treth ar werth

Dangosir symiau llai treth ar werth (TAW), ac eithrio'r canlynol:

- codir TAW na ellir ei hadennill ar y Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr ac mae wedi'i chynnwys o dan y pennawd sy'n berthnasol i'r math o wariant
- mae TAW na ellir ei hadennill ar brynu ased wedi'i chynnwys yng nghost prynu wedi'i chyfalafu yr ased.

Mae'r swm sy'n ddyledus i/gan Gyllid a Thollau EF ar gyfer TAW wedi'i gynnwys yn y symiau taladwy/derbyniadwy yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

## 1.11 Cyfnewid tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar ddyddiad pob trafodyn.

## 1.12 Risgiau ariannol

Nid yw Ofgem yn sylweddol agored i risgiau sy'n gysylltiedig â hylifedd, cyfradd llog nac arian cyfred. Oherwydd natur ei gweithgareddau a'r ffordd y caiff Ofgem ei hariannu, ni chaiff ei hamlygu i'r un graddau o risg ariannol ag y mae endidau busnes yn eu hwynebu.

## 1.13 Asedau ac atebolrwydd dibynnol

Yn ogystal ag atebolrwydd dibynnol a ddatgelir yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Atebolrwydd Dibynnol ac Asedau Dibynnol), cyflwynir adroddiad ar atebolrwydd dibynnol statudol ac anstatudol penodol at ddibenion adrodd ac atebolrwydd seneddol. Digwydd hyn lle cred y rheolwyr ei bod yn annhebygol iawn y caiff budd economaidd ei drosglwyddo, ond lle mae adroddiad ar y rhwymedigaethau wedi cael ei gyflwyno i Senedd y DU yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

Ystyr ased dibynnol yw ased posibl sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol. Dim ond os bydd un neu fwy o ddigwyddiadau sy'n ansicr yn y dyfodol nad ydynt o dan reolaeth lwyr Ofgem yn digwydd neu ddim yn digwydd y caiff bodolaeth asedau o'r fath eu cadarnhau. Caiff ased dibynnol ei ddatgelu pan fydd mewnlif o fuddiannau economaidd yn debygol.

## 1.14 Asedau sy'n eiddo i drydydd partïon

Ni chaiff asedau sy'n eiddo i drydydd partïon fel y'u datgelir yn Nodyn 15 (megis arian a ddelir mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a chynlluniau Tariff Cyflenwi Trydan) eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol gan nad oes gan Ofgem unrhyw fudd ynddynt.

## 1.15 Mabwysiadu safonau cyfrifyddu newydd a diwygiedig

- **IFRS 18**

Bydd IFRS 18 Cyflwyno a Datgelu mewn Datganiadau Ariannol yn disodli IAS 1 Cyflwyno Datganiadau Ariannol a bydd mewn grym ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2027 yn y sector preifat. Mae effaith IFRS 18 ar y Sector Cyhoeddus yn dal i gael ei hasesu, ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch dyddiad gweithredu.

- **IFRS 19**

Mae IFRS 19 Is-gwmnïau heb Atebolrwydd Cyhoeddus: Datgeliadau yn caniatáu i is-gwmnïau cymwys gymhwyso Safonau Cyfrifyddu IFRS â llai o ofynion datgelu a bydd mewn grym ar gyfer cyfnodau adrodd blynyddol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2027 yn y sector preifat. Mae effaith IFRS 19 ar y Sector Cyhoeddus yn dal i gael ei hasesu, ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch dyddiad gweithredu.

## 1.16 Penderfyniadau cyfrifyddu hanfodol ac ansicrwydd ynghylch amcangyfrif

- **Darpariaethau**

Mae darpariaethau yn dibynnu ar arfer barn broffesiynol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill y disgwylir iddynt ddylanwadu ar ddigwyddiadau yn y dyfodol. Lle y bernir bod rhwymedigaeth yn debygol o grisialu ac y gellir ei mesur gyda sicrwydd rhesymol, cydnabyddir darpariaeth. Datgelir rhagor o wybodaeth yn Nodiadau 1.9 a 12.

- **Tymhorau lesoedd**

O dan IFRS 16, mae Ofgem yn asesu'r tebygolrwydd y caiff cymalau terfynu neu opsiynau estyn eu harfer yn ystod tymhorau lesoedd. Mae'r amcangyfrif hwn yn pennu hyd tymor y les sy'n effeithio ar rwymedigaethau lesoedd ac asedau hawl i ddefnyddio. Caiff asesiadau o'r fath eu hadolygu os bydd digwyddiad mawr neu newid sylweddol mewn amgylchiadau.

# 2. Datganiad o wariant/(incwm) gweithredu yn ôl segment gweithredu

## 2025-26

| | Gweith-gareddau Rheoleiddio £000 | Cyflawni a Chynlluniau* £000 | Gwasan-aethau Corfforaethol a Chanolog £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant gros | 91,686 | 97,917 | 77,192 | 266,795 |
| Incwm | (91,686) | (141,357) | (79,627) | (312,670) |
| **Incwm gweithredu net** | **-** | **(43,440)** | **(2,435)** | **(45,875)** |

## 2024-25

| | Gweith-gareddau Rheoleiddio £000 | Cyflawni a Chynlluniau* £000 | Gwasan-aethau Corfforaethol a Chanolog £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwariant gros | 86,049 | 101,705 | 72,009 | 259,763 |
| Incwm | (86,049) | (77,003) | (63,693) | (226,745) |
| **Gwariant gweithredu net** | **-** | **24,702** | **8,316** | **33,018** |

Mae adroddiadau segmentaidd yn cael eu cyflwyno ar sail gweithgarwch, yn unol ag adroddiadau misol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y sefydliad.

* Mae'r segment gweithredu hwn hefyd yn cynnwys Nwy Gwyrdd.

# 3. Gwariant

| | Nodyn | 2025-26 £000 | 2024-25 (ailddosb-arthwyd) £000 |
|---|---|---|---|
| **Costau staff*:** Cyflogau | | 128,811 | 119,562 |
| **Costau staff*:** Costau nawdd cymdeithasol | | 16,202 | 12,356 |
| **Costau staff*:** Costau pensiwn eraill | | 31,944 | 29,358 |
| **Costau staff*:** Ardoll Brentisiaethau | | 587 | 539 |
| Costau staff eraill | | 205 | 177 |
| | | **177,749** | **161,992** |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod:** Cydnabyddiaeth ariannol a threuliau'r archwilwyr** | | 181 | 155 |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod:** Dibrisiant – eiddo, offer a chyfarpar | 5 | 1,952 | 1,483 |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod:** Dibrisiant – asedau hawl i ddefnyddio | 7 | 2,244 | 1,921 |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod:** Amorteiddio – asedau anniriaethol | 6 | 6,372 | 4,509 |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod:** Addasu croniadau tâl gwyliau | | 77 | 337 |
| | | **10,826** | **8,405** |
| **Gwariant arall:** Ymgynghoriaeth**** | | 5,185 | 8,683 |
| **Gwariant arall:** Cyflenwadau a gwasanaethau swyddfa a TG**** | | 23,002 | 16,800 |
| **Gwariant arall:** Gwasanaethau proffesiynol**** | | 9,818 | 8,866 |
| **Gwariant arall:** Taliadau cynlluniau | | 30,223 | 6,951 |
| **Gwariant arall:** Costau swyddfeydd | | 2,950 | 2,922 |
| **Gwariant arall:** Recriwtio a hyfforddiant | | 2,405 | 2,070 |
| **Gwariant arall:** Teithio a chynhaliaeth | | 1,485 | 1,703 |
| **Gwariant arall:** Costau sy'n ymwneud â staff | | 557 | 547 |
| **Gwariant arall** | | 676 | 587 |
| | | **76,301** | **49,129** |
| **Darpariaethau:** Symudiad mewn darpariaethau*** | 12 | 1,919 | 40,237 |
| | | **266,795** | **259,763** |

* Nid yw hyn yn cynnwys yr £1.1 miliwn (£5.0 miliwn yn 2024-25) a gyfalafwyd fel rhan o gyfanswm yr ychwanegiadau i asedau anniriaethol sy'n cael eu hadeiladu yn Nodyn 6. Ceir dadansoddiad pellach o gostau staff yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a'r Adroddiad Staff ar dudalen 65.
** Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth ariannol i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.
*** Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys £0.044 miliwn (£0.040 miliwn yn 2024-25) a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn am ddadfeiliadau a gyfalafwyd fel rhan o'r asedau hawl i ddefnyddio yn Nodyn 7, yn unol ag IFRS 16.
**** Ailddosbarthiad cymharol: Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiad o ddosbarthiad costau cymorth a gaffaelwyd yn allanol; penderfynwyd bod rhywfaint o wariant a ddatgelwyd o fewn ymgynghoriaeth yn flaenorol yn perthyn yn fwy priodol i wasanaethau swyddfa a TG neu wasanaethau proffesiynol, gan adlewyrchu natur sylfaenol y gwasanaethau a gafwyd.

Yn unol â hynny, mae cymariaethau â blynyddoedd blaenorol wedi cael eu hailddosbarthu er mwyn cydymffurfio â dull cyflwyno'r flwyddyn gyfredol. Newid ailddosbarthu yn unig yw hwn ac nid yw'n effeithio ar gyfanswm y gwariant arall a nodir yn Nodyn 3 na'r cyfanswm gwariant net cynhwysfawr na'r sefyllfa ariannol a gofnodir.

Nodir effaith yr ailddosbarthiad ar y flwyddyn flaenorol isod:

| | 2024-25 (fel yr adroddwyd) | Ailddosbarthiad | 2024-25 (ailddosb-arthwyd) |
|---|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth | 15,753 | (7,070) | 8,683 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau swyddfa a TG | 10,198 | 6,602 | 16,800 |
| Gwasanaethau proffesiynol | 8,398 | 468 | 8,866 |
| | **34,349** | **-** | **34,349** |

## 4. Incwm

| | 2025-26 Incwm £000 | 2025-26 Costau llawn £000 | 2025-26 Gwarged/ (Diffyg) £000 | 2024-25 Incwm £000 | 2024-25 Costau llawn £000 | 2024-25 (Diffyg)/ Gwarged £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffioedd trwydded | 154,444 | 154,444 | - | 138,441 | 138,441 | - |
| Arall* | 158,226 | 112,351 | 45,875 | 88,304 | 121,322 | (33,018) |
| **Cyfanswm Gweithredu** | **312,670** | **266,795** | **45,875** | **226,745** | **259,763** | **(33,018)** |
| Incwm/traul cyllid | 942 | 529 | 413 | 1,244 | 504 | 740 |
| **Cyfanswm Net** | **313,612** | **267,324** | **46,288** | **227,989** | **260,267** | **(32,278)** |

| * Mae incwm arall yn cynnwys: | Nodyn | 2025-26 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|---|
| Tâl Tendr Trawsyrru ar y Môr a Ailgodir | | 3,564 | 3,427 |
| Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net | 14 | 64,278 | 61,420 |
| Taliadau wedi'u hailgodi a ariennir gan gynlluniau | | 11,746 | 10,800 |
| Ardoll Nwy Gwyrdd | | 75,625 | 9,660 |
| Adennill costau'r rhaglen reoleiddiol | | 2,076 | 2,282 |
| Ennill ar waredu eiddo, offer a chyfarpar | | 62 | - |
| Amrywiol* | | 875 | 715 |
| | | **158,226** | **88,304** |

*Mae incwm amrywiol yn cynnwys ffioedd ar gyfer ceisiadau am drwydded, adennill costau cyfreithiol, incwm gan adrannau eraill y llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog, a mân eitemau eraill.

# 5. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Dodrefn £000 | Cyfarpar swyddfa £000 | TG £000 | Gwelliannau lesddaliadol £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** Ar 1 Ebrill 2025 | 216 | 274 | 8,099 | 3,265 | 11,854 |
| **Cost neu brisiad** Ychwanegiadau | - | - | 2,487 | 12 | 2,499 |
| **Cost neu brisiad** Gwarediadau | - | - | (3,442) | - | (3,442) |
| **Cost neu brisiad Ar 31 Mawrth 2026** | **216** | **274** | **7,144** | **3,277** | **10,911** |
| **Dibrisiant** Ar 1 Ebrill 2025 | 212 | 248 | 4,812 | 2,743 | 8,015 |
| **Dibrisiant** Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 1 | 19 | 1,692 | 240 | 1,952 |
| **Dibrisiant** Ar warediadau | - | - | (3,406) | - | (3,406) |
| **Dibrisiant Ar 31 Mawrth 2026** | **213** | **267** | **3,098** | **2,983** | **6,561** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2026** | **3** | **7** | **4,046** | **294** | **4,350** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2025 | 4 | 26 | 3,287 | 522 | 3,839 |

| | Dodrefn £000 | Cyfarpar swyddfa £000 | TG £000 | Gwelliannau lesddaliadol £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** Ar 1 Ebrill 2024 | 231 | 283 | 6,345 | 3,310 | 10,169 |
| **Cost neu brisiad** Ychwanegiadau | - | 9 | 2,233 | 8 | 2,250 |
| **Cost neu brisiad** Gwarediadau | (15) | (18) | (479) | (53) | (565) |
| **Cost neu brisiad Ar 31 Mawrth 2025** | **216** | **274** | **8,099** | **3,265** | **11,854** |

| | Dodrefn £000 | Cyfarpar swyddfa £000 | TG £000 | Gwelliannau lesddaliadol £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dibrisiant** Ar 1 Ebrill 2024 | 226 | 228 | 4,079 | 2,562 | 7,095 |
| **Dibrisiant** Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 1 | 36 | 1,212 | 234 | 1,483 |
| **Dibrisiant** Ar warediadau | (15) | (16) | (479) | (53) | (563) |
| **Dibrisiant Ar 31 Mawrth 2025** | **212** | **248** | **4,812** | **2,743** | **8,015** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2025** | **4** | **26** | **3,287** | **522** | **3,839** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2024 | 5 | 55 | 2,266 | 748 | 3,074 |

Mae'r holl eiddo, offer a chyfarpar yn eiddo i Ofgem.

# 6. Asedau anniriaethol

Asedau meddalwedd gyfrifiadurol bwrpasol a grëwyd yn fewnol i'w defnyddio wrth redeg amryw gynlluniau Ofgem yw'r asedau anniriaethol. Cânt eu dosbarthu i ddechrau fel asedau sy'n cael eu hadeiladu ac ni chânt eu hamorteiddio hyd nes y byddant yn barod i gael eu defnyddio.

| | Meddalwedd gyfrifiadurol £000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** Ar 1 Ebrill 2025 | 20,722 | 7,994 | 28,716 |
| **Cost** Ychwanegiadau | - | 2,672 | 2,672 |
| **Cost** Ailddosbarthiadau | 8,671 | (8,671) | - |
| **Cost Ar 31 Mawrth 2026** | **29,393** | **1,995** | **31,388** |
| **Amorteiddio** Ar 1 Ebrill 2025 | 8,364 | - | 8,364 |
| **Amorteiddio** Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 6,372 | - | 6,372 |
| **Amorteiddio Ar 31 Mawrth 2026** | **14,736** | **-** | **14,736** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2026** | **14,657** | **1,995** | **16,652** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2025 | 12,357 | 7,994 | 20,351 |

| | Meddalwedd gyfrifiadurol £000 | Asedau sy'n cael eu hadeiladu £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** Ar 1 Ebrill 2024 | 12,335 | 8,318 | 20,653 |
| **Cost** Ychwanegiadau | - | 8,062 | 8,062 |
| **Cost** Ailddosbarthiadau | 8,386 | (8,386) | - |
| **Cost Ar 31 Mawrth 2025** | **20,721** | **7,994** | **28,715** |
| **Amorteiddio** Ar 1 Ebrill 2024 | 3,855 | - | 3,855 |
| **Amorteiddio** Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 4,509 | - | 4,509 |
| **Amorteiddio Ar 31 Mawrth 2025** | **8,364** | **-** | **8,364** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2025** | **12,357** | **7,994** | **20,351** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2024 | 8,480 | 8,318 | 16,798 |

# 7. Lesoedd

## 7.1 Asedau hawl i ddefnyddio

Mae contractau lesoedd Ofgem yn cynnwys lesoedd adeiladu gweithredol.

| | **Adeiladau £000** |
|---|---:|
| **Cost** Ar 1 Ebrill 2025 | 20,169 |
| **Cost** Ailfesur - lesoedd presennol | 1,084 |
| **Cost Ar 31 Mawrth 2026** | **21,253** |
| **Dibrisiant** Ar 1 Ebrill 2025 | 5,700 |
| **Dibrisiant** Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 2,244 |
| **Dibrisiant Ar 31 Mawrth 2026** | **7,944** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2026** | **13,309** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2025 | 14,469 |

| | **Adeiladau £000** |
|---|---:|
| **Cost** Ar 1 Ebrill 2024 | 18,332 |
| **Cost** Ailfesur - lesoedd presennol* | 1,837 |
| **Cost Ar 31 Mawrth 2025** | **20,169** |
| **Dibrisiant** Ar 1 Ebrill 2024 | 3,779 |
| **Dibrisiant** Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 1,921 |
| **Dibrisiant Ar 31 Mawrth 2025** | **5,700** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2025** | **14,469** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2024 | 14,553 |

*defnyddiwyd categori ailfesur newydd lle cofnodwyd fel ychwanegiadau yn flaenorol.

## 7.2 Rhwymedigaethau lesoedd

| Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod wedi'u disgowntio: | Adeiladau 2025-26 £000 | Adeiladau 2024-25 £000 |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 2,229 | 2,077 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 8,863 | 8,118 |
| Ar ôl pum mlynedd | 2,764 | 4,709 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **13,856** | **14,904** |

## 7.3 Symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr

| | 2025-26 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|
| Dibrisiant | 2,244 | 1,921 |
| Traul llog | 529 | 504 |
| TAW na ellir ei hadennill | 42 | 63 |
| **Cyfanswm a godwyd i'r Datganiad o Wariant/(Incwm) Net Cynhwysfawr** | **2,815** | **2,488** |

## 7.4 Symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o Lifau Arian Parod

| | 2025-26 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|
| Ad-dalu'r prifswm ar lesoedd | 2,618 | 2,350 |
| **Cyfanswm all-lif arian parod ar gyfer lesoedd** | **2,618** | **2,350** |

# 8. Offerynnau ariannol

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu bodloni drwy'r broses Amcangyfrifon, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae'r mwyafrif o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig yr Adran ac felly fel arfer nid yw'r Adran yn agored i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.

Caiff y gwarannau a'r llythyrau credyd a ddisgrifir yn Nodyn 15 eu dal er mwyn rheoli risg yn y broses tendro ar y môr a'r Ardoll Nwy Gwyrdd a gynhelir gan Ofgem ar ran y llywodraeth. Nid yw Ofgem yn agored i risg yn gysylltiedig â'r gwarannau a ddelir ganddo mewn perthynas â'r broses hon.

## 9. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

| | 2025-26 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 17,546 | 37,161 |
| Newid net mewn balansau arian parod | 43,475 | (19,615) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **61,021** | **17,546** |
| Delir y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 61,021 | 17,546 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **61,021** | **17,546** |

Yn ogystal â'r arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo a ddatgelir uchod, mae Ofgem yn dal asedau trydydd parti ar ffurf arian parod a llythyrau credyd sy'n ymwneud â gwarannau datblygwyr tendrau ar y môr, y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, a chronfeydd y Tariffau Cyflenwi Trydan, y Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy, y Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd a'r Cynllun Uwchraddio Boeleri. Disgrifir y rhain yn nodyn 15.

## 10. Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill

| | 2025-26 £000 | 2024-25 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Incwm a gronnwyd | 32,135 | 12,595 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 7,945 | 8,156 |
| Symiau TAW derbyniadwy | 121 | |
| Rhagdaliadau | 3,395 | 2,778 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 20 | 28 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **43,616** | **23,557** |

Y symiau derbyniadwy eraill yw benthyciadau staff sy'n ddyledus, megis y rhai sy'n gysylltiedig â'r cynllun beicio i'r gwaith.

# 11. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 2025-26<br>£000 | 2024-25<br>£000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau arian parod gormodol sy'n daladwy i'r Gronfa Gyfunol | 61,021 | 17,546 |
| Ffioedd trwydded gohiriedig | 2,655 | 3,348 |
| Incwm gohiriedig arall | 277 | 74 |
| Croniadau | 34,616 | 15,533 |
| Symiau taladwy eraill | 4,311 | 4,248 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | 9,460 | 6,331 |
| TAW sy'n daladwy | - | 119 |
| Symiau masnach taladwy | 930 | 756 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **113,270** | **47,955** |

Mae Ofgem yn annog staff i ddefnyddio eu hawl lawn i wyliau bob blwyddyn. Fodd bynnag, gall staff gario hyd at ddeg diwrnod o wyliau nas defnyddiwyd drosodd i'r flwyddyn nesaf. Caiff symiau nas defnyddiwyd ar 31 Mawrth eu cronni o fewn "symiau taladwy eraill".

Dim ond y credydwr staff a gynhwysir o fewn symiau taladwy eraill.

# 12. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ymddeol yn gynnar £000 | Ymadael gwirfoddol £000 | Dadfeiliadau £000 | Cyfreithiol £000 | Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd £000 | Arall £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2025 | 51 | 514 | 1,605 | 10,300 | 37,297 | 89 | 49,856 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | 1,429 | 44 | 6,750 | 3,327 | 73 | 11,623 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | - | - | - | (600) | (9,064) | (3) | (9,667) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (16) | (514) | - | (9,000) | (24,962) | - | (34,492) |
| Effaith disgowntio | 3 | - | 4 | - | - | - | 7 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **38** | **1,429** | **1,653** | **7,450** | **6,598** | **159** | **17,327** |

| | Ymddeol yn gynnar £000 | Ymadael gwirfoddol £000 | Dadfeiliadau £000 | Cyfreithiol £000 | Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd £000 | Arall £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans ar 31 Mawrth 2024 | 62 | 336 | 1,560 | 2,800 | 4,917 | 30 | 9,705 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | 400 | 40 | 9,600 | 32,380 | 59 | 42,479 |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | - | (118) | - | (2,100) | - | - | (2,218) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (22) | (104) | - | - | - | - | (126) |
| Effaith disgowntio | 11 | - | 5 | - | - | - | 16 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **51** | **514** | **1,605** | **10,300** | **37,297** | **89** | **49,856** |

| Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod wedi'u disgowntio ar 31 Mawrth 2026 | Ymddeol yn gynnar £000 | Ymadael gwirfoddol £000 | Dadfeiliadau £000 | Cyfreithiol £000 | Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd £000 | Arall £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 9 | 1,429 | 338 | 7,450 | 6,598 | 159 | 15,983 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 20 | - | 108 | - | - | - | 128 |
| Ar ôl pum mlynedd | 9 | - | 1,207 | - | - | - | 1,216 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **38** | **1,429** | **1,653** | **7,450** | **6,598** | **159** | **17,327** |

| Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau arian parod wedi'u disgowntio ar 31 Mawrth 2025 | Ymddeol yn gynnar £000 | Ymadael gwirfoddol £000 | Dadfeiliadau £000 | Cyfreithiol £000 | Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd £000 | Arall £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 14 | 514 | - | 10,300 | 37,297 | 89 | 48,214 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 28 | - | 338 | - | - | - | 366 |
| Ar ôl pum mlynedd | 9 | - | 1,267 | - | - | - | 1,276 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **51** | **514** | **1,605** | **10,300** | **37,297** | **89** | **49,856** |

**Ymddeol yn gynnar**
Yr adran sy'n talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS i gyflogeion, a oedd yn gweithio yn swyddfa Ofgem yng Nghaerlŷr, drwy dalu'r symiau gofynnol yn fisol i'r PCSPS.

**Ymadael gwirfoddol**
Mae darpariaethau diswyddo yn gysylltiedig ag achosion o ymadael gwirfoddol a drafodwyd â'r aelodau o staff dan sylw cyn 31 Mawrth 2026 ond na ddisgwylir iddynt ddigwydd tan 2026-27.

**Dadfeiliadau**
Mae darpariaethau dadfeiliadau yn rhagweld cost adfer eiddo ar les gan yr adran i'w gyflwr fel yr oedd ar ddechrau'r les yn y dyfodol.

**Cyfreithiol**
Gall risgiau cyfreithiol godi o ganlyniad i benderfyniadau a wnaed gan Ofgem. Amcangyfrifwyd gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar yr asesiad gan weithwyr cyfreithiol proffesiynol o'r tebygolrwydd o her a pha mor llwyddiannus y gallai fod. Mae'r amcangyfrif cost yn ystyried ffactorau fel lefel cymhlethdod, yr adnoddau yr amcangyfrifir y bydd eu hangen i ymateb i her a chostau trydydd parti posibl. Yn ystod 2025-26, defnyddiwyd £9 miliwn o ddarpariaeth 2024-25 mewn perthynas ag un risg benodol. Darparwyd £6.75 miliwn pellach mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed yn ystod 2025-26.

**Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd**
Mae'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd (GGSS) yn gwneud taliadau i gyfranogwyr cofrestredig. Mae proses gwneud cais tri cham cyn y gellir cofrestru cyfranogwyr. Mae'r ddarpariaeth yn cydnabod ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd camau terfynol y broses, sy'n debygol o gael eu cofrestru â'r cynllun yn y dyfodol, ac y mae'n debygol y caiff taliadau yn y dyfodol eu hôl-ddyddio hyd at 31 Mawrth 2026. Mae gwerth y ddarpariaeth yn seiliedig ar allbynnau amcangyfrifedig a'r dyddiad cymhwyso amcangyfrifedig.

**Darpariaethau eraill**
Mae darpariaethau eraill yn cynnwys costau dyledus sy'n ymwneud â diffyg hanesyddol mewn cyfraniadau pensiwn ar gyfer rhai aelodau o staff a chyn-aelodau o staff, yn ogystal â chosbau treth.

## 13. Atebolrwydd dibynnol a ddatgelir o dan IAS 37

O bryd i'w gilydd byddwn yn destun her gyfreithiol ac adolygiad barnwrol o benderfyniadau a wneir yn ystod ein busnes arferol fel rheoleiddiwr y marchnadoedd nwy a thrydan. Gallai dyfarniadau cyfreithiol arwain at atebolrwydd i dalu costau cyfreithiol ond ni ellir mesur y rhain gan y byddai canlyniad yr achos yn anhysbys. Felly, mae cryn ansicrwydd ynglŷn â natur a graddau unrhyw rwymedigaeth ganlyniadol.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw atebolrwydd dibynnol y mae'n ofynnol ei ddatgelu o dan IAS 37.

## 14. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom drosglwyddo £33.701 miliwn i'r Adran Busnes a Masnach (DBT) am wasanaethau eirioli 2025-26 ac £1.143 miliwn ar gyfer gwasanaethau mesureg 2025-26. Caiff y cronfeydd hyn eu casglu gan Ofgem drwy ffi'r drwydded, ar ran yr Adran. Yn 2024-25, trosglwyddwyd £17.860 miliwn i DBT am wasanaethau eirioli 2024-25 a chronnwyd £1.073 miliwn ar 31 Mawrth 2025 am wasanaethau mesureg 2024-25 (a drosglwyddwyd wedi hynny i DBT yn ystod 2025-26).

Rydym yn gweinyddu rhaglenni amgylcheddol ar ran yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ). Cyfanswm yr incwm gan DESNZ a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn oedd £64.278 miliwn, yr oedd £5.679 miliwn ohono wedi cronni ar 31 Mawrth 2026 (£61.420 miliwn o incwm yn 2024-25 gyda £5.896 miliwn wedi cronni ar 31 Mawrth 2025).

Rydym yn gweinyddu Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi, ac yn gweinyddu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau. Cydnabuwyd incwm o £1.433 miliwn

yn ystod y flwyddyn gan Adran yr Economi, yr oedd £0.325 miliwn ohono wedi cronni ar 31 Mawrth 2026 (incwm o £1.018 miliwn yn 2024-25 gyda £0.238 miliwn wedi cronni ar 31 Mawrth 2025). Cydnabuwyd incwm o £2.535 miliwn yn ystod y flwyddyn gan Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau, yr oedd £0.172 miliwn ohono wedi cronni ar 31 Mawrth 2026 (incwm o £2.277 miliwn yn 2024-25 gyda £0.117 miliwn wedi cronni ar 31 Mawrth 2025). Mae'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn ffigur y Taliadau a Ailgodir drwy Gynlluniau yn Nodyn 4.

Yn ogystal, rydym wedi ymgymryd â nifer bach o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrff llywodraeth ganolog.

Y cyfarwyddwr anweithredol, Graham Mather, yw'r Llywydd ac un o gyfarwyddwyr y Fforwm Polisi Ewropeaidd Cyfyngedig. Mae Ofgem yn aelod o'r Fforwm Seilwaith, sy'n rhan o'r sefydliad hwn. Talodd Ofgem ffi aelodaeth o £9,000 i'r Fforwm Polisi Ewropeaidd Cyfyngedig ar gyfer 2025-26 (ffi 2024-25: £7,500). Yn 2025-26, talodd Ofgem £450 i'r Fforwm Polisi Ewropeaidd Cyfyngedig hefyd i fynychu Uwchgynhadledd Cadeiryddion Fforymau Rheoleiddio (2024-25: £dim).

Nid oes unrhyw aelodau eraill o'r Awdurdod, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol ag Ofgem yn ystod y flwyddyn ac eithrio'r gydnabyddiaeth ariannol a nodir ar dudalen 65.

# 15. Asedau trydydd partïon

## Gwarannau Datblygwyr Tendrau ar y Môr

Ynghyd â'r llywodraeth, rydym wedi sefydlu cyfundrefn reoleiddio trawsyrru ar y môr gystadleuol i benodi perchennog Trawsyrru ar y Môr drwy broses dendro gystadleuol.

Ni sy'n gyfrifol am reoli'r broses dendro gystadleuol y rhoddir trwyddedau trawsyrru ar y môr drwyddi.

Mae rhoi trwyddedau i weithredu asedau trawsyrru ar y môr newydd drwy broses dendro gystadleuol yn golygu y caiff cynhyrchwyr ynni eu partneru â'r chwaraewyr mwyaf effeithlon a chystadleuol yn y farchnad. Dylai hyn arwain at gostau is a safonau gwasanaeth uwch i gynhyrchwyr ynni ac, yn y pen draw, y defnyddwyr.

Rhan o strategaeth rheoli risg Ofgem ar gyfer y broses dendro gystadleuol yw dal gwarannau at ddibenion adennill costau os na chwblheir proses dendro. Mae'r gwarannau hyn ar ffurf llythyr credyd neu arian parod. Ar 31 Mawrth 2026, roedd Ofgem yn dal £14.300 miliwn mewn llythyrau credyd a £dim mewn arian parod (31 Mawrth 2025: £8.450 miliwn mewn llythyrau credyd, £dim mewn arian parod).

## Y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy

Y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yw un o'r prif ddulliau o gefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr yn y DU, a gweinyddir y cynllun gan Ofgem. Caeodd y cynllun i ymgeiswyr yn 2017. Ceir rhagor o wybodaeth am y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn https://www.ofgem.gov.uk/environmental-programmes/ro/about-ro

Defnyddir sawl cyfrif banc i weinyddu'r cynllun:

- Cronfeydd allbrynu – Gall cyflenwyr gyflawni eu rhwymedigaeth ynni adnewyddaddwy drwy dalu i mewn i'r gronfa allbrynu. Caiff enillion y gronfa allbrynu eu had-dalu ar sail pro-rata i'r cyflenwyr hynny sy'n cyflawni eu rhwymedigaeth yn llawn.
- Taliadau hwyr – Bydd unrhyw daliadau sy'n dod i law ar ôl 31 Awst yn daliadau hwyr. Mae'r rhain yn destun cosb llog ddyddiol flynyddol (5% a chyfradd sylfaenol Banc Lloegr).
- Cilyddu – Pan fydd diffyg cyffredinol yn swm y rhwymedigaeth, mae'n ofynnol i gyflenwyr wneud taliad tuag at gilyddu. Caiff cronfeydd cilyddu eu hailddosbarthu i gyflenwyr sy'n cyflawni eu rhwymedigaeth yn llawn.

Cyfanswm y balansau banc a ddaliwyd mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar 31 Mawrth 2026 oedd £65.983 miliwn (31 Mawrth 2025: £3.628 miliwn). Cydnabuwyd incwm o £7.779 miliwn yn 2025-26 mewn perthynas â chynlluniau'r Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (incwm o £7.505 miliwn yn 2024-25). Mae'r incwm hwn wedi'i gynnwys yn ffigur y Taliadau a Ailgodir drwy Gynlluniau yn Nodyn 4.

## Cronfeydd lefelu'r cynllun Tariff Cyflenwi Trydan

Rhaglen gan y llywodraeth yw'r cynllun Tariff Cyflenwi Trydan, a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2010, gyda'r nod o hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r cynllun ar ran yr Adran dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ), sy'n gyfrifol am bolisi a deddfwriaeth y cynllun Tariff Cyflenwi Trydan, tra bod Cyflenwyr Trydan Trwyddedig (Trwyddedeion FIT) yn gweithredu'r agwedd ar y cynllun sy'n wynebu'r cyhoedd. Os bydd gan ddeiliad tŷ, cymuned neu fusnes osodiad cymwys, telir tariff iddynt am y trydan a gynhyrchir ganddynt a thariff am y trydan a allforir ganddynt yn ôl i'r grid gan eu Trwyddedai FIT.

Mae'r broses lefelu a weithredir gan Ofgem yn ailddosbarthu cost y cynllun ymhlith yr holl Gyflenwyr Trydan Trwyddedig, yn seiliedig ar eu cyfran o Farchnad Drydan Prydain Fawr ac unrhyw Daliadau FIT a wnaed ganddynt i osodiadau achrededig. Proses chwarterol yw hon, gyda phroses gysoni flynyddol a gwblheir erbyn mis Medi bob blwyddyn. Fel arfer, mae'r balans yn y gronfa lefelu yn werth bach ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Cyfanswm y balansau banc a ddaliwyd mewn perthynas â FIT ar 31 Mawrth 2026 oedd £1.806 miliwn (31 Mawrth 2025: £0.285 miliwn).

## Cynlluniau cymhelliad gwres adnewyddadwy (RHI) domestig ac annomestig

Mae'r cynllun RHI domestig yn gynllun ariannol gan y llywodraeth i annog newid i systemau gwresogi adnewyddadwy. Mae'n ffordd o helpu'r DU i leihau allyriadau carbon ac mae ar gael i gartrefi oddi ar y grid nwy ac ar y grid nwy.

Mae'r cynllun RHI annomestig yn rhaglen amgylcheddol gan y llywodraeth sy'n rhoi cymhellion ariannol i gynyddu'r defnydd o wres adnewyddadwy gan fusnesau, y sector cyhoeddus a sefydliadau nid er elw.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r ddau gynllun ar ran DESNZ ym Mhrydain Fawr, ac mae'n gweinyddu'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy Annomestig yng Ngogledd Iwerddon ar ran Adran yr Economi. Y balansau banc a ddaliwyd mewn perthynas â'r cynlluniau ar 31 Mawrth 2026 oedd: RHI domestig: £3.049 miliwn; RHI annomestig Prydain Fawr: £19.581 miliwn; RHI annomestig Gogledd Iwerddon: £0.788 miliwn (31 Mawrth 2025: £2.703 miliwn; £0.600 miliwn; £0.710 miliwn).

## Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd

Cynllun amgylcheddol gan y llywodraeth sy'n cynnig cymhellion ariannol ar gyfer safleoedd biofethan treulio anerobig newydd er mwyn cynyddu cyfran y nwy gwyrdd yn y grid nwy yw'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd. Agorodd y cynllun i gyfranogwyr ar 30 Tachwedd 2021 ac mae ar agor i geisiadau tan 31 Mawrth 2028. Gwneir taliadau bob chwarter i gyfranogwyr cofrestredig dros gyfnod o 15 mlynedd, ar sail y swm o fiofethan cymwys y bydd cyfranogwr yn ei gyfrannu at y grid nwy.

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd 2021, mae'r Ardoll Nwy Gwyrdd yn gosod rhwymedigaethau ar gyflenwyr nwy trwyddedig, gan gynnwys gofyniad i wneud taliadau ardoll bob chwarter i Ofgem er mwyn ariannu'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd. Rhaid i gyflenwyr nwy trwyddedig hefyd gynnig yswiriant credyd, naill ai ar ffurf arian parod neu drwy gyflwyno llythyr credyd dilys, er mwyn helpu i sicrhau y caiff yr arian ei gasglu'n brydlon ac er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen digwyddiadau cilyddu. Rhaid i'r yswiriant credyd bara o leiaf chwarter a'r pedair wythnos dilynol. Pan fydd ar waith, gall Ofgem ddefnyddio yswiriant credyd cyflenwyr mewn

achosion pan fydd cyflenwr yn peidio â thalu taliad ardoll neu daliad cilyddu cyfan neu ran ohono erbyn y dyddiad dyledus. Ar 31 Mawrth 2026, roedd Ofgem yn dal £9.414 miliwn mewn yswiriant credyd arian parod a £16.100 miliwn mewn llythyrau credyd (31 Mawrth 2025: £1.425 miliwn mewn yswiriant credyd arian parod, £3.500 miliwn mewn llythyrau credyd).

Caiff y polisi ar gyfer GGSS, a'r GGL cysylltiedig, ei bennu gan DESNZ ond caiff y cynllun ei weinyddu gan Ofgem.

### Cynllun Uwchraddio Boeleri

Cynllun amgylcheddol gan y Llywodraeth sy'n helpu i ddatgarboneiddio gwres mewn adeiladau yw'r Cynllun Uwchraddio Boeleri. Mae'n rhoi grantiau cyfalaf ymlaen llaw er mwyn helpu i dalu costau gosod pympiau gwres a boeleri biomas mewn cartrefi ac adeiladau annomestig yng Nghymru a Lloegr. Agorodd y cynllun yn 2022 ac mae wedi cael ei ymestyn tan 2030. Ofgem yw gweinyddwr y cynllun, ac mae DESNZ yn gyfrifol am bolisi a deddfwriaeth y cynllun a nodir yn Rheoliadau Cynllun Uwchraddio Boeleri (Cymru a Lloegr) 2022. Y balans banc a ddaliwyd mewn perthynas â'r cynllun ar 31 Mawrth 2026 oedd £11.613 miliwn (31 Mawrth 2025: £11.068 miliwn).

## 16. Cosbau ariannol

Mae Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan yn gyfrifol am gymryd camau gorfodi, gan gynnwys rhoi cosbau ariannol, mewn perthynas â'r cwmnïau ynni y mae'n eu rheoleiddio. Casglwn y symiau hyn er mwyn eu talu i'r Gronfa Gyfunol (SOPS 4.2).

## 17. Asedau Dibynnol

Nid oes unrhyw asedau dibynnol yn bodoli ar 31 Mawrth 2026. Ar 31 Mawrth 2025 roedd ased dibynnol o £9.0 miliwn mewn perthynas ag ad-daliad gan un o adrannau eraill y llywodraeth am gostau cyfreithiol; ymddangosodd hyn yn 2025-26.

## 18. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cafodd y broses o gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ei hawdurdodi'n briodol gan y Swyddog Cyfrifyddu ar ddyddiad tystysgrif archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu digwyddiadau ar ôl y dyddiad hwn.



# Atodiadau

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon | 2025-26

# Atodiad 1

## Ymchwiliadau a Chamau Gorfodi

Mae manylion ein hachosion ar gael ar ein gwefan yn unol â'n polisi fel y'i nodir yn ein Canllawiau Gorfodi. Byddem fel arfer yn cyhoeddi manylion byr y ffeithiau a natur yr ymchwiliadau ar ein gwefan, er bod polisi yn wahanol ar gyfer achosion sy'n gysylltiedig â'r Rheoliad ar Uniondeb a Thryloywder y Farchnad Ynni Cyfanwerthu (REMIT) a Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS).

Isod ceir manylion yr ymchwiliadau a gwblhawyd gennym y flwyddyn hon. Mewn ymchwiliadau lle rydym wedi sicrhau taliadau unioni, gwnaeth y cwmnïau daliadau naill ai'n uniongyrchol i ddefnyddwyr a/neu i raglenni a chronfeydd a fyddai'n elwa arnynt.

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Farringdon Energy Limited ("Farringdon") | Ymchwiliad i b'un a oedd Farringdon wedi cymryd/ yn cymryd taliadau Debyd Uniongyrchol am gyflenwad gan gwsmeriaid nad oedd yn cyflenwi trydan iddynt mwyach neu nad oedd wedi dechrau cyflenwi trydan iddynt. | Ar 16 Mehefin 2025, cadarnhaodd Ofgem ei gynnig i osod cosb ariannol o £214,580 ar Farringdon am dorri Amod Trwydded Safonol 4A, sef gallu gweithredol. Roedd y gosb yn ychwanegol at £9,096.00 o daliadau ewyllys da a wnaed gan Farringdon i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt fel ymddiheuriad. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm taliad o £223,676. | Mehefin 2025 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Scotia Gas Networks Ltd ("Grŵp SGN") – adroddwyd arno'n flaenorol fel corff "Heb ei ddatgelu" yng nghyfrifon 2024-25 | Ymchwiliad i b'un a oedd rhai arferion gan Grŵp SGN yn torri gwaharddiad Pennod II Deddf Cystadleuaeth 1998. Roedd Ofgem yn bryderus bod Grŵp SGN wedi ymddwyn mewn ffordd a all fod wedi camddefnyddio ei statws uchel drwy wrthod mabwysiadu cysylltiadau uwchlaw 7 barg (cysylltiadau pwysedd uwch a ddefnyddir mewn safleoedd Annomestig) a ddarparwyd gan drydydd partïon yn Ardal Rhwydwaith Dosbarthu Grŵp SGN. | Ar 2 Rhagfyr 2025, yn dilyn ein hymgynghoriad statudol, gwnaethom benderfynu derbyn ymrwymiadau rhwymol gan Grŵp SGN. Cawsom un sylw mewn ymateb i'n hymgynghoriad, o blaid yr ymrwymiadau arfaethedig. Mae'r ymrwymiadau'n mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch cystadleuaeth a nodwyd gennym dros dro yn ystod yr ymchwiliad. Daeth yr ymrwymiadau i rym o 2 Rhagfyr 2025, a byddant yn parhau i fod mewn grym am gyfnod o bum mlynedd o'r dyddiad hwnnw. Mae Ofgem yn nodi nad yw ymrwymo i ymrwymiadau yn gyfystyr ag unrhyw achos(ion) o dorri rheolau a ganfyddir gan Ofgem, nac yn gyfaddefiad o unrhyw achos(ion) o'r fath gan Grŵp SGN. | Rhagfyr 2025 |

Isod ceir manylion y taliadau unioni a sicrhaodd Ofgem drwy gamau gweithredu amgen neu waith cydymffurfio. Mae hyn yn rhoi cyfle i gwmni unioni pethau i ddefnyddwyr yn gyflym, heb i ni arfer ein pwerau gorfodi statudol.

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Totalenergies Gas and Power Limited ("Totalenergies") | Roedd Totalenergies yn gwrthwynebu'n anghywir i gwsmeriaid Microfusnesau a oedd am newid darparwyr rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mehefin 2024 oherwydd protocolau TG a gymhwyswyd yn anghywir. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Totalenergies i dalu £1,040,807 mewn ad-daliadau i gwsmeriaid, £360,793 mewn taliadau ewyllys da i gwsmeriaid, £300,000 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem ac ad-dalodd £66,850 i'r Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni / Cynllun Gostyngiad mewn Biliau Ynni. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm taliad o £1,701,600. | Ebrill 2025 |
| Good Energy Limited ("Good Energy") | Methodd Good Energy anfon biliau terfynol at gwsmeriaid mesuryddion rhagdalu o fewn 6 wythnos i'r dyddiad y daeth y cyflenwad i ben, fel sy'n ofynnol gan Amod Trwydded Safonol 27.17. Gan na chafodd biliau terfynol eu hanfon, ni chafodd nifer o gwsmeriaid hysbysiad o falansau credyd, nac ad-daliadau o'u balansau credyd a/neu daliadau iawndal. Mae Good Energy wedi diweddaru ei brosesau a'i systemau bilio i ddatrys y broblem. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Good Energy i dalu £22,108 mewn ad-daliadau i gwsmeriaid, £33,173 mewn taliadau ewyllys da i gwsmeriaid a £94,786 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm taliad o £150,067. | Mai 2025 |
| Octopus Energy Limited ("Octopus") | Nodwyd problem a oedd yn effeithio ar gwsmeriaid â Seilwaith Mesuryddion Cyfyngedig yn dilyn adolygiad o gydymffurfiaeth gan Ofgem. Codwyd mwy ar rai cwsmeriaid na'r hyn a ganiatawyd o dan y cap ar brisiau mewn camgymeriad rhwng mis Ionawr 2019 a mis Medi 2024. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Octopus i dalu £2,636,884 mewn ad-daliadau i gwsmeriaid a £546,278 mewn taliadau ewyllys da i gwsmeriaid. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm taliad o £3,183,162. | Mai 2025 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Ovo Energy Limited ("Ovo") | Nodwyd problem a oedd yn effeithio ar gwsmeriaid â Seilwaith Mesuryddion Cyfyngedig yn dilyn adolygiad o gydymffurfiaeth gan Ofgem. Codwyd mwy ar rai cwsmeriaid na'r hyn a ganiatawyd o dan y cap ar brisiau mewn camgymeriad rhwng mis Ionawr 2019 a mis Medi 2024. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Ovo i dalu £602,066.05 mewn ad-daliadau i gwsmeriaid a £280,068.73 mewn taliadau ewyllys da i gwsmeriaid. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm taliad o £882,134.78. | Mai 2025 |
| So Energy Limited ("So Energy") | Nodwyd problem a oedd yn effeithio ar gwsmeriaid â Seilwaith Mesuryddion Cyfyngedig yn dilyn adolygiad o gydymffurfiaeth gan Ofgem. Codwyd mwy ar rai cwsmeriaid So Energy na'r hyn a ganiatawyd o dan y cap ar brisiau mewn camgymeriad rhwng mis Ionawr 2019 a mis Medi 2024. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd So Energy i dalu £266,041.16 mewn ad-daliadau i gwsmeriaid a £58,285.85 mewn taliadau ewyllys da i gwsmeriaid. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm taliad o £324,327.01. | Mai 2025 |
| Utility Warehouse Limited ("Utility Warehouse") | Nodwyd problem a oedd yn effeithio ar gwsmeriaid â Seilwaith Mesuryddion Cyfyngedig yn dilyn adolygiad o gydymffurfiaeth gan Ofgem. Codwyd mwy ar rai cwsmeriaid Utility Warehouse na'r hyn a ganiatawyd o dan y cap ar brisiau mewn camgymeriad rhwng mis Ionawr 2019 a mis Medi 2024. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Utility Warehouse i dalu £2,043,098.84 mewn ad-daliadau i gwsmeriaid a £453,960 mewn taliadau ewyllys da i gwsmeriaid. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm taliad o £2,497,058.84. | Mai 2025 |
| Adolygiad o Gydymffurfiaeth y Farchnad – Mesuryddion Rhagdalu | Yn dilyn Adolygiad o Gydymffurfiaeth y Farchnad gan Ofgem yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â Mesuryddion Rhagdalu, canfuwyd bod wyth cyflenwr ynni wedi methu â chyrraedd y safonau gofynnol wrth geisio adennill dyledion drwy osod mesuryddion rhagdalu yn anwirfoddol. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd wyth cyflenwr ynni i dalu £18,600,000 mewn taliadau iawndal uniongyrchol i gwsmeriaid ac i ddileu dyledion 40,000 o gwsmeriaid. | Mai 2025 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Cadent Gas Limited ("Cadent") | Agorodd Ofgem ymchwiliad i honiadau nad oedd Cadent yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau a gynhwysir yn Amod Arbennig Safonol D10 2(h) drwy fethu â mynychu o leiaf 97% o ollyngiadau nwy o fewn yr amserlenni rhagnodedig ar gyfer cyfnod adrodd 2022 i 2023. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Cadent i dalu £1,500,000 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Mai 2025 |
| Scotland Gas Networks Plc ("SGN") | Agorodd Ofgem ymchwiliad i honiadau nad oedd SGN yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau a gynhwysir yn Amod Arbennig Safonol D10 2(h) drwy fethu â mynychu o leiaf 97% o ollyngiadau nwy o fewn yr amserlenni rhagnodedig ar gyfer cyfnod adrodd 2022 i 2023. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd SGN i dalu £700,000 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Mai 2025 |
| Southern Gas Networks Plc ("Southern Gas") | Agorodd Ofgem ymchwiliad i honiadau nad oedd Southern Gas yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau a gynhwysir yn Amod Arbennig Safonol D10 2(h) drwy fethu â mynychu o leiaf 97% o ollyngiadau nwy o fewn yr amserlenni rhagnodedig ar gyfer cyfnod adrodd 2022 i 2023. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Southern Gas i dalu £5,800,000 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Mai 2025 |
| Utilita Energy Limited ("Utilita") | Rhwng 2023 a 2024, methodd Utilita â throsglwyddo taliadau gorfodol y Gostyngiad Cartrefi Cynnes i fwy na 4,000 o gwsmeriaid o fewn yr amserlen ofynnol oherwydd gwall mewnol wrth brosesu taliadau. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Utilita i dalu £277,000 mewn taliadau ewyllys da i gwsmeriaid. | June 2025 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Octopus Energy Limited ("Octopus") | Rhwng 2016 a mis Hydref 2023, methodd Octopus ag anfon biliau terfynol at gwsmeriaid â mesuryddion rhagdalu o fewn 6 wythnos o drosglwyddo cyflenwr neu ddod â'r Contract Cyflenwi Domestig i ben; o ganlyniad, ni chafodd nifer o gwsmeriaid hysbysiad o falansau credyd a adawyd ar eu cyfrifon, nac ad-daliadau o'u balansau credyd a/neu daliadau iawndal yn ymwneud â methiant Octopus i gydymffurfio â'r Rheoliadau Safonau Perfformiad Gwarantedig. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Octopus i dalu £1,271,000 mewn ad-daliadau i gwsmeriaid a £212,000 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm taliad o £1,483,000. | Gorffennaf 2025 |
| Ovo Energy Limited ("Ovo") | Gwnaeth Ovo hunangofnodi mater mewn perthynas â'i allu i filio cwsmeriaid sydd â threfniadau mesurydd penodol, sef cwsmeriaid sydd ag un pwynt cyflenwi, ond sydd â sawl mesurydd y tu ôl i'r cyflenwad cychwynnol i'r eiddo. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiadau ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Ovo i dalu £2,152,447.85 mewn taliadau ewyllys da i gwsmeriaid, a ddarparwyd ar ffurf gostyngiadau i filiau. | Gorffennaf 2025 |
| SEFE Energy UK ("SEFE") | Methodd SEFE â mynd i'r afael â gofynion Amodau Trwydded Cyflenwyr Nwy 7A.10B (a) ac (c) ar gyfer Microfusnesau h.y. hysbysu'r cwsmer o'r dyddiad y disgwylir i'r cyfnod penodol ddod i ben. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd SEFE i dalu £377,299 mewn ad-daliadau i gwsmeriaid a £264,037 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm taliad o £641,336. | Medi 2025 |
| Ovo Energy Limited ("Ovo") | Methodd Ovo â darparu ad-daliadau'r Gostyngiad Cartref Cynnes i 11,646 o gwsmeriaid erbyn y dyddiad cau statudol sef 31 Mawrth 2024. Ni chafodd y cwsmeriaid hyn eu had-daliad tan fis Tachwedd 2025 – fwy na 19 mis yn hwyr. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Ovo i dalu £2,765,200 mewn taliadau ewyllys da i gwsmeriaid. | Ionawr 2026 |

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---|---|---|---|
| Ovo Energy Limited ("Ovo") | Rhwng mis Ionawr 2024 a mis Ionawr 2026, bu Ovo yn bilio cwsmeriaid gan ddefnyddio'r rhaniad gwresogi anghywir o ran cyfraddau allfrig a brig ac, o ganlyniad, codwyd mwy na'r cap ar brisiau ar lawer o gwsmeriaid. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Ovo i dalu £370,949.96 mewn ad-daliadau i gwsmeriaid a £116,702.29 mewn taliadau ewyllys da i gwsmeriaid. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm taliad o £487,652.25. | Chwefror 2026 |
| Good Energy Limited ("Good Energy") | Hunangofnododd Good Energy ei fod wedi bod yn bilio 533 o gwsmeriaid nwy yn ystod 2023 gan ddefnyddio ffactorau trosi metrig yn hytrach na rhai imperial. O gyfanswm y cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt, ni chodwyd digon ar 492 o gwsmeriaid a chodwyd gormod ar 41 o gwsmeriaid. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Good Energy i dalu £311,243.84 mewn ad-daliadau i gwsmeriaid a £19,828.45 mewn taliadau ewyllys da i gwsmeriaid. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm taliad o £331,072.29. | Mawrth 2026 |
| National Grid Electricity Transmission plc ("y Grid Cenedlaethol) | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth y Grid Cenedlaethol ag adran 9(2) o Ddeddf Trydan 1989 ac Amod Trwydded Safonol B72 o'i drwydded trawsyrru. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd y Grid Cenedlaethol i dalu £20,000,000 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem. | Mawrth 2026 |
| Farringdon Energy Limited ("Farringdon") | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth Farringdon ag Amodau Trwydded Safonol: 0A Trin Cwsmeriaid Annomestig yn Deg; 4A Gallu Gweithredol; 4C Gofynion Addas a Phriodol Parhaus; 5 Darparu gwybodaeth i'r Awdurdod; 7A Cyflenwi i Ddefnyddwyr Microfusnesau; 19C Cynllun parhad ar gyfer cyflenwad cwsmeriaid;<br>21B Bilio yn seiliedig ar ddarlleniadau mesurydd;<br>21BA Ôl-filio. | Camau gweithredu amgen, dim canfyddiad ffurfiol o dor-amod. Cytunodd Farringdon i dalu £525,000 i Gronfa Unioni Gwirfoddol y Diwydiant Ynni Ofgem | Mawrth 2026 |

Yn ogystal â hyn, arweiniodd achosion eraill o ymgysylltu ynghylch cydymffurfio at y canlynol.

| Math o effaith | Gwerth |
|---|---|
| Ad-daliadau i gwsmeriaid | £97,998.88 |
| Taliadau iawndal i ddefnyddwyr | £57,222.68 |
| Taliadau unioni i'r Gronfa Unioni Gwirfoddol | £2,650.00 |
| **Cyfanswm** | **£157,871.56** |

## Achosion agored

Isod ceir yr ymchwiliadau agored fel yr oeddent ar ddiwedd mis Mawrth 2026. Noder, nid yw agor ymchwiliad yn awgrymu ein bod wedi gwneud unrhyw ganfyddiad(au) ynghylch diffyg cydymffurfiaeth. Nid yw Ofgem yn cyhoeddi gwybodaeth am bob ymchwiliad agored, yn arbennig pan fydd Ofgem yn cynnal ymchwiliadau i achosion posibl o fethu â chydymffurfio â gofynion REMIT neu Reoliadau NIS. Fel rheol, nid ydym yn rhoi sylwadau pellach ar yr ymchwiliadau hyn, gan gynnwys pwy rydym yn ymchwilio iddo, oni chredwn fod angen gwneud hynny er budd defnyddwyr neu hyder y farchnad.

| Cwmni | Dyddiad Agor | Mater |
|---|---|---|
| British Gas Trading Limited ("BG") | Chwefror 2023 | Ymchwiliad i gydymffurfiaeth BG ag Amodau Trwydded Safonol 0, 13.1 (a) a (d), 27, 28 a 28B o'r Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan. Mae'r Amodau Trwydded Safonol hyn yn ymwneud â'r Safonau Ymddygiad, y trefniadau ar gyfer mynediad i safleoedd cwsmeriaid, datgysylltiadau, mesuryddion rhagdalu a gosod mesuryddion rhagdalu o dan Warant Berthnasol. |
| Ovo Energy Limited ("Ovo") | Mai 2023 | Ymchwiliad i bedwar endid cyflenwi trwyddedig sy'n rhan o riant-gwmni Ovo, a'u cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 0.3(c)(d), 26.4, 26.5(d)(f), 27A a 28.1A, B o'r Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan. Mae'r Amodau Trwydded Safonol hyn yn ymwneud â thrin cwsmeriaid domestig yn deg, rhwymedigaethau i gwsmeriaid ar y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth a sicrhau bod Mesuryddion Rhagdalu cwsmeriaid yn ddiogel ac yn rhesymol ymarferol o dan unrhyw amgylchiadau. |
| Ruby Electricity Ltd a Ruby Gas Ltd ("Ruby"), BES Commercial Electricity Ltd a Business Energy Solutions Ltd gynt | Tachwedd 2023 | Ymchwiliad i ganfod a yw Ruby yn cydymffurfio ag Amod Trwydded Safonol 7.3 y Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan. Pan fydd cwsmer yn cael cyflenwad yn seiliedig ar gydberthynas contract tybiedig, mae'n ofynnol i'r cyflenwr o dan Amod Trwydded Safonol 7.3 gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw telerau ei gontractau tybiedig yn rhy feichus. |

| Cwmni | Dyddiad Agor | Mater |
|---|---|---|
| Utilita Energy Limited (“Utilita”) | Chwefror 2024 | Ymchwiliad i ganfod a yw Utilita yn cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 4A, 11B, 12 a 12A ei Drwydded Cyflenwi Trydan, ac Amodau Trwydded Safonol 4A, 11 a 12A ei Drwydded Cyflenwi Nwy. Mae’r Amodau Trwydded Safonol hyn yn ymwneud â Gallu Gweithredol, y Cod Ynni Manwerthu, Materion sy’n ymwneud â Mesuryddion Trydan, a Materion sy’n ymwneud â Dwyn Trydan, a materion sy’n ymwneud â dwyn nwy. |
| Utilita Energy Limited (“Utilita”) | Tachwedd 2024 | Ymchwiliad i ganfod a yw Utilita yn cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 0, 4A, 23, 26, 27, 27A, 28 a 28B o’r Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan. Mae’r Amodau Trwydded Safonol yn ymwneud â thrin cwsmeriaid domestig yn deg, gallu gweithredol, hysbysu am Delerau Contractau Cyflenwi Domestig, y Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth, datgysylltiadau, hunan-ddatgysylltiadau, mesuryddion rhagdalu a gosod mesuryddion rhagdalu o dan Warant Berthnasol. |
| Maxen Power Supply Limited (“Maxen”) | Ebrill 2025 | Ymchwiliad i ganfod a yw Maxen yn cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 0A, 12 a 12A o’r trwyddedau cyflenwi nwy a thrydan. Mae’r Amodau Trwydded Safonol hyn yn ymwneud â thrin busnesau’n deg a materion sy’n ymwneud â dwyn ynni. Ar ôl agor yr ymchwiliad, gwnaethom ehangu ei gwmpas i gynnwys Amodau Trwydded Safonol 4A, 4C a 5A. Mae’r Amodau Trwydded Safonol hyn yn ymwneud â gallu gweithredol, gofynion i gael cyfarwyddwr addas a phriodol parhaus a’r egwyddor o fod yn agored ac yn gydweithredol ag Ofgem. |
| Moray Offshore Windfarm (East) Limited (“Fferm Wynt ar y Môr Moray”) | Ebrill 2025 | Ymchwiliad i ganfod a yw Fferm Wynt ar y Môr Moray yn cydymffurfio â gofynion amod 20A o Amodau Trwydded Safonol Cynhyrchu Trydan (a elwir yn Amod Trwydded Cyfyngu ar Drawsyrru). |
| Smart DCC Ltd (“DCC”) | Gorffennaf 2025 | Ymchwiliad i ganfod a yw DCC yn cydymffurfio ag Amodau Trwydded Safonol 11.6-11.9 ac 16.4-16.6.<br><br>Mae Amodau Trwydded Safonol 11.6-11.9 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Trwyddedai (DCC) beidio â rhoi blaenoriaeth heb fod angen iddo’i hun nac unrhyw gwmni cysylltiedig wrth ymgymryd ag unrhyw weithgaredd.<br><br>Mae Amodau Trwydded Safonol 16.4-16.6 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Trwyddedai (DCC) gaffael gallu gwasanaeth perthnasol gan ddarparwyr gwasanaeth allanol ar sail gystadleuol. |

| Cwmni | Dyddiad Agor | Mater |
|---|---|---|
| National Grid Electricity Transmission plc ("y Grid Cenedlaethol") | Gorffennaf 2025 | Ymchwiliad i ganfod a yw'r Grid Cenedlaethol yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Adran 9(2) o Ddeddf Trydan 1989 ac Amod Trwydded Safonol B7(1) o'i Drwydded Trawsyrru Trydan mewn perthynas ag is-orsaf North Hyde a chyflwr ei asedau yn y lleoliad hwnnw (a arweiniodd at golli'r holl gyflenwadau o is-orsaf 275kV North Hyde, gan effeithio ar filoedd o gwsmeriaid, gan gynnwys Maes Awyr Heathrow).<br><br>Mae Adran 9(2) o Ddeddf Trydan 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i National Grid Electricity Transmission ddatblygu a chynnal system effeithlon, gydlynol ac economaidd o drawsyrru trydan a hwyluso cystadleuaeth wrth gyflenwi a chynhyrchu trydan.<br><br>Yn ogystal, rydym yn ymchwilio i achosion posibl o dorri Amod Trwydded Safonol B7(1) y Drwydded Trawsyrru sy'n ymwneud â rhwymedigaeth y trwyddedai i sicrhau bod adnoddau ar gael ganddo i sicrhau ei fod yn gallu cynnal y busnes trawsyrru yn briodol ac yn effeithlon bob amser ac i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y drwydded Trawsyrru Trydan a'r Ddeddf Trydan sy'n berthnasol i'r busnes trawsyrru ym mhob ffordd. |

## Gorchmynion Terfynol

Ni chafodd unrhyw Orchmynion Terfynol eu gwneud, eu cynnig na'u cwblhau yn ystod y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026.

## Gorchmynion Dros Dro

Isod ceir manylion y Gorchmynion Dros Dro a wnaed yn ystod y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026. Gwnaethom gyhoeddi dau Orchymyn Dros Dro. Cwblhawyd y ddau achos hyn o fewn yr un cyfnod hefyd.

| Gorchymyn Dros Dro a ddaeth i ben | Cwmni | Pryder | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Tachwedd 2025 | Tomato Energy Limited ("Tomato") | Cyhoeddwyd Gorchymyn Dros Dro i Tomato ar 10 Ebrill 2025 yn unol ag Adran 25(2) o Ddeddf Trydan 1989. Roedd yn ymddangos bod Tomato yn torri, neu'n debygol o dorri, Amodau Trwydded Safonol 4A, 4B.1 a 4B.8 y drwydded cyflenwi trydan. Cadarnhawyd y Gorchymyn Dros Dro ar 9 Gorffennaf 2025. | Rhoddodd Tomato y gorau i fasnachu ar 5 Tachwedd 2025 a chafodd ei drwydded i gyflenwi trydan ei dirymu wedi hynny. O ganlyniad, nid oedd darpariaethau'r Gorchymyn Dros Dro yn weithredol mwyach. |
| Rhagfyr 2025 | Maxen Power Supply Limited ("Maxen") | Cyhoeddwyd Gorchymyn Dros Dro i Maxen ar 12 Medi 2025 yn unol ag Adran 25(2) o Ddeddf Trydan 1989 ac Adram 28(2) o Ddeddf Nwy 1986. Roedd yn ymddangos bod Maxen yn torri, neu'n debygol o dorri, Amod Trwydded Safonol 12A.12(g) o'r drwydded cyflenwi nwy ac Amod Trwydded Safonol 12A.11(h) o'r drwydded cyflenwi trydan. | Ar ôl asesu'r wybodaeth a gafwyd wedi hynny, roedd Ofgem yn fodlon bod Maxen wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth.<br><br>Penderfynodd Ofgem beidio â chadarnhau'r Gorchymyn Dros Dro felly. Daeth y Gorchymyn Dros Dro i ben ac nid oedd yn weithredol mwyach o 12 Rhagfyr 2025. |

# Atodiad 2

## Adroddiad blynyddol ar swyddogaethau cludo a storio carbon deuocsid o dan Adran 41 o Ddeddf Ynni 2023

Mae Adran 41(1)(a) o Ddeddf Ynni 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno adroddiad (yr "adroddiad cludo a storio blynyddol") i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y broses o gyflawni ei swyddogaethau o dan Ran 1 o Ddeddf Ynni 2023 yn ystod y flwyddyn adrodd berthnasol, gan gynnwys arolwg cyffredinol o ddatblygiadau mewn perthynas â materion sydd o fewn cwmpas y swyddogaethau hynny.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 2025-26 a dyma'r flwyddyn adrodd lawn gyntaf lle mae'r Awdurdod wedi arfer ei swyddogaethau statudol parhaus fel y rheoleiddiwr economaidd ar gyfer rhwydweithiau cludo a storio carbon deuocsid trwyddedig. Dechreuodd swyddogaethau'r Awdurdod o dan Ran 1 o Ddeddf Ynni 2023 yn ystod blwyddyn adrodd 2024-25.

Roedd blwyddyn 2025-26 yn nodi trawsnewidiad i'r sector cludo a storio carbon deuocsid o ddylunio'r polisi i'r camau cyflawni cynnar. Arweiniodd Penderfyniadau Buddsoddi Terfynol a wnaed gan y llywodraeth ar gyfer clystyrau cychwynnol at alluogi prosiectau trwyddedig i symud ymlaen i'r cam adeiladu, a oedd yn golygu bod y fframwaith rheoleiddio a sefydlwyd o dan Ddeddf Ynni 2023 yn cael ei ddefnyddio'n weithredol.

Yn ystod y flwyddyn, symudodd ffocws yr Awdurdod tuag at ymgorffori trefniadau effeithiol ar gyfer monitro trwyddedau, rhoi sicrwydd rheoleiddiol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan sicrhau bod penderfyniadau rheoleiddiol yn cael eu gwneud mewn modd sy'n diogelu defnyddwyr ac yn cefnogi ymdrechion i gyflawni amcanion datgarboneiddio'r llywodraeth.

Mae Adran 41(2)(a) o Ddeddf Ynni 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad cludo a storio blynyddol gynnwys adroddiad ar hynt y prosiectau a ddisgrifir yn y flaenraglen waith cludo a storio ar gyfer y flwyddyn honno.

Nodwyd prosiectau'r Awdurdod ar gyfer rheoleiddio dulliau cludo a storio carbon deuocsid yn y Strategaeth Amlflwyddyn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024, Blaenraglen Waith 2024-25 ac fe'u datblygwyd ymhellach o dan Flaenoriaeth Strategol 2 ym Mlaenraglen Waith 2025-26 a 2026-27, sef "Galluogi seilwaith i sicrhau sero net yn gyflym".

Roedd ein cynnydd yn erbyn Amcan 8.2 ym Mlaenraglen Waith 2024-25: "rheoleiddio dulliau dal, defnyddio a storio carbon" a 3.12 o dan Flaenoriaeth Strategol 2 ym Mlaenraglen Waith 2025-26: "rhoi systemau rheoli prisiau newydd ar waith ar gyfer cwmnïau cludo a storio $CO_2$" yn cynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeledd Ynni a Sero Net yn dyfarnu trwydded economaidd i Liverpool Bay CCS Limited ym mis Ebrill 2025, gan benodi'r Awdurdod yn rheoleiddiwr economaidd ar gyfer ail rwydwaith cludo a storio $CO_2$.

Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddatblygu'r systemau, y prosesau a'r galluoedd rheoleiddio sydd eu hangen i oruchwylio'r cam adeiladu a rhwymedigaethau gweithredol y rhwydweithiau yn y dyfodol. Mae hyn wedi cynnwys rhoi addasiad trwydded ar waith er mwyn cyflwyno lwfans arddull Ei-Ddefnyddio-Neu-Ei-Golli ar gyfer gweithgareddau datblygu cynnar ac addasiad i'r mecanwaith Ailagor Gwariant Datblygu Parhaus i gefnogi datblygiad effeithlon y rhwydweithiau. Mae'r Awdurdod hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer trwyddedeion mewn trallod ariannol neu weithredol a Chyfarwyddiadau a Chanllawiau Rheoleiddio i drwyddedeion rannu gwybodaeth â'r Awdurdod.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi cyhoeddi canlyniadau Proses Iteriad Flynyddol (AIP) 2025 ar gyfer Model Ariannol Systemau Rheoli Prisiau cludo a storio $CO_2$, fel y'i diffinnir yn y drwydded economaidd, ac wedi cyhoeddi penderfyniadau ar geisiadau ailagor sy'n cefnogi gwaith i adeiladu a datblygu'r rhwydweithiau. Ar gyfer Net Zero North Sea Storage Limited, roedd hyn yn cynnwys cam nesaf y gweithgareddau datblygu ar gyfer ehangu'r storfa ddaearegol ar y môr a'r rhwydwaith

ar y tir yn rhanbarth Humber, ac addasiad cost i rig Cam 1. Ar gyfer Liverpool Bay CCS Limited, cyhoeddwyd penderfyniad yn caniatáu i waith cynnar fynd rhagddo i sicrhau hawliau tir i gysylltu defnyddiwr newydd yn ardal Padeswood.

Mae'r Awdurdod hefyd wedi cyhoeddi'r penderfyniad addasu cyntaf mewn perthynas â Chod Rhwydwaith CCS, lle creodd addasiad CCS001 ddarpariaeth i ddefnyddwyr awyru $CO_2$ rhwng y Pwynt Mesur a'r Pwynt Cyflawni yn eu cyfleusterau.

Ar y cyd â'i gyfrifoldebau rheoleiddio, mae'r Awdurdod yn parhau i ddarparu cymorth cynghori annibynnol i'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net (DESNZ) mewn perthynas â datblygiad parhaus y sector CCUS, gan gynnwys cyngor ar gludo heb ddefnyddio pibellau, dadfwndelu a datblygu mesurau rheoleiddio economaidd ar gyfer storio $CO_2$.

Mae Adran 41 o Ddeddf Ynni 2023 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i nifer o elfennau eraill gael eu cynnwys yn yr adroddiad cludo a storio blynyddol:

- a41(1)(b) adroddiad ar weithgareddau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ystod y flwyddyn honno mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriad a wneir ato gan yr Awdurdod. Ni wnaeth yr Awdurdod unrhyw gyfeiriadau at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y mae angen adrodd arnynt;
- A41(2)(b) Crynodeb o'r gorchmynion terfynol a'r gorchmynion dros dro a wnaed gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn honno. Ni wnaed unrhyw orchmynion terfynol na gorchmynion dros dro yn ystod y flwyddyn adrodd hon;
- Crynodeb o'r cosbau a osodwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn honno. Ni osodwyd unrhyw gosbau yn ystod y flwyddyn adrodd hon;
- Adroddiad ar unrhyw faterion eraill a all fod yn ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ei gwneud yn ofynnol cyflwyno adroddiad ar unrhyw faterion eraill o'r fath yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

Mae adran 41(3) o Ddeddf Ynni 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod adrodd ar y canlynol:

- y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol ag adran 100(1) a (2) o Ddeddf Ynni 2023 mewn perthynas â datganiad strategaeth a pholisi CCUS a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (i'r graddau yr oedd y dynodiad datganiadau mewn grym am y flwyddyn gyfan neu unrhyw ran ohoni);
- i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gwneud yr hyn a nodir mewn blaenraglen waith neu ddogfennau eraill fel y pethau y cynigiodd yr Awdurdod eu gwneud yn ystod y flwyddyn wrth roi ei strategaeth ar waith ar gyfer datblygu'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau polisi yn y datganiad strategaeth a pholisi CCUS.

Ni ddynodwyd unrhyw ddatganiad strategaeth a pholisi CCUS yn ystod y flwyddyn adrodd hon.

# Atodiad 3

## Trefniadau statudol o dan Adran 5 o Ddeddf Cyfleustodau 2000

Mae Adran 5 o Ddeddf Cyfleustodau 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys y canlynol yn ei adroddiad blynyddol bob blwyddyn:

Adran 5(1):

- gweithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn;
- gweithgareddau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn ystod y flwyddyn honno mewn perthynas ag unrhyw gyfeiriad a wneir ato gan yr Awdurdod.

Adroddir ar weithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn drwy gydol yr adroddiad hwn. (Ni wnaeth yr Awdurdod unrhyw gyfeiriadau at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd y mae angen adrodd arnynt)

Adran 5(2):

- Arolwg cyffredinol o ddatblygiadau mewn perthynas â materion a ddaw o dan swyddogaethau'r Awdurdod, gan gynnwys, yn benodol, datblygiadau mewn cystadleuaeth rhwng personau sy'n ymwneud â'r canlynol neu â gweithgareddau masnachol sy'n gysylltiedig â'r canlynol:
    - morgludo, cludo neu gyflenwi nwy drwy bibellau;
    - cynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu neu gyflenwi trydan; neu
    - weithredu neu gynnal a chadw, neu gyflenwi dulliau gwresogi, oeri neu ddŵr poeth drwy rwydweithiau gwres perthnasol (Cyfeirir at y rhain yn yr Adroddiad ar Berfformiad)
- Adroddiad ar gynnydd y prosiectau a ddisgrifir yn y flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn honno; (Rhoddir adroddiad ar gynnydd yn yr Adroddiad ar Berfformiad)
- Crynodeb o'r gorchmynion terfynol a'r gorchmynion dros dro a wnaed a'r cosbau a osodwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn honno; (Mae hwn ar gael yn Atodiad 1)
- Crynodeb o unrhyw hysbysiadau terfynol a roddwyd gan yr Awdurdod yn unol â REMIT yn ystod y flwyddyn honno; (Mae hwn ar gael yn Atodiad 1)
- Adroddiad ar unrhyw gyfryw faterion eraill ag a all fod yn ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd.

Adran 5(2A):

- adroddiad ar y ffyrdd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 132(1) a (2) o Ddeddf Ynni 2013 mewn perthynas â datganiad strategaeth a pholisi a ddynodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (i'r graddau yr oedd y dynodiad datganiadau mewn grym am y flwyddyn gyfan neu ran ohoni) (a geir yn yr Adroddiad ar Berfformiad);
- i ba raddau y mae'r Awdurdod wedi gwneud yr hyn a nodir mewn blaenraglen waith neu ddogfennau eraill fel y pethau y cynigiodd yr Awdurdod eu gwneud yn ystod y flwyddyn wrth roi ei strategaeth ar waith ar gyfer datblygu'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau polisi yn y datganiad strategaeth a pholisi. (Mae hwn ar gael yn yr Adroddiad ar Berfformiad).

Adran 5(3):

- unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag a34(3) o Ddeddf Nwy 1986 neu a47(2) o Ddeddf Trydan 1989.

(Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol o'r fath)

Adran 5(3A):

Trosolwg o'r canlynol:

- datblygiadau sy'n ymwneud â dogfennau a ddynodwyd at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Ynni 2023 (llywodraethu codau'r diwydiant nwy a thrydan);
- penderfyniadau a wnaed gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r cyfryw ddogfennau gan gynnwys manylion unrhyw addasiadau a wnaed o dan adran 192 o Ddeddf Ynni 2023.

(Ni ddynodwyd unrhyw ddogfennau at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Ynni 2023 yn ystod y flwyddyn adrodd hon).

# Atodiad 4

## Adroddiad Rheoleiddiol

Mae'r tablau hyn yn cyflwyno alldro gwirioneddol gan yr adran ar gyfer blynyddoedd 2021-22 i 2025-26 a chynlluniau yn cwmpasu'r cyfnod o 2026-27 i 2028-29 ar gyfer RDEL a hyd at 2029-30 ar gyfer CDEL yn unig, y cytunwyd arnynt fel rhan o Adolygiad Gwariant 2025 (SR 25).

Mae'r data'n ymwneud â gwariant yr adran ar sail Amcangyfrif a chyllidebu. Trysorlys EF sy'n pennu fformat y tablau, ac mae'r datgeliad yn Nhablau 1 a 2 yn dilyn fformat cyfansymiau rheolaeth Seneddol.

**Tabl 1 Gwariant cyhoeddus** – yn crynhoi gwariant yr adran. Mae'r defnydd o adnoddau yn cynnwys Terfynau Gwariant Adrannol (DEL) ar gyfer costau gweinyddu, rhaglenni a chyfalaf, gan gynnwys gwariant a gymeradwywyd drwy bleidlais a gwariant nas cymeradwywyd drwy bleidlais. Mae'r ffigurau a'r gwaith mapio'n atgynhyrchu'r llinellau yn nodyn 1 SOPS.

**Tabl 2 Cyllidebau gweinyddu** – yn darparu dadansoddiad manylach o gostau gweinyddu'r gros yr adran. Mae'n cadw'r dadansoddiad lefel uchel a ddefnyddiwyd yn Nhabl 1. Mae'r ffigurau a'r gwaith mapio'n atgynhyrchu'r llinellau yn nodyn 1 SOPS.

# Tablau Craidd Cyffredin

## Tabl Craidd 1: Gwariant Cyhoeddus £'000

Crynodeb o wariant net adrannol gan ddefnyddio'r un penawdau ag a bleidleisiwyd yn yr Amcangyfrif, gan gwmpasu'r cyfnod o 2021-22 i 2025-26 a chynlluniau ar gyfer 2026-27 i 2028-29 a 2029-30 ar gyfer CDEL yn unig, y cytunwyd arnynt fel rhan o Adolygiad Gwariant 2025 (SR 25).

| £'000 | Alldro Net 2021-22 | Alldro Net 2022-23 | Alldro Net 2023-24 | Alldro Net 2024-25 | Alldro Net 2025-26 | Cyllideb Net 2026-27 | Cyllideb Net 2027-28 | Cyllideb Net 2028-29 | Cyllideb Net 2029-30 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **DEL Adnoddau Gweinyddu** | **3,771** | **(8,203)** | **9,098** | **12,583** | **4,631** | **13,750** | **13,750** | **13,750** | **-** |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan | 1,824 | (9,803) | 6,505 | 7,575 | (2,846) | - | - | - | - |
| B Cyflawni a Chynlluniau Ofgem | 686 | 1,600 | 2,593 | 5,008 | 7,478 | 13,750 | 13,750 | 13,750 | - |
| C Nwy Gwyrdd Ofgem | 1,261 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Programme Resource DEL** | **(13,578)** | **(49,733)** | **(2,747)** | **27,757** | **(48,247)** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan | 642 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| B Cyflawni a Chynlluniau Ofgem | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| C Nwy Gwyrdd Ofgem | (14,220) | (49,733) | (2,747) | 27,757 | (48,247) | - | - | - | - |
| **Capital DEL** | **3,567** | **2,163** | **1,176** | **4,087** | **3,583** | **16,549** | **1,464** | **5,000** | **1,700** |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan | 2,049 | 1,234 | 1,176 | 4,087 | 3,583 | 16,549 | 1,464 | 5,000 | 1,700 |
| B Cyflawni a Chynlluniau Ofgem | - | - | - | - | (-) | - | - | - | - |
| C Nwy Gwyrdd Ofgem | 1,518 | 929 | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm DEL** | **(6,240)** | **(55,773)** | **7,527** | **44,427** | **(40,033)** | **30,299** | **15,214** | **18,750** | **1,700** |

Noder y bydd cyllidebau blwyddyn allanol Cyflawni a Chynlluniau (B) a Nwy Gwyrdd (C) yn cael eu ffurfioli'n flynyddol drwy'r broses amcangyfrifon o'r cyflenwad, felly nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn ffigurau SR25 a gyflwynir yn y tablau.

## Tabl Craidd 2: Cyllidebau Gweinyddu £'000

Darparu gwelededd parhaus ynghylch gwariant gweinyddol, gan gwmpasu'r cyfnod o 2021-22 i 2025-26 a chynlluniau ar gyfer 2026-27 i 2028-29, y cytunwyd arnynt fel rhan o Adolygiad Gwariant 2025 (SR 25).

| | Alldro Gros 2021-22 | Alldro Gros 2022-23 | Alldro Gros 2023-24 | Alldro Gros 2024-25 | Alldro Gros 2025-26 | Cyllideb Gros 2026-27 | Cyllideb Gros 2027-28 | Cyllideb Gros 2028-29 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gweinyddol** | **129,230** | **142,108** | **183,842** | **225,537** | **242,838** | **294,097** | **200,800** | **206,630** |
| A Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan | 96,398 | 101,304 | 132,259 | 158,561 | 169,409 | 199,497 | 187,050 | 192,880 |
| B Cyflawni a Chynlluniau Ofgem | 31,571 | 38,186 | 47,993 | 63,045 | 69,752 | 88,750 | 13,750 | 13,750 |
| C Nwy Gwyrdd Ofgem | 1,261 | 2,618 | 3,590 | 3,931 | 3,677 | 5,850 | - | - |
| **Incwm Gweinyddol** | **(125,459)** | **(150,311)** | **(174,744)** | **(212,954)** | **(238,207)** | **(280,347)** | **(187,050)** | **(192,880)** |
| **Gwariant/(Incwm) Gweinyddol Net** | **3,771** | **(8,203)** | **9,098** | **12,583** | **4,631** | **13,750** | **13,750** | **13,750** |

## Gweinyddu Prosesau Rheoleiddio Ofgem

Mae gwariant gweinyddol Ofgem wedi cynyddu o £96.4 miliwn yn 2021-22 i £192.9 miliwn yn 2028-29 fel y cytunwyd drwy'r adolygiad gwariant, gan adlewyrchu newid sylweddol yng ngraddfa a chymhlethdod ei rôl reoleiddio. Ers 2021-22, mae Ofgem wedi gorfod ymateb i'r argyfwng ynni, methiannau cyflenwyr, anwadalrwydd cynyddol o ran prisiau a disgwyliadau uwch o ran diogelu defnyddwyr, a hynny wrth gryfhau trefniadau goruchwylio, cydymffurfio a gorfodi'r farchnad fanwerthu ar yr un pryd – er enghraifft, drwy gyflwyno ei Gyfundrefn Cadernid a Rheolaethau Ariannol, a fu'n gweithredu am y flwyddyn lawn gyntaf yn 2025-26.

Ar yr un pryd, mae gan Ofgem rôl gynyddol o ran galluogi seilwaith sero net a chenhadaeth Pŵer Glân 2030 Llywodraeth EF, ehangu rhwydweithiau trydan, gwella cysylltiadau, cefnogi hyblygrwydd a digidoleiddio. Felly mae'r cynnydd yn adlewyrchu'r gallu a'r capasiti sydd eu hangen ar gyfer system ynni fwy cymhleth ac yn cefnogi cyfrifoldebau rheoleiddio estynedig (Rhwydweithiau Gwres, NESO, Caffael, Defnyddio a Storio Carbon). Yn bwysig, cyllideb weinyddu gros yw hon ac fe'i hariennir yn bennaf drwy incwm o ffioedd trwydded, felly ni ddylid ei hystyried fel cynnydd cyfatebol yn sefyllfa net Ofgem a ariennir gan y Trysorlys.

## Gweinyddu gwaith Cyflawni a Chynlluniau

Mae'r cynnydd yng ngwariant gweinyddol Ofgem mewn perthynas â Chyflawni a Chynlluniau yn adlewyrchu maint a chymhlethdod cynyddol cynlluniau a gyflawnir ar ran y llywodraeth i gefnogi datgarboneiddio ac amcanion polisi ynni ehangach.

Wrth i raglenni amgylcheddol a chymdeithasol ehangu, mae Ofgem wedi bod angen gallu gweithredol, digidol, dadansoddol a sicrwydd ychwanegol i weinyddu cynlluniau'n effeithiol, rheoli risgiau cydymffurfio a chyflawni lefelau cynyddol o weithgarwch. Mae'r twf yn y gyllideb felly'n adlewyrchu'r ffaith bod swyddogaeth gyflawni Ofgem wedi ehangu er mwyn cefnogi polisïau ynni a sero net y llywodraeth.

Nid yw cyllidebau ar gyfer Cyflawni a Chynlluniau yn y dyfodol wedi'u cytuno'n ffurfiol gyda chyllidwyr eto. Fel rheol, caiff cyllid ei bennu'n flynyddol a'i ffurfioli drwy'r broses amcangyfrifon o'r cyflenwad, gan sicrhau cysondeb â chynlluniau cyflawni y cytunwyd arnynt ar gyfer cynlluniau unigol.

## Nwy Gwyrdd (Gweinyddu a Rhaglen)

Mae'r cynnydd mewn gwariant ar Nwy Gwyrdd yn adlewyrchu'r ffaith bod cynlluniau cymorth nwy adnewyddadwy a weinyddir gan Ofgem wedi ehangu ac aeddfedu.

Mae'r twf mewn cyfranogiad mewn cynlluniau, prosesau achredu, monitro cydymffurfiaeth a gweithgareddau sicrwydd wedi cynyddu gofynion gweithredol, tra bo amcanion sero net ehangach a gwaith ar rôl nwy mewn system ynni wedi'i datgarboneiddio yn y dyfodol wedi cynyddu'r gofynion sydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau hyn. Mae'r cynnydd felly'n adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol cynlluniau nwy adnewyddadwy o fewn agenda datgarboneiddio'r DU.

Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi'r gwaith o weinyddu taliadau'r Cynllun Cymorth Nwy Gwyrdd i gynhyrchwyr biofethan achrededig a gweithredu'r Ardoll Nwy Gwyrdd, sy'n ariannu'r taliadau hyn.

Caiff cyfraddau'r ardoll nwy gwyrdd eu cyhoeddi bob blwyddyn yn (Green Gas Levy (GGL): rates and exemptions - GOV.UK) ac yna cytunir ar gyllidebau blynyddol Ofgem drwy'r broses amcangyfrifon o'r cyflenwad yn unol â'r rhagolygon diweddaraf gan DESNZ - (GGSS budget caps, production factors, and inflation forecasts for 2026-27 - GOV.UK).

Gan fod y cynllun wedi aeddfedu ac wrth i lefel y taliadau ddechrau cynyddu, mae adnoddau ychwanegol wedi bod yn ofynnol i reoli'r gwaith o gasglu'r ardoll, prosesu taliadau, sicrhau cynlluniau a phrosesau goruchwylio rheoleiddiol.

## Cyllideb Gyfalaf Ofgem

Mae cyllideb gyfalaf Ofgem yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar y buddsoddiad sydd ei angen mewn technoleg, seilwaith digidol a data i gefnogi cylch gwaith rheoleiddio estynedig, cyflawni amcanion sero net a chyfrifoldebau o ran cynlluniau sy'n datblygu. Mae'r brig yn 2026-27 yn bennaf o ganlyniad i adnewyddu lesoedd ystadau Ofgem.

ISBN 978-1-5286-6599-5 E03626493